# ANTUR WAUNFAWR

England & Wales · Charity number 515445

## Details

| | |
|---|---|
| Status | Registered |
| Legal form | Charitable company |
| Company number | 01832813 |
| Registered | 1984-08-06 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | Bryn Pistyll<br>Waunfawr<br>Caernarfon<br>LL55 4BJ |
| Phone | 01286650721 |
| Email | swyddfa@anturwaunfawr.cymru |
| Website | www.anturwaunfawr.org |

## Activities

**Objects:** TO PROMOTE AND ASSIST THE GENERAL RELIEF OF ALL MENTALLY HANDICAPPED PERSONS IN THE COUNTY OF GWYNEDD BY PROVIDING AND ASSISTING IN THE PROVISION OF TRAINING OPPORTUNITIES AND EMPLOYMENT FOR PEOPLE WITH A MENTAL HANDICAP WITHOUT DISTINCTION AS TO RACE, AGE OR SEX, OR POLITICAL RELIGIOUS OR OTHER OPINIONS. (FOR FURTHER DETAILS OF OBJECTS SEE CLAUSE 3 OF THE MEMORANDUM OF ASSOCIATION.)

**Activities:** MENTER GYMDEITHASOL SY'N DARPARU GWAITH AC HYFFORDDIANT I BOBL AG ANABLEDDAU DYSGU.

## Classification

- **How:** Provides Services
- **What:** Education/training
- **Who:** People With Disabilities

Downloaded from opencharities.uk/ew/515445

## Geography

- **Area of benefit:** COUNTY OF GWYNEDD
- Conwy
- Gwynedd
- Isle Of Anglesey

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £3,286,647 | £3,376,635 | £5,470,237 | 111 |
| 2024-03-31 | £3,424,929 | £3,058,416 | £5,560,225 | 93 |
| 2023-03-31 | £3,119,277 | £2,888,538 | £5,193,712 | 151 |
| 2022-03-31 | £2,854,734 | £2,695,443 | £4,962,973 | 162 |
| 2021-03-31 | £2,967,052 | £2,498,099 | £4,803,682 | 154 |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Dr CATRIN ELIS WILLIAMS** | Chair | 2021-01-25 |
| ANNA LLOYD WILLIAMS | | |
| Carol Trenhaile | | 2022-11-22 |
| DARON HARRIS | | 2013-10-08 |
| Dafydd Glyn Davies | | 2023-07-24 |
| Gwen Tomos | | 2019-05-13 |
| HUW YNYR | | |
| Lowri Huws | | 2018-03-12 |
| Mared Ynyr | | 2022-11-22 |
| Terry Parry | | 2021-03-22 |
| Tudur Owen | | 2023-11-20 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/515445

# Accounts

**ANTUR WAUNFAWR**
**(Cwmni yn gyfyngedig trwy warant)**

**ADRODDIAD a DATGANIADAU ARIANNOL**

**BLWYDDYN HYD AT: 31 MAWRTH 2025**

**Rhif Elusen: 515445**

**Rhif Cwmni: 01832813**

**ANTUR WAUNFAWR**

**GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL:**

**Rhif Cofrestru'r Elusen: 515445**
**Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1832813**

**Swyddfa Gofrestredig a Gweinyddol:**
Bryn Pistyll
Waunfawr
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4BJ

**Cyfreithwyr:**
Iestyn T. Harris, Carter Vincent LLP, The Port House, Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN

**Bancwyr:**
Banc Barclays, Grŵp Canghennau Gwynedd, Bangor, Gwynedd

**Archwilwyr:**
W.J. Matthews a'i Fab, 11-15 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

## ADRODDIAD BWRDD YMDDIRIEDOLWYR ANTUR WAUNFAWR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

## RHAGAIR

Roedd eleni yn garreg filltir anferthol i Antur Waunfawr, dathliad pen-blwydd 40 mlynedd!

Gwnaethom ddathlu’r daith weledigaethol a daniwyd gan ein sylfaenydd, R Gwynn Davies bedwar degawd yn ôl, ei angerdd am gynwysoldeb a baratôdd y ffordd i oedolion ag anableddau dysgu, gan gynnig nid yn unig profiadau gwaith, ond ymdeimlad dwys o berthyn o fewn eu cymuned. Roedd y dathliad nid yn unig yn ddathliad pen-blwydd, ond yn dyst i wydnwch, cynnydd ac ymrwymiad i rymuso ac integreiddio pobl efo anableddau dysgu i galon eu cymuned leol.

Eleni, braf iawn ydi nodi’r dathliadau a’r gwaith a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 yn yr adroddiad hwn. Mae sylw yma i brosiectau’r Antur a nodir y llwyddiannau a’r holl a gyflawnwyd drwy gydol y flwyddyn.

Mae’r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd â’r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau. Mae’r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y cwmni, a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Antur Waunfawr a wnaed yn Gwmni Corfforedig ar 13eg Gorffennaf 1984 ac a gofrestrwyd yn Elusen ar 6ed Awst 1984. Sefydlwyd y Cwmni o dan Femorandwm y Cwmni sy’n sefydlu amcanion ac awdurdod y cwmni elusennol hwn ac yn cael ei reoli gan Erthyglau’r Cwmni.

## GWELEDIGAETH ANTUR WAUNFAWR

Gweledigaeth Antur Waunfawr yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i integreiddio i’r gymuned leol a chyflawni gwaith go iawn gyda phwrpas: Rydym yn Fenter Gymdeithasol flaenllaw sydd yn cynnig cyfleoedd iechyd a llesiant, hyfforddiant a phrofiadau gwaith amrywiol iawn yn ei natur i bobl ag anableddau dysgu. Yn treiddio trwy hyn oll mae’r thema cynaladwyedd sy’n greiddiol i’n gwaith. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwaith i’n defnyddwyr gwasanaeth, mae gan yr Antur nifer o fusnesau llewyrchus, a chaiff yr holl elw ei ail fuddsoddi yn y gwasanaeth i bobl efo anableddau dysgu ac ein cymuned leol.

Mae ein nod o integreiddio pobl ag anableddau dysgu i’r gymuned ym mhob agwedd bosib - boed yn waith neu weithgareddau cymdeithasol, yn rhinwedd sydd yr un mor bwysig heddiw ag yr oedd pan sefydlwyd yr Antur.

## NOD AC AMCANION

Mae’r Bwrdd yn trafod pwrpas yr elusen yn rheolaidd ac yn ei gadw mewn cof wrth gynllunio a datblygu ei strategaeth ar gyfer y Cwmni.

Rydym yn cyflawni ein nodau ac amcanion drwy:

- Ddarparu profiadau gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i bobl ag anableddau dysgu.
- ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso’r defnyddwyr gwasanaeth i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid
- ddarparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat
- ddatblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar mewn cynlluniau personol unigolion, a rhaeadru’r broses trwy weithgaredd a gwaith yr Antur
- hyrwyddo integreiddio a byw yn iach ym mhob agwedd o’r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant a hapusrwydd sy’n ateb gwir ofynion y defnyddwyr gwasanaeth
- ddarparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a’r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o’r gweithgareddau a’r safleoedd
- ddatblygu gweithgareddau cynaliadwy sy’n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi’r gymuned ehangach, a gwarchod yr amgylchedd
- fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu’r iaith, diwylliant, a’r economi leol.

## SUT MAE EIN GWEITHGAREDDAU YN CREU BUDD CYHOEDDUS

Drwy weithredu’r amcanion uchod, rydym yn ateb anghenion pobl gydag anableddau dysgu a’r gymdeithas ehangach.

Mae gweithgareddau Antur Waunfawr yn creu budd cyhoeddus drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cynaliadwyedd amgylcheddol, a datblygiad economaidd o fewn y gymuned. Trwy ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ystyrlon i unigolion ag anableddau dysgu, mae Antur Waunfawr yn hybu annibyniaeth ac yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer unigolion a fyddai ddim yn cael y cyfleoedd yma fel arall. Yn ogystal, mae ffocws y sefydliad ar ailgylchu, ailddefnyddio, ac arferion cynaliadwy, megis ein gwaith yn Warws Werdd, Caergylchu a Beics Antur sy'n helpu i leihau gwastraff ac effaith amgylcheddol, gan roi budd cymunedol ehangach. Trwy'r ymdrechion hyn, mae Antur Waunfawr yn cefnogi economi leol ac amgylchedd sy'n fwy cynhwysol a chynaliadwy.

## CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Mae Antur Waunfawr wedi ymrwymo i gyfarch ysbryd ac amcanion Deddfau Llywodraeth Cymru, yn bennaf;

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd, a llesiant unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan Antur Waunfawr. Mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau, ac yn sicrhau fod y cynnwys yn treiddio trwy weithgareddau, prosiectau a gofalaeth Antur Waunfawr. Byddwn yn gweithredu'n unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg.

Mabwysiadodd yr Antur Ddatganiad Llesiant yn 2016, ac mae'r datganiad yma yn sail i'n darpariaethau llesiant wrth ddatblygu ein gweithgareddau a phrosiectau iechyd a lles i'r dyfodol.

**Datganiad Llesiant Antur Waunfawr:**

> "Hyrwyddo llesiant, iechyd da a hapusrwydd, a galluogi unigolion fydd conglfeini gwasanaethau Antur Waunfawr i'r dyfodol.
>
> Darperir gofal, cefnogaeth weithgar, hyfforddiant a gwaith ystyrlon mewn modd effeithlon a chymesur i ateb gofynion pobl ag anableddau dysgu a phobl ddifreintiedig yn lleol.
>
> Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.
>
> Ein nod yw creu cymdeithas arloesol, gyfartal, gynhyrchiol a charbon isel trwy feithrin teulu o fusnesau cynaliadwy yn lleol - cychwyn wrth ein traed a gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau llesiant a chymunedau gwydn."

## YMDDIRIEDOLWYR

**Aelodau'r Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Miss. Gwen Tomos | Cadeirydd |
| Mr. Huw Ynyr | Is-gadeirydd |
| Mr. Rhys Evans | |
| Mr. Daron Harris | |
| Mrs. Sara Mair Tomos | Ymddiswyddo 20 Mai 2025 |
| Mrs. Anna Ll. Williams | |
| Ms. Lowri Huws | |
| Dr. Catrin Ellis Williams | |
| Mr. Terry Parry | |
| Miss. Mared Ynyr | |
| Ms. Carol Davies Owen | |
| Mr. Tudur Owen | |
| Mr. Dafydd Glyn Davies | |
| Mrs. Ellen Thirsk | Ysgrifenydd |

### Recriwtio a Phenodi'r Bwrdd Rheoli

Mae Cyfarwyddwyr y Cwmni yn ymddiriedolwyr elusennol yn ôl gofynion y gyfraith elusennol. Fe'u hadwaenir yn ôl Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni fel 'Cyfarwyddwyr' neu fel 'Aelodau'r Bwrdd'. Hefyd, mae'r Erthyglau'n gosod amod mai am flwyddyn ar y tro y byddant yn gwasanaethu a bod rhaid ethol neu ail-ethol dim mwy na 15 Cyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Rydym yn ffodus fod gennym amrediad da o arbenigedd a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor i'r tîm rheoli yn y meysydd sy'n berthnasol i waith y cwmni e.e. cyllid a busnes, cyfreithiol, moeseg, yswiriant, iechyd, gofal cwsmer, ailgylchu, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau digidol arbenigol, iaith a lleferydd.

### Anwythiad a Hyfforddiant Ymddiriedolwyr

Caiff pob aelod o'r Bwrdd ffeil gyda manylion y strwythur rheolaethol a'r polisïau ynddi. Mae'r Prif Weithredwr yn treulio amser gyda chyfarwyddwyr newydd, yn eu hanwytho drwy drefnu ymweliadau â'r safleoedd ac ateb eu cwestiynau.

## STRWYTHUR Y TÎM RHEOLI

### Rheolwyr Gweithredol

Cynhelir cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli a Thîm Rheoli yn rheolaidd. Bydd cynrychiolydd pob adran hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda'u timau yn ogystal â Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Gweithgor Meddiannau a'r Gweithgor TGCh. Mae Is-bwyllgorau Bwrdd wedi'u sefydlu er mwyn gweithredu ar benderfyniadau neu adolygiadau – gan gynnwys Is-bwyllgor Personél, yr Is-bwyllgor Polisïau, Is-bwyllgor Cyllid, a'r Is-bwyllgor Datblygu. Yn ystod y flwyddyn mae'r rhain i gyd yn bwydo adroddiadau i'r Tîm Rheolaethol, yn ogystal â'r Bwrdd.

### *Ellen Thirsk, Prif Weithredwr*

Mae gan y Prif Weithredwr, Ysgrifennydd y Cwmni ac Unigolyn Cyfrifol brofiad a chymhwyster yn y meysydd adnoddau dynol, datblygu gwasanaethau, busnes a chyllid, iechyd a diogelwch, iechyd a llesiant ac yn ymrwymedig i bolisïau a safonau megis ISO, ac mae ganddi'r awdurdod

mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd i weithredu ar yr holl faterion yma. Mae Ellen yn Gyfarwyddwr i Galeri, Menter Gymdeithasol a Chreadigol yng Nghaernarfon ac yn Gadeirydd i gorff Llywodraethwyr Ysgol Pendalar. Mae hi wedi gwirfoddoli i'r Samariaid am gyfnod o 15 mlynedd yn y gorffennol ac wedi cael trawstoriad o brofiadau rheoli mewn Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol dros gyfnod o 34 mlynedd. Mae Ellen yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth ac Iechyd a Diogelwch (NEBOSH).

***Stephen Goodwin, Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl***
Mae Stephen yn aelod o Grŵp Trawsffurfio Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd. Mae ganddo dros 29 mlynedd o brofiad yn y maes gofal a chanddo brofiad helaeth o ddatblygu Gwasanaethau Gofal a chyfleoedd Iechyd a Llesiant ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Mae wedi cymhwyso fel Rheolwr Cofrestredig lefel 4 ac eisoes wedi bod yn berson cyfrifol ar y Gwasanaeth Gofal cyn newidiadau yn Rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae Stephen hefyd wedi cwblhau cyrsiau mewn arweinyddiaeth a rheoli staff.

***Haydn Jones, Uwch Reolwr Busnesau Gwyrdd***
Mae Haydn Jones yn dychwelyd ar y Cyntaf o Ebrill 2025 ar ôl secondiad am gyfnod o flwyddyn. Mae ganddo brofiad helaeth o annog unigolion yng Nghymru a dramor tra roedd yn gweithio yn yr America drwy ei waith 'coaching' gyda thrawstoriad o unigolion (abl ac anabl). Mae ganddo brofiad eang o reoli ac mae'n gyfrifol am reoli a rhedeg gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu o fewn yr Antur. Mae wedi cymhwyso i lefel graddedig (MA) mewn Addysg ac mae wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau rheoli, ac wedi cwblhau NVQ Lefel 3 mewn Ailgylchu.

| | |
|---|---|
| Sioned Hughes | Rheolwr Cyllid |
| Gwenlli Wynne | Rheolwr Datblygu Busnes |
| Elain Hughes | Rheolwr Datblygu Busnes |
| Glesni Lewis | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Margaret Jones | Rheolwr Cydymffurfio ac Ansawdd |
| Ceri Hughes | Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu |
| Eleri Jones | Rheolwr Gweinyddol |
| Siân Williams | Rheolwr Iechyd a Llesiant a Rheolwr Cofrestredig (Gwasanaeth Aml Ofynion a Thai a Chefnogaeth) *(Gadawodd y rôl Mai 2024)* |
| Gwenllian Evans | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth) a Rheolwr Cofrestredig *(Penodwyd i'r rôl Mehefin 2024)* |
| Ifan Tudur | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth) |
| Dewi Jones | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Dydd Safle Waunfawr) |
| Allison Evans | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Aml Ofynion) |
| Sioned Roberts | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Aml Ofynion) |
| Cara Evans | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Dydd Tri Busnes Gwyrdd) *(gadawodd y rôl Mawrth 2025)* |
| Siôn Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Ailgylchu |
| Malcolm Allen | Rheolwr Warws Werdd a Llinell Blastigion |
| Tom Workman | Rheolwr Beics Antur |

## GOFAL A CHEFNOGAETH

### Defnyddwyr Gwasanaeth Antur Waunfawr

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig cytundebau gwasanaeth neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu'r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy'n cael ei gyfeirio atom, ac i sicrhau adnoddau teg i roi'r gwasanaeth gorau posib i'n defnyddwyr.

Erbyn heddiw mae'r Antur yn cynnig cefnogaeth i dros 70 o unigolion ag anableddau dysgu dros ein 4 safle gwaith a thai.

### Cynllun Cartrefu

Yn ein hadroddiad blynyddol, rydym yn falch o dynnu sylw at brosiect Cynllun Cartrefu'r Antur, sy'n amlygu ein hymrwymiad i sicrhau bod gan unigolion ag anableddau dysgu'r hawl i fyw bywydau boddhaus a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd fel pawb arall. Gan gydnabod bod pob person yn wahanol, rydym yn darparu cymorth person-canolog sy'n sicrhau fod y cymorth wedi ei deilwra ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth yn unol â'u hanghenion. Mae Cynllun Cartrefi'r Antur yn cefnogi 14 o unigolion ar draws 10 cartref gan roi'r cyfle iddynt reoli eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth gan ein gweithwyr cefnogol. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau byw'n annibynnol, derbyn cefnogaeth gynhwysfawr gyda materion ariannol, cymorth gyda siopa a chynnal diet iach, a chymorth gydag apwyntiadau meddygol a chynnal eu lefel iechyd. Yn ogystal, rydym yn cynnig cefnogaeth o fewn y gymuned, megis mynychu digwyddiadau a sioeau. Drwy gydol y flwyddyn, mwynhaodd sawl unigolyn wyliau a thripiau gan atgyfnerthu rôl y cynllun o ran gwella annibyniaeth ac integreiddio unigolion i'w cymuned.

*"Darparu gofal un i un arbennig"*

- adborth eleni gan deulu defnyddiwr gwasanaeth

### Byngalo llety a chefnogaeth

Yn dilyn buddsoddiad o gronfeydd Antur Waunfawr a grant Cyfenter, datblygwyd byngalo hygyrch sy'n addas i unigolion gydag anableddau. Yn unol â gofynion ein comisiynwyr, newidiwyd pwrpas y byngalo yn gartref preswyl a chefnogaeth yn 2023 ac erbyn hyn mae un unigolyn wedi ymgartrefu yno ers Mehefin 2023, ac yn mwynhau yn ei gartref ger safle'r Antur.

### Aml Ofynion

Mae'r gwasanaeth aml-ofynion yn Antur Waunfawr yn cynnig cefnogaeth un-i-un a chyfleoedd iechyd a llesiant i unigolion gydag anableddau dwys a chymhleth yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth, sydd ar gael 6 diwrnod yr wythnos, yn cynnwys sesiynau lles ar ein safle yn Waunfawr, megis cerddoriaeth, carioci, ac arlunio, yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned, sef nofio, dringo, beicio gyda sesiynau Tonic yn Galeri Caernarfon yn un o'r ffefrynnau. Ar benwythnosau, rydym yn cynnig gwasanaeth hamddenol gyda thripiau lleol amrywiol, sy'n darparu ysbaid gwerthfawr i rieni.

Mae'r ystafell synhwyraidd ym Mhorth yr Aur yn cynnig boddhad mawr i sawl unigolyn, ac rydym wedi galluogi aelodau o'n staff i arbenigo mewn cyfathrebu drwy gydweithio â therapyddion iaith, gan wella'n darpariaeth cyfathrebu. Yn ogystal, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm ymddygiad cadarnhaol Cyngor Gwynedd i ddatblygu a hyfforddi ein staff, gan wella'r ffordd mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi.

Mae'r gofal a'r gweithgareddau llesiant mae'r adran Aml-Ofynion yn ei ddarparu yn cael effaith cadarnhaol ar yr unigolion rydym yn eu cefnogi.

## EIN PROSIECTAU

### SAFLE BRYN PISTYLL

Ym Mryn Pistyll, mae Antur Waunfawr yn darparu amgylchedd bywiog a chefnogol lle mae iechyd a lles unigolion yn cael blaenoriaeth. Mae'r safle yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella bywydau'r rhai sy'n cymryd rhan, gan gynnwys sesiynau garddio, cynhyrchu seidr, dawnsio, ioga, pilates, a chrefftau. Mae defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan wrth baratoi a gweini cinio yng Nghaffi Blas y Waun, gan feithrin ymdeimlad o gymuned a chyflawniad.

Eleni, mae Antur Waunfawr wedi parhau i feithrin ei bartneriaeth gyda Llwybrau Llesiant drwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau i'r bobl a gefnogwn. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd Strictly Gwynedd a Môn, prosiect dawns chwe wythnos dan arweiniad Dawns i Bawb a ddaeth i ben gyda sioe fawreddog yng Ngwesty Celtic Royal, gan ddod ag ystod eang o sefydliadau at ei gilydd megis Seren Ffestiniog Cyf a Mencap Môn.

### Caffi Blas y Waun

Mae'r tri mis cyntaf o 2025 wedi bod yn gyfnod prysur ar safle Bryn Pistyll, wrth i ni weithio tuag at adnewyddu'r caffi. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom bartneru â Chwmni CARN yng Nghaernarfon a'r artist lleol Zoe Lewthwaite, a arweiniodd brosiect uwchgylchu creadigol gyda'r bobl a gefnogwn. Trwy'r prosiect, trawsnewidiwyd ein hen fyrddau gyda darluniau ysbrydoledig wedi'u seilio ar yr ardal leol. Gydag fwy o waith adnewyddu i ddigwydd yn y dyfodol agos, rydym yn edrych i ail agor y caffi yn ystod Gwanwyn 2025.

Ond wrth i'r gwaith adnewyddu ddigwydd dros y misoedd, parhawyd defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau drwy baratoi a gweini prydau wythnosol ar y safle. Maent yn creu a gweini pryd dwy gwrs, gan gynnal eu harfer coginio a'u hymgysylltiad ac eraill.

### Parc natur a gerddi

Ar safle Bryn Pistyll mae 7 erw o erddi a pharc natur, yn ogystal â maes chwarae cynhwysol. Yn ystod y cyfnod. Un syniad cyffrous i'r dyfodol yw datblygu ein rhandiroedd, gan gynnig gweithdai darparu sesiynau dysgu sgiliau.

### Bragdy Antur Waunfawr

Mae'r bragdy wedi cael blwyddyn brysur ofnadwy, gyda'r tîm yn Waunfawr yn cynhyrchu amrywiaeth o seidr allan o ffrwythau a thyfir ar y safle neu wedi cael eu rhoi fel rhodd gan aelodau o'r gymuned leol. Eleni, cafwyd o leiaf tunnell o ffrwythau fel rhoddion ac rydym hefyd wedi tyfu ffrwythau ein hunain. Galluogodd y casgliad hwn o ffrwythau i ni gynhyrchu 500 o boteli

Seidr plaen a 700 o boteli seidr ffrwyth, sef 1,200 o boteli yn y cyfnod yna. Mae ein hystod yn cynnwys pedwar blas: canolig sych, ffrwythau'r gwrych, rhiwbob, cyrens duon, a mefus. Rydym nawr yn gwneud ein seidr trwy'r gydol y flwyddyn gan ddefnyddio dwysfwyd afal yn y cynhyrchiad seidr, mae hyn yn gwneud y seidr mwy cyson gan gadw'r blas a'r cryfder yr un fath.

Diolch i'n gwefan: **https://perllan.shop/** a'n mynychiad i nifer o ffeiriau Nadolig, cawsom dymor gwerthu prysur iawn wrth i'r Nadolig agosáu. Mae'r pobl ag anableddau dysgu rydym yn eu cefnogi yn rhan annatod o bob agwedd ar y prosiect hwn, o dyfu a chasglu'r ffrwythau i gynhyrchu, potelu, a labelu'r seidr, yn ogystal â thrin danfoniadau gan roi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu sgiliau. Croesawyd partneriaid cyfanwerthu newydd. Yn ogystal a Black Boy Inn a Glaslyn Beddgelert, mae ein seidr bellach ar gael yn Jac y Do, Caernarfon a hefyd yn Galeri. Mae'r bartneriaeth newydd hon yn agor y drws i fwy o bobl leol a thwristiaid i flasu ac i fwynhau cynnyrch Antur Waunfawr.

**Dathliadau 40 Mlynedd 2024**

**Beicio 40 milltir Ebrill 12**
Dathlu 40 mlynedd gyda her o feicio 40 milltir. Bu criw o staff a defnyddwyr gwasanaeth yn beicio 40 milltir gan ddechrau'r daith o Beics Antur yng Nghaernarfon, a gwneud eu ffordd i fyny am Waunfawr, Beddgelert, ac yna draw i Llanberis, a gorffen nôl yng Nghaernarfon a chael eu croesawu gan weddill o staff a defnyddwyr gwasanaeth yr Antur a oedd hefyd wedi bod yn beicio drwy gydol y dydd ar deithiau byrrach. Mawr oedd ein diolch i fusnesau lleol am ein noddi er mwyn gallu prynu dillad addas i feicio ynddynt.

**Gŵyl Fwyd Caernarfon Mai 11**
Yn rhan o'n dathliadau pen-blwydd 40 oed eleni, fe wnaethom lansio blas newydd o'n seidr yng Ngŵyl Fwyd Caernarfon, Ffrwythau'r Gwrych. Cafodd y seidr ei greu o aeron cymysg a dyfir ar ein safle yn Waunfawr, ac mae'n ychwanegiad cyffrous ac unigryw i'n casgliad. Roedd yn boblogaidd iawn gyda'r trigolion lleol, gan dderbyn croeso brwdfrydig. Ar gyfer y lansiad, buom hefyd yn cydweithio gyda grŵp o ddisgyblion o Ysgol Syr Hugh, a ddyluniodd gwpan arbennig yn dathlu popeth sy'n gwneud Antur Waunfawr. Gwerthwyd y cwpanau hyn ochr yn ochr â'r seidr yn yr Ŵyl eleni, gan ychwanegu at y profiad ac atgof arbennig o'r dathliad

**Cyngerdd 40 mlynedd yn Galeri, Caernarfon Mehefin 22**
Ym mis Mehefin 2025, cynhaliwyd Gig 40 Antur yn y Galeri. Ar gyfer y noson, buom yn gweithio gyda Ceri Bostock i sefydlu côr Makaton Antur Waunfawr, gyda chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a staff. Yn ystod y cyfnod paratoi, cynhaliwyd ymarferion wythnosol lle dysgwyd chwe chân newydd a berfformiwyd o flaen cynulleidfa fyw ar y noson fawr.

Yn ystod y digwyddiad, rhoed teyrnged i John Gwynedd, a fu farw wythnosau cyn y noson, drwy rannu lluniau a straeon. Roedd John yn aelod ymroddedig o Fwrdd cyfarwyddwyr Antur Waunfawr am flynyddoedd lawer ac fe wnaeth helpu i lunio'r Antur fel y mae heddiw.

Penllanw’r cyngerdd oedd perfformiad Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas – sef mab John Gwynedd- a orffennodd y noson mewn awyrgylch llawn emosiwn, balchder a chariad, gan wneud hi’n un noson wirioneddol gofiadwy a dathlu gwirol o’r hyn mae cymuned Antur Waunfawr yn ei gynrychioli.

**Gŵyl Haf**
Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd Ffair Haf Antur Waunfawr gyntaf ers blynyddoedd, gan ddod â’r gymuned at ei gilydd mewn diwrnod llawn hwyl, gweithgareddau a pherfformiadau. Fel rhan o’r diwrnod, bu nifer o berfformwyr byw yn creu awyrgylch arbennig, gan gynnwys Côr Makaton Antur Waunfawr yn perfformio gyda disgyblion o Ysgol Waunfawr, ynghyd â Doniau Cudd a Dylan Evans. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddathlu’r haf, cefnogi gwaith yr Antur, ac i bobl o bob oed fwynhau amrywiaeth o stondinau, gweithdai a gweithgareddau i’r teulu oll. Roedd yn wych gweld cymaint o’r gymuned leol yn cymryd rhan ac yn mwynhau’r awyrgylch bywiog, gan adlewyrchu pwysigrwydd y digwyddiad fel rhan o fywyd cymunedol Waunfawr.

## WARWS WERDD

Sefydlwyd Warws Werdd yn 2004 yn dilyn derbyn arian gan Gronfeydd Ariannu Ewropeaidd (ERDF) ac LRF Llywodraeth Cymru. Mae’r Warws yn casglu dodrefn a dillad gan y gymuned ac o safleoedd y Cyngor, eu uwchgylchu, eu hail ddefnyddio neu eu paratoi i’w hailgylchu. Mae’r gwasanaeth yn darparu lleoliadau gwaith i 16 o unigolion ag anableddau dysgu, yn ogystal â chyfleoedd iechyd a llesiant. Mae’r Warws yn rhoi cyfle i'r defnyddwyr gwasanaeth ddatblygu eu sgiliau mewn amryw eang o brofiadau gwaith, magu hyder, ac yn gyfle i gymdeithasu a rhoi gwasanaeth cwsmer i drawstoriad o’r gymuned.

Eleni, gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, cafwyd gwaith adnewyddu ei wneud i'r Warws Werdd er mwyn ei wneud mwy hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaeth a chwsmeriaid, megis adnewyddu’r gofod derbynfa, cegin, a drysau awtomatig i'r fynedfa.
Pwrpas hyn oedd i'n galluogi i gynnig mwy o brofiadau gwaith gweinyddol a gofal cwsmer, mewn gofod fydd yn hygyrch i bawb ac yn ein paratoi ar gyfer galluogi derbyn unigolion mewn i ddatblygu sgiliau a pharatoi ar gyfer gwaith cyflogedig.

### Dillad

Mae Prosiect Dillad Antur Waunfawr wedi cael blwyddyn heriol gan fod y sector ailgylchu tecstiliau wedi gwynebu argyfwng digynsail ynghanol heriau'r farchnad fyd-eang oherwydd trafferthion allforio. Serch hynny rydym wedi llwyddo i oresgyn yr heriau annisgwyl a pharhau i arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu dillad a thecstiliau ac wedi cychwyn partneriaeth newydd gyda masnachwyr dillad ychwanegol; SWD. Rydym yn gweithredu nifer o fanciau dillad ledled Gwynedd ac yn cydweithio’n agos gyda Chyngor Gwynedd i ailgylchu dillad o’u canolfannau ailgylchu. Yn ogystal, rydym yn partneru gyda Thyddyn Môn i ymestyn ein hymdrechion ailgylchu ar draws Ynys Môn. Mae rhan allweddol o'n gwaith yn cynnwys partneriaethau gydag ysgolion yng Ngwynedd lle rydym wedi gosod banciau dillad ar safleoedd ysgolion. Am bob cilogram o ddillad a ailgylchir, mae ysgolion yn derbyn arian gan y Warws, sydd wedyn wedi’i ddefnyddio ar

gyfer amryw o brosiectau. Mae’r prosiect hwn nid yn unig yn hyrwyddo cynaliadwyedd ond hefyd yn darparu cymorth gwerthfawr i gymunedau lleol.

Ar ôl i ni gasglu a didoli’r dillad yn y Warws, mae gweddill y dillad yn cael eu casglu gan ein partneriaid Roberts Recycling LTD a SWD, byddent yn sicrhau bod y dillad yn cael ei hailgylchu neu ailddefnyddio yn gyfrifol.

Dros y flwyddyn, cafodd 310 tunnell o ddillad eu prosesu drwy’r Warws.

**Siop eBay**

Mae’r Warws Werdd yn ei hail flwyddyn o werthu dillad ag esgidiau ail lawr drwy blatfform ebay.

Wrth gydnabod safon rhai o’r dillad sydd yn dod mewn i'r Warws, mae gwerthu drwy ebay nid yn unig yn ffordd o gynyddu ein hincwm, ond hefyd yn ffordd o gynyddu nifer y dillad ag esgidiau sydd yn cael eu hail cartrefu ac yn lleihau’r tunelledd sydd yn mynd i dirlenwi. Drwy ddarparu’r gwasanaeth yma rydym hefyd yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau gwaith ychwanegol i bobl ag anableddau dysgu sy’n derbyn gwasanaeth gennym, mae pawb yn cael cyfle i gynorthwyo gyda gwahanol agweddau o fewn y broses gwerthu, o dynnu lluniau i bostio.

**Dodrefn**

Mae gwasanaeth ailgylchu ac ailddefnyddio dodrefn Warws Werdd yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cynaliadwyedd tra’n darparu dodrefn fforddiadwy i’r gymuned. Mae ein siop ail-law yn cynnig ystod o ddodrefn ail-law a newydd am brisiau cystadleuol. Rydym yn darparu gwasanaeth casglu cyfleus am ffi fechan, lle rydym yn casglu dodrefn diangen o gartrefi cwsmeriaid, gan ailddefnyddio ac uwchgylchu eitemau i’w gwerthu yn ein siop. Gall cwsmeriaid hefyd ddod â’u heitemau diangen yn uniongyrchol i’r siop. Yn ogystal, rydym yn cydweithio gyda sefydliadau lleol megis Adra, Digartrefedd Ynys Môn, Gisda, Grŵp Cynefin, a’r Adran Digartrefedd yng Nghyngor Gwynedd i ddodrefnu cartrefi ar gyfer pobl mewn angen. Rydym hefyd wedi creu partneriaeth gyda Dodrefn Perkins, Caprice a Dodrefn Parry’s ar gyfer derbyn dodrefn diwedd llinell i'w gwerthu yn y Warws Werdd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn prosesu 20.2 tunnell o ddodrefn, gan leihau gwastraff yn sylweddol, ac o ganlyniad yn gwella’r amgylchedd a chadw eitemau o fewn yr economi gylchol. Mae’r prosiect hwn hefyd yn helpu i ddatblygu sgiliau gwerthfawr i’r unigolion rydym yn eu cefnogi, gan gynnwys sgiliau gweinyddol ar y ffôn a’r ddesg flaen, yn ogystal â sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu yn ystod ymweliadau cartref wrth ddanfon dodrefn.

**Gofod Trwsio a Chreu Ffiws Antur Waunfawr**

Yn 2022 derbyniwyd nifer o offer ar gyfer gofod trwsio a chreu o dan frand ‘Ffiws’, sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Economi Gylchol drwy law Cyngor Gwynedd. Mae’r offer yn cynnwys argraffwr 3D, torrwr laser, torrwr finyl, a pheiriannau gwnïo a brodwaith.

Pwrpas Ffiws Antur Waunfawr yw rhoi cyfle i bawb gael mynediad at offer uwch-dechnoleg ac annog ac ysbrydoli creadigrwydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ffiws wedi cynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch o safon, yn cynnwys cit pel-droed ar gyfer tîm anableddau dysgu Caernarfon, medalau i Eisteddfod Y Felinheli, ag addurn Nadolig gan Groto Sion Corn yn Ffair Nadolig Caernarfon a threfnwyd gan Gŵyl Fwyd Caernarfon.

Mae'r adran hefyd wedi cynhyrchu casgliad o eitemau anrhegion Nadolig i'w gwerthu yn ein siop ac ar wefan Antur Waunfawr.

**Sied Werdd**
Yn dilyn derbyn arian grant drwy gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd i wella isadeiledd ailgylchu ac ailddefnyddio'r sir, rydym wedi gorffen yr estyniad i'r Warws Werdd a agorodd eleni.

Mae'r sied sy'n 170m$^2$, gydag ail lawr yr un maint, yn adeilad hygyrch, gyda lifft a chyfleusterau cymorth.

Mae'r llawr gwaelod yn cynnwys gweithdy ar gyfer didoli dillad i'w ailddefnyddio, cantîn ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a staff, lifft a storfa. Mae'r llawr cyntaf wedi ei rannu i 3 uned, swyddfa, gofod Ffiws ag ystafell aml-bwrpas ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant; gall hwn hefyd fod yn ofod addysgiadol ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion, neu yn ofod i'w hurio i'r cyhoedd.

Mae'r Sied Werdd wedi rhyddhau gofod yn y Warws Werdd ar gyfer llawr siop ehangach ac yn cynyddu troedle er mwyn cynyddu gwerthiant ailddefnyddio. Yn sgil y datblygiad yma cafwyd cyfle i gyflwyno ein gwaith yn y Gynhadledd Hotspot Economi Gylchol Ewrop yng Nghaerdydd.

Mae Hotspot Economi Gylchol Ewrop yn ddigwyddiad blynyddol, sydd wedi tyfu o gynulliad a gynhaliwyd gyntaf yn yr Iseldiroedd yn 2016. Mae'n cael ei gynnal mewn lle gwahanol bob blwyddyn, gyda'r lle hwnnw'n cael ei ddewis am ddangos yr arloesedd a'r arfer rhyngwladol gorau wrth ddatblygu economi gylchol.

Daeth dros 400 o gynrychiolwyr i'r digwyddiadau dros y tridiau. Roedd yr Hotspot yn gyfle i rannu llwyddiannau Cymru ac archwilio eu dull blaenllaw sy'n seiliedig ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol a'n hymrwymiadau uchelgeisiol sero-net a dim gwastraff.

Mae cydweithio wrth wraidd y digwyddiadau Hotspot hyn ac roedd Hotspot Economi Gylchol Cymru yn gyfle unigryw i adeiladu a chryfhau partneriaethau yng Nghymru a chyda chenhedloedd a rhanbarthau eraill. Roedd y cyflwyniadau a'r trafodaethau yn pwysleisio nid yn unig bwysigrwydd hanfodol yr economi gylchol, ond hefyd y rhan y gall ei chwarae wrth gyflawni pontio teg a sicrhau nad yw cymunedau'n cael eu gadael ar ôl, ein bod yn tyfu ein heconomi werdd, a sicrhau bod ein cymunedau'n rhannu'r manteision wrth inni weithio i gyflawni ein nodau hinsawdd.

**CAERGYLCHU**

Canolfan ailgylchu ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, a sefydlwyd mewn partneriaeth a Cyngor Gwynedd yn 2005 ac sy'n esiampl flaenllaw o gydweithio rhwng y ddau sector. Denwyd £1.7m o grant i Caergylchu yn 2007. Mae Caergylchu yn gartref i'n gwasanaeth llarpio cyfrinachol a'r llinell plastigion sydd yn cael ei redeg gan yr Antur mewn partneriaeth a'r Cyngor.

**Llarpio**
Mae ein gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol, sydd wedi'i leoli yng Nghaergylchu, yn cynnig gwaredu dogfennau cyfrinachol a sensitif mewn ffordd ddiogel ac amgylcheddol gyfrifol ar gyfer busnesau, sefydliadau a chartrefi ar draws Gogledd Cymru. Rydym yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfrinachol yn cael eu casglu, eu rhwygo, a'u hailgylchu yn unol â rheoliadau diogelu data, gan roi tawelwch meddwl i'n cwsmeriaid, a lleihau'r effaith amgylcheddol. Drwy

ddewis ein gwasanaeth, nid yn unig mae cwsmeriaid yn diogelu eu gwybodaeth gyfrinachol ond hefyd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy drwy ein hymrwymiad i'r amgylchedd a chefnogi gweledigaeth yr Antur, drwy gynnig lleoliad i 8 o unigolion ag anableddau dysgu.

Gyda dros 2000 o gwsmeriaid, casglwyd 17,275 o sachau coch dros y flwyddyn a phroseswyd bron i 330 tunnell o bapur yn barod i'w ailgylchu yn bapur tusw. Rydym yn gweithredu yn unol â gofynion rheolau GDPR ac wedi derbyn achrediad BS EN 15713: 2009.

**Casglu offer TGCh**
Mewn partneriaeth a North Wales Recycle IT, Llangefni, menter gymunedol sy'n ailgylchu offer TGCh mewn ffordd ddiogel ac amgylcheddol, cynhalwyd prosiect peilot ble roedd Antur Waunfawr yn casglu offer TGCh a'i ddanfon draw i Llangefni fel bod offer yn cael ei drin ac ailddefnyddio ar safle Recycle IT.
Roedd hwn yn brosiect i ddod a ffrwd incwm newydd mewn i wasanaeth prosiect Llarpio'r Antur ac yn sicrhau cynaladwyedd ariannol. Gan ei fod yn brosiect oedd yn ychwanegu at ein gwasanaethau amgylcheddol penderfynwyd parhau tu hwnt i'r peilot 6 mis.

**BEICS ANTUR**

Siop feics sydd yn hurio, trwsio a gwasanaethu beics yw Beics Antur, wedi ei leoli ym Mhorth yr Aur Caernarfon. Mae 8 o unigolion yr Antur yn cael profiadau gwaith yn y gweithdy gyda'r swyddogion beics, a rhai wedi dysgu sgiliau trin beics er mwyn cwblhau tasgau yn annibynnol.

Rydym yn hurio beics 2 olwyn oedolion, beics plant, e-feics a fflyd beics addasedig ar gyfer oedolion a phlant ifanc megis rhai ochr yn ochr, rydym hefyd yn cynnig trosi beics i fod yn feics trydan.

Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth gwerth chweil ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adborth cawn gan gwsmeriaid:

*"Atgyweirio a chyngor ar feiciau, yn ogystal â defnyddio beiciau o ansawdd uchel. Am fusnes a sefydliad elusennol gwych! Dechreuais ymweld â'r safle ym mis Gorffennaf i gael help gyda thyllau a phroblemau beiciau cyffredinol. Mae ansawdd y gwasanaeth yn rhagorol, ac mae'r atgyweiriadau i safon uchel. Mae gan y staff agwedd gadarnhaol ac maent yn ymfalchïo yn eu crefftwaith. Pan fydd fy ffrind yn ymweld, bydd hi'n llogi beic, ac maen nhw'n cynnig ystod eang o feiciau am brisiau fforddiadwy. Cwsmer bodlon arall a fydd yn ymgysylltu â'u harbenigedd a'u gwasanaethau."*

*Profiad gwych*
*Roedd Beics Antur yn wych 👍 fe wnaethon nhw drefnu popeth y gallem ei angen a hefyd rhoi cyngor ar rai llwybrau a argymhellir i ni. Cawson ni daith feicio 3 awr wych ar ddau feic cyfforddus a dibynadwy iawn. Diolch i chi Beics Antur am brofiad cofiadwy yng nghefn gwlad prydferth Cymru.*

**Llofft Llesiant**
Ar y llawr cyntaf Beics Antur mae Llofft Llesiant, gofod stiwdio $100m^2$ ar gyfer pob math o weithgareddau iechyd a llesiant megis dawns, ioga , pilates a ffitrwydd, sydd hefyd ar gael i'w llogi ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant. Yn ychwanegol, mae Ystafell Synhwyraidd ar y llawr cyntaf ar gyfer unigolion ag anghenion dwys neu nam ar y synhwyrau. Mae'r adnoddau yma yn boblogaidd iawn ac ar gael i'r cyhoedd eu hurio.

**Beicio i Bawb**
Roedd prosiect Beicio i Bawb yn cyflwyno amrywiaeth o sesiynau a gweithgareddau beicio fforddiadwy i drawstoriad o'r gymdeithas yng Ngwynedd gan gynnwys disgyblion ysgol gynradd, pobl ifanc difreintiedig, pobl hyn, unigolion ag anableddau dysgu, grwpiau corfforaethol, a drwy bresgripsiwn cymunedol.

Gyda chefnogaeth gan Gronfa Ffyniant Cyffredin, prif nod y prosiect hwn oedd hyrwyddo Iechyd a Llesiant a Theithio Llesol Cymru drwy wella mynediad i feicio hygyrch a fforddiadwy, gwella sgiliau, magu hyder ac annog pobol o bob oedran a gallu yn ein cymdeithas i feicio.

Yn ystod y prosiect cynhaliwyd;

- 450 o ddigwyddiadau beicio
- 900 o bobl wedi cymryd rhan mewn sesiynnau beicio
- 30 staff ag unigolion ag anableddau dysgu wedi derbyn hyfforddiant
- 30 o ysgolion Gwynedd gyda 670 o blant blwyddyn 3 a 4 wedi cymryd rhan.

Un o'r prif lwyddiannau oedd y sesiynau Sgiliau Beicio a gynhaliwyd o fewn ysgolion cynradd ar draws Gwynedd i ddatblygu sgiliau beicio disgyblion. Yn y sesiynau hyn roedd plant blwyddyn 3 a 4 yn cael cyfle i ddysgu sgiliau a thechnegau beicio mewn awyrgylch diogel, sydd yn cyfrannu at lesiant plant a chodi eu hyder i fynd ar gefn beic drwy annog plant i fod â diddordeb naturiol yn y maes beicio.

*"Un o'r plant newydd ddechrau defnyddio'r pedalau beic am y tro cyntaf"*
*"Pawb yn edrych ymlaen ac yn enjoio"*
***Ysgol Pendalar***

*"Teimlo'n dda, wedi blino ond rhaid gwneud hyn yn amlach. Mwynhau cael rhoi defnydd i fy nghoesau"*
\- ***Person 65+***

*Mae Beicio i Bawb yn allweddol iawn i ddisgyblion blwyddyn 3 sydd yn yr oed i gael mynd adref ei hunain. Mae nifer o blant sydd ddim yn gallu mynd ar feic wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac mae'r sgiliau sylfaenol yma yn holl bwysig iddynt.*
***Pennaeth ysgol gynradd***

**Ysgolion Uwchradd**
Rydym yn cyd-weithio gydag Ysgolion Uwchradd yr ardal yn hurio beics i ddisgyblion yn ystod wythnos llesiant yr ysgolion.

## IAITH A DIWYLLIANT

Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau sydd wedi eu sefydlu, ac rydym yn anelu bob amser i fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant a'r economi leol.

Byddwn yn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, gan fod yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.

**Cynnig Cymraeg**

Rydym wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau Cymraeg ac yn ystod y flwyddyn, cafwyd ein Cynnig Cymraeg ei gymeradwyo gan Comisiynydd y Gymraeg.

- Rydym yn cyfarch ein cwsmeriaid yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Ble mae'n bosib, rydym yn cefnogi busnesau lleol Cymraeg ac yn defnyddio cynnyrch lleol.
- Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn y Gymraeg
- Rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn ddwyieithog, mae'r wefan a thudalennau cymdeithasol megis trydar a Facebook i gyd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Rydym yn cefnogi ac yn annog yr iaith Gymraeg yn y gweithle, yn defnyddio Cymraeg ffurfiol ag anffurfiol
- Gallwch adnabod aelodau o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg gyda nwyddau Iaith Gwaith.

**RHWYDWEITHIAU STRATEGOL, PARTNERIAETHAU NEWYDD A CHYDWEITHIO YN YSTOD Y FLWYDDYN:**

**PERTHYNAS AG ASIANTAETHAU ALLANOL**

Mae Antur Waunfawr yn cynnig gwasanaeth i oedolion ag anableddau dysgu mewn partneriaeth, yn bennaf, ag adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd, yn ogystal â Chynghorau Conwy ac Ynys Môn. Mae'r cynghorau yn comisiynu'r gwasanaeth yn unol â'u hasesiad o angen ac rydym yn cytundebu gyda'r cynghorau i ddarparu gwahanol fathau o wasanaeth yn unol â'r asesiad. Ein nod wedyn fel menter gymdeithasol yw hyrwyddo potensial y defnyddwyr gwasanaeth o ran eu gwaith ond hefyd eu datblygiad personol a'u sgiliau.

Parhawyd i gydweithio gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgol Pendalar, Ysgol Hafod Lon, Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, a Glynllifon, yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynllunio darpariaethau ar gyfer adnoddau gwell i dderbyn unigolion gydag anghenion dwys a chymhleth.

**Adra**

Yn sgil y newid yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, golygai nad oeddem mwyach yn gallu parhau i fod yn landlordiaid yn ogystal â darparu gofal personol i'n tenantiaid. Yr opsiwn gorau er lles ein tenantiaid oedd creu partneriaeth gyda chymdeithas tai Adra, sydd yn golygu mai Adra sydd bellach yn landlordiaid ar ein tai.

Rôl y Prif Weithredwr yw cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau – a hi yw'r Person Cyfrifol ar gyfer y cwmni. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**RCS Wales a Canopi Cymru**

Rydym wedi cydweithio'n gyson gydag RCS Wales ar gyfer cyfeirio staff am gefnogaeth cwnsela a physiotherapi gan sicrhau eu bod yn gallu parhau yn y lle gwaith. Maent hefyd yn darparu gweminarau llesiant cyson sydd o fudd i allu cefnogi staff. Mae staff hefyd yn elwa o sesiynau cefnogaeth drwy Canopi Cymru. Mae aelodau o'r Tîm Adnoddau Dynol wedi'u hyfforddi fel pencampwyr llesiant hefyd ac ar gael i gefnogi a dargyfeirio staff am gymorth pellach.

**Cymunedoli Cyf**
Mae Antur Waunfawr yn falch o adrodd am ei gydweithrediad â Cymunedoli Cyf, rhwydwaith nodedig o fentrau cymunedol sydd wedi ymrwymo i rannu adnoddau ac arbenigedd i gryfhau ei gilydd. Mae'r bartneriaeth hon nid yn unig yn gwella ein gallu i wasanaethu ac ymgysylltu â'n cymunedau, ond hefyd yn cefnogi ein nod i warchod a hyrwyddo ein hiaith a'n diwylliant. Trwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn manteisio ar gryfderau cyfunedig i yrru cynnydd ystyrlon, hybu datblygiad lleol a thwf economaidd, a chyfrannu at rwydwaith mwy cadarn a gysylltiedig o fentrau cymunedol, wrth barhau i ddiogelu a dathlu ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

**YMWELIADAU I'R ANTUR**

Trwy gydol y flwyddyn, mae Antur Waunfawr wedi cael y pleser o groesawu nifer o ymwelwyr i'n safleoedd. Mae'r ymweliadau hyn wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ni rwydweithio, cryfhau partneriaethau presennol a newydd, ac arddangos y gwaith rhagorol mae ein defnyddwyr gwasanaeth ac ein staff ymroddgar yn ei wneud o ddydd i ddydd. Mae pob ymweliad wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i'n cenhadaeth, gan hefyd dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol rydym yn ymdrechu i'w gwneud o fewn ein cymuned.

**Cyngor Gwynedd:**
Pleser oedd croesawu Mari Wynne Jones, Rheolwr Gwasanaethau Anableddau Dysgu (olynydd Helen Fôn) i ymweld â'r Antur ar 11 Ebrill 2024. Cafwyd cyfle i roi trosolwg i Mari o'n gwasanaethau a thrafod blaenoriaethau'r cyngor at y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ymlaen. Cadarnhawyd gan Mari'r blaenoriaethau, sef cynnydd mewn darpariaeth gwasanaethau dwys a chymhleth, cynlluniau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth nol i waith lle mae'n briodol, a mwy o gynlluniau tai a chefnogaeth.

**Partneriaeth Adfywio Caernarfon**:
Cynhaliwyd cyfarfod ym Meics Antur ar 8 Gorffennaf, 2024. Cyfarfod ar y cyd efo Adran Economaidd Cyngor Gwynedd ydoedd ac mae'r prif bartneriaid yn yr ardal yn cydweithio i sicrhau bod Cynlluniau Ardal Ni Caernarfon a'r Cynllun Canol Tref Caernarfon yn cael eu gwireddu. Yn ogystal, cafwyd cyfarfod pellach ar 10 Chwefror 2025 i drafod a phenderfynu ar y blaenoriaethau o fewn y Cynllun Creu Lleoedd yng Nghaernarfon.

**Gwyrfai Gwyrdd:**
Prosiect arfaethedig i gynhyrchu ynni cymunedol newydd i sicrhau dyfodol net sero llewyrchus Waunfawr a'r ardal gyfagos ar gyfer cenedlaethau, sy'n cynnwys gwerthu ynni gwyrdd i'r gymuned ydyw, ac rydym yn ddiolchgar iawn o arweiniad y grŵp cymunedol sydd yn arwain ar y fenter yma yn y pentref. Gwnaeth Grŵp Llywio Gwyrfai Gwyrdd dderbyn arian gan Grymuso Gwynedd i ymgynghori gyda'r gymuned leol er mwyn gosod blaenoriaethau ar gyfer y deg mlynedd nesaf. Derbyniwyd arian hefyd gan Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn creu Cynllun Busnes pum mlynedd.

Mae Ellen Thirsk, ein Prif Weithredwr yn rhan o'r Pwyllgor sydd yn cynnwys Dafydd G Davies (aelod o Fwrdd Rheoli'r Antur), cynrychiolaeth o Cyngor Cymuned Waunfawr a Caeathro.

**Digwyddiadau, Rhwydweithio a Chynhadleddau Pellach:**
- Cynhadledd Cymunedoli ym Mhlas Tan y Bwlch
- Gweithdy Strategaeth Arwyddo Caernarfon, Cyngor Gwynedd
- Gweithdy North Wales Together, Galeri, Caernarfon
- Digwyddiad Diogelu Cenedlaethol gan Iechyd sydd yn sicrhau cydymffurfiaeth efo gofynion Ellen Thirsk, Prif Weithredwr Antur Waunfawr yn ei rôl fel Unigolyn Cyfrifol.

Mynychodd Stephen Goodwin, Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl a Gwenllian Evans (ein Rheolwr Cofrestredig newydd) hefyd.
- Cynhadledd Twristiaeth Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri
- Digwyddiad Urddas, Iaith a Gofal gan Gofal Cymdeithasol Cymru
- Buodd Ellen Thirsk ar banel cyflogwyr yn nigwyddiad dathlu Cronfa Ffyniant Cyffredinol, Cyngor Gwynedd
- Cynhadledd Teithio Llesol ac iach i'r ysgolion, Gerddi Sophia Caerdydd, buodd Ellen Thirsk yn rhan o banel trafodaeth yn trafod pwnc seiclo cynhwysol a beiciau wedi'w haddasu.
- Buodd Ellen Thirsk yn feirniad ar Wobr Gofal yn y Gymraeg, Gofal Cymdeithasol Cymru a gafodd ei gyflwyno yn yr Eisteddfod ym Mhont y Pridd

## SAFONAU

Cawsom adborth cadarnhaol yn dilyn archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru ar y 19eg o Fawrth 2024, a'r adroddiad yn galonogol iawn ac yn adroddiad a oedd yn canmol y sefydliad. Mae archwiliad ysgrifenedig yr Arolygydd Rheoliadau wedi cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Archwiliad ISO 14001 ac ISO 9001**
Llwyddwyd i gynnal ein Hachrediad ISO 14001 a'r Achrediad ISO 9001 unwaith eto yn dilyn archwiliad ar safle. Mae'r gweithredu ar y broses a'r systemau cysylltiedig yn fuddiol i ni wrth ymgeisio am gytundebau a thendrau.

**BS EN 15713 GWASANAETH LLARPIO**
Mae'r gwasanaeth llarpio gydag achrediad BS EN 15713 a chafwyd archwiliad allanol 1 Mai 2024 gyda dim i weithredu arno. Mae'r achrediad yn cryfhau ein systemau gweithio yn ogystal â gallu ymgeisio am gytundebau a thendrau newydd.

**Tystysgrif Cyber Essential**
Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn y dystysgrif uchod eleni.

**Safecontractor**
Llwyddwyd i gynnal yr achrediad Safe Contractor yn 2024. Mae'r achrediad yma yn angenrheidiol ar gyfer cadw cytundebau llarpio presennol ac yn cryfhau ein sefyllfa wrth ymgeisio am dendrau.

## ADNODDAU DYNOL

**Denu a datblygu staff**
Wrth gymryd i ystyriaeth yr hinsawdd economaidd anodd mae cyflogwyr yn eu hwynebu, mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn falch o adrodd ein bod wedi llwyddo i gynnal yr adnoddau staff angenrheidiol ac wedi cydymffurfio efo holl ofynion gyfraith cyflogaeth. Drwy reoli ein hadnoddau rydym wedi llwyddo i gynnal safon ein gwasanaethau a chynllunio ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth newydd yn ein gwasanaethau dydd a chefnogaeth gartref.

Er mwyn parhau i sicrhau effeithlonrwydd y Cwmni, gwobrwywyd ymroddiad ein staff a pharhawyd i gefnogi'r staff sydd yn arbenigo mewn darparu gofal ar sawl lefel i'n defnyddwyr gwasanaeth yn y maes gofal. Rhoddwyd blaenoriaeth ar ddatblygu cryfderau a gyrfaoedd, rhoi cyfrifoldebau newydd i staff, rhoi clod i gyrhaeddiad ein staff a chynllunio'n strategol, gan roi pwyslais ar fentora, magu, a chadw staff.

Mae'r strwythur yma yn creu llwybr gyrfa i'n gweithwyr cefnogol, a chodiad cyflog i'r rhai a lwyddodd i ateb gofynion y meini prawf uwch. Bwriad y strwythur newydd yw magu hyder, datblygu sgiliau a chymwysterau ac annog ein staff i ymgeisio am swyddi uwch. Mae gennym 10 aelod staff sydd wedi llwyddo i gyrraedd y meini prawf uwch ac o ganlyniad maent wedi cymryd lefel uwch o gyfrifoldebau sydd wedi galluogi'r Rheolwyr gofal i ganolbwyntio ar faterion rheolaethol.

**Ymgyrch recriwtio a ffeiriau swyddi**
Eleni, mae Antur Waunfawr wedi parhau i ffynnu drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus, gan ddenu aelodau newydd i'r tîm a chynyddu ein gallu i gefnogi'r gymuned. Drwy gyfuniad o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd "Cyfeiriwch Ffrind" mewnol, a chyfranogiad mewn ffeiriau recriwtio lleol gyda Gwaith Gwynedd a Phrifysgol Bangor, buom yn gallu cyrraedd amrywiaeth eang o ymgeiswyr ac annog pobl o gefndiroedd amrywiol i ymuno â'n gweithleoedd. Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi helpu i sicrhau bod Antur Waunfawr yn parhau i dyfu, gan gadw ein gwaith o fewn y gymuned yn fywiog a phwrpasol.

Eleni unwaith eto, buodd rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r panel cyfweld er mwyn iddynt gael profiad o ofyn cwestiynau, a chyfarfod a dewis yr ymgeiswyr.

Mae ein hymdrechion wedi ymestyn i gyflwyniadau yng Ngholeg Menai a nifer o ysgolion lleol, lle rydym wedi ysbrydoli disgyblion sydd yn astudio cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn llwyddiant mawr, gan arwain at nifer o fyfyrwyr sydd wedi mynychu profiadau gwaith gyda ni ac sydd wedi derbyn swyddi rhan-amser wrth fynd ymlaen â'u hastudiaethau.

**Staff newydd**
Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 fe benodwyd 17 aelod newydd o staff ar draws y cwmni. Yn yr un cyfnod, penderfynwyd 5 aelod staff i adael y Cwmni er mwyn datblygu eu gyrfa.

**Hyfforddiant**
Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, gan sicrhau ein bod yn cadw i safonau megis Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Ynys Môn a Conwy. Rydym yn sicrhau bod gofynion hyfforddiant yn gyfredol ac yn cofrestru ein gweithwyr cefnogol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn cwblhau gwerthoedd ac egwyddorion o fewn ei 6 mis cyntaf o gychwyn eu cyflogaeth. Mae'r Cwmni erbyn hyn wedi datblygu pasbort hyfforddiant i staff sydd yn amlinellu'r hyfforddiant hanfodol a dymunol ar gyfer pob gwasanaeth.

Rydym wedi cofrestru 7 aelod staff yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn parhau i gofrestru staff a chadw cofrestriad staff yn gyfredol yn unol â'r gofynion.

**Profiadau gwaith**
Llwyddwyd i gynnig profiadau gwaith gwerthfawr i fyfyrwyr a disgyblion dros y cyfnod.

**Profedigaeth**
Gyda thristwch mawr rydym yn adrodd ein bod wedi colli cyn-gadeirydd y Bwrdd - John Gwynedd, a dau aelod staff Aled Parry, Gweithiwr Cefnogol a Bethan Howel, Gweithiwr Gofal. Roedd y tri yn agos at galonnau'r Bwrdd, y staff a defnyddwyr gwasanaeth ac mae colled fawr ar eu hol.

## ADOLYGIAD CYLLIDOL

### Prif ffynonellau incwm

Prif ffynhonnell incwm y cwmni yw Incwm Cytundebol o’r Awdurdodau Lleol trwy’r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal mae’r Cwmni yn rhan o bartneriaeth ailgylchu ac ailddefnyddio gyda Chyngor Gwynedd a chytundebir gyda’r Cyngor am y gwaith hwn. Mae incwm masnachol o werthu gwasanaeth a chynnyrch Antur Waunfawr, yn dod ag incwm hollbwysig i sicrhau cynaladwyedd ariannol yr Antur mewn cyfnod heriol iawn yn economaidd.

### Polisi arian wrth gefn

Mae’n bolisi gan y Cwmni i gadw cronfa anghyfyngedig fechan, gan eithrio cronfeydd dynodedig o eiddo’r Elusen sydd wedi eu neilltuo yn benodol. Penderfynodd y Bwrdd adolygu’r polisi yn rheolaidd (gan gymryd i ystyriaeth asedau cynyddol y Cwmni) fel bod yna arian i gynnal costau gwasanaethu amcanion yr elusen am gyfnod, ac i gynnal costau rheoli a gweinyddu, a hefyd digon i ymateb i unrhyw gais brys.

### Rhoddion

Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhoddion hael eto eleni sydd wedi ein galluogi ni i wneud gweithgareddau ychwanegol efo’r defnyddwyr gwasanaeth.

Derbyniwyd rhoddion er cof am ddau gyn-aelod staff, am ewythr un o’r defnyddwyr gwasanaeth rydym yn ei gefnogi, a gan stad deulu caredig o Griccieth. Yn unol â chais y teuluoedd, penderfynwyd ein bod am ddefnyddio’r rhoddion hyn i greu gardd synhwyraidd ar safle Waunfawr er mwyn i'r defnyddwyr gwasanaeth gael man tawel i eistedd a myfyrio. Mi fydd aelodau teuluoedd sydd wedi cyfrannu tuag y prosiect yn cael eu gwahodd i ymweld unwaith bydd y gwaith wedi ei orffen.

## MARCHNATA, CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Roedd blwyddyn 2024–2025 yn garreg filltir anferth i Antur Waunfawr wrth i ni ddathlu ein pen-blwydd yn 40 mlwydd oed. Roedd y garreg filltir hon yn gyfle i fyfyrio ar y daith a ddechreuodd gyda gweledigaeth ein sylfaenydd, R. Gwyn Davies, a’i gred mewn creu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu a meithrin dyfodol gwyrddach. Pedwar degawd yn ddiweddarach, mae’r weledigaeth honno’n parhau i fod wrth wraidd Antur Waunfawr ac mae gwaith marchnata a chyfathrebu eleni wedi canolbwyntio ar ddathlu pob cam o’r daith honno, wrth edrych ymlaen at flynyddoedd i ddod gydag optimistiaeth ac uchelgais.

Cynhaliwyd dathliadau’r pen-blwydd drwy gydol y flwyddyn, gan ddod â’r gymuned, ffrindiau, teuluoedd a phartneriaid at ei gilydd. Cyflwynwyd digwyddiadau newydd fel y daith feicio 40 milltir a Gig 40 Antur, ochr yn ochr â hoff ddigwyddiadau traddodiadol fel y Ffair Haf a’r Miri Siôn Corn. Roedd y dathliadau hyn nid yn unig yn boblogaidd, ond cawsant hefyd sylw helaeth yn y cyfryngau, gyda darlledu ar Heno (S4C), ar raglen Aled Hughes ar BBC Radio Cymru, ac mewn erthygl ar BBC Cymru Fyw. Cododd yr ymwybyddiaeth hon ein proffil ledled Cymru, gan bwysleisio dylanwad ac arwyddocâd Antur Waunfawr yn y gymuned.

Mae’r defnyddwyr gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau, un o’r gweithgareddau mwyaf cofiadwy i ni eleni oedd perfformiad Halibalŵ.

Prosiect theatrig arbennig mewn cydweithrediad â Bara Caws. Dechreuodd y fenter gyda gweithdai drama wythnosol yn y Galeri, dan arweiniad Ruth Thomas ac Emyr Gibson. Nôl ym

mis Hydref cynhyrchwyd ffilm “Bys Breuddwydion Halibalŵ”, a gafodd ei hysbrydoli gan eu breuddwydion a’u diddordebau eu hunain, ac roedd y ffilm yn llwyddiant ysgubol.

Yn ogystal â’r dathliadau, roedd hyrwyddo ein cynnyrch cartref gan gynnwys seidr, jamiau, piclau a nwyddau eraill yn ganolbwynt eleni. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd, cafodd Antur Waunfawr stondin yn Farchnad Nadolig Glynllifon, a oedd yn llwyddiant mawr. Hefyd, arddangoswyd ein cynnyrch mewn marchnadoedd lleol eraill gan gynnwys Ysgol Pendalar, Ysgol Waunfawr, a Marchnad Maes Awyr Caernarfon, gan gysylltu â chynulleidfaoedd newydd a chryfhau ein henw da am gynnyrch lleol cynaliadwy o safon.

Fel rhan o'n hymgyrchon Nadolig, cynhaliwyd noson siopa hwyr gyntaf erioed yn Warws Werdd, gan dynnu sylw at bwysigrwydd lleihau gwastraff a phrynu anrhegion ail-law ac wedi’u hailgylchu ar gyfer Nadolig Gwyrdd. Roedd y noson yn ffordd o feithrin ymwybyddiaeth am gynaliadwyedd. Yn fuan wedyn, fe ddaeth y Miri Siôn Corn yn ôl am y tro cyntaf ers 2019, gyda pherfformiadau bendigedig gan Fand Arian Llanrug a Lleisiau Llawen, noson hudolus i’r gymuned gyfan.

Canolbwyntiwyd cryn dipyn ar gryfhau ein platfformau digidol yn ystod 2024–25. Adnewyddwyd ein siop ar-lein, gan roi golwg fwy modern ac apelgar iddi er mwyn gwella profiad y cwsmer a denu cynulleidfaoedd newydd. Yn Ionawr, lansiwyd siop Etsy Antur Waunfawr hefyd, gan werthu crefftau wedi’u gwneud o ddeunyddiau wedi’u hailgylchu. Nid yn unig yr estynnodd hyn ein cyrhaeddiad i gynulleidfa ehangach a hyd yn oed cenedlaethol, ond hefyd pwysleisiodd ein hymrwymiad i gynaliadwyedd.

**GWOBRAU**

Yn sgil derbyn y Wobr Gofalu, Gwella Llesiant y Gweithlu 2024 gan Gofal Cymdeithasol Cymru cafodd Ellen Thirsk y cyfle i gyflwyno ein gwaith mewn Gweithdy Iechyd a Llesiant yn Llandudno a chawsom hysbysrwydd yn dilyn ennill y wobr megis Gary Owen o BBC Radio Cymru wedi bod ar safle yn ffilmio ac yn trafod efo staff y gwaith rydym yn ei gyflawni i warchod eu hiechyd a llesiant, ac erthygl wedi ei hysgrifennu yn rhoi sylw i ni, ac yn cael ei ddarlledu ar raglen Heno ac ar radio BBC Cymru

**DIWEDDGLO**

Mae blwyddyn 2024–2025 wedi bod yn flwyddyn o ddathlu, cydweithio a thwf i Antur Waunfawr. Wrth i ni nodi 40 mlynedd ers ein sefydlu, roedd yn fraint rhannu’r garreg filltir hon gyda’n defnyddwyr gwasanaeth, staff, ein partneriaid a’n cymuned leol.

Nid yw’r flwyddyn wedi bod heb ei heriau, ond trwy gydweithio ac ymrwymiad, rydym wedi gallu eu goresgyn. Mae hyn yn dyst i gryfder a gwaith caled ein staff a’n cymuned, sy’n parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Wrth edrych yn ôl, rydym yn falch iawn o’r hyn sydd wedi’i gyflawni; ac wrth edrych ymlaen, rydym yn llawn cyffro ac uchelgais ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Gyda’ch cefnogaeth barhaus, rydym yn hyderus y bydd Antur Waunfawr yn parhau i ffynnu, creu cyfleoedd, a chael effaith gadarnhaol. Diolch o galon i bawb sy’n ein cefnogi.

**Cyfrifoldebau yr ymddiriedolwyr mewn cysylltiad a'r datganiadau ariannol**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol a chyfraith perthnasol ac Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GAAP).

Mae'n ofynnol dan y Ddeddf Cwmnïau i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg wir a theg o amgylchiadau yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am y gweddill neu ddiffyg yn y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol ar yr ymddiriedolwyr i:

1. ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas;
2. gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog; a
3. pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cofnodion cyfrifyddol sydd yn datgan sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol fanwl ac sydd yn eu galluogi i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen, ac i sicrhau y gwneir darpariaethau i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Datganiad yr Ymddiriedolwyr Ynglyn a Datgelu Gwybodaeth i'r Archwiliwr**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau cyn belled ac maent yn ymwybodol, nad oes dim gwybodaeth perthnasol nad yw archwiliwr yr elusen yn ymwybodol ohonno. Maent wedi cymeryd pob cam y dylent fel ymddiriedolwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sicrhau fod archwiliwr yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth.

Ymddiriedolwr Awdurdodedig: Miss Gwen Tomos – Cadeirydd y Bwrdd

**Cafodd yr Adroddiad ei chymeradwyo**

**Llofnod:**

**Miss Gwen Tomos – Cadeirydd**

**Dyddiad:**

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Antur Waunfawr**

**Barn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Waunfawr am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2025 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, , 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2025, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ein barn**

Rydym wedi cynnel ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

**Canlyniadau ynglŷn a busnes byw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y gwybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysiedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wyboadaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

**Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmniau 2006**

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynnion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglyn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmniau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;

- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:
- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:
- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau

neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu‘r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae’n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i’r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw’r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi’r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.

- Asesu y cyflwyniad cyffredinol , strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw’r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda’r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

**Defnyddio ein adroddiad**

Mae’r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau’r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a’r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau’r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae’n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau’r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

*David Chidley* (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a’i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
Ll55 1AB

Dyddiad:

**Antur Waunfawr**
**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2025 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2024 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | *3* | 2,849 | 224,697 | 227,546 | 130,222 |
| Grant Cyfalaf – Sied Werdd | | - | - | - | 376,662 |
| Grant Cyfalaf – Beics i Bawb | | - | - | - | 27,865 |
| Grant Cyfalaf Cronfa Economi Gylchol | | - | 25,000 | 25,000 | - |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | *4* | 1,918,063 | - | 1,918,063 | 1,791,034 |
| Incwm Warws Werdd | *4* | 409,496 | - | 409,496 | 414,172 |
| Incwm Caer Gylchu | *4* | 628,526 | - | 628,526 | 589,733 |
| Incwm Beics Menai | *4* | 76,640 | - | 76,640 | 92,928 |
| Incwm arall | | 150 | - | 150 | - |
| Llog | | 1,227 | - | 1,227 | 2,313 |
| ***Cyfanswm incwm*** | | 3,036,950 | 249,697 | 3,286,647 | 3,424,929 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | *5* | 3,113,649 | 262,986 | 3,376,635 | 3,058,416 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | 3,113,649 | 262,986 | 3,376,635 | 3,058,416 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | (76,699) | (13,289) | (89,988) | 366,513 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | (76,699) | (13,289) | (89,988) | 366,513 |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2024 | | 3,941,791 | 1,618,434 | 5,560,225 | 5,193,712 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2025 | | 3,865,092 | 1,605,145 | 5,470,237 | 5,560,225 |

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau.

## Antur Waunfawr

***Mantolen** ar 31ain Mawrth 2025*
**(*Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1832813)***

| | Nodiadau | | 2025 £ | | 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddiannau Sefydlog** | | | | | |
| Buddiannau sefydlog dirweddol | ***12*** | | 4,568,741 | | 4,623,776 |
| **Buddiannau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | ***13*** | 22,906 | | 27,045 | |
| Dyledwyr | ***14*** | 300,100 | | 794,334 | |
| Arian mewn banc ac mewn llaw | | 638,365 | | 260,701 | |
| | | 961,371 | | 1,082,080 | |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn* | ***15*** | (59,875) | | (145,631) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 901,496 | | 936,449 |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 5,470,237 | | 5,560,225 |
| **Asedau Net** | | | 5,470,237 | | 5,560,225 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| **Cronfeydd Incwm** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | ***19*** | | 3,865,092 | | 3,941,791 |
| Cronfeydd cyfyngedig | ***19*** | | 1,605,145 | | 1,618,434 |
| | | | 5,470,237 | | 5,560,225 |

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r darpariaethau arbennig ar gyfer cwmnïau bach o dan Ran 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

........................................................

**Miss Gwen Tomos (Cyfarwyddwr)** **Dyddiad**:

## Antur Waunfawr

**Datganiad ynghylch llif arian** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

| | Nodyn | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | ***17*** | 409,968 | (22,112) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 1,227 | 2,313 |
| Derbyniadau o werthiant asedau sefydlog | | 150 | 15,610 |
| Prynu asedau sefydlog | ***12*** | (20,194) | (561,696) |
| **Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi** | | (18,817) | (543,773) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ad-daliad oblygiadau hur bwrcas | | (13,487) | (13,623) |
| **Arian a dderbynwyd o weithgareddau ariannu** | | **(13,487)** | **(13,623)** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian** | | **377,664** | **(579,508)** |
| Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2023 | | 260,701 | 840,209 |
| **Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2024** | | 638,365 | 260,701 |

## Antur Waunfawr

### Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddiwyd i dderbyn asedau sefydlog at ddefnydd yr elusen *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2025 £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | (76,699) | (13,289) | (89,988) | 366,513 |
| Adnoddau a ddefnyddiwyd i dderbyn Asedau sefydlog net | (20,194) | - | (20,194) | (561,696) |
| Symudiad net mewn cronfeydd ar gael at weithgareddau y dyfodol | (96,893) | (13,289) | (110,182) | (195,183) |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

**1. Polisïau cyfrifyddol**

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

**a) Sail paratoi cyfrifon**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae Antur Waunfawr yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

**b) Cyfrifo cronfeydd**

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Mae nod a defnydd y cronfeydd dynodedig wedi eu disgrifio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau'r rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig. Mae'r costau o godi a gweinyddu'r cronfeydd wedi eu nodi yn erbyn y cronfeydd penodedig. Mae nod pob cronfa gyfyngedig wedi eu nodi yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**c) Incwm**

Dangosir incwm yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl.

Cydnabyddir am grantiau llywordraeth a grantiau eraill, boed y grant yn grant refeniw neu gyfalaf, Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl ac nac oes angen gohirio'r incwm.

**ch) Gwariant a TAW anadferadwy**

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

**d) Dosbarthiad costau cynorthwyol**

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 6.

**1 Polisïau cyfrifyddol (ymlaen)**

**dd) Asedau sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu dangos ar sail cost neu ar brisiad y farchnad. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 2% |
| Siediau a thai gwydr | 10% |
| Offer | 20 -33 1/3% |
| Moduron | 20% |

Ni chyfrifir am ddibrisiant ar dir rhyddfreiniol. Nid yw buddiannau sefydlog sydd yn costio llai na £1,000 yn cael eu cyfalafu a byddent yn cael eu dileu ym mlwyddyn prynnu.

**e) Stoc**

Mae stoc yn cynrychioli asedau a brynwyd i ailwerthu. Prisiwyd y stoc ar y lleiaf o gost neu werth net sylweddoladwy. Nid yw eitemau stoc a dderbyniwyd fel rhoddion neu er mwyn dosbarthu yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes maent wedi eu gwerthu neu ddosbarthu.

**f) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwyd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**ff) Arian mewn banc ac mewn llaw**

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

**g) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**nh) Offerynnau ariannol**

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngu ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

**h) Costau pensiwn**

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

**2 Statws y cwmni**

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu'r cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau'r cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni.

**3. Rhoddion a grantiau gwirfoddol**

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2025 £ | Cyfanswm 2024 £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion | 2,849 | 7,000 | 9,849 | 6,486 |
| Grant Cymorth Ieuenctid | - | 2,500 | 2,500 | 5,000 |
| Grant AHF | - | - | - | 4,979 |
| Grant CIST | - | - | - | 2,145 |
| Grant SPF 'Beics i Bawb' | | 157,860 | 157,860 | 95,463 |
| Grant NWRPB | - | - | - | 16,149 |
| Grant Byw'n Iach | - | 7,867 | 7,867 | - |
| Grant West DCP | - | 44,470 | 44,470 | - |
| Cronfa Economi Gylchol | - | 5,000 | 5,000 | - |
| | 2,849 | 224,697 | 227,546 | 130,222 |

**4. Incwm o weithgareddau elusennol**

| | Safle & Cynllun Cartrefu £ | Warws Werdd £ | Caer-Gylchu £ | Beics Menai £ | Cyfanswm 2025 £ | Cyfanswm 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Gwasanaeth | 1,802,587 | 191,568 | 109,234 | 35,928 | 2,139,317 | 2,000,669 |
| Cytundeb Ailgylchu | - | 76,672 | 257,468 | - | 334,140 | 334,140 |
| Incwm Caergylchu | - | - | 261,824 | - | 261,824 | 223,286 |
| Incwm Warws Werdd | - | 141,256 | - | - | 141,256 | 173,941 |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | 107,883 | - | - | - | 107,883 | 99,684 |
| Incwm Beics Menai | - | - | - | 40,712 | 40,712 | 48,017 |
| Incwm arall | 7,593 | - | - | - | 7,593 | 8,130 |
| | 1,918,063 | 409,496 | 628,526 | 76,640 | 3,032,725 | 2,887,867 |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

### 5. Dadansodiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu | Warws Werdd | Caer-Gylchu | Beics Menai | Cyfanswm 2025 | Cyfanswm 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | 1,453,868 | 336,774 | 380,086 | 101,646 | 2,272,374 | 2,101,311 |
| Nwyddau i'w gwerthu a thraul | 320 | 22,864 | 7,640 | 16,828 | 47,652 | 54,996 |
| Cafe/ Bwyd | 11,444 | - | - | - | 11,444 | 5,251 |
| Safle ac adnewyddu | 101,206 | 77,413 | 12,342 | 24,162 | 215,123 | 131,920 |
| Teithio a chostau buddiolwyr | 66,070 | 36,437 | 73,966 | 2,305 | 178,778 | 156,274 |
| Costau swyddfa | 12,902 | 25,230 | 8,206 | 4,308 | 50,646 | 30,503 |
| Hyfforddiant | 7,295 | 809 | 4,146 | 52 | 12,302 | 22,574 |
| Costau staff | - | 4,220 | 791 | - | 5,011 | 4,144 |
| Costau marchnata | 1,462 | 1,250 | 588 | 2,252 | 5,552 | 3,983 |
| Costau proffesiynol | 6,534 | 7,051 | 12,387 | 2,912 | 28,884 | 20,489 |
| Dibrisiant | 3,470 | 19,595 | 12,861 | 18,163 | 54,089 | 42,720 |
| Elw ar werthu asedau | - | - | - | - | - | (2,610) |
| Llogau | - | - | 685 | - | 685 | 1,319 |
| Dyledwyr Drwg | - | - | 243 | - | 243 | - |
| Eraill | - | 826 | - | 809 | 1,635 | 2,159 |
| Costau llywodraethol | 14,073 | 2,955 | 4,420 | 1,329 | 22,777 | 23,408 |
| Costau cynorthwyol | 290,057 | 60,912 | 91,090 | 27,381 | 469,440 | 459,975 |
| | 1,968,701 | 596,336 | 609,451 | 202,147 | 3,376,635 | 3,058,416 |

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £3,376,635 (2024 - £3,058,416). O'r gwariant yma roedd £3,113,649 (2024-£2,895,373) yn anghyfyngedig a £262,986 (2024 - £163,043) yn gyfyngedig.

### 6. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y pedwar gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir sail dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol yn y tabl isod.

| | Sail Dosbarthu | Costau Cynorthwyol Cyffredinol | Llywodraethol | Cyfanswm 2025 | Cyfanswm 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | *Amser staff* | 189,955 | 12,960 | 202,915 | 276,091 |
| Safle ac adnewyddu | *Defnydd* | 76,177 | - | 76,177 | 57,325 |
| Costau Glanhau | *Defnydd* | 34,318 | - | 34,318 | 36,882 |
| Swyddfa | *Defnydd* | 34,665 | - | 34,665 | 35,356 |
| Teithio | *Defnydd* | 3,965 | - | 3,965 | 1,757 |
| Hyfforddiant | *Defnydd* | 447 | - | 447 | 3,275 |
| Hysbysebu a marchnata | *Defnydd* | 3,614 | - | 3,614 | 2,451 |
| Archwilio/Cyfrifydd | *Defnydd* | - | 9,817 | 9,817 | 9,275 |
| Proffesiynnol | *Trafodion* | 105,115 | - | 105,115 | 40,952 |
| Dibrisiant | *Defnydd* | 21,140 | - | 21,140 | 19,633 |
| Eraill | *Trafodion* | 44 | - | 44 | 386 |
| | | 469,440 | 22,777 | 492,217 | 483,383 |

### 7. Incwm net am y flwyddyn

| Nodir yr incwm net ar ôl codi: | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---:|---:|
| Dibrisiant | 75,229 | 62,354 |
| Ffioedd archwilio | 6,917 | 6,435 |
| Archwiliwr – ffioedd eraill | 2,900 | 2,840 |

### 8. Costau staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

| | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---:|---:|
| Cyflogau | 2,150,298 | 2,071,796 |
| Cyflogau gweithwyr | 47,341 | 47,206 |
| Yswiriant cenedlaethol | 179,483 | 168,602 |
| Costau pensiwn | 96,634 | 89,798 |
| | 2,473,756 | 2,377,402 |

Cyfanswm nifer cyflogedig ar sail blwyddyn cyflawn oedd 182 (*2024 – 163*). Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli gan ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2024 – Dim)*. Ni wnaed taliadau i ymddiriedolwyr yr elusen am gostau a achoswyd *(2024 – Dim)*. Ni wnaethpwyd taliad am wasanaethau proffesiynol nac am wasanaethau eraill i ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2024 – Dim)*.

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tim rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £208,311 *(2024 - £226,292)*.

| | 2025 Nifer | 2024 Nifer |
|---|---:|---:|
| Prif weithredwr | 1 | 1 |
| Uwch reolwyr | 3 | 3 |
| Rheolwyr | 13 | 13 |
| Safle | 36 | 23 |
| Ail Gylchu | 12 | 17 |
| Warws Werdd | 5 | 3 |
| Cynllun Cartrefu | 34 | 26 |
| Beics Menai | 3 | 3 |
| Gweinyddol | 4 | 4 |
| Gweithwyr gyda anabledd | 71 | 70 |
| | 182 | 163 |

### 9. Trafodion Partion Cysylltiedig

Ni fu trafodion gyda partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Nid oedd symiau yn ddyledus i na dyledus gan bartïon cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn *(2024 - £Dim)*.

### 10. Grantiau Llywodraeth

Mae incwm grantiau llywodraeth yn cynnwys cytundebau gwasanaeth gyda awdurdodai lleol i ffynonellau gwasanaethau buddiannol i fuddiolwyr yr elusen.

### 11. Treth gorfforaeth

Mae gan Antur Waunfawr eithriad o dreth ar incwm ac enillion dan Adran 505 o Ddeddf Treth 1988 ac adran 252 o'r Ddeddf Treth Enillion Cyfalaf 1992 i'r eithaf eu defnyddir at ei nodau elusennol.

### 12. Buddiannau sefydlog

| | *Tir ac Adeiladau* £ | *Offer* £ | *Moduron* £ | *Cyfanswm* £ |
|---|---|---|---|---|
| ***Cost/Gwerth*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2024 | 4,720,968 | 549,426 | 142,602 | 5,412,996 |
| Ychwanegiadau | - | 2,039 | 18,155 | 20,194 |
| Gwarediadau | - | - | (18,153) | (18,153) |
| Ar 31ain Mawrth 2025 | 4,720,968 | 551,465 | 142,604 | 5,415,037 |
| ***Dibrisiant*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2024 | 287,883 | 425,316 | 76,021 | 789,220 |
| Cost am y flwyddyn | 23,645 | 26,693 | 24,891 | 75,229 |
| Rhyddhawyd ar warediadau | - | - | (18,153) | (18,153) |
| Ar 31ain Mawrth 2025 | 311,528 | 452,009 | 82,759 | 846,296 |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | | |
| Ar 31ain Mawrth 2025 | 4,409,440 | 99,456 | 59,845 | 4,568,741 |
| Ar 31ain Mawrth 2024 | 4,433,085 | 124,110 | 66,581 | 4,623,776 |

Yn gynwysedig yn y £4,568,741 mae £20,000 sydd yn werth tir yn Waunfawr ac £38,599 o dir yng Nghaernarfon. Ail brisiwyd y tir ac adeiladau yn Waunfawr ac Warws Werdd yng Nghaernarfon gan Dafydd Hardy, syrfewyr siartredig yn mis Mawrth 2020. Rhoddwyd gwerth y tir ac adeiladau yn Waunfawr fel £2,165,000. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod y gwerth yma yn briodol ar 31 Mawrth 2025 o ystyried yr amodau economaidd presennol. Cost gwreiddiol yr asedau sefydlog yw £4,722,218 (2024-£4,722,218) a buasai dibrisiant o £268,046, (2024- £246,800) wedi ei godi arnynt.

### 13. Stoc

| | **2025** £ | **2024** £ |
|---|---|---|
| Cynnwys stoc: | | |
| Stoc Warws Werdd | 5,145 | 11,561 |
| Stoc Beics Menai | 4,800 | 5,200 |
| Stoc siop | 8,419 | 7,032 |
| Stoc cafe | 1,522 | 812 |
| Stoc Caergylchu | 3,020 | 2,440 |
| | 22,907 | 27,045 |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

### 14. Dyledwyr

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Grantiau, cytundebau a dyledwyr masnachol | 203,842 | 713,369 |
| Dyledwyr eraill | 96,258 | 80,965 |
| | 300,100 | 794,334 |

### 15. Credydwyr: *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr masnachol | 19,004 | 125,020 |
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas | - | 13,480 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 131 | 131 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 40,740 | 7,000 |
| | 59,875 | 145,631 |

### 16. Offerynnau ariannol

Yr offerynnau ariannol a fesurir ar sail cost wedi ei amorteiddio yw'r benthyciad hur bwrcas.

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | - | 13,480 |
| Swm yn ddyledus dros blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | - |
| Cyfanswm | - | 13,480 |

### 17. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Symudiad net mewn cronfeydd | (89,988) | 366,513 |
| Llog a dderbyniwyd | (1,227) | (2,313) |
| Dibrisiant | 75,227 | 62,354 |
| Elw ar werthu asedau | (150) | (2,610) |
| (Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc | 4,148 | 4,245 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr | 494,234 | (566,161) |
| Cynydd/(Lleihad) mewn credydwyr | (72,276) | 115,860 |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | **409,968** | **(22,112)** |

**18. Ymroddiad cyfalaf**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan Antur Waunfawr ymroddiad cyfalaf ynglŷn a datblygiad adeiladau o £DIM *(2024 - £DIM ).*

**19. Cronfeydd cyfyngedig**

| | 31 Mawrth 2024 | Trosglwydd -iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 326,996 | - | (10,548) | - | 316,448 |
| Sgubor Grefftau | 8,034 | - | (261) | - | 7,773 |
| Grant Cae Chwarae | 18,900 | - | (1,080) | - | 17,820 |
| Rhoddion | - | - | 7,000 | - | 7,000 |
| Grant Clothworkers Foundation | 2,650 | - | (2,650) | - | - |
| Grantiau Porth Yr Aur | 540,466 | - | (5,648) | - | 534,818 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 41,074 | - | (20,537) | - | 20,537 |
| Grantiau Sied Werdd | 652,449 | - | (3,992) | - | 648,457 |
| Grant SPF 'Beicio i Bawb' | 27,865 | - | (5,573) | - | 22,292 |
| Grant Economi Gylchol | - | - | 30,000 | - | 30,000 |
| | 1,618,434 | - | (13,289) | - | 1,605,145 |

| | 31 Mawrth 2023 | Trosglwydd -iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 337,544 | - | (10,548) | - | 326,996 |
| Sgubor Grefftau | 8,295 | - | (261) | - | 8,034 |
| Grant Cae Chwarae | 19,980 | - | (1,080) | - | 18,900 |
| Rhoddion | 1,233 | - | (1,233) | - | - |
| Grant Clothworkers Foundation | 2,650 | - | - | - | 2,650 |
| Grantiau Porth yr Aur | 546,114 | - | (5,648) | - | 540,466 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 61,611 | - | (20,537) | - | 41,074 |
| Grantiau Sied Werdd | 275,787 | - | 376,662 | - | 652,449 |
| Grant SPF 'Beicio i Bawb' | - | - | 27,865 | - | 27,865 |
| | 1,254,214 | - | 365,220 | - | 1,618,434 |

**Cronfeydd anghyfyngedig**

| | Balans 31 Mawrth 2024 £ | Trosglwy-ddiadau £ | Adnoddau Cyllid £ | Ail Brisio £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,800,550 | (40,100) | (76,699) | - | 2,683,751 |
| Cronfa Ailbrisio | 521,620 | (2,156) | - | - | 519,464 |
| | 3,322,352 | (42,256) | (76,699) | - | 3,203,397 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Wrth Gefn | 619,439 | 42,256 | - | - | 661,695 |
| | 3,941,791 | - | (76,999) | - | 3,865,092 |

| | Balans 31 Mawrth 2023 £ | Trosglwy-ddiadau £ | Adnoddau Cyllid £ | Ail Brisio £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,590,290 | 208,967 | 1,293 | - | 2,800,550 |
| Cronfa Ailbrisio | 523,776 | (2,156) | - | - | 521,620 |
| | 3,114,248 | 206,811 | 1,293 | - | 3,322,352 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 229,500 | (229,500) | - | - | - |
| Cronfa Wrth Gefn | 596,750 | 22,689 | - | - | 619,439 |
| | 3,940,498 | - | 1,293 | - | 3,941,791 |

**20. Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr asedau net ar 31ain Mawrth 2025**

| | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Dynodedig £ | Cronfa Gyffredinol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 1,605,145 | - | 2,963,596 | 4,568,741 |
| Asedau Cyfredol Net | - | 661,695 | 239,801 | 901,496 |
| Cyfanswm asedau net | 1,605,145 | 661,695 | 3,203,397 | 5,470,237 |

## Antur Waunfawr

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

Prif weithgaredd y cwmni yw darparu gwaith a hyfforddiant i bobl ag anabledd dysgu, a thrwy hynny gwasanaethu'r gymuned.

**Cronfeydd Dynodedig a chyfyngedig**

Mae'r cwmni wedi penderfynu ymrwymo arian sydd ar gael wrth gefn er mwyn datblygu eiddo Sied Werdd.

Mae swm yn cynrychioli tri mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn i gyfarfod unrhyw heriau annisgwyl h.y £661,695 ar hyn o bryd. Mae hyn yn unol a chanllawiau ymarfer da y Comisiwn Elusennau ac yn cyfarfod ag amcanion Llywodraethu Da Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

21. **Dadansoddiad o gronfeydd y flwyddyn flaenorol**

**Antur Waunfawr**

**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2025*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2024 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2023 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | ***3*** | 6,486 | 123,736 | 130,222 | 65,916 |
| Grant Cyfalaf – Sied Werdd | | - | 376,662 | 376,662 | 275,787 |
| Grant Cyfalaf – Beics i Bawb | | - | 27,865 | 27,865 | - |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | ***4*** | 1,791,034 | - | 1,791,034 | 1,681,199 |
| Incwm Warws Werdd | ***4*** | 414,172 | - | 414,172 | 413,166 |
| Incwm Caer Gylchu | ***4*** | 589,733 | - | 589,733 | 585,122 |
| Incwm Beics Menai | ***4*** | 92,928 | - | 92,928 | 97,963 |
| Llog | | 2,313 | - | 2,313 | 124 |
| ***Cyfanswm incwm*** | | 2,896,666 | 528,263 | 3,424,929 | 3,119,277 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | ***5*** | 2,895,373 | 163,043 | 3,058,416 | 2,888,538 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | 2,895,373 | 163,043 | 3,058,416 | 2,888,538 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | **1,293** | **365,220** | **366,513** | **230,739** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | 1,293 | 365,220 | **366,513** | **230,739** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2023 | | 3,940,498 | 1,253,214 | 5,193,712 | 4,962,973 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2024 | | 3,941,791 | 1,618,434 | 5,560,225 | 5,193,712 |

ANTUR WAUNFAWR

England & Wales - Charity number 515445

# Accounts

# ANTUR WAUNFAWR
**(Cwmni yn gyfyngedig trwy warant)**

## ADRODDIAD a DATGANIADAU ARIANNOL

## BLWYDDYN HYD AT: 31 MAWRTH 2024

**Rhif Elusen: 515445**

**Rhif Cwmni: 01832813**

**ANTUR WAUNFAWR**

**GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL:**

| | |
|---|---|
| **Rhif Cofrestru'r Elusen:** | **515445** |
| **Rhif Cofrestru'r Cwmni:** | **1832813** |

**Ymddiriedolwyr**

**Aelodau'r Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Miss. Gwen Tomos | Cadeirydd |
| Mr. Huw Ynyr | Is-gadeirydd |
| Mr Rhys Evans | |
| Mr. Daron Harris | |
| Mrs. Sara Mair Tomos | |
| Mrs. Anna Ll. Williams | |
| Mrs. Lowri Huws Jones | |
| Dr. Catrin Ellis Williams | |
| Mr. Terry Parry | |
| Miss. Mared Ynyr | |
| Ms. Carol Davies Owen | |
| Mr Dafydd Davies | Penodwyd 24.07.23 |
| Mr Tudur Owen | Penodwyd 20.11.23 |
| Mrs. Ellen Thirsk | Ysgrifenyddes |

**Y Tîm Rheoli:**

| | |
|---|---|
| Ellen Thirsk | Prif Weithredwraig |
| Stephen Goodwin | Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl |
| Haydn Jones | Uwch Reolwr Tri Busnes Gwyrdd |
| Sioned Hughes | Rheolwraig Cyllid |
| Gwenlli Mai Wynne | Rheolwraig Datblygu Busnes |
| Elain Hughes | Rheolwraig Datblygu Busnes |
| Glesni Lewis | Rheolwraig Adnoddau Dynol |
| Margaret Jones | Rheolwraig Cydymffurfio ac Ansawdd |

**Swyddfa Gofrestredig a Gweinyddol:**
Bryn Pistyll
Waunfawr
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4BJ

**Cyfreithwyr:**
Iestyn T. Harris, Carter Vincent LLP, The Port House, Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN

**Bancwyr:**
Banc Barclays, Grŵp Canghennau Gwynedd, Bangor, Gwynedd

**Archwilwyr:**
W.J. Matthews a'i Fab, 11-15 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

**ADRODDIAD BWRDD YMDDIRIEDOLWYR ANTUR WAUNFAWR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

## RHAGAIR

Cofnod o waith Antur Waunfawr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 yw'r adroddiad hwn. Mae sylw yma i waith a phrosiectau'r Antur a nodir y llwyddiannau a'r holl a gyflawnwyd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd â'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y cwmni, a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Antur Waunfawr a wnaed yn Gwmni Corfforedig ar 13eg Gorffennaf 1984 ac a gofrestrwyd yn Elusen ar 6ed Awst 1984. Sefydlwyd y Cwmni o dan Femorandwm y Cwmni sy'n sefydlu amcanion ac awdurdod y cwmni elusennol hwn ac yn cael ei reoli gan Erthyglau'r Cwmni.

## GWELEDIGAETH ANTUR WAUNFAWR

Gweledigaeth Antur Waunfawr yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i integreiddio i'r gymuned leol a chyflawni gwaith go iawn gyda phwrpas: Rydym yn Fenter Gymdeithasol flaenllaw sydd yn cynnig cyfleoedd iechyd a llesiant, hyfforddiant a gwaith amrywiol iawn yn ei natur i unigolion ag anableddau dysgu. Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n gwaith. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwaith i'n hunigolion, mae gan yr Antur nifer o fusnesau llewyrchus, a chaiff yr holl elw ei ail fuddsoddi yn y gwasanaeth i unigolion efo anableddau dysgu ac ein cymuned leol.

Mae ein nod o integreiddio pobl ag anableddau dysgu i'r gymuned ym mhob agwedd bosib - boed yn waith neu weithgareddau cymdeithasol, yn rhinwedd sydd yr un mor bwysig heddiw ag yr oedd pan sefydlwyd yr Antur.

## NOD AC AMCANION

Mae'r Bwrdd yn trafod pwrpas yr elusen yn rheolaidd ac yn ei gadw mewn cof wrth gynllunio a datblygu ei strategaeth ar gyfer y Cwmni.

Rydym yn cyflawni ein nodau ac amcanion drwy:

- ddarparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i unigolion ag anableddau a'r difreintiedig
- ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid
- ddarparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat
- ddatblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar mewn cynlluniau personol unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd a gwaith yr Antur
- hyrwyddo integreiddio a byw yn iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant a hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion yr unigolion
- ddarparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd
- ddatblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach, a gwarchod yr amgylchedd
- ein canolbwynt newydd llesiant a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon
- fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

## SUT MAE EIN GWEITHGAREDDAU YN CREU BUDD CYHOEDDUS

Drwy weithredu'r amcanion uchod, rydym yn ateb anghenion ein hunigolion gydag anableddau dysgu a'r gymdeithas ehangach.

Mae gweithgareddau Antur Waunfawr yn creu budd cyhoeddus drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cynaliadwyedd amgylcheddol, a datblygiad economaidd o fewn y gymuned. Trwy ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ystyrlon i unigolion ag anableddau dysgu, mae Antur Waunfawr yn hybu annibyniaeth ac yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer unigolion a byddai ddim yn cael y cyfleoedd yma fel arall. Yn ogystal, mae ffocws y sefydliad ar ailgylchu, ailddefnyddio, ac arferion cynaliadwy, megis ein gwaith yn Warws Werdd, Caergylchu a Beics Antur sy'n helpu i leihau gwastraff ac effaith amgylcheddol, gan rhoi budd cymunedol ehangach. Trwy'r ymdrechion hyn, mae Antur Waunfawr yn cefnogi economi leol ac amgylchedd sy'n fwy cynhwysol a chynaliadwy.

## CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Mae Antur Waunfawr wedi ymrwymo i gyfarch ysbryd ac amcanion Deddfau Llywodraeth Cymru, yn bennaf;

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd, a llesiant unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan Antur Waunfawr. Mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau, ac yn sicrhau fod y cynnwys yn treiddio trwy weithgareddau, prosiectau a gofalaeth Antur Waunfawr. Byddwn yn gweithredu'n unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn berthnasol i brosiect Beics Antur.

Wrth lunio ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gweithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, gan gynnwys y canllaw 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

Mabwysiadodd yr Antur Ddatganiad Llesiant yn 2016, ac mae'r datganiad yma yn sail i'n darpariaethau llesiant wrth ddatblygu ein gweithgareddau a phrosiectau iechyd a lles i'r dyfodol.

**Datganiad Llesiant Antur Waunfawr:**

> "Hyrwyddo llesiant, iechyd da a hapusrwydd, a galluogi unigolion fydd conglfeini gwasanaethau Antur Waunfawr i'r dyfodol.
>
> Darperir gofal, cefnogaeth weithgar, hyfforddiant a gwaith ystyrlon mewn modd effeithlon a chymesur i ateb gofynion pobl ag anableddau dysgu a phobl ddifreintiedig yn lleol.
>
> Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.
>
> Ein nod yw creu cymdeithas arloesol, gyfartal, gynhyrchiol a charbon isel trwy feithrin teulu o fusnesau cynaliadwy yn lleol - cychwyn wrth ein traed a gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau llesiant a chymunedau gwydn."

Mae gan Antur Waunfawr sawl adran lwyddiannus sy'n cynnig cyfleoedd gwaith, hyfforddiant, cyfleoedd llesiant a gwasanaethau amrywiol i unigolion ag anableddau dysgu, a phobl ddifreintiedig.

## YMDDIRIEDOLWYR

**Aelodau'r Bwrdd:**


| | |
|---|---|
| Miss. Gwen Tomos | Cadeirydd |
| Mr. Huw Ynyr | Is-gadeirydd |
| Mr. Rhys Evans | |
| Mr. Daron Harris | |
| Mrs. Sara Mair Tomos | |
| Mrs. Anna Ll. Williams | |
| Mrs. Lowri Huws Jones | |
| Dr. Catrin Ellis Williams | |
| Mr. Terry Parry | |
| Miss. Mared Ynyr | |
| Ms. Carol Davies Owen | |
| Mr. Tudur Owen | Penodwyd 20/11/2023 |
| Mr. Dafydd Glyn Davies | Penodwyd 24/07/2023 |
| Mrs. Ellen Thirsk | Ysgrifenydd |


### Recriwtio a Phenodi'r Bwrdd Rheoli

Mae Cyfarwyddwyr y Cwmni yn ymddiriedolwyr elusennol yn ôl gofynion y gyfraith elusennol. Fe'u hadwaenir yn ôl Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni fel 'Cyfarwyddwyr' neu fel 'Aelodau'r Bwrdd'. Hefyd, mae'r Erthyglau'n gosod amod mai am flwyddyn ar y tro y byddant yn gwasanaethu a bod rhaid ethol neu ail-ethol dim mwy na 15 Cyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Rydym yn ffodus fod gennym amrediad da o arbenigedd a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor i'r tîm rheoli yn y meysydd sy'n berthnasol i waith y cwmni e.e. cyllid a busnes, cyfreithiol, moeseg, yswiriant, iechyd, gofal cwsmer, ailgylchu, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau digidol arbenigol, iaith a lleferydd.

### Ymddiriedolwyr Newydd

**Tudur Owen**
Mae gan Tudur dros 30 mlynedd o brofiad yn y byd darlledu ac adloniant drwy ei waith fel perfformiwr, awdur a chyfarwyddwr. Yn ogystal a hyn mae ganddo brofiad helaeth o sefydlu a rhedeg busnesau lletygarwch llwyddiannus yn yr ardal.

*"Mae o'n fraint cael bod yn rhan bach o Antur Waunfawr a dwi'n gobeithio y byddaf yn gallu defnyddio fy mhrofiadau ym myd y cyfryngau a chyfathrebu yn ogystal a'r diwydiant lletygarwch a manwerthu i helpu'r sefydliad pwysig yma barhau i wneud gwahaniaeth i fywydau gymaint yn ein cymuned"*

**Dafydd Glyn Davies**
Mae Dafydd yn uwch reolwr profiadol, wedi arfer â chyflawni prosiectau a rhaglenni o'r dechrau i'r diwedd, gan arwain a datblygu busnesau ar sail ryngwladol, gan weithio'n agos gyda chleientiaid a rhanddeiliaid allweddol. Dychwelodd Dafydd i Gymru i sefydlu ac arwain BIC ym Mangor, sef y busnes gwasanaethau arloesi mwyaf blaenllaw yng Nghymru; bu Dafydd yn ymwneud yn helaeth ag arwain prosiectau a rhaglenni ar gyfer cleientiaid BIC. Sefydlodd BrynTeg Consulting ar ôl gadael.

*"Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad Antur Waunfawr fel aelod o'r Bwrdd unwaith eto, o safbwynt cymydog agos i'r Antur yn Waunfawr a chefnogwr brwd o'r gwaith pwysig mae'n gwneud yn lleol a thu hwnt. Ar ôl gyrfa busnes hir mae'n braf cael y cyfle a'r amser i gyfrannu'n lleol fel cynghorydd cymuned a helpu llywio'r fenter ynni cymunedol newydd Gwyrfai Gwyrdd".*

### Anwythiad a Hyfforddiant Ymddiriedolwyr

Caiff pob aelod o'r Bwrdd ffeil gyda manylion y strwythur rheolaethol a'r polisïau ynddi. Mae'r Brif Weithredwr yn treulio amser gyda chyfarwyddwyr newydd, yn eu hanwytho drwy drefnu ymweliadau â'r safleoedd ac ateb eu cwestiynau.

**STRWYTHUR Y TÎM RHEOLI**

**Rheolwyr Gweithredol**
Cynhelir cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli a Thîm Rheoli yn rheolaidd. Bydd cynrychiolydd pob adran hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda'u timau yn ogystal â Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Gweithgor Meddiannau a'r Gweithgor TGCh. Mae Is-bwyllgorau Bwrdd wedi'u sefydlu er mwyn gweithredu ar benderfyniadau neu adolygiadau – gan gynnwys Is-bwyllgor Personél, yr Is-bwyllgor Polisïau, Is-bwyllgor Cyllid, a'r Is-bwyllgor Datblygu. Yn ystod y flwyddyn mae'r rhain i gyd yn bwydo adroddiadau i'r Tîm Rheolaethol, yn ogystal â'r Bwrdd.

***Ellen Thirsk, Prif Weithredwr***
Mae gan y Brif Weithredwr, Ysgrifennydd y Cwmni ac Unigolyn Cyfrifol brofiad a chymhwyster yn y meysydd adnoddau dynol, datblygu gwasanaethau, busnes a chyllid, iechyd a diogelwch, iechyd a llesiant ac yn ymrwymedig i bolisïau a safonau megis ISO, ac mae ganddi'r awdurdod mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd i weithredu ar yr holl faterion yma. Mae Ellen yn Gyfarwyddwr i Galeri, Menter Gymdeithasol a Chreadigol yng Nghaernarfon ac yn Gadeirydd i gorff Llywodraethwyr Ysgol Pendalar. Mae hi wedi gwirfoddoli i'r Samariaid am gyfnod o 15 mlynedd yn y gorffennol ac wedi cael trawstoriad o brofiadau rheoli mewn Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol dros gyfnod o 33 mlynedd. Mae Ellen yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth ac Iechyd a Diogelwch (NEBOSH).

***Stephen Goodwin, Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl***
Mae Stephen yn aelod o Grŵp Trawsffurfio Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd. Mae ganddo dros 28 mlynedd o brofiad yn y maes gofal a chanddo brofiad helaeth o ddatblygu Gwasanaethau Gofal a chyfleoedd Iechyd a Llesiant ar gyfer unigolion. Mae wedi cymhwyso fel Rheolwr Cofrestredig lefel 4 ac eisoes wedi bod yn berson cyfrifol ar y Gwasanaeth Gofal cyn newidiadau yn Rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae Stephen hefyd wedi cwblhau cyrsiau mewn arweinyddiaeth a rheoli staff.

***Haydn Jones, Uwch Reolwr Busnesau Gwyrdd***
Mae Haydn Jones yn bresennol ar secondiad am gyfnod o flwyddyn. Mae ganddo brofiad helaeth o annog unigolion yng Nghymru a dramor tra roedd yn gweithio yn yr America drwy ei waith 'coaching' gyda thrawstoriad o unigolion (abl ac anabl). Mae ganddo brofiad eang o reoli ac mae'n gyfrifol am reoli a rhedeg gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu o fewn yr Antur. Mae wedi cymhwyso i lefel graddedig (MA) mewn Addysg ac mae wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau rheoli, ac wedi cwblhau NVQ Lefel 3 mewn Ailgylchu.

| | |
|---|---|
| Sioned Hughes | Rheolwr Cyllid |
| Gwenlli Wynne | Rheolwr Datblygu Busnes |
| Elain Hughes | Rheolwr Datblygu Busnes |
| Glesni Lewis | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Margaret Jones | Rheolwr Cydymffurfio ac Ansawdd |
| Ceri Hughes | Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu |
| Eleri Jones | Rheolwr Gweinyddol |
| Sian Williams | Rheolwr Iechyd a Llesiant a Rheolwr Cofrestredig (Gwasanaethau Aml Ofynion a Tai a Chefnogaeth) |
| Gwenllian Evans | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth) |
| Ifan Tudur | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth) |
| Dewi Jones | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Dydd Safle Waunfawr) |
| Allison Evans | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Cyfnod mamolaeth) |
| Cara Evans | Rheolwr Iechyd a Llesiant (Gwasanaethau Dydd Tri Busnes Gwyrdd) |
| Sion Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Ailgylchu |
| Malcolm Allen | Rheolwr Warws Werdd a Llinell Blastigion |
| Tom Workman | Rheolwr Beics Antur |

**GOFAL A CHEFNOGAETH**

**Unigolion Antur Waunfawr**

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig cytundebau gwasanaeth neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu'r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy'n cael ei gyfeirio atom, ac i sicrhau adnoddau teg i roi'r gwasanaeth gorau posib i'n unigolion. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo'r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

Erbyn heddiw mae'r Antur yn cynnig cefnogaeth i dros 70 o unigolion ag anableddau dysgu dros ein 4 safle gwaith a thai.

**Cynllun Cartrefu**
Yn ein hadroddiad blynyddol, rydym yn falch o dynnu sylw at brosiect Cynllun Cartrefu'r Antur, sy'n amlygu ein hymrwymiad i sicrhau bod gan unigolion ag anableddau dysgu'r hawl i fyw bywydau boddhaus a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd fel pawb arall. Gan gydnabod bod pob person yn wahanol, rydym yn darparu cymorth person-canolog sy'n sicrhau fod y cymorth wedi ei deilwra ar gyfer yr unigolion yn unol â'u hanghenion. Mae Cynllun Cartrefi'r Antur yn cefnogi 13 o unigolion ar draws 10 cartref, gan roi'r cyfle iddynt reoli eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth gan ein gweithwyr cefnogol. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau byw'n annibynnol, derbyn cefnogaeth gynhwysfawr gyda materion ariannol, cymorth gyda siopa a chynnal diet iach, a chymorth gydag apwyntiadau meddygol. Yn ogystal, rydym yn cynnig cefnogaeth o fewn y gymuned, megis mynychu digwyddiadau a sioeau. Drwy gydol y flwyddyn, mwynhaodd sawl unigolyn wyliau a thripiau i Harrogate, York a Langollen gan atgyfnerthu rôl y cynllun o ran gwella annibyniaeth ac integreiddio unigolion i'w cymuned.

Isod mae esiampl o sut mae darparu cefnogaeth person-canolog yn y cynllun yn cael effaith cadarnhaol ar fywydau ein hunigolion.

Ymweliad cyntaf i'r deintydd:

*Cai* wedi derbyn taflen wybodaeth y noson gynt ac wedi cael cyfle i fynd drwyddo efo staff. Yn y bore, staff wedi mynd drwy'r daflen wybodaeth unwaith eto gyda *Cai*. O ganlyniad, mae'r Gweithiwr Cefnogol wedi medru mynd â fo i'r deintydd, mae *Cai* wedi eistedd yn y gadair a'r deintydd wedi gallu edrych ar ei ddannedd a phopeth yn iawn. Heb y gefnogaeth yma gan staff mi fysa *Cai* wedi dangos ymddygiad o bryder, ac o ganlyniad heb fynychu ei apwyntiad deintydd.

*"It just goes to show that … the crux to working with *Cai* – if he knows in a timely way what will be happening, he can cope with it positively. I'm so pleased he finally has a staff team who all understand that".*

*Sally Gadsby, Therapydd Lleferydd a Iaith*

**Aml Ofynion**
Mae'r gwasanaeth aml-ofynion yn Antur Waunfawr yn cynnig cefnogaeth un-i-un a chyfleoedd iechyd a llesiant i unigolion gydag anableddau mwy dwys yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth, sydd ar gael 6 diwrnod yr wythnos, yn cynnwys sesiynau lles ar ein safle yn Waunfawr, megis cerddoriaeth, carioci, ac arlunio, yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned, sef nofio, dringo, beicio gyda sesiynau Tonic yn Galeri Caernarfon yn un o'r ffefrynnau. Ar benwythnosau, rydym yn cynnig gwasanaeth hamddenol gyda thripiau lleol amrywiol, sy'n darparu ysbaid gwerthfawr i rieni.

Mae'r ystafell synhwyraidd ym Mhorth yr Aur yn cynnig boddhad mawr i sawl unigolyn, ac rydym wedi galluogi aelodau o'n staff i arbenigo mewn cyfathrebu drwy gydweithio â therapyddion iaith, gan wella'n darpariaeth cyfathrebu. Yn ogystal, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm ymddygiad cadarnhaol Cyngor Gwynedd i ddatblygu a hyfforddi ein staff, gan wella'r ffordd mae'r unigolion yn cael eu cefnogi.

Mae'r gofal ar gweithgareddau llesiant mae'r adran Aml-Ofynion yn ei ddarparu yn cael effaith cadarnhaol ar yr unigolion rydym yn eu cefnogi. Gydag adborth positif gan deuluoedd a gofalwyr, dywedodd un:

*" Mae *Anna* yn mwynhau ei hamser yn Antur… yn edrych ymlaen i gael dŵad pob diwrnod, ac wedi datblygu perthynas da iawn hefo eich staff… rydym yn teimlo ein bod yn medru cysylltu gyda chi unrhyw dro"*

**Byngalo llety a chefnogaeth**
Yn dilyn buddsoddiad o gronfeydd Antur Waunfawr a grant Cyfenter, datblygwyd byngalo hygyrch sy'n addas i unigolion gydag anableddau. Symudodd unigolyn i mewn i'r byngalo ym mis Gorffennaf 2023, ac mae bellach wedi ymgartrefu yno ac yn mwynhau yn ei gartref newydd ger safle'r Antur. Yn y dyfodol agos gobeithiwn gynnig llety a chefnogaeth i unigolyn arall yn y byngalo.

## EIN PROSIECTAU

### SAFLE BRYN PISTYLL

Ym Mryn Pistyll, mae Antur Waunfawr yn darparu amgylchedd bywiog a chefnogol lle mae iechyd a lles unigolion yn cael blaenoriaeth. Mae'r safle yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella bywydau'r rhai sy'n cymryd rhan, gan gynnwys sesiynau garddio, cynhyrchu seidr, dawnsio, ioga, pilates, a chrefftau. Mae unigolion hefyd yn cymryd rhan wrth baratoi a gweini cinio yng Nghaffi Blas y Waun, gan feithrin ymdeimlad o gymuned a chyflawniad.

Eleni, mae Antur Waunfawr wedi adeiladu ar ei gydweithrediad gyda Llwybrau Llesiant, gan drefnu gweithgareddau ar y cyd gyda phobl y tu allan i'r Antur, megis mynd i'r sinema a sesiynau bingo. Mae cyfleoedd wythnosol hefyd ar gael i feicio a nofio yng nghanolfan hamdden Byw'n Iach, yn ogystal â sesiynau misol gyda Dreigiau'r Dyffryn lle gall cyfranogwyr ddefnyddio'r trampolîn i gadw'n heini. Mae sesiynau carioci ar y safle wedi dod yn ffordd boblogaidd o ddod â phawb ynghyd, gan greu awyrgylch bywiog a chynhwysol.

Yn ogystal, mae Antur Waunfawr wedi cydweithio ag Ysgol Pendalar i gynnig sesiynau cerddoriaeth wythnosol gyda chefnogaeth Makaton dan arweiniad Mr. T, sy'n rhedeg y cwmni Cerdd Amdani. Daeth y sesiynau hyn yn uchafbwynt yr wythnos i'r unigolion oedd yn cymryd rhan. Bu'r gweithdai'n rhedeg o fis Medi tan ganol mis Rhagfyr, gan arwain at ryddhau eu sengl Nadolig eu hunain. Cafodd y sengl sylw mawr, gyda Heno ar S4C yn rhoi sylw i'w rhyddhau ac eitem ar Radio Cymru. Cafodd y sengl ei henwi'n "Trac yr Wythnos" ar Radio Cymru, gan greu ymdeimlad o falchder a chyflawniad i bawb a fu'n rhan ohoni. Arianwyd y sesiynau yma drwy Grant Cymorth Ieuenctid, Cyngor Gwynedd.

### Caffi Blas y Waun

Y flwyddyn hon, er bod Caffi Blas y Waun wedi bod ar gau i'r cyhoedd, mae unigolion yn Antur Waunfawr wedi parhau i ddatblygu eu sgiliau drwy baratoi a gweini prydau wythnosol ar y safle. Maent yn creu a gweini pryd dwy gwrs, gan gynnal eu harfer coginio a'u hymgysylltiad ac eraill. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lles, gan gynnwys sesiwn gerddoriaeth gydag Ann a Bill bob bore Llun sy'n gosod ton bositif ar gyfer yr wythnos sydd i ddod.

Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, maent yn cynhyrchu Bara Brith, jamiau, a siytni i'w gwerthu mewn ffeiriau lleol, ochr yn ochr â'r seidr. Yn ystod y Nadolig, crëuwyd hamper anrhegion llawn cynnyrch wedi'u wneud a llaw gan unigolion yr Antur, sy'n boblogaeth iawn a'r gymuned leol. Eleni, cynhyrchwyd 35 o'r hamperi hyn.

### Parc natur a gerddi

Ar safle Bryn Pistyll mae 7 erw o erddi a pharc natur, yn ogystal â maes chwarae cynhwysol. Yn ystod y cyfnod, fe arwyddwyd ein cytundebau rhandiroedd i gyd, ac un syniad cyffrous i'r dyfodol yw datblygu'r ochr yma o'r busnes, gan gynnig mwy o randiroedd, yn cynnwys pobl hefo anableddau a darparu sesiynau dysgu sgiliau ayb.

### Bragdy Antur Waunfawr

Mae'r bragdy wedi cael blwyddyn brysur ofnadwy, gyda'r tîm yn Waunfawr yn cynhyrchu amrywiaeth o seidr allan o ffrwythau a thyfir ar y safle neu wedi cael eu rhoi fel rhodd gan aelodau o'r gymuned leol. Galluogodd y casgliad hwn o ffrwythau i ni gynhyrchu 700 o boteli Seidr ffrwyth a 500 potel Seidr plaen, sef 1200 o boteli yn y cyfnod yna.

Mae ein hystod yn cynnwys pedwar blas: canolig sych, rhiwbob, cyrens duon, a mefus. Lansiwyd y seidr mefus ym mis Medi 2023 ac roedd yn llwyddiant mawr, hyd yn oed yn cael sylw ar Heno S4C.

Ym mis Tachwedd, cyflwynwyd gwirod cyrens duon newydd, a ddaeth yn ffefryn mawr ymhlith cwsmeriaid dros gyfnod y Nadolig. Diolch i'n gwefan: **https://perllan.shop/** a'n mynychiad i nifer o ffeiriau Nadolig, cawsom dymor gwerthu prysur iawn wrth i'r Nadolig agosáu. Mae'r unigolion rydym yn eu cefnogi yn rhan annatod o bob agwedd ar y prosiect hwn, o dyfu a chasglu'r ffrwythau i gynhyrchu, potelu, a labelu'r seidr, yn ogystal â thrin danfoniadau—gan roi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu sgiliau. Yn ogystal â gwerthu mewn ffeiriau lleol, megis Gŵyl Fwyd Caernarfon a Hwyl dros yr Aber, a oedd yn llwyddiannus iawn. Mae ein seidr yn cael ei stocio gan nifer o fusnesau lleol, gan gynnwys y Black Boy Inn a Glaslyn Beddgelert, ac mae hefyd yn boblogaidd gyda pherchnogion gwestai lleol sy'n ei gynnwys mewn basgedi croeso i'w gwesteion.

Yn 2023, ffurfiwyd partneriaeth newydd gyda Bragdy Lleu i helpu lleihau nifer y poteli cwrw a seidr sy'n mynd yn wastraff. Fel rhan o'r cydweithrediad hwn, mae Bragdy Lleu yn casglu pob un o'u poteli a ddefnyddiwyd o ffeiriau a'r dafarn y maent yn ei gweithredu o'u bragdy ac yn eu rhoi i'r Antur. Rydym ni wedyn yn glanhau ac yn sterileiddio'r

poteli hyn, gan eu gwneud yn barod i'w hailddefnyddio ar gyfer cynhyrchu ein seidr. Nid yn unig mae'r fenter hon yn lleihau ein costau cynhyrchu, ond mae hefyd yn lleihau gwastraff yn sylweddol, gan hyrwyddo ailgylchu, ailddefnyddio a meithrin partneriaeth gref o fewn y gymuned . Ar gyfartaledd, rydym ni'n derbyn tua 60 potel gan Bragdy Lleu bob ychydig wythnosau.

**WARWS WERDD**

Sefydlwyd Warws Werdd yn 2004 yn dilyn arian gan Gronfeydd Ariannu Ewropeaidd (ERDF) ac LRF Llywodraeth Cymru. Mae’r Warws yn casglu dodrefn a dillad gan y gymuned ac o safleoedd y Cyngor, eu uwchgylchu, eu hail ddefnyddio neu eu paratoi i’w hailgylchu. Mae’r gwasanaeth yn darparu lleoliadau gwaith i 16 o unigolion ag anableddau dysgu, yn ogystal a chyfleoedd iechyd a llesiant. Mae’r Warws yn rhoi cyfle i'r unigolion ddatblygu eu sgiliau mewn amryw eang o swyddi, magu hyder ac yn gyfle i gymdeithasu a trawsdoriad o’r gymuned.

*“Staff caredig, ffrindiau o nghwmpas, staff yn deall fy ymddygiad / anghenion. Diolch am bob dim -rydach chi’n wych!”*

**Dillad**

Mae Prosiect Dillad Antur Waunfawr wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn, gan ehangu ein mentrau ailgylchu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn gweithredu nifer o fanciau dillad ledled Gwynedd ac yn cydweithio’n agos gyda Chyngor Gwynedd i ailgylchu dillad o’u canolfannau ailgylchu. Yn ogystal, rydym yn bartneru gyda Thyddyn Môn i ymestyn ein hymdrechion ailgylchu ar draws Ynys Môn. Mae rhan allweddol o'n gwaith yn cynnwys partneriaethau gydag ysgolion yng Ngwynedd lle rydym wedi gosod banciau dillad ar safleoedd ysgolion. Am bob cilogram o ddillad a ailgylchir, mae ysgolion yn derbyn arian gan y Warws, sydd wedyn wedi’i ddefnyddio ar gyfer amryw o brosiectau. Yn nodedig, mae un ysgol wedi defnyddio’r arian i adeiladu maes chwarae i’w disgyblion. Mae’r prosiect hwn nid yn unig yn hyrwyddo cynaliadwyedd ond hefyd yn darparu cymorth gwerthfawr i gymunedau lleol.

Ar ol i ni gasglu a didoli y dillad yn y Warws, mae gweddill y dillad yn cael ei yrru i'n partneriaid Roberts Recycling LTD, byddent yn sicrhau bod yn dillad yn cael ei hailgylchu neu ailddefnyddio yn gyfrifol.

Dros y flwyddyn, cafodd 447 tunnell o ddillad eu brosesu drwy’r Warws, roedd 11 tunnell yn fwy na’r llynedd, gyda mis Ionawr 2024 yn un o'r prysura rydym wedi ei weld eto. Ar gyfartaledd mae 8.5 tunnell o decstilau'r wythnos yn cael eu harbed rhag mynd i safleoedd tirlenwi trwy'r prosiect hwn yn unig.

**Siop eBay**

I fanteisio ar y nifer cynyddol o ddillad ail-law a dderbyniwn bob wythnos, mae Warws Werdd wedi gwneud buddsoddiad strategol yn ein tudalen gwerthu ar-lein: eBay. Wrth gydnabod y cyfle i gynyddu ein gwerthiant dillad, fe wnaethom gyflogi Cynorthwyydd Gwerthu Dillad llawn amser wedi'i neilltuo i reoli ein siop eBay. Ei cyfrifoldebau yw sortio eitemau i werthu, ei rhestru ar-lein, a darparu gwasanaeth cwsmer heb ei ail, sydd i gyd wedi cyfrannu at gynnydd yn ein gwerthiand dillad. Y tu hwnt i greu ffrydiau incwm newydd, mae’r fenter hon hefyd wedi agor cyfleoedd gwaith gwerthfawr i’r unigolion rydym yn eu cefnogi, sy'n cynorthwyo gyda gwahanol agweddau ar y broses werthu, o dynnu lluniau i bostio. Mae'r fenter hon yn nodi pennod newydd gyffrous i Warws Werdd, ac rydym wedi ymrwymo i ehangu'r maes hwn ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Ers dechrau ar y prosiect hwn yn Tachwedd, mae 856 o eitemau wedi’u gwerthu.

**Dodrefn**

Mae gwasanaeth ailgylchu ac ailddefnyddio dodrefn Warws Werdd yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cynaliadwyedd tra’n darparu dodrefn fforddiadwy i’r gymuned. Mae ein siop ail-law yn cynnig ystod o ddodrefn ail-law a newydd am brisiau cystadleuol. Rydym yn darparu gwasanaeth casglu cyfleus am ffi fechan, lle rydym yn casglu dodrefn diangen o gartrefi cwsmeriaid, gan ailddefnyddio ac uwchgylchu eitemau i’w gwerthu yn ein siop. Gall cwsmeriaid hefyd ddod â’u heitemau diangen yn uniongyrchol i’r siop. Yn ogystal, rydym yn cydweithio gyda sefydliadau lleol megis Adra, Digartrefedd Ynys Môn, Gisda, Grŵp Cynefin, a’r Adran Digartrefedd yng Nghyngor Gwynedd i ddodrefnu cartrefi ar gyfer pobl mewn angen. Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn prosesu 19.7 tunnell o ddodrefn, gan leihau gwastraff yn sylweddol, ac o ganlyniad yn gwella’r amgylchedd. Mae’r prosiect hwn hefyd yn

helpu i ddatblygu sgiliau gwerthfawr i'r unigolion rydym yn eu cefnogi, gan gynnwys sgiliau gweinyddol ar y ffôn a'r ddesg flaen, yn ogystal â sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu yn ystod ymweliadau cartref.

**Gofod Trwsio a Chreu Ffiws Antur Waunfawr**
Yn 2022 derbyniwyd nifer o offer ar gyfer gofod trwsio a chreu o dan frand 'Ffiws', sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Economi Gylchol drwy law Cyngor Gwynedd. Mae'r offer yn cynnwys argraffwr 3D, torrwr laser, torrwr finyl, a pheiriannau gwnïo a brodwaith.

Mae staff ac unigolion ar draws adrannau Antur Waunfawr wedi mynychu sawl hyfforddiant yn ymwneud â phrosiect Ffiws Antur Waunfawr. Pwrpas Ffiws Antur Waunfawr yw rhoi cyfle i bawb gael mynediad at offer uwch-dechnoleg ac annog ac ysbrydoli creadigrwydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ffiws wedi bod yn brysur wrth gynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch o safon. Ar gyfer Eisteddfod Boduan, cawsom y cyfle i ddylunio a chreu nwyddau wedi brandio ar gyfer yr Antur a mudiadau eraill, gan gynnwys bathodynnau, mygiau, coasters, a mwy. Yn ogystal, buom yn gweithio gyda Bara Caws i gynhyrchu crysau-t wedi brandio ar gyfer eu staff. Mae'r adran hefyd wedi cynhyrchu casgliad o eitemau anrhegion Nadolig i'w gwerthu yn ein siop ac ar wefan Antur Waunfawr. Eleni, roedd ein myg Nadolig yn arbennig o boblogaidd, gyda 53 myg yn gwerthu allan mewn dim ond pythefnos, gan adlewyrchu galw ac ymroddiad cryf gan y gymuned leol.

**Sied Werdd**
Yn dilyn derbyn arian grant drwy gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd i wella isadeiledd ailgylchu ac ailddefnyddio'r sir, rydym ar fin gorffen y Sied Werdd sydd yn estyniad I'r Warws Werdd a bydd yn agor i'r cyhoedd eleni.

Penodwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer y gwaith dylunio a rheoli prosiect a chwmni adeiladu OBR ar gyfer y cytundeb adeiladu. Mae'r sied sy'n 170m$^2$, gydag ail lawr yr un maint yn adeilad hygyrch, gyda lifft a chyfleusterau cymorth, ac wedi ei dylunio gan ystyried amrywiaeth eang o anghenion.

Mae'r llawr gwaelod yn cynnwys gweithdy ar gyfer didoli dillad i'w ailddefnyddio, cantîn ar gyfer unigolion ag staff, a gofod ar gyfer lifft a storfa. Mae'r llawr cyntaf wedi ei rannu i 3 uned, swyddfa, gofod Ffiws ag ystafell aml-bwrpas ar gyfer cyfarfodydd, hyfforddiant; gall hwn hefyd fod yn gofod addysgiadol ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion, neu yn ofod i'w hurio i'r cyhoedd.
Bydd y Sied Werdd yn rhyddhau gofod yn y Warws Werdd ar gyfer llawr siop ehangach ac yn cynyddu troedle i gynyddu gwerthiant.

**Altro**
Mewn partneriaeth efo BIC Innovation, Byw Bywyd ac Adra, sefydlwyd prosiect Altro yn dilyn arian o'r Gronfa Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru. Bwriad y prosiect oedd chwyldroi'r sector byw a chymorth drwy'r economi gylchol, a'i nod yw adnewyddu ac ailddosbarthu offer byw a chymorth fyddai fel arall wedi mynd i safleoedd tirlenwi. Rôl Antur Waunfawr yn y prosiect hwn oedd i gasglu offer a'u paratoi ar gyfer ail ddosbarthu, gan gynnig gwaith i unigolion yr Antur yn y broses. Yn anffodus iawn, daeth y prosiect i ben Gorffennaf 2023 oherwydd diweddglo cronfa grant, a rhwng mis Ebrill 2023 a mis Gorffennaf 2023 arbedwyd 104 o eitemau oedd gyfwerth ag arbed 5,345kg o garbon.

**Reuse Network**
Mynychwyd digwyddiad oedd yn cael ei gynnal ym mhrosiect Boomerang Cardiff, ar ddiwedd mis Ebrill 2023.
Gweledigaeth y mudiad Reuse Network ydi creu cymdeithas lle gall pawb greu cartref cynaliadwy, a'i genhadaeth yw lleddfu allgau cymdeithasol, a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae'r Antur, fel aelod o'r Reuse Network, a'r gwaith sydd yn mynd ymlaen yn Y Warws Werdd yn rhannu'r gwerthoedd yma, ac yn edrych ymlaen at weithio tuag at gael cyrraedd statws o fod yn ganolfan ailddefnyddio achrededig, drwy'r rhwydwaith, erbyn diwedd 2024.

**CAERGYLCHU**

Canolfan ailgylchu ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, a sefydlwyd mewn partneriaeth a Cyngor Gwynedd yn 2005 ac sy'n esiampl flaenllaw o gydweithio rhwng y ddau sector. Denwyd £1.7m o grant i Gaergylchu yn 2007. Mae Caergylchu yn gartref i'n gwasanaeth llarpio cyfrinachol a'r linell plastigion sydd yn cael ei redeg gan yr Antur mewn partneriaeth a'r Cyngor. Mewn blwyddyn arferol, rydym yn trin 970 tunnell o blastig y flwyddyn, ac yn ystod y flwyddyn 23/24 danfonwyd 270 tunnell o bapur i'w ailgylchu.

**Llarpio**
Mae ein gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol, sydd wedi'i leoli yng Nghaergylchu, yn cynnig gwaredu dogfennau cyfrinachol a sensitif mewn ffordd ddiogel ac amgylcheddol gyfrifol ar gyfer busnesau, sefydliadau a chartrefi ar draws Gogledd Cymru. Rydym yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfrinachol yn cael eu casglu, eu rhwygo, a'u hailgylchu yn unol â rheoliadau diogelu data, gan roi tawelwch meddwl i'n cwsmeriaid, a lleihau yr effaith amgylcheddol. Drwy ddewis ein gwasanaeth, nid yn unig mae cwsmeriaid yn diogelu eu gwybodaeth gyfrinachol ond hefyd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy drwy ein hymrwymiad i'r amgylchedd a chefnogi gweledigaeth yr Antur, drwy gynnig gwaith i 8 o unigolion ag anableddau dysgu.

Gyda dros 2000 o gwsmeriaid, casglwyd 14,029 o sachau coch dros y flwyddyn. Rydym yn gweithredu yn unol â gofynion rheolau GDPR ac wedi derbyn achrediad BS EN 15713: 2009.

**Casglu offer TGCh**
Rydym wedi cael cyfarfodydd cychwynnol gyda North Wales Recycling IT, menter gymunedol sy'n ailgylchu offer TGCh mewn ffordd diogel ac amgylcheddol, sydd wedi ei lleoli yn Llangefni, Sir Fôn. Byddwn yn gweithio ar y cyd i gasglu yr offer TGCh a'i ddanfon draw i Llangefni fel bod yr offer yn cael ei drin ac ailddefnyddio ar safle Recycle IT.
Mae ein rheolwr gwasanaeth ailgylchu papur, Sion Thomas wedi rhoi cynllun casglu at ei gilydd a fydd yn plethu mewn gyda'n casgliadau presennol gyda'r bwriad i sicrhau cynaladwyaeth ariannol ac amgylcheddol y cynllun newydd yma.

**BEICS ANTUR**

Siop feics sydd yn hurio, trwsio a gwasanaethu beics yw Beics Antur, wedi ei leoli ym Mhorth yr Aur Caernarfon.
Rydym yn hurio beics 2 olwyn oedolion, beics plant, e feics a fflyd a beics addasedig ar gyfer oedolion a phlant ifanc megis rhai ochr yn ochr, rydym hefyd yn cynnig trosi beics i fod yn feics trydan.
Mae 8 o unigolion yr Antur yn cael profiadau gwaith yn y gweithdy gyda'r swyddogion beics, a rhai wedi dysgu sgiliau trin beics er mwyn cwblhau tasgau yn annibynnol.

Mae'r siop wedi gweld prysurdeb mawr yr haf hwn, gyda diwrnod yn mis Awst wedi gweld y nifer mwyaf o gwsmeriaid yn dod trwy'r drws i hurio Beics ers i ni agor. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth gwerth chweil ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adborth cawn gan gwsmeriaid:

*"Ffordd wych o gael hwyl o gwmpas Caernarfon."*

*"Wedi llogi tandem trydan gyda fy mab. Roedd yn llawer o hwyl. mynd o gwmpas y dre wedyn dilyn y Menai yn syth ar lwybr beicio. Mae'r beiciau pâr yn ddigon sefydlog y gallem reidio ar gyflymder hwyliog. Mae gan y beic un ochr sy'n llywio a un ochr sydd ddim. Roedd gan yr hwb trydan bum lefel pŵer. Roedd y siop yn gyfeillgar iawn a gwaith papur yn hawdd. Roedden nhw hyd yn oed yn gofalu am fy nghamera. Rhad pan fyddwch yn ystyried dau ohonom gyda llogi helmed yn gynwysedig i. Argymell yn fawr."*

**Llofft Llesiant**
Ar y llawr cyntaf Beics Antur mae Llofft Llesiant, gofod stiwdio 100m$^2$ ar gyfer pob math o weithgareddau iechyd a llesiant megis dawns, ioga , pilates a ffitrwydd, sydd hefyd ar gael i'w llogi ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant. Yn ychwanegol, mae Ystafell Synhwyraidd ar y llawr cyntaf ar gyfer unigolion ag anghenion dwys neu nam ar y synhwyrau. Mae'r adnoddau yma yn boblogaidd iawn ac ar gael i'r cyhoedd eu hurio.

**Beicio i Bawb**
Mae prosiect newydd Beicio i Bawb yn cyflwyno amrywiaeth o sesiynau a gweithgareddau beicio fforddiadwy i drawstoriad o'r gymdeithas yng Ngwynedd gan gynnwys disgyblion ysgol, pobl ifanc difreintiedig, henoed, unigolion ag anableddau dysgu, grwpiau corfforaethol, a drwy bresgripsiwn cymunedol.

Gyda chefnogaeth gan Gronfa Ffyniant Cyffredin, prif nod y prosiect hwn yw hyrwyddo Iechyd a Llesiant a Theithio Llesol Cymru drwy wella mynediad i feicio hygyrch a fforddiadwy, gwella sgiliau, magu hyder ac annog pobol o bob oedran a gallu yn ein cymdeithas i feicio. Yn ychwanegol penodwyd 2 aelod staff i'r tîm i gynnal y sesiynau a gweithgareddau y prosiect Beicio i Bawb.

Sgiliau Beicio – Rydym yn gweithio gydag ysgolion cynradd ar draws Gwynedd i ddatblygu sgiliau beicio disgyblion, yn y sesiynau yma mae plant blwyddyn 3 a 4 yn cael cyfle i ddysgu sgiliau a thechnegau beicio mewn awyrgylch diogel, sydd yn cyfrannu at lesiant plant a codi eu hyder i fynd ar gefn beic drwy annog plant i fod a diddordeb naturiol yn y maes beicio.

**Ysgolion Uwchradd**

Rydym yn cyd-weithio gydag Ysgolion Uwchradd yr ardal yn hurio beics i ddisgyblion yn ystod wythnos llesiant yr ysgolion. Yn ystod y flwyddyn daeth 291 o ddisgyblion i feicio.

**IAITH A DIWYLLIANT**

Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau sydd wedi eu sefydlu, ac rydym yn anelu bob amser i fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant a'r economi leol.

Byddwn yn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, gan fod yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.

**Cynnig Cymraeg**

Rydym wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau Cymraeg ac yn ystod y flwyddyn, cafwyd ein Cynnig Cymraeg ei gymeradwyo gan Comisiynydd y Gymraeg.

- Rydym yn cyfarch ein cwsmeriaid yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Ble mae'n bosib, rydym yn cefnogi busnesau lleol Cymraeg ac yn defnyddio cynnyrch lleol.
- Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn y Gymraeg
- Rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn ddwyieithog, mae'r wefan a thudalennau cymdeithasol megis trydar a Facebook i gyd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Rydym yn cefnogi ac yn annog yr iaith Gymraeg yn y gweithle, yn defnyddio Cymraeg ffurfiol ag anffurfiol
- Gallwch adnabod aelodau o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg gyda nwyddau Iaith Gwaith.

**RHWYDWEITHIAU STRATEGOL, PARTNERIAETHAU NEWYDD A CHYDWEITHIO YN YSTOD Y FLWYDDYN:**

**PERTHYNAS AG ASIANTAETHAU ALLANOL**

Mae Antur Waunfawr yn cynnig gwasanaeth i oedolion ag anableddau dysgu mewn partneriaeth, yn bennaf, ag adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd, yn ogystal â Chynghorau Conwy ac Ynys Môn. Mae'r cynghorau yn comisiynu'r gwasanaeth yn unol â'u hasesiad o angen ac rydym yn cytundebu gyda'r cynghorau i ddarparu gwahanol fathau o wasanaeth yn unol â'r asesiad. Ein nod wedyn fel menter gymdeithasol yw hyrwyddo potensial yr unigolion o ran eu gwaith ond hefyd eu datblygiad personol a'u sgiliau.

Parhawyd i gydweithio gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgol Pendalar, Ysgol Hafod Lon, Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, a Glynllifon, yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynllunio darpariaethau ar gyfer adnoddau gwell i dderbyn unigolion gydag anghenion mwy dwys. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau ymarfer corff yng ngofod Dreigiau'r Dyffryn yn Nhregarth, sydd yn fenter gymdeithasol leol.

**Adra**
Yn sgil y newid yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, golygai nad oeddem mwyach yn gallu parhau i fod yn landlordiaid yn ogystal â darparu gofal personol i'n tenantiaid. Yr opsiwn gorau er lles ein tenantiaid oedd creu partneriaeth gyda chymdeithas tai Adra, sydd yn golygu mai Adra sydd bellach yn landlordiaid ar ein tai.

Rôl y Prif Weithredwr yw cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau – a hi yw'r Person Cyfrifol ar gyfer y cwmni. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**RCS Wales**
Rydym wedi cydweithio'n gyson gydag RCS Wales a darparwyr lles eraill yn allanol ar gyfer cyfeirio staff am gefnogaeth cwnsela a physiotherapi gan sicrhau eu bod yn gallu parhau yn y lle gwaith. Mae gennym ddwy aelod o'r tîm Adnoddau Dynol sydd wedi'u hyfforddi fel pencampwyr llesiant drwyddynt hefyd. Maent hefyd yn darparu gweminarau llesiant cyson sydd o fudd i allu cefnogi staff.

**Cymunedoli Cyf**
Mae Antur Waunfawr yn falch o adrodd am ei gydweithrediad â Cymunedoli Cyf, rhwydwaith nodedig o fentrau cymunedol sydd wedi ymrwymo i rannu adnoddau ac arbenigedd i gryfhau ei gilydd. Mae'r bartneriaeth hon nid yn

unig yn gwella ein gallu i wasanaethu ac ymgysylltu â'n cymunedau, ond hefyd yn cefnogi ein nod i warchod a hyrwyddo ein hiaith a'n diwylliant. Trwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn manteisio ar gryfderau cyfunedig i yrru cynnydd ystyrlon, hybu datblygiad lleol a thwf economaidd, a chyfrannu at rwydwaith mwy cadarn a gysylltiedig o fentrau cymunedol, wrth barhau i ddiogelu a dathlu ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

**Cynllun Ynni Cymunedol:**
Mae yna Bwyllgor wedi cael ei sefydlu i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu Cynllun Ynni Cymunedol yn Waunfawr. Cafodd Ellen Thirsk ei gwahodd i fod yn rhan o'r Pwyllgor sydd yn cynnwys Dafydd G Davies (sydd hefyd ar Fwrdd yr Antur), cynrychiolaeth o Cyngor Cymuned Waunfawr a Caeathro. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i sefydlu'r cwmni dan yr enw Gwyrfai Gwyrdd.

**YMWELIADAU I'R ANTUR**

Trwy gydol y flwyddyn, mae Antur Waunfawr wedi cael y pleser o groesawu nifer o ymwelwyr i'n safleoedd. Mae'r ymweliadau hyn wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ni rwydweithio, cryfhau partneriaethau presennol a newydd, ac arddangos y gwaith rhagorol mae ein unigolion ac ein staff ymroddgar yn ei wneud o ddydd i ddydd. Mae pob ymweliad wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i'n cenhadaeth, gan hefyd dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol rydym yn ymdrechu i'w gwneud o fewn ein cymuned.

**Cyngor Gwynedd:**
Cafwyd cyfarfod efo Rhian George, Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn sgil yr Uwch Dim Rheoli yn mynychu cyfarfodydd ymgynghorol y Cyngor yn Ardal Ni Caernarfon a Nant Peris. Mae'r cynlluniau isod o fewn y ddogfen strategol gan y Cyngor:

- Y cais ar gyfer datblygiadau ar y safle, h.y., Cynllun Bwyd Lleol, prosiect rhandiroedd, ayb
- Datblygiad Sied Werdd yn sgil arian Grant Economi Gylchol gan Llywodraeth Cymru ar allbynnau ychwanegol
- Beics Antur – gan gynnwys y cais Cronfa Ffyniant Cyffredinol (SPF)

**Comisiynydd y Gymraeg:**
Ymwelodd Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg â'r safle yn Waunfawr ar 31 Ionawr, 2024. Roedd ganddi ddiddordeb mawr yn y maes gofal, a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg wrth ddarparu ein gwasanaethau. Braf oedd cael ei chyfarfod ac dangos y gwaith ar y safle.

**Gofal Cymdeithasol Cymru:**
Ymwelodd Sandie Grieve, Swyddog Arweiniol Datblygu a Chysylltu'r Sector, Gofal Cymdeithasol Cymru y safle yn Ionawr 2024 i ffilmio'r unigolion yn eu lleoliad gwaith/iechyd a llesiant er mwyn hybu'r angen am wasanaeth dwyieithog, gyda phwyslais ar ddarpariaeth Cymraeg yn y sector. Pleser oedd cael Sandie yn ymweld ac o ganlyniad i'r ymweliad mae yna ddeunydd ar 'You Tube' sydd yn hybu'r angen am y iaith Gymraeg yn y maes Gofal Cymdeithasol.

**S4C:**
Ymwelodd Ryan Chappell, Arweinydd Amrywiaeth, Cynaliadwyedd a Phwrpas Cymdeithasol o S4C yn Chwefror 2024. Roedd Ryan yn gweld bod yna gyfleoedd i ni gydweithio a gofynnodd i ni ystyried Sut mae'r Panel Anableddau S4C yn sicrhau bod S4C yn cynrychioli pobl efo anableddau/ac Antur Waunfawr yn benodol? Roedd ein Prif Weithredwr eisoes yn rhan o'r Panel Anableddau S4C ac braf oedd cael cyfle i drafod gwahanol gyfleoedd posib I'r dyfodol.

**Plaid Cymru- Beics Antur:**
Mae Liz Saville Roberts AS wedi ymweld â Beics Antur ar yr 8 Mawrth, 2024 i drafod y prosiect a'r gwaith amrywiol sydd yn cael ei gyflawni o ddydd i ddydd. Cafwyd cyfle hefyd i roi trosolwg o'r prosiect newydd Beicio i Bawb. Diolch yn fawr i Liz am ei hamser ac yr ymroddiad tuag at yr Antur.

**Warws Werdd**
Trefnwyd ymweliad i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd i gael cyflwyniad ar waith cynlluniau ailddefnyddio Warws Werdd ar 24 Ebrill 2023. Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth Cyngor Gwynedd ac yn diolch yn fawr iddynt am roi eu hamser i ymweld.

**Ymweliad Cyngor Gwynedd i Warws Werdd**
Cafwyd ymweliad gan Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd a Roland Thomas, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd i'r Warws Werdd dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023. Roeddent wedi cael argraff dda iawn o'r trawstoriad o waith mae'r Antur yn ei gyflawni i'r Cyngor a'r gwerth cymdeithasol rydym yn dod i'r sir yn sgil y gwaith yma.

**SAFONAU**

**ArchwiliadISO 14001 ac ISO 9001**
Llwyddwyd i gynnal ein Hachrediad ISO 14001 a'r Achrediad ISO 9001 unwaith eto yn dilyn archwiliad ar safle. Ni chafwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ein herbyn. Mae'r gweithredu ar y broses a'r systemau cysylltiedig yn fuddiol i ni wrth ymgeisio am gytundebau a thendrau i'r dyfodol.

**BS EN 15713 GWASANAETH LLARPIO**
Mae'r gwasanaeth llarpio gydag achrediad BS EN 15713 a cafwyd archwiliad allanol 27 Mawrth 2023 gyda dim i weithredu arno. Mae'r achrediad yn cryfhau ein systemau gweithio yn ogystal â gallu ymgeisio am gytundebau a thendrau newydd.

**Tystysgrif Cyber Essential Plus**
Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn y dystysgrif uchod eleni.

**Safecontractor**
Llwyddwyd i gynnal yr achrediad Safecontractor yn 2023. Mae'r achrediad yma yn angenrheidiol ar gyfer cadw cytundebau llarpio presennol ac yn cryfhau ein sefyllfa wrth ymgeisio am dendrau.

**ADNODDAU DYNOL**

**Denu a datblygu staff**
Wrth gymryd i ystyriaeth yr hinsawdd economaidd anodd mae cyflogwyr yn eu hwynebu, mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn falch o adrodd ein bod wedi llwyddo i gynnal yr adnoddau staff angenrheidiol ac wedi cydymffurfio efo holl ofynion gyfraith cyflogaeth. Drwy reoli ein hadnoddau rydym wedi llwyddo i gynnal safon ein gwasanaethau a chynllunio ar gyfer unigolion newydd yn ein gwasanaethau dydd a chefnogaeth gartref.

Er mwyn parhau i sicrhau effeithlonrwydd y Cwmni, gwobrwywyd ymroddiad ein staff a pharhawyd i gefnogi'r staff sydd yn arbenigo mewn darparu gofal ar sawl lefel i'n hunigolion ag anableddau dysgu yn y maes gofal. Rhoddwyd blaenoriaeth ar ddatblygu cryfderau a gyrfaoedd, rhoi cyfrifoldebau newydd i staff, rhoi clod i gyrhaeddiad ein staff a chynllunio'n strategol, gan roi pwyslais ar fentora, magu, a chadw staff.

Mae'r strwythur yma yn creu llwybr gyrfa i'n gweithwyr cefnogol, a chodiad cyflog i'r rhai a lwyddodd i ateb gofynion y meini prawf uwch. Bwriad y strwythur newydd yw magu hyder, datblygu sgiliau a chymwysterau ac annog ein staff i ymgeisio am swyddi uwch. Mae gennym 13 aelod staff sydd wedi llwyddo i gyrraedd y meini prawf uwch ac o ganlyniad maent wedi cymryd lefel uwch o gyfrifoldebau sydd wedi galluogi'r Rheolwyr gofal i ganolbwyntio ar faterion rheolaethol.

**Ymgyrch recriwtio a ffeiriau swyddi**
Ym mis Medi 2023, cynhaliwyd diwrnod recriwtio llwyddiannus yn Beics Antur, mewn cydweithrediad â Gwaith Gwynedd, i gyflwyno'r cyfle i bobl ddysgu mwy am Antur Waunfawr a'n cyfleoedd gwaith. Roedd y noson agored hon yn gyfle gwych i archwilio'r gwaith y gallwn ei gynnig a phrofi'r amgylchedd gwaith byw.

Yn sgil yr ymgyrch recriwtio, rydym wedi cynhyrchu fideos newydd sy'n ceisio denu rhai sy'n ystyried newid gyrfa, yn ogystal â phobl ifanc sy'n chwilio i ddatblygu yn y maes. Rydym wedi cynnwys unigolion mewn ffair swyddi i helpu i ddenu staff gofal, a roddwyd y cyfle i groesawu ymgeiswyr cyn eu cyfweliadau, gan ddarparu adborth gwerthfawr i'r tîm adnoddau dynol i sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu eu gofynion a'u cefnogaeth.

Mae ein hymdrechion wedi ymestyn i gyflwyniadau yn Coleg Menai a nifer o ysgolion lleol, lle rydym wedi ysbrydoli disgyblion sydd yn astudio cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn llwyddiant mawr, gan arwain at nifer o fyfyrwyr sydd wedi mynychu profiadau gwaith gyda ni ac sydd wedi derbyn swyddi rhan-amser wrth fynd ymlaen â'u hastudiaethau.

**Staff newydd**
Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 fe benodwyd 15 aelod newydd o staff ar draws y cwmni.

**Hyfforddiant**
Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, gan sicrhau ein bod yn cadw i safonau megis Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Ynys Môn a Conwy. Rydym yn sicrhau bod gofynion hyfforddiant yn gyfredol ac yn cofrestru ein gweithwyr cefnogol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn cwblhau gwerthoedd ac egwyddorion o fewn ei 6 mis cyntaf o gychwyn eu cyflogaeth.

Rydym wedi cofrestru 7 aelod staff yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn parhau i gofrestru staff a chadw cofrestriad staff yn gyfredol yn unol â'r gofynion.

**Profiadau gwaith**
Rydym yn adolygu profiadau gwaith yn rheolaidd yn ein Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Llwyddwyd cynnig profiadau gwaith gwerthfawr i fyfyrwyr a disgyblion dros y cyfnod.

**Profedigaeth**
Gyda thristwch mawr rydym yn adrodd ein bod wedi colli dau aelod staff gwerthfawr o fewn cyfnod yr adroddiad yma, a'r ddau yn dilyn salwch tymor byr. Roedd Corinne Edwards yn Weithwraig Cefnogol i'r Antur ers 15 mlynedd. Roedd Gwyn Pritchard yn Arweinydd y Linell Blastig yn Nghaergylchu ers 8 mlynedd.

**ADOLYGIAD CYLLIDOL**

**Prif ffynonellau incwm**
Prif ffynhonnell incwm y cwmni yw Incwm Cytundebol o'r Awdurdodau Lleol trwy'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal mae'r Cwmni yn rhan o bartneriaeth ailgylchu ac ailddefnyddio gyda Chyngor Gwynedd a chytundebir gyda'r Cyngor am y gwaith hwn. Mae incwm masnachol o werthu gwasanaeth a chynnyrch Antur Waunfawr, yn dod ag incwm hollbwysig i sicrhau cynaladwyeth ariannol yr Antur mewn cyfnod heriol yn economaidd.

**Polisi arian wrth gefn**
Mae'n bolisi gan y Cwmni i gadw cronfa anghyfyngedig fechan, gan eithrio cronfeydd dynodedig o eiddo'r Elusen sydd wedi eu neilltuo yn benodol. Penderfynodd y Bwrdd adolygu'r polisi yn rheolaidd (gan gymryd i ystyriaeth asedau cynyddol y Cwmni) fel bod yna arian i gynnal costau gwasanaethu amcanion yr elusen am gyfnod, ac i gynnal costau rheoli a gweinyddu, a hefyd digon i ymateb i unrhyw gais brys. Dros y 7 mlynedd diwethaf mae'r Cwmni wedi sicrhau bod yna lleiafswm o 3 mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn ar gyfer unrhyw heriau annisgwyl. Mae hyn yn unol â chanllawiau ymarfer da'r Comisiwn Elusennau ac yn cwrdd ag amcanion y Cod Llywodraethu. Mae'r Cwmni hefyd yn ymwybodol bod angen buddsoddi yn adeiladau a safleoedd y Cwmni er mwyn sicrhau cynaladwyedd yr Antur i'r dyfodol.

**Rhoddion**
Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhoddion hael eto eleni sydd wedi ein galluogi ni i wneud gweithgareddau ychwanegol efo'r unigolion.

Derbyniwyd rhodd er cof am Sioned Harris, merch Gwynn Davies.  Fe wnaeth y teulu wneud cais ein bod yn comisiynu Luned Rhys Parri, Artist lleol i wneud darn o waith efo'r unigolion er cof am Sioned. Ein bwriad yw sicrhau gofod parhaol iddynt ar ein safle yn Waunfawr.

**MARCHNATA, CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU**

Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn nodedig i Antur Waunfawr, gyda datblygiadau sylweddol a ffocws newydd ar ymgysylltu a chyfathrebu â'r gymuned. Bu penodiad Ceri Hughes yn Awst fel ein Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu newydd yn gam hanfodol ymlaen. Mae arbenigedd Ceri, a ddatblygwyd dros dair blynedd yn y trydydd sector ac a gafodd ei gryfhau ymhellach gyda'i Diploma Lefel 7 mewn Marchnata a'i aelodaeth CIM Associate, eisoes wedi cael effaith cadarnhaol ar ein hymdrechion marchnata.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n ddi-baid i ail-gysylltu â'r gymuned. Roedd ein presenoldeb yn yr Eisteddfod ym Moduan, ar y cyd â Cymunedoli, yn gyfle rhagorol i arddangos ein gwasanaethau, cynnal

gweithgareddau diddorol, a ffurfio partneriaethau newydd gydag ystod o sefydliadau ar draws Cymru. Roedd y digwyddiad hwn yn enghraifft o'n hymrwymiad i estyn allan a'n penderfyniad i ehangu ein rhwydwaith.


Mae ein ffocws ar wella ein presenoldeb ar-lein hefyd wedi rhoi canlyniadau trawiadol. Trwy gynyddu ein cyrhaeddiad ac ymgysylltiad ar ein holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol—Antur Waunfawr, Beics Antur, a Warws Werdd— rydym wedi denu sylw sylweddol gan y cyfryngau. Mae ein hymdrechion wedi'u cydnabod gyda sylw ar raglenni teledu a sioeau radio amlwg yng Nghymru, gan gynnwys Heno S4C a Sioe Aled Hughes ar BBC Cymru. Rydym yn estyn ein diolch o galon i'r allfeydd cyfryngau hyn am eu cefnogaeth ac am ein helpu i ledaenu ein neges.

Yn ogystal, roedd ein hymgyrch Nadolig eleni yn llwyddiant mawr. Gwelsom werthiannau cryf o'n cynnyrch cartref o Waunfawr, gyda chefnogaeth gwefan adnewyddedig Perllan y Fro a'n cyfranogiad gweithgar mewn ffeiriau Nadolig lleol, megis Gŵyl Nadolig Caernarfon, Ffair Nadolig Ysgol Pendalar, a Ffair Nadolig Talysarn, i enwi ond ychydig. Roedd ein siop ar-lein yn ei gwneud hi'n haws nag erioed i gwsmeriaid brynu ein cynnyrch, ac ar ôl cyflwyno danfon lleol, cawsom un o'n tymhorau Nadolig gorau hyd yma o ran gwerthiannau.

Wrth edrych ymlaen, mae 2024 yn addo bod yn flwyddyn gyffrous wrth i ni ddathlu 40 mlynedd o weledigaeth R. Gwyn Davies wrth greu cyfleoedd gwaith ystyrlon i oedolion ag anableddau dysgu yn eu cymunedau lleol. Rydym eisoes wedi lansio logo coffaol sy'n adlewyrchu taith anhygoel yr Antur, ac rydym yn awyddus i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau dathliadol trwy gydol y flwyddyn.

Hoffem ddiolch i'n cefnogwyr, ein partneriaid, a'r gymuned gyfan am eu cefnogaeth ddiysgog. Gyda'n gilydd, rydym yn edrych ymlaen at barhau â'n cenhadaeth a gwneud 2024 yn flwyddyn i'w chofio.

**Ystadegau Marchnata Digidol (2023-2024):**




**GWOBRAU**

**Gwobr Hyfforddiant Cambrian**
Gyda balchder mawr rydym yn hapus i adrodd enillodd Beics Antur 3 gwobr yn noson gwobrwyo Hyfforddiant Cambrian ym Mai 2023:

Enillwyd Jack Williams, Gweithiwr Cefnogol Beics Antur:

- Prentis Iaith Gymraeg y Flwyddyn
- Phrentis Sylfaen y Flwyddyn

Yn ogystal â gwobrau Jack, cyflwynwyd i Antur Waunfawr gwobr Cyflogwr Canolig y Flwyddyn.

**Gwobr CIPD Cymru 2023**
Rydym hefyd yn hynod o falch o fod wedi derbyn gwobr Canmoliaeth Uchel gan CIPD Cymru yn y categori- 'Y Fenter Lles Orau'. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dyst i'n hymrwymiad i flaenoriaethu lles ein staff, gan ymdrechu'n gyson i sicrhau bod eu hiechyd a'u hapusrwydd yn ganolog i bopeth a wnawn.

**DIWEDDGLO**

Wrth i ni adlewyrchu ar flwyddyn arall o dwf a chyflawniadau yn Antur Waunfawr, rydym yn llawn diolchgarwch am ymroddiad ein staff, cefnogaeth ein cymuned, ein partneriaethau ac ein hunigolion sy'n parhau i'n hysbrydoli. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol wrth i ni addasu i fywyd ar ôl y pandemig, ond mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn lle rydym wedi ymroi i ailgysylltu â'r gymuned— rhywbeth yr ydym wedi'i golli'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous iawn i'r Antur wrth i ni gau'r flwyddyn gyntaf gyda'n Phrif Weithredwr newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r bennod nesaf o dan ei arweinyddiaeth wrth i 2024 nodi ein 40 mlynedd o weithredu. Gyda'n gilydd, rydym wedi gwneud camau ystyrlon tuag at gyflawni ein cenhadaeth, ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y momentwm hwn yn y flwyddyn i ddod.

Mae 2024 yn nodi carreg filltir anferthol, 40 mlynedd o Antur Waunfawr, y flwyddyn hon rydym yn dathlu'r daith weledigaethol a daniwyd gan ein sylfaenydd, R Gwynn Davies. I ddathlu mae rhaglen o weithgareddau ar draws y flwyddyn wedi'u trefnu yn cynnwys cylchdaith beicio 40 milltir, lansiad seidr blas newydd hefo label arbennig i ddathlu 40 mlynedd (ffrwythau'r gwrych), gŵyl haf Safle Waunfawr, a bydd unigolion hefyd yn perfformio dan arweiniad Ceri Bostock yn ein gig 40 yn y Galeri.

*"Braint enfawr oedd cael fy mhenodi i'r swydd Prif Weithredwr yn y flwyddyn diwethaf, mae cael bod yn yr Antur yn fy ysbrydoli yn bersonol ac yn broffesiynol. Mae'r unigolion sydd yn rhan allweddol o waith yr Antur yn fy ysgogi bob dydd i anelu i neud yn well. Rwyf yn falch iawn o'r cydweithio cadarn a pharhaus sydd bob tro yna i mi gan y Bwrdd, y Staff, ein Partneriaid ac ein Cymuned lleol. Fedrai ddim peidio nodi ei fod yn gyfnod yn ein hanes lle mae gwydnwch mor anghenrheidiol i redeg menter gymdeithasol sydd yn arloesi yn ei gwaith gofal, ailgylchu ag ailddefnyddio, ac mae'r flwyddyn diwethaf yn adlewyrchiad llawn o'r gwydnwch yna. Diolch yn fawr iawn i bawb"*

***Ellen Thirsk, Prif Weithredwr, Antur Waunfawr***

Gyda'ch cefnogaeth barhaus, rydym yn hyderus y bydd Antur Waunfawr yn parhau i ffynnu, creu cyfleoedd, a chael effaith gadarnhaol am flynyddoedd lawer i ddod.

**Cyfrifoldebau yr ymddiriedolwyr mewn cysylltiad a'r datganiadau ariannol**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol a chyfraith perthnasol ac Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GAAP).

Mae'n ofynnol dan y Ddeddf Cwmnïau i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg wir a theg o amgylchiadau yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am y gweddill neu ddiffyg yn y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol ar yr ymddiriedolwyr i:

1. ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas;
2. gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog; a
3. pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cofnodion cyfrifyddol sydd yn datgan sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol fanwl ac sydd yn eu galluogi i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen, ac i sicrhau y gwneir darpariaethau i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Datganiad yr Ymddiriedolwyr Ynglyn a Datgelu Gwybodaeth i'r Archwiliwr**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau cyn belled ac maent yn ymwybodol, nad oes dim gwybodaeth perthnasol nad yw archwiliwr yr elusen yn ymwybodol ohonno. Maent wedi cymeryd pob cam y dylent fel ymddiriedolwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sicrhau fod archwiliwr yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth.

Ymddiriedolwr Awdurdodedig: Miss Gwen Tomos – Cadeirydd y Bwrdd

**Cafodd yr Adroddiad ei chymeradwyo**

**Llofnod:**

**Miss Gwen Tomos – Cadeirydd**

**Dyddiad:** 02/09/2024

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Antur Waunfawr**

**Barn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Waunfawr am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, , 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2024, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ein barn**

Rydym wedi cynnel ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

**Canlyniadau ynglŷn a busnes byw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y gwybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysiedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wyboadaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

**Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmniau 2006**

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynnion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglyn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmniau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;

- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:
- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:
- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau

neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.

- Asesu y cyflwyniad cyffredinol , strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru  yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

**Defnyddio ein adroddiad**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

*David Chidley*  (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
Ll55 1AB                                        Dyddiad:

**Antur Waunfawr**
**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2024 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2023 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | ***3*** | 6,486 | 123,736 | 130,222 | 65,916 |
| Grant Cyfalaf – Sied Werdd | | - | 376,662 | 376,662 | 275,787 |
| Grant Cyfalaf – Beics i Bawb | | - | 27,865 | 27,865 | - |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | ***4*** | 1,791,034 | - | 1,791,034 | 1,681,199 |
| Incwm Warws Werdd | ***4*** | 414,172 | - | 414,172 | 413,166 |
| Incwm Caer Gylchu | ***4*** | 589,733 | - | 589,733 | 585,122 |
| Incwm Beics Menai | ***4*** | 92,928 | - | 92,928 | 97,963 |
| Llog | | 2,313 | - | 2,313 | 124 |
| ***Cyfanswm incwm*** | | 2,896,666 | 528,263 | 3,424,929 | 3,119,277 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | ***5*** | 2,895,373 | 163,043 | 3,058,416 | 2,888,538 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | 2,895,373 | 163,043 | 3,058,416 | 2,888,538 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | **1,293** | **365,220** | **366,513** | **230,739** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | 1,293 | 365,220 | **366,513** | **230,739** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2023 | | 3,940,498 | 1,253,214 | 5,193,712 | 4,962,973 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2024 | | 3,941,791 | 1,618,434 | 5,560,225 | 5,193,712 |
| | | ======= | ======= | ======= | ======= |

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau.

## Antur Waunfawr

***Mantolen** ar 31ain Mawrth 2024*
**(*Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1832813)***

| | Nodiadau | | 2024 £ | | 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddiannau Sefydlog** | | | | | |
| Buddiannau sefydlog dirweddol | ***12*** | | 4,623,776 | | 4,137,434 |
| | | | | | |
| **Buddiannau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | ***13*** | 27,045 | | 31,290 | |
| Dyledwyr | ***14*** | 794,334 | | 228,173 | |
| Arian mewn banc ac mewn llaw | | 260,701 | | 840,209 | |
| | | 1,082,080 | | 1,099,672 | |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn* | ***15*** | 145,631 | | 29,771 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 936,449 | | 1,069,901 |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 5,560,225 | | 5,207,335 |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn* | ***16*** | | - | | 13,623 |
| **Asedau Net** | | | 5,560,225 | | 5,193,712 |
| | | | ======= | | ======== |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| **Cronfeydd Incwm** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | ***20*** | | 3,941,791 | | 3,940,498 |
| Cronfeydd cyfyngedig | ***20*** | | 1,618,434 | | 1,253,214 |
| | | | 5,560,225 | | 5,193,712 |
| | | | ======= | | ======= |

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r darpariaethau arbennig ar gyfer cwmnïau bach o dan Ran 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

.......................................................

**Miss Gwen Tomos (Cyfarwyddwr)** **Dyddiad**:

## Antur Waunfawr

**Datganiad ynghylch llif arian** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

| | Nodyn | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | ***18*** | (22,112) | 148,435 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 2,313 | 124 |
| Derbyniadau o werthiant asedau sefydlog | | 15,610 | - |
| Prynu asedau sefydlog | ***12*** | (561,696) | (305,842) |
| **Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi** | | (543,773) | (305,718) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Derbyniad ariannu hur bwrcas | | - | - |
| Ad-daliad oblygiadau hur bwrcas | | (13,623) | (15,219) |
| **Arian a dderbynwyd o weithgareddau ariannu** | | **(13,623)** | **(15,219)** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian** | | **(579,508)** | **(172,502)** |
| Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2023 | | 840,209 | 1,012,711 |
| **Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2024** | | 260,701<br>======= | 840,209<br>======= |

## Antur Waunfawr

**Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddiwyd i dderbyn asedau sefydlog at ddefnydd yr elusen** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2024 £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | 1,293 | 365,220 | 366,513 | 230,739 |
| Adnoddau a ddefnyddiwyd i dderbyn Asedau sefydlog net | (157,169) | (404,527) | (561,696) | (305,842) |
| Symudiad net mewn cronfeydd ar gael at weithgareddau y dyfodol | (155,876) | (39,307) | (195,183) | (75,103) |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

**1. Polisïau cyfrifyddol**

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

**a) Sail paratoi cyfrifon**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae Antur Waunfawr yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

**b) Cyfrifo cronfeydd**

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Mae nod a defnydd y cronfeydd dynodedig wedi eu disgrifio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau'r rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig. Mae'r costau o godi a gweinyddu'r cronfeydd wedi eu nodi yn erbyn y cronfeydd penodedig. Mae nod pob cronfa gyfyngedig wedi eu nodi yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**c) Incwm**

Dangosir incwm yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl.

Cydnabyddir am grantiau llywordraeth a grantiau eraill, boed y grant yn grant refeniw neu gyfalaf, Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl ac nac oes angen gohirio'r incwm.

**ch) Gwariant a TAW anadferadwy**

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

**d) Dosbarthiad costau cynorthwyol**

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 6.

**1 Polisïau cyfrifyddol (ymlaen)**

**dd) Asedau sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu dangos ar sail cost neu ar brisiad y farchnad. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 2% |
| Siediau a thai gwydr | 10% |
| Offer | 20 -33 1/3% |
| Moduron | 20% |

Ni chyfrifir am ddibrisiant ar dir rhyddfreiniol. Nid yw buddiannau sefydlog sydd yn costio llai na £1,000 yn cael eu cyfalafu a byddent yn cael eu dileu ym mlwyddyn prynnu.

**e) Stoc**

Mae stoc yn cynrychioli asedau a brynwyd i ailwerthu. Prisiwyd y stoc ar y lleiaf o gost neu werth net sylweddoladwy. Nid yw eitemau stoc a dderbyniwyd fel rhoddion neu er mwyn dosbarthu yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes maent wedi eu gwerthu neu ddosbarthu.

**f) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwyd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**ff) Arian mewn banc ac mewn llaw**

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

**g) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**nh) Offerynnau ariannol**

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngu ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

**h) Costau pensiwn**

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

**2 Statws y cwmni**

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu'r cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau'r cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni.

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

## 3. Rhoddion a grantiau gwirfoddol

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion | 6,486 | - | 6,486 | 54,316 |
| Grantiau Gan Cyngor Sir Fflint | - | - | - | 8,100 |
| Grant Cymorth Ieuenctid | - | 5,000 | 5,000 | 2,500 |
| Grant Hyfforddiant Cambrian | - | - | - | 1,000 |
| Grant AHF | - | 4,979 | 4,979 | - |
| Grant CIST | - | 2,145 | 2,145 | - |
| Grant SPF 'Beics i Bawb' | - | 95,463 | 95,463 | - |
| Grant NWRPB | - | 16,149 | 16,149 | - |
| | 6,486 | 123,736 | 130,222 | 65,916 |

## 4. Incwm o weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu £ | Warws Werdd £ | Caer-Gylchu £ | Beics Menai £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Gwasanaeth | 1,683,220 | 163,559 | 108,979 | 44,911 | 2,000,669 | 1,828,308 |
| Cytundeb Ailgylchu | - | 76,672 | 257,468 | - | 334,140 | 334,140 |
| Incwm Caergylchu | - | - | 223,286 | - | 223,286 | 213,696 |
| Incwm Warws Werdd | - | 173,941 | - | - | 173,941 | 214,452 |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | 99,684 | - | - | - | 99,684 | 123,282 |
| Incwm Beics Menai | - | - | - | 48,017 | 48,017 | 55,999 |
| Incwm arall | 8,130 | - | - | - | 8,130 | 7,573 |
| | 1,791,034 | 414,172 | 589,733 | 92,928 | 2,887,867 | 2,777,450 |

**5. Dadansodiad o wariant ar weithgareddau elusennol**

| | Safle & Cynllun Cartrefu | Warws Werdd | Caer-Gylchu | Beics Menai | Cyfanswm 2024 | Cyfanswm 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | 1,382,603 | 242,581 | 374,469 | 101,658 | 2,101,311 | 1,975,366 |
| Nwyddau i'w gwerthu a thraul | 246 | 18,795 | 9,766 | 26,189 | 54,996 | 63,415 |
| Cafe/ Bwyd | 5,251 | - | - | - | 5,251 | 8,056 |
| Safle ac adnewyddu | 71,840 | 31,656 | 11,984 | 16,440 | 131,920 | 147,946 |
| Teithio a chostau buddiolwyr | 65,455 | 32,446 | 56,541 | 1,832 | 156,274 | 144,132 |
| Costau swyddfa | 11,229 | 8,858 | 6,370 | 4,046 | 30,503 | 28,451 |
| Hyfforddiant | 16,491 | 1,866 | 505 | 3,712 | 22,574 | 17,333 |
| Costau staff | - | 3,482 | 662 | - | 4,144 | 4,012 |
| Costau marchnata | 1,422 | 973 | - | 1,588 | 3,983 | 7,508 |
| Costau proffesiynol | 5,848 | 2,084 | 9,909 | 2,648 | 20,489 | 20,226 |
| Dibrisiant | 4,870 | 16,309 | 7,261 | 14,280 | 42,720 | 42,060 |
| Elw ar werthu asedau | | (2,610) | - | - | (2,610) | - |
| Llogau | - | - | 1,319 | - | 1,319 | 2,491 |
| Eraill | - | 935 | - | 1,224 | 2,159 | 2,263 |
| Costau llywodraethol | 14,530 | 2,667 | 4,795 | 1,416 | 23,408 | 25,063 |
| Costau cynorthwyol | 285,518 | 52,411 | 94,214 | 27,832 | 459,975 | 400,216 |
| | 1,865,303 | 412,453 | 577,795 | 202,865 | 3,058,416 | 2,888,538 |

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £3,058,416 (2023 - £2,888,538). O'r gwariant yma roedd £2,895,373 (2023-£2,831,912) yn anghyfyngedig a £ 163,043 (2023 - £56,626) yn gyfyngedig.

**6. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol**

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y pedwar gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir sail dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol yn y tabl isod.

| | Sail Dosbarthu | Costau Cynorthwyol Cyffredinol | Llywodraethol | Cyfanswm 2024 | Cyfanswm 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | *Amser staff* | 261,958 | 14,133 | 276,091 | 237,444 |
| Safle ac adnewyddu | *Defnydd* | 57,325 | - | 57,325 | 48,953 |
| Costau Glanhau | *Defnydd* | 36,882 | - | 36,882 | 39,924 |
| Swyddfa | *Defnydd* | 35,356 | - | 35,356 | 31,014 |
| Teithio | *Defnydd* | 1,757 | - | 1,757 | 3,679 |
| Hyfforddiant | *Defnydd* | 3,275 | - | 3,275 | 1,582 |
| Hysbysebu a marchnata | *Defnydd* | 2,451 | - | 2,451 | 8,668 |
| Archwilio/Cyfrifydd | *Defnydd* | - | 9,275 | 9,275 | 8,855 |
| Proffesiynnol | *Trafodion* | 40,952 | - | 40,952 | 24,786 |
| Dibrisiant | *Defnydd* | 19,633 | - | 19,633 | 19,935 |
| Eraill | *Trafodion* | 386 | - | 386 | 439 |
| | | 459,975 | 23,408 | 483,383 | 425,279 |

### 7. Incwm net am y flwyddyn

| Nodir yr incwm net ar ôl codi: | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 62,354 | 61,995 |
| Ffioedd archwilio | 6,435 | 6,188 |
| Archwiliwr – ffioedd eraill | 2,840 | 2,667 |

### 8. Costau staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Cyflogau | 2,071,796 | 1,902,351 |
| Cyflogau gweithwyr | 47,206 | 50,012 |
| Yswiriant cenedlaethol | 168,602 | 169,978 |
| Costau pensiwn | 89,798 | 90,469 |
| | 2,377,402 | 2,212,810 |

Cyfanswm nifer cyflogedig ar sail blwyddyn cyflawn oedd 163 (*2023 – 151*). Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli gan ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2023 – Dim)*. Ni wnaed taliadau i ymddiriedolwyr yr elusen am gostau a achoswyd *(2023 – Dim)*. Ni wnaethpwyd taliad am wasanaethau proffesiynol nac am wasanaethau eraill i ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2023 – Dim)*.

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tim rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £226,292 *(2023 - £238,835)*.

| | 2024<br>Nifer | 2023<br>Nifer |
|---|---|---|
| Prif weithredwr | 1 | 1 |
| Uwch reolwyr | 3 | 2 |
| Rheolwyr | 13 | 12 |
| Safle | 23 | 21 |
| Ail Gylchu | 17 | 13 |
| Warws Werdd | 3 | 4 |
| Cynllun Cartrefu | 26 | 21 |
| Beics Menai | 3 | 2 |
| Gweinyddol | 4 | 5 |
| Gweithwyr gyda anabledd | 70 | 70 |
| | 163 | 151 |

### 9. Trafodion Partion Cysylltiedig

Ni fu trafodion gyda partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Nid oedd symiau yn ddyledus i na dyledus gan bartïon cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn *(2023 - £Dim)*.

### 10. Grantiau Llywodraeth

Mae incwm grantiau llywodraeth yn cynnwys cytundebau gwasanaeth gyda awdurdodai lleol i ffynonellau gwasanaethau buddiannol i fuddiolwyr yr elusen.

### 11. Treth gorfforaeth

Mae gan Antur Waunfawr eithriad o dreth ar incwm ac enillion dan Adran 505 o Ddeddf Treth 1988 ac adran 252 o'r Ddeddf Treth Enillion Cyfalaf 1992 i'r eithaf eu defnyddir at ei nodau elusennol.

### 12. Buddiannau sefydlog

| | *Tir ac Adeiladau* | *Offer* | *Moduron* | *Cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| ***Cost/Gwerth*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2023 | 4,237,659 | 513,339 | 114,602 | 4,865,600 |
| Ychwanegiadau | 483,309 | 37,387 | 41,000 | 561,696 |
| Gwarediadau | - | (1,300) | (13,000) | (14,300) |
| Ar 31ain Mawrth 2024 | 4,720,968 | 549,426 | 142,602 | 5,412,996 |
| ***Dibrisiant*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2023 | 268,230 | 403,204 | 56,732 | 728,166 |
| Cost am y flwyddyn | 19,653 | 23,412 | 19,289 | 62,354 |
| Rhyddhawyd ar warediadau | - | (1,300) | - | (1,300) |
| Ar 31ain Mawrth 2024 | 287,883 | 425,316 | 76,021 | 789,220 |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | | |
| Ar 31ain Mawrth 2024 | 4,433,085 | 124,110 | 66,581 | 4,623,776 |
| Ar 31ain Mawrth 2023 | 3,969,429 | 110,135 | 57,870 | 4,137,434 |

Yn gynwysedig yn y £4,636,776 mae £20,000 sydd yn werth tir yn Waunfawr ac £38,599 o dir yng Nghaernarfon. Ail brisiwyd y tir ac adeiladau yn Waunfawr ac Warws Werdd yng Nghaernarfon gan Dafydd Hardy, syrfewyr siartredig yn mis Mawrth 2020. Rhoddwyd gwerth y tir ac adeiladau yn Waunfawr fel £2,165,000. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod y gwerth yma yn briodol ar 31 Mawrth 2024 o ystyried yr amodau economaidd presennol. Cost gwreiddiol yr asedau sefydlog yw £4,719,218 (2023-£4,238,909) a buasai dibrisiant o £246,800, (2023- £222,584) wedi ei godi arnynt.

### 13. Stoc

| | **2024** | **2023** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cynnwys stoc: | | |
| Stoc Warws Werdd | 11,561 | 17,783 |
| Stoc Beics Menai | 5,200 | 5,130 |
| Stoc siop | 7,032 | 5,646 |
| Stoc cafe | 812 | 1,881 |
| Stoc Caergylchu | 2,440 | 850 |
| | 27,045 | 31,290 |

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

## 14. Dyledwyr

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Grantiau, cytundebau a dyledwyr masnachol | 713,369 | 203,884 |
| Dyledwyr eraill | 80,965 | 24,289 |
| | 794,334 | 228,173 |

## 15. Credydwyr: *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 125,020 | 2,923 |
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas | 13,480 | 15,479 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 131 | 131 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 7,000 | 11,238 |
| | 145,631 | 29,771 |

## 16. Credydwyr: *symiau yn ddyledus ar ol blwyddyn*

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas (yn daladwy mewn llai na 5 blywyddyn) | - | 13,623 |

## 17. Offerynnau ariannol

Yr offerynnau ariannol a fesurir ar sail cost wedi ei amorteiddio yw'r benthyciad hur bwrcas.

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | 13,480 | 15,479 |
| Swm yn ddyledus dros blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | - | 13,623 |
| Cyfanswm | 13,480 | 29,102 |

## 18. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | 366,513 | 230,739 |
| Llog a dderbyniwyd | (2,313) | (124) |
| Dibrisiant | 62,354 | 61,995 |
| Elw ar werthu asedau | (2,610) | - |
| (Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc | 4,245 | (8,717) |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr | (566,161) | (96,758) |
| Cynydd/(Lleihad) mewn credydwyr | 115,860 | (38,700) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | **(22,112)** | 148,435 |

**19. Ymroddiad cyfalaf**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan Antur Waunfawr ymroddiad cyfalaf ynglŷn a datblygiad adeiladau o £DIM *(2023 - £375,508 ).*

**20. Cronfeydd cyfyngedig**

| | 31 Mawrth 2023 | Trosglwydd -iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 337,544 | - | (10,548) | - | 326,996 |
| Sgubor Grefftau | 8,295 | - | (261) | - | 8,034 |
| Grant Cae Chwarae | 19,980 | - | (1,080) | - | 18,900 |
| Rhoddion | 1,233 | - | (1,233) | - | - |
| Grant Clothworkers Foundation | 2,650 | - | - | - | 2,650 |
| Grantiau Porth Yr Aur | 546,114 | - | (5,648) | - | 540,466 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 61,611 | - | (20,537) | - | 41,074 |
| Grantiau Sied Werdd | 275,787 | - | 376,662 | - | 652,449 |
| Grant SPF 'Beicio i Bawb' | | - | 27,865 | - | 27,865 |
| | 1,253,214 | - | 365,220 | - | 1,618,434 |

| | 31 Mawrth 2022 | Trosglwydd -iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 348,092 | - | (10,548) | - | 337,544 |
| Sgubor Grefftau | 8,546 | - | (251) | - | 8,295 |
| Grant Cae Chwarae | 21,060 | - | (1,080) | - | 19,980 |
| Rhoddion | 2,466 | - | (1,233) | - | 1,233 |
| Grant Clothworkers Foundation | 2,650 | - | - | - | 2,650 |
| Grantiau Porth yr Aur | 557,491 | - | (11,377) | - | 546,114 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 82,148 | - | (20,537) | - | 61,611 |
| Grantiau Sied Werdd | - | - | 275,787 | - | 275,787 |
| | 1,022,453 | - | 230,761 | - | 1,253,214 |

**Cronfeydd anghyfyngedig**

| | Balans 31 Mawrth 2023 £ | Trosglwy-ddiadau £ | Adnoddau Cyllid £ | Ail Brisio £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,590,290 | 208,967 | 1,293 | - | 2,800,550 |
| Cronfa Ailbrisio | 523,776 | (2,156) | - | - | 521,620 |
| | 3,114,248 | 206,811 | 1,293 | - | 3,322,352 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 229,500 | (229,500) | - | - | - |
| Cronfa Wrth Gefn | 596,750 | 22,689 | - | - | 619,439 |
| | 3,940,498 | - | 1,293 | - | 3,941,791 |

| | Balans 31 Mawrth 2022 £ | Trosglwy-ddiadau £ | Adnoddau Cyllid £ | Ail Brisio £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,570,303 | 20,009 | (22) | - | 2,590,290 |
| Cronfa Ailbrisio | 525,932 | (2,156) | - | - | 523,776 |
| | 3,096,417 | 17,853 | (22) | - | 3,114,248 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 229,500 | - | - | - | 229,500 |
| Cronfa Wrth Gefn | 614,603 | (17,853) | - | - | 596,750 |
| | 3,940,520 | - | (22) | - | 3,940,498 |

**21. Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr asedau net ar 31ain Mawrth 2024**

| | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Dynodedig £ | Cronfa Gyffredinol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 1,618,434 | - | 3,005,341 | 4,623,775 |
| Asedau Cyfredol Net | - | 619,439 | 317,011 | 936,450 |
| Cyfanswm asedau net | 1,618,434 | 619,439 | 3,322,352 | 5,560,225 |

## Antur Waunfawr

### **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2024*

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

Prif weithgaredd y cwmni yw darparu gwaith a hyfforddiant i bobl ag anabledd dysgu, a thrwy hynny gwasanaethu'r gymuned.

**Cronfeydd Dynodedig a chyfyngedig**

Mae'r cwmni wedi penderfynu ymrwymo arian sydd ar gael wrth gefn er mwyn datblygu eiddo Sied Werdd.

Mae swm yn cynrychioli tri mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn i gyfarfod unrhyw heriau annisgwyl h.y £619,439 ar hyn o bryd. Mae hyn yn unol a chanllawiau ymarfer da y Comisiwn Elusennau ac yn cyfarfod ag amcanion Llywodraethu Da Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

22. **Dadansoddiad o gronfeydd y flwyddyn flaenorol**

**Antur Waunfawr**
**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2023 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2022 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | ***3*** | 54,316 | 11,600 | 65,916 | 91,447 |
| Grant Cyfalaf – Porth Yr Aur | | - | - | - | 109,869 |
| Grant Cyfalaf – Sied Werdd | | - | 275,787 | 275,787 | - |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | ***4*** | 1,681,199 | - | 1,681,199 | 1,547,334 |
| Incwm Warws Werdd | ***4*** | 413,166 | - | 413,166 | 414,213 |
| Incwm Caer Gylchu | ***4*** | 585,122 | - | 585,122 | 572,264 |
| Incwm Beics Menai | ***4*** | 97,963 | - | 97,963 | 61,136 |
| Llog | | 124 | - | 124 | 4 |
| Cynllun Cadw Swyddi | | - | - | - | 10,535 |
| Grantiau Covid | | - | - | - | 47,932 |
| ***Cyfanswm incwm*** | | 2,831,890 | 287,387 | 3,119,277 | 2,854,734 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | ***5*** | 2,831,912 | 56,626 | 2,888,538 | 2,695,443 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | 2,831,912 | 56,626 | 2,888,538 | 2,695,443 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | **(22)** | **230,761** | **230,739** | **159,291** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | (22) | **230,761** | **230,739** | **159,291** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2022 | | 3,940,520 | 1,022,453 | 4,962,973 | 4,803,682 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2023 | | 3,940,498 | 1,253,214 | 5,193,712 | 4,962,973 |
| | | ======= | ======= | ======= | ======= |

**ANTUR WAUNFAWR**

England & Wales - Charity number 515445

# Accounts

# ANTUR WAUNFAWR
**(Cwmni yn gyfyngedig trwy warant)**

## ADRODDIAD a DATGANIADAU ARIANNOL

## BLWYDDYN HYD AT: 31 MAWRTH 2023

**Rhif Elusen: 515445**

**Rhif Cwmni: 01832813**

**ANTUR WAUNFAWR**

**GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL:**

| | |
|---|---|
| **Rhif Cofrestru'r Elusen:** | **515445** |
| **Rhif Cofrestru'r Cwmni:** | **1832813** |

**Ymddiriedolwyr**

**Aelodau'r Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Mr. Rhys Evans | Cadeirydd hyd at 20.03.23 |
| Miss. Gwen Tomos | Cadeirydd 20.03.23 ymlaen |
| Mr. Huw Ynyr | Is-gadeirydd |
| Mr. Kevin Hughes | Trysorydd hyd at 26.09.22 pan ymddiswyddodd |
| Mr. Daron Harris | |
| Mrs. Sara Mair Tomos | |
| Mrs. Anna Ll. Williams | |
| Mrs. Lowri Huws Jones | |
| Dr. Catrin Ellis Williams | |
| Mr. Terry Parry | |
| Miss. Mared Ynyr | Penodwyd 22.11.22 |
| Ms. Carol Davies Owen | Penodwyd 22.11.22 |
| Dr. John Prys Morgan Jones | Ymddiswyddo 26.09.22 |
| Mr. Gwyn Llŷn Parry | Ymddiswyddo 28.02.23 |
| Ms. Menna Jones | Ysgrifenyddes hyd at 26.07.22 pan ymddiswyddodd |
| Mrs. Ellen Thirsk | Ysgrifenyddes 26.09.22 ymlaen |
| Mr Dafydd Davies | Penodwyd 24.07.23 |

**Y Tîm Rheoli:**

| | |
|---|---|
| Menna Jones | Prif Weithredwraig (Dyddiad Ymddiswyddo 26.07.22) |
| Ellen Thirsk | Prif Weithredwraig (Dyddiad Penodi 26.09.22) |
| Stephen Goodwin | Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl |
| Haydn Jones | Uwch Reolwr Tri Busnes Gwyrdd |
| Sioned Hughes | Rheolwraig Cyllid |
| Gwenlli Mai Wynne | Rheolwraig Datblygu Busnes |
| Elain Hughes | Rheolwraig Datblygu Busnes |
| Glesni Lewis | Rheolwraig Adnoddau Dynol |
| Margaret Jones | Rheolwraig Cydymffurfio ac Ansawdd |

**Swyddfa Gofrestredig a Gweinyddol:**
Bryn Pistyll
Waunfawr
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4BJ

**Cyfreithwyr:**
Iestyn T. Harris, Carter Vincent LLP, The Port House, Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN

**Bancwyr:**
Banc Barclays, Grŵp Canghennau Gwynedd, Bangor, Gwynedd

**Archwilwyr:**
W.J. Matthews a'i Fab, 11-15 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

**ADRODDIAD BWRDD YMDDIRIEDOLWYR ANTUR WAUNFAWR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023**

**RHAGAIR**

Cofnod o waith Antur Waunfawr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 yw'r adroddiad hwn. Mae sylw yma i waith a phrosiectau'r Antur a hefyd ein hymdrechion parhaus i warchod ein hunigolion a'n staff yng nghyfnod Cofid. Nodir y llwyddiannau a'r holl a gyflawnwyd er gwaethaf yr heriau a'n wynebwyd.

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd â'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y cwmni, a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Antur Waunfawr a wnaed yn Gwmni Corfforedig ar 13eg Gorffennaf 1984 ac a gofrestrwyd yn Elusen ar 6ed Awst 1984. Sefydlwyd y Cwmni o dan Femorandwm y Cwmni sy'n sefydlu amcanion ac awdurdod y cwmni elusennol hwn ac yn cael ei reoli gan Erthyglau'r Cwmni.

**NOD AC AMCANION**

Mae Memorandwm Antur Waunfawr yn cyhoeddi ein nod fel a ganlyn;

"I hyrwyddo a chymryd rhan yng nghymorth a gofal bobl ag anawsterau dysgu ac unigolion ag anableddau corfforol a gyfeirir atom gan asiantaethau statudol, yn Sir Gwynedd a'r cylch:- drwy ddarparu, a rhoi cymorth yn y ddarpariaeth o gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, heb eithrio hil, oed neu ryw na thybiaethau gwleidyddol, crefyddol neu dybiaethau eraill."

Mae'r Bwrdd yn trafod nod yr elusen yn rheolaidd ac yn ei gadw mewn cof wrth gynllunio a datblygu ei strategaeth ar gyfer y Cwmni.

Rydym yn cyflawni'r nod drwy:

- ddarparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i unigolion ag anableddau a'r difreintiedig
- ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid
- ddarparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat
- ddatblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar mewn cynlluniau personol unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd a gwaith yr Antur
- hyrwyddo integreiddio a byw yn iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant a hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion yr unigolion
- ddarparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd
- ddatblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach, a gwarchod yr amgylchedd
- ein canolbwynt newydd llesiant a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon
- fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

**SUT MAE EIN GWEITHGAREDDAU YN CREU BUDD CYHOEDDUS**

Drwy weithredu'r amcanion uchod, rydym yn ateb anghenion ein hunigolion gydag anableddau dysgu a'r gymdeithas ehangach.

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig lleoliadau gwaith neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu'r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy'n cael ei gyfeirio atom, ac i

sicrhau adnoddau teg i roi'r gwasanaeth gorau posib i'n defnyddwyr. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo'r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

**CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD**

Mae Antur Waunfawr wedi ymrwymo i gyfarch ysbryd ac amcanion Deddfau Llywodraeth Cymru, yn bennaf;

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd, a llesiant unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan Antur Waunfawr. Mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau, ac yn sicrhau fod y cynnwys yn treiddio trwy weithgareddau, prosiectau a gofalaeth Antur Waunfawr. Byddwn yn gweithredu'n unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn berthnasol i brosiect Beics Antur.

Wrth lunio ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gweithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, gan gynnwys y canllaw 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

Mabwysiadodd yr Antur Ddatganiad Llesiant yn 2016, ac mae'r datganiad yma yn sail i'n darpariaethau llesiant wrth ddatblygu ein gweithgareddau a phrosiectau iechyd a lles i'r dyfodol.

**Datganiad Llesiant Antur Waunfawr:**

> "Hyrwyddo llesiant, iechyd da a hapusrwydd, a galluogi unigolion fydd conglfeini gwasanaethau Antur Waunfawr i'r dyfodol.
>
> Darperir gofal, cefnogaeth weithgar, hyfforddiant a gwaith ystyrlon mewn modd effeithlon a chymesur i ateb gofynion pobl ag anableddau dysgu a phobl ddifreintiedig yn lleol.
>
> Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.
>
> Ein nod yw creu cymdeithas arloesol, gyfartal, gynhyrchiol a charbon isel trwy feithrin teulu o fusnesau cynaliadwy yn lleol - cychwyn wrth ein traed a gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau llesiant a chymunedau gwydn."

Mae gan Antur Waunfawr sawl adran lwyddiannus sy'n cynnig cyfleoedd gwaith, hyfforddiant, cyfleoedd llesiant a gwasanaethau amrywiol i unigolion ag anableddau dysgu, a phobl ddifreintiedig.

Yn sgil y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 adolygwyd swydd ddisgrifiad y Brif Weithredwraig i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**CROESAWU AELODAU NEWYDD I'R BWRDD RHEOLI**

**Recriwtio a Phenodi'r Pwyllgor Rheoli**

Mae Cyfarwyddwyr y Cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol yn ôl gofynion y gyfraith elusennol. Fe'u hadwaenir yn ôl Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni fel 'Cyfarwyddwyr' neu fel 'Aelodau'r Bwrdd'. Hefyd, mae'r Erthyglau'n gosod amod mai am flwyddyn ar y tro y byddant yn gwasanaethu a bod rhaid ethol neu ail-ethol dim mwy na 15 Cyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Rydym yn ffodus fod gennym amrediad da o arbenigedd a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor i'r tîm rheoli yn y meysydd sy'n berthnasol i waith y cwmni e.e. cyllid, cyfreithiol, moeseg, yswiriant, iechyd, gofal cwsmer, ail-gylchu, addysg a hyfforddiant, busnes, hylendid bwyd ac iaith a lleferydd.

**Ymddiriedolwyr Newydd**

Carol Davies Owen

"*Braint ac anrhydedd o'r mwyaf i mi, yw bod wedi cael gweithio yn agos gyda phlant ac oedolion ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd yn fy swydd fel Therapydd Iaith a Lleferydd tros y pum mlynedd ar hugain diwethaf. Rwyf wedi gweithio yn agos iawn gyda'r adran Addysg ac ysgolion Gwynedd a Môn, ac yn fwy diweddar o fewn yr ysgolion arbennig yn cefnogi sgiliau cyfathrebu'r disgyblion ac yn arwain yr ysgolion i dderbyn achrediad ffurfiol o "Sefydliad Gyfathrebu Gyfeillgar".*

*Rwyf wedi cael profiad gwerthfawr o fod yn gynrychiolydd rhieni ar Fwrdd Llywodraethu'r ysgol yn fy ardal leol, a hefyd yn fwy diweddar yn aelod o Lywodraethwyr Ysgol Pendalar. Ond - mae yn rhaid dweud mai'r anrhydedd mwyaf yw bod yn fam i ddau wr ifanc - yr hynaf, Iolo sydd yn 24 oed, ac yn elwa llawer iawn o wasanaeth yr Antur trwy ei leoliad dyddiol yn y Warws Werdd ar ieuengaf Huw - sydd yn 19 oed ac yn dod i derfyn ei flwyddyn gyntaf yn y coleg yng Nghaerdydd ".*

Mared Ynyr

*Cymhwysodd Mared fel cyfrifydd siartredig yn 2021. Dechreuodd ei gyrfa mewn cyllid fel Hyfforddai Graddedig gydag Archwilio Cymru yn 2018 ac mae bellach yn Uwch Archwilydd gyda phum mlynedd o brofiad yn archwilio cyfrifon sefydliadau'r sector gyhoeddus.*

**Anwythiad a Hyfforddiant Ymddiriedolwyr**

Gan fod Antur Waunfawr wedi ei sefydlu dros 30 mlynedd yn ôl, gyda phroffil uchel o fewn y gymdeithas, mae gan bob darpar gyfarwyddwr wybodaeth dda o'n gwaith. Caiff pob aelod o'r Bwrdd ffeil gyda manylion y strwythur rheolaethol a'r polisïau ynddi. Mae'r Brif Weithredwraig yn treulio amser gyda chyfarwyddwyr newydd, yn eu hanwytho drwy drefnu ymweliadau â'r safleoedd ac ateb cwestiynau.

**YMDDISWYDDIAD AELODAU'R BWRDD**

Diolchwyd i'r ymddiriedolwyr canlynol am eu hymrwymiad a'u gwaith dros y blynyddoedd;

Ms. Menna Jones - Ysgrifenyddes y Cwmni, a Phrif Weithredwraig am 27 o flynyddoedd
Mr. Kevin Hughes - Trysorydd y Bwrdd
Dr. John Prys Morgan Jones
Mr. Gwyn Llŷn Parry

Cyflwynwyd englyn wedi'i fframio i Menna:

Un sy'n gwneud nid dweud yw hi – a Waunfawr

sy'n ferw o'i hegni;

Ei Hantur yw'n Hantur ni;

heddiw, rhown ddiolch iddi.

Osian Wyn Owen, 2022

## STRWYTHUR Y TÎM RHEOLI

### Rheolwyr Gweithredol

Cynhelir cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli a Thîm Rheoli yn rheolaidd. Bydd cynrychiolydd pob adran hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda'u timau yn ogystal â Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Gweithgor Meddiannau a'r Gweithgor TGCh. Mae Is-bwyllgorau Bwrdd hefyd wedi'u sefydlu er mwyn gweithredu ar benderfyniadau neu adolygiadau – gan gynnwys Is-bwyllgor Personél, yr Is-bwyllgor Polisïau, Is-bwyllgor Cyllid, a'r Is-bwyllgor Datblygu. Yn ystod y flwyddyn mae'r rhain i gyd yn bwydo adroddiadau i'r Tîm Rheolaethol, yn ogystal â'r Bwrdd.

***Ellen Thirsk, Prif Weithredwraig***
Mae gan y Brif Weithredwraig, Ysgrifennydd y Cwmni ac Unigolyn Cyfrifol brofiad a chymhwyster yn y meysydd adnoddau dynol, datblygu gwasanaethau, busnes a chyllid, iechyd a diogelwch, iechyd a llesiant ac yn ymrwymedig i bolisïau a safonau megis ISO, ac mae ganddi'r awdurdod mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd i weithredu ar yr holl faterion yma. Mae Ellen yn Gyfarwyddwr i Galeri, Menter Gymdeithasol a Chreadigol yng Nghaernarfon ac yn Gadeirydd i gorff Llywodraethwyr Ysgol Pendalar. Mae hi wedi gwirfoddoli i'r Samariaid am gyfnod o 15 mlynedd yn y gorffennol ac wedi cael trawstoriad o brofiadau rheoli mewn Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol dros gyfnod o 31 mlynedd. Mae Ellen yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth ac Iechyd a Diogelwch (NEBOSH).

***Stephen Goodwin, Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl***
Mae Stephen yn aelod o Grŵp Trawsffurfio Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd. Mae gan Stephen dros 25 mlynedd o brofiad yn y maes gofal. Mae wedi cymhwyso fel Rheolwr Cofrestredig lefel 4. Mae Stephen hefyd wedi cwblhau cyrsiau mewn arweinyddiaeth a rheoli staff.

***Haydn Jones, Uwch Reolwr Busnesau Gwyrdd***
Mae gan Haydn brofiad helaeth o annog unigolion yng Nghymru a dramor tra roedd yn gweithio yn yr America drwy ei waith 'coaching' gyda thrawstoriad o unigolion (abl ac anabl). Mae ganddo brofiad eang o reoli ac mae'n gyfrifol am reoli a rhedeg gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu o fewn yr Antur. Mae wedi cymhwyso i lefel graddedig (MA) mewn Addysg ac mae wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau rheoli, ac yn ddiweddar wedi cwblhau NVQ Lefel 3 mewn Ailgylchu.

***Sioned Hughes, Rheolwraig Cyllid***
Mae gan Sioned arbenigaeth a phrofiad eang o'r maes cyllid a gweinyddiaeth, rheoli busnes a datblygu a sefydlu sustemau a gweithdrefnau. Mae wedi ei chymhwyso i Lefel 4 yn 'Association of Accounting Technicians'
Mae ganddi sgiliau rheoli da ac wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau cyllid a rheolaeth, yn ogystal â phrofiad helaeth o ddelio gyda sefydliadau allanol, e.e., cyfrifydd, prif bartneriaid ariannol, ayb.

***Elain Hughes, Rheolwraig Datblygu Busnes***
Graddiodd Elain o Brifysgol Aberystwyth yn 2015 efo gradd BA Cymraeg Proffesiynol ac mae wedi gweithio i'r Antur ers 2016. Mae ganddi wybodaeth eang o Antur Waunfawr gan ei bod wedi gweithio'n agos gyda phob adran; y tîm Rheoli, Uwch Reoli a'r Bwrdd dros y saith mlynedd diwethaf. Prif ganolbwynt ei gwaith yn ddiweddar yw rheoli a datblygu prosiect cyfalaf Sied Werdd. Mae Elain yn bwynt cyswllt i bartneriaethau newydd ac yn presenoli mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a grwpiau ffocws allanol.

***Gwenlli Wynne, Rheolwraig Datblygu Busnes***
Mae gan Gwenlli ddealltwriaeth a phrofiad gyda phob adran yn Antur Waunfawr gan ei bod wedi bod yn gynorthwyydd personol i Menna a Huw Davies (cyn-Ddirprwy Brif Weithredwr) cyn symud ymlaen i'w swydd bresennol. Mae ganddi BSc Gofal Iechyd a Chymdeithasol. Mae Gwenlli wedi mynychu cwrs arwain gyda 'Learn to Inspire', ac mae ganddi brofiad helaeth o ddelio gyda sefydliadau allanol megis mentrau cymdeithasol eraill, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorwyr lleol ayb.

***Glesni Lewis, Rheolwraig Adnoddau Dynol***

Mae Glesni wedi gweithio yn adran Adnoddau Dynol yr Antur ers 2015, ac wedi cyd-weithio yn agos gydag Uwch Reolwyr, Rheolwyr, staff cefnogol a'r Bwrdd yn ystod y cyfnod yma. Wedi graddio o Brifysgol Glyndŵr gyda MA Rheoli Adnoddau Dynol yn 2021, ac yn gweithio ar y pryd i fod yn aelod siartredig o'r corff CIPD. Er mwyn sicrhau fod Iechyd a Llesiant staff yn ganolbwynt i'r gwaith a'r gefnogaeth a ddarparwyd, wedi cymhwyso fel Cymhorthydd Cyntaf Iechyd Meddwl, Ymarferydd I-Act a Hwylusydd Lles

***Margaret Jones, Rheolwraig Cydymffurfio ac Ansawdd***

Profiad helaeth o faes gweinyddol ac wedi datblygu ei hun o fewn y Cwmni i'r rôl bresennol. Wedi cymhwyso mewn IOSH, Tystysgrif NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a Thystysgrif Diogelwch Tan NEBOSH. Hefyd wedi cymhwyso fel Cymhorthydd Cyntaf Iechyd Meddwl, Hyfforddiant Asist, Ymarferydd I-Act a Hwylusydd Lles ac yn teimlo'n angerddol dros allu rhoi cefnogaeth i staff pan fo'r angen, gan weithio i sicrhau fod iechyd a llesiant staff yn flaenllaw. Yn bersonol, fel gofalwr di-dal profiad cryf o gydweithio gydag asiantaethau, sgiliau cyfathrebu cryf, empathi naturiol a'r gallu i ddatrys problemau yn sydyn a delio gyda sefyllfaoedd heriol fel y maent yn digwydd sy'n gryfder ac yn cyd fynd gyda'r sgiliau ar gyfer y rôl bresennol.

**GWELEDIGAETH ANTUR WAUNFAWR**

Gweledigaeth Antur Waunfawr yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i integreiddio i'r gymuned leol a chyflawni gwaith go iawn gyda phwrpas: Rydym yn Fenter Gymdeithasol flaenllaw sydd yn cynnig cyfleoedd iechyd a llesiant, hyfforddiant a gwaith amrywiol iawn yn ei natur i unigolion ag anableddau dysgu. Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n gwaith. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwaith i'n hunigolion, mae gan yr Antur nifer o fusnesau llewyrchus, a chaiff yr holl elw ei ail fuddsoddi yn y gwasanaeth i unigolion efo anableddau dysgu ac ein cymuned leol.

Mae ein nod o integreiddio pobl ag anableddau dysgu i'r gymuned ym mhob agwedd bosib - boed yn waith neu weithgareddau cymdeithasol, yn rhinwedd sydd yr un mor bwysig heddiw ag yr oedd pan sefydlwyd yr Antur.

**DIOGELU**

Parhawyd i ddarparu gwasanaeth i unigolion preswyl, i unigolion gofal dwys yn unol â gofynion teuluol a chomisiynwyr, tra bod rhai unigolion yn cysgodi adref gyda theuluoedd a gwarchodwyr. Roedd rheolaeth lem ar fonitro symptomau, hunan ynysu, profi, olrhain achosion, darpariaeth ddigonol o PPE a chynllun ail agor.

**TRI BUSNES GWYRDD**

**WARWS WERDD**
Canolfan a siop sy'n ailgylchu ac ailddefnyddio dodrefn a dillad ydi'r Warws Werdd.

**Dillad**
Yn ystod 2022/23, parhawyd i gasglu, didoli a phrosesu dillad er mwyn cynnig profiadau i'r unigolion a chreu incwm allweddol i'r cwmni. Yn dilyn gweld cynnydd o oddeutu 400% yn y tunelledd dillad y llynedd ar ol datblygu ein perthynas gyda masnachwyr dillad Roberts Recycling Ltd, parhawyd i weld tunelledd cyson yn y dillad yr ydym yn ei brosesu yn fisol. Dros y flwyddyn, gwnaethom brosesu 436 tunnell o ddillad drwy'r Warws oedd 53 tunnell yn fwy na'r llynedd.

**Dodrefn**
Rydym wedi bod yn parhau i gasglu dodrefn yn ystod y flwyddyn o dai ein cwsmeriaid, ac rydym hefyd wedi bod yn derbyn dodrefn i'w hailddefnyddio yn uniongyrchol gan y cyhoedd i'r Warws, ynghŷd â gwastraff masnachol sy'n cael eu gwerthu am brisiau fforddiadwy i Adra, Digartrefedd Môn, Gisda, Grŵp Cynefin ac adran digartrefedd y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, proseswyd 13.5 tunnell o ddodrefn.

**Gwastraff Swmpus**
Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i gydweithio hefo Cyngor Gwynedd wrth i ni eu cynorthwyo i ddal i fyny gyda chasgliadau Gwastraff Swmpus.

**Gofod Trwsio a Chreu Ffiws Antur Waunfawr**

Y llynedd derbyniwyd nifer o offer ar gyfer gofod trwsio a chreu o dan frand 'Ffiws', sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Economi Gylchol drwy law Cyngor Gwynedd. Mae'r offer yn cynnwys argraffwr 3D, torrwr laser, torrwr finyl, a pheiriannau gwnio a brodwaith. Mae'r gofod wedi ei leoli dros dro yn y Warws, a bydd yn symud i adeilad newydd y Sied Werdd pan fydd yn barod.

Eleni, mae staff ac unigolion ar draws adrannau Antur Waunfawr wedi mynychu sawl hyfforddiant yn ymwneud â phrosiect Ffiws Antur Waunfawr. Pwrpas Ffiws Antur Waunfawr yw rhoi cyfle i bawb gael mynediad at offer uwch-dechnoleg ac annog ac ysbrydoli creadigrwydd.

**SIED WERDD**

Yn dilyn derbyn arian grant drwy gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd i wella isadeiledd ailgylchu ac ailddefnyddio'r sir, mae gwaith yn parhau i ddatblygu'r Sied Werdd ar ein safle Warws Werdd.

Penodwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer y gwaith dylunio a rheoli prosiect a chwmni adeiladu OBR ar gyfer y cytundeb adeiladu, ac mae'r gwaith datblygu wedi bod yn dod yn ei flaen dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y sied 170m$^2$, gydag ail lawr yr un maint, yn cael ei hadeiladu ar dir sydd yn eiddo i'r Antur, tu ôl i'r Warws Werdd yng Nghibyn. Bydd yr adeilad yn hygyrch, gyda lifft a chyfleusterau cymorth, ac wedi ei dylunio gan ystyried amrywiaeth eang o anghenion.

Bydd y llawr gwaelod yn cynnwys gweithdy, gyda meinciau addasedig sydd yn codi a gostwng ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, a pheiriannau ysgafn ar gyfer unigolion gyda gwendid yn eu cyhyrau. Bydd y llawr cyntaf wedi ei rannu i 3 uned, gyda gofodau hyblyg ar gyfer prosiectau ailgylchu ac ailddefnyddio a fydd yn cyfrannu at nod y prosiect. Gall hwn hefyd fod yn ofod addysgiadol ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion. Bydd hyn yn rhyddhau gofod yn y Warws Werdd ar gyfer llawr siop.

**CAERGYLCHU**

Canolfan ailgylchu ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, a sefydlwyd mewn partneriaeth â'r cyngor yn 2005 ac sy'n esiampl flaenllaw o gydweithio rhwng y ddau sector. Denwyd £1.7m o grant i Gaergylchu yn 2007. Mewn blwyddyn arferol, rydym yn trin 970 tunnell o blastig y flwyddyn, ac yn ystod y flwyddyn 22/23 danfonwyd 329 tunnell o bapur i'w ailgylchu.

**LLARPIO ANTUR**

Gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol, sydd wedi'i leoli yng Nghaergylchu, ac yn gwasanaethu ar hyd Gogledd Cymru i fusnesau a chartrefi, gyda dros 2,754 o gwsmeriaid a dros y flwyddyn casglwyd 13,801 o sachau coch. Rydym yn gweithredu yn unol â gofynion rheolau GDPR ac wedi derbyn achrediad BS EN 15713: 2009.

**BEICS ANTUR**
Siop feics sydd yn hurio, trwsio a gwasanaethu beics yw Beics Antur, wedi ei leoli ym Mhorth yr Aur Caernarfon. Rydym yn hurio beics 2 olwyn oedolion, beics plant, e feics a fflyd a beics addasedig ar gyfer oedolion a phlant ifanc megis rhai ochr yn ochr, rydym hefyd yn cynnig trosi beics i fod yn feics trydan.
Mae 6 o unigolion yr Antur yn cael profiadau gwaith yn y gweithdy gyda'r swyddogion beics, a rhai wedi dysgu sgiliau trin beics er mwyn cwblhau tasgau yn annibynnol.

**Llofft Llesiant**
Ar y llawr cyntaf mae Llofft Llesiant, gofod stiwdio 100m$^2$ ar gyfer pob math o weithgareddau iechyd a llesiant megis dawns, ioga , pilates a ffitrwydd, sydd hefyd ar gael i'w llogi ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant. Yn ychwanegol, mae Ystafell Synhwyraidd ar y llawr cyntaf ar gyfer unigolion ag anghenion dwys neu nam ar y synhwyrau.

**Ysgolion**
Yn ystod Mawrth 2022 cynhaliwyd prosiect peilot Sgiliau Beicio gydag Ysgol Waunfawr. Pwrpas y sesiynau oedd;
-Galluogi plant i gael cyfle i ddysgu sgiliau a thechnegau beicio mewn awyrgylch diogel
-Codi hyder plant ar gefn beic
-Annog plant i fod a diddordeb naturiol yn y byd beicio
-Darparu beics a helmedi ar gyfer y sesiynnau
Ein bwriad yw darparu sesiynau Sgiliau Beicio i ragor o ysgolion yn 2023/24.

Rydym yn cyd-weithio gydag Ysgolion Uwchradd yr ardal yn hurio beics i ddisgyblion yn ystod wythnos llesiant yr ysgolion.

**SAFLE BRYN PISTYLL**

Mae pwyslais yn parhau ar flaenoriaethu iechyd a lles ein hunigolion; maent wedi bod yn mwynhau gweithgareddau megis sesiynau garddio, cynhyrchu seidr, dawnsio, ioga, pilates, crefftau, a pharatoi a gweini cinio cartref.

Eleni, rydym wedi bod yn cyd-weithio hefo llwybrau llesiant gan wneud gweithgareddau ar y cyd hefo unigolion y tu allan i'r Antur gan fynd i'r sinema a chwarae bingo. Mae'r daith gerdded wythnosol wedi parhau eto eleni. Yn ogystal,

mae cyfle wythnosol i feicio a nofio a chymryd rhan mewn sesiynau therapi adlam yng Nghanolfan byw yn iach ble caiff unigolion ddefnyddio'r trampolin i gadw'n heini. Mae sesiynau carioci ar y safle yn boblogaidd iawn ac yn dod a phawb at ei gilydd.

**CAFFI BLAS Y WAUN**
Mae'r caffi yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, ond penderfynwyd ein bod yn parhau i baratoi prydau bwyd i'r trigolion bregus yn y gymuned oedd wedi cael budd o'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod clo. Mae hyn yn caniatáu i ni barhau i gydweithio gyda'r gymuned leol (megis ysgolion a grwpiau cymunedol) gan gynnig bwffe a phrydau ar glyd ac mae hyn yn bwysig o safbwynt gwaith sydd yn cael ei gyflawni gan yr unigolion yn ogystal ag elfen o incwm y caffi.

Ein bwriad yn y dyfodol bydd rhoi ffocws ar fod yn datblygu'r safle ymhellach ar gyfer fwy o gyfleoedd i unigolion efo anableddau dysgu – gan barhau i gynhyrchu bara brith, jam, fflap jacs a siytni, seidr, sudd oren ayb er mwyn gwerthu i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn edrych ar ddarparu ein nwyddau mewn sawl lleoliad ac wrth gwrs yn cydweithio mewn partneriaeth hefo sawl tafarn a siopau lleol sydd yn awyddus i werthu cynnyrch yr Antur.

**PARC NATUR A GERDDI**
Ar safle Bryn Pistyll mae 7 erw o erddi a pharc natur, yn ogystal â maes chwarae cynhwysol. Yn ystod y cyfnod, fe arwyddwyd ein cytundebau rhandiroedd i gyd, ac un syniad cyffrous i'r dyfodol yw datblygu'r ochr yma o'r busnes, gan gynnig mwy o randiroedd, yn cynnwys pobl hefo anableddau a darparu sesiynau dysgu sgiliau ayb.

**BRAGDY ANTUR WAUNFAWR**
Yn dilyn llwyddiant y bragdy ar y safle ble mae cynnyrch lleol yn cael ei droi'n sudd afal a seidr Perllan y Fro, rydym yn awyddus i gynyddu potensial cynhyrchu'r bragdy: Rydym yn cynhyrchu mwy o seidr nawr ar y safle. Mae'n bosib cynhyrchu 3,860 potel (neu mwy) os yw'r galw yna, a safle wê wedi ei ddatblygu i werthu'r cynnyrch. Ein gwefan yw:-

https://perllan.shop/

Cynhyrchwyd gwerth £5,790 o seidr i'r cyhoedd eleni. Mae pob unigolyn sy'n gweithio ar Safle Waunfawr, os dymunir, yn cael y cyfle i greu seidr yn eu tro. O ganlyniad, mae'r penderfyniad wedi ei wneud i ehangu'r gwaith yma ar y cyd hefo'r adran marchnata.

**BYNGALO GWYLIAU**
Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn buddsoddiad o gronfeydd Antur Waunfawr a grant Cyfenter, rydym wedi bod yn datblygu byngalo gwyliau hygyrch, sy'n addas i unigolion gydag anableddau, a all hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer llety ysbaid. Cwblhawyd y prosiect yn ystod Gwanwyn 2020. Ers mis Tachwedd 2021, mae cytundeb wedi ei sefydlu gyda'r cyngor i flaenoriaethu'r gofod i roi gofal ysbaid i ofalwyr ac unigolion sydd yn gwneud cais trwy'r cyngor.

**CYNLLUN CARTREFI AC AML OFYNION**
Rydym yn darparu gwasanaeth Cymorth Cartref o dan reoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 10 unigolyn. Yn ogystal â gwasanaeth cefnogaeth symudol. Darparwn gefnogaeth gofal a gofal personol sydd wedi ei deilwra ar gyfer yr unigolion yn unol â'u hanghenion. Cafodd sawl unigolyn y cyfle i fynd ar eu gwyliau ac i weld sioeau yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn cynnal gwasanaeth aml-ofynion ble mae unigolion gydag anableddau dwys yn derbyn cefnogaeth un i un, a chyfleoedd iechyd a llesiant. Cafodd y gwasanaeth ei gynnal i'r rhai mwyaf bregus drwy gydol y pandemig. Rydym wedi manteisio ar leihad mewn achosion Cofid i ail gydio mewn sesiynau nofio a marchogaeth. Cawsom y fraint o gael Ann a Bill Hopcyn draw i gynnal sesiynau cerdd awyr agored yn wythnosol. Croesawyd unigolion yn ôl i'r gwasanaeth a llwyddom i gynyddu diwrnodau sawl unigolyn. Llwyddom i ail gychwyn y gwasanaeth hamdden sydd yn rhoi boddhad i'r unigolion yr ydym yn eu cefnogi ac ysbaid ar y penwythnos i'r rhieni. Cawsom gyfle gwych i ymweld â gwersyll Glan Llyn ble gawsom gyfle i ganwio, saethu bwa saeth a bowlio. Rydym wedi bod yn cyd-weithio gyda llwybrau Llesiant ac wedi bod ar dripiau sinema ac i weld Pantomeim Aladdin. Mae'r ystafell synhwyraidd ym Mhorth yr Aur yn dod â boddhad mawr i sawl unigolyn. Rydym wedi galluogi aelod o'n staff criteria i arbenigo mewn cyfathrebu drwy gyd-weithio gyda therapyddion Iaith er mwyn gwella ein darpariaeth cyfathrebu.

**RHWYDWEITHIAU STRATEGOL, PARTNERIAETHAU NEWYDD A CHYDWEITHIO YN YSTOD Y FLWYDDYN:**

**PERTHYNAS AG ASIANTAETHAU ALLANOL**

Mae Antur Waunfawr yn cynnig gwasanaeth i oedolion ag anableddau dysgu mewn partneriaeth, yn bennaf, ag adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd, yn ogystal â Chynghorau Conwy ac Ynys Môn hefyd. Rhagwelwn yn ystod y blynyddoedd nesaf y bydd mwy o bwyslais ar dendro ffurfiol am wasanaethau newydd a

gwasanaethau presennol. Mae'r cynghorau yn comisiynu'r gwasanaeth yn unol â'u hasesiad o angen ac rydym yn cytundebu gyda'r cynghorau i ddarparu gwahanol fathau o wasanaeth yn unol â'r asesiad. Ein nod wedyn fel menter gymdeithasol yw hyrwyddo potensial yr unigolion o ran eu gwaith ond hefyd eu datblygiad personol a'u sgiliau.

Parhawyd i gydweithio gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgol Pendalar, Ysgol Hafod Lon, Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, a Glynllifon, yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynllunio darpariaethau ar gyfer adnoddau gwell i dderbyn unigolion gydag anghenion mwy dwys. Rydym hefyd wedi cychwyn sesiynau ymarfer corff yng ngofod Dreigiau'r Dyffryn yn Nhregarth, sydd yn fenter gymdeithasol leol.

**ADRA:**
Yn sgil y newid yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, golygai nad oeddem mwyach yn gallu parhau i fod yn landlordiaid yn ogystal â darparu gofal personol i'n tenantiaid. Yr opsiwn gorau er lles ein tenantiaid oedd creu partneriaeth gyda chymdeithas tai Adra, sydd yn golygu mai Adra sydd bellach yn landlordiaid ar ein tai.

Rôl y Brif Weithredwraig yw cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau – Ellen Thirsk yw'r Person Cyfrifol (penodwyd ar yr ail o Awst, 2023) ar gyfer y cwmni. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**Iechyd a Llesiant Staff**

Rydym wedi cydweithio'n gyson gydag RCS Wales ar gyfer cyfeirio staff am gefnogaeth cwnsela a physiotherapi gan sicrhau eu bod yn gallu parhau yn y lle gwaith. Mae gennym ddwy aelod o'r tîm Adnoddau Dynol sydd wedi'u hyfforddi fel pencampwyr llesiant drwyddynt hefyd. Maent hefyd yn darparu gweminarau llesiant cyson sydd o fudd i allu cefnogi staff.

**Safonau**

**ARCHWILIAD ISO 14001 ac ISO 9001**
Llwyddwyd i gynnal ein Hachrediad ISO 14001 a'r Achrediad ISO 9001 unwaith eto yn dilyn archwiliad ar safle am y tro cyntaf ers gwaharddiadau Cofid. Ni chafwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ein herbyn. Mae'r gweithredu ar y broses a'r systemau cysylltiedig yn fuddiol i ni wrth ymgeisio am gytundebau a thendrau i'r dyfodol.

**BS EN 15713 GWASANAETH LLARPIO**
Roedd y gwasanaeth llarpio yn llwyddiannus yn cael yr achrediad BS EN 15713 fis Mawrth 2021 a cafwyd archwiliad allanol Mawrth 2022 gyda dim i weithredu arno. Mae'r achrediad yn cryfhau ein systemau gweithio yn ogystal â gallu ymgeisio am gytundebau a thendrau newydd.

**SAFECONTRACTOR**
Llwyddwyd i gael yr achrediad Safecontractor yn Ebrill 2022 a buom yn llwyddiannus i gael achrediad Aur. Mae'r achrediad yma yn angenrheidiol ar gyfer cadw cytundebau llarpio presennol ac yn cryfhau ein sefyllfa wrth ymgeisio am dendrau.

**DENU A DATBLYGU POBL**

Yn dilyn dyrchafiad Ellen Thirsk i swydd Prif Weithredwraig ym mis Medi 2022 adolygwyd y strwythur staffio Adnoddau Dynol a chrëwyd swyddi Rheolwraig Cydymffurfio ac Ansawdd a Rheolwraig Adnoddau Dynol gan ddyrchafu staff presennol.

Wrth gymryd i ystyriaeth yr hinsawdd economaidd anodd mae cyflogwyr yn eu hwynebu, mae'r Rheolwraig Adnoddau Dynol yn falch o adrodd ein bod eto eleni wedi llwyddo i gynnal yr adnoddau staff angenrheidiol ac wedi cydymffurfio efo holl ofynion gyfraith cyflogaeth. Drwy reoli ein hadnoddau rydym wedi llwyddo i gynnal safon ein gwasanaethau a chynllunio ar gyfer unigolion newydd yn ein gwasanaethau dydd a chefnogaeth gartref.

Er mwyn parhau i sicrhau effeithlonrwydd y Cwmni, gwobrwywyd ymroddiad ein staff a pharhawyd i gefnogi'r staff sydd yn arbenigo mewn darparu gofal ar sawl lefel i'n hunigolion ag anableddau dysgu yn y maes gofal. Rhoddwyd blaenoriaeth ar ddatblygu cryfderau a gyrfaoedd, rhoi cyfrifoldebau newydd i staff, rhoi clod i gyrhaeddiad ein staff a chynllunio'n strategol, gan roi pwyslais ar fentora, magu, a chadw staff.

Mae'r strwythur yma yn creu llwybr gyrfa i'n gweithwyr cefnogol, a chodiad cyflog i'r rhai a lwyddodd i ateb gofynion y meini prawf uwch. Bwriad y strwythur newydd yw magu hyder, datblygu sgiliau a chymwysterau ac annog ein staff i

ymgeisio am swyddi uwch. Eleni wnaeth 6 aelod staff lwyddo i gyrraedd y meini prawf uwch ac o ganlyniad maent wedi cymryd lefel uwch o gyfrifoldebau sydd wedi galluogi Is-reolwyr i ganolbwyntio ar faterion strategol yn ystod cyfnod heriol.

**Ymgyrch Recriwitio a ffeiriau swyddi**

Mynychwyd ffair swyddi a drefnwyd gan Gwaith Gwynedd ym Mangor ym mis Mawrth. Yn ystod y diwrnod wnaeth nifer o unigolion fynychu er mwyn hybu cyfloedd gofal o fewn y cwmni.

Bu’r adran Adnoddau Dynol yn cydweithio gyda’r Swyddog Marchnata i greu ymgyrch recriwtio staff gofal. Roedd nifer o gyfweliadau ar radio a theledu a phapurau bro yn ogystal ag ar gyfryngau cymdeithasol y Cwmni. Rhoddodd yr ymgyrch sylw penodol i’r Cwmni a llwyddwyd i ddenu staff newydd.

**STAFF NEWYDD**

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 fe benodwyd 7 aelod newydd o staff ar draws y cwmni.

**HYFFORDDIANT**

Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, gan sicrhau ein bod yn cadw i safonau megis Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Ynys Môn a Conwy. Rydym yn sicrhau bod gofynion hyfforddiant yn gyfredol ac yn cofrestru ein gweithwyr cefnogol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn cwblhau gwerthoedd ac egwyddorion o fewn ei 6 mis cyntaf o gychwyn eu cyflogaeth.

Rydym wedi cofrestru 21 aelod staff yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn parhau i gofrestru staff a chadw cofrestriad staff yn gyfredol yn unol â’r gofynion.

**PROFIADAU GWAITH**

Rydym yn adolygu profiadau gwaith yn rheolaidd yn ein Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Llwyddwyd i ailgychwyn profiadau gwaith i fyfyrwyr a disgyblion dros y cyfnod.

**CYDNABYDDIAETH**

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth mis Mai 2022 i roi swm o £1,498 i holl staff rheng flaen, fe wnaeth y Cwmni benderfynu rhoi cydnabyddiaeth o’r un swm i staff nad oedd yn disgyn mewn i gategorïau'r Llywodraeth gan eu bod hwythau wedi bod yn flaenllaw i redeg gwasanaeth gofal yn ystod y pandemig.

**UNIGOLION ANTUR WAUNFAWR**

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig cytundebau gwasanaeth neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu’r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda’r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy’n cael ei gyfeirio atom, ac i sicrhau adnoddau teg i roi’r gwasanaeth gorau posib i’n defnyddwyr. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo’r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

**MARWOLAETH UNIGOLYN**

Roedd yn newyddion trist iawn i ni yn yr Antur ac i’r Gymuned leol bod unigolyn wedi ein gadael yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth arbennig gan Y Parchedig Casi Jones i ddathlu bywyd yr unigolyn. Rhaid canmol y staff gofal a Rheolwraig y tŷ am eu holl ymroddiad yn ystod y cyfnod anodd yma.

**ADOLYGIAD CYLLIDOL**

**PRIF FFYNONELLAU INCWM**

Prif ffynhonnell incwm y cwmni yw Incwm Cytundebol o’r Awdurdodau Lleol trwy’r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal mae’r Cwmni yn rhan o bartneriaeth Caergylchu gyda Chyngor Gwynedd a chytundebir gyda’r Cyngor am y gwaith hwn. Mae incwm masnachol o werthu gwasanaeth a chynnyrch Antur Waunfawr, yn dod ag incwm hollbwysig i’r Antur.

**POLISI ARIAN WRTH GEFN**

Mae'n bolisi gan y Cwmni i gadw cronfa anghyfyngedig fechan, gan eithrio cronfeydd dynodedig o eiddo'r Elusen sydd wedi eu neilltuo yn benodol. Penderfynodd y Bwrdd adolygu'r polisi yn rheolaidd (gan gymryd i ystyriaeth asedau cynyddol y Cwmni) fel bod yna arian i gynnal costau gwasanaethu amcanion yr elusen am gyfnod, ac i gynnal costau rheoli a gweinyddu, a hefyd digon i ymateb i unrhyw gais brys. Dros y 6 mlynedd diwethaf mae'r Cwmni wedi sicrhau bod yna lleiafswm o 3 mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn ar gyfer unrhyw heriau annisgwyl. Mae hyn yn unol â chanllawiau ymarfer da'r Comisiwn Elusennau ac yn cwrdd ag amcanion y Cod Llywodraethu. Mae'r Cwmni hefyd yn ymwybodol bod angen buddsoddi yn adeiladau a safleoedd y Cwmni er mwyn sicrhau cynaladwyedd yr Antur i'r dyfodol.

**Rhoddion**

Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhoddion hael eto eleni sydd wedi ein galluogi ni i wneud gweithgareddau ychwanegol hefo'r unigolion.

**IAITH A DIWYLLIANT**

Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau sydd wedi eu sefydlu, ac rydym yn anelu bob amser i fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant a'r economi leol.

Byddwn yn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, gan fod yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.


- Rydym yn cyfarch ein cwsmeriaid yn ddwy ieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Ble mae'n bosib, rydym yn cefnogi busnesau lleol Cymraeg ac yn defnyddio cynnyrch lleol.
- Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg
- Rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn ddwy ieithog, mae'r wefan a thudalennau cymdeithasol megis trydar a Facebook i gyd yn ddwy ieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Rydym yn cefnogi ac yn annog yr iaith Gymraeg yn y gweithle, yn defnyddio Cymraeg ffurfiol ag anffurfiol
- Gallwch adnabod aelodau o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg gyda nwyddau Iaith Gwaith.

**MARCHNATA, YMGYSYLLTU A CHYHOEDDUSRWYDD**

Parhawyd i weithredu'r strategaeth marchnata a chyrraedd y nodau a amlinellwyd yn y strategaeth. Mae'r wefan yn parhau i gyfrannu at dwf presenoldeb ar-lein y cwmni a hefyd yn adrodd ein newyddion diweddaraf. Mae gennym eisoes linc hefo Golwg 360 ac rydym yn annog cyfranogwyr lleol.

Cyrhaeddiad rhwng 01 Ebrill 2022 – 01 Ebrill 2023: 64,484

Hoffiadau newydd 342 (cynnydd o 23.9%)



**GWOBRAU**

I goroni 2022, enillodd Antur Waunfawr wobr Daily Post 'Amrywiaeth a Chynhwysiant'; mi roedd yn anrhydedd i ennill ac 'rydym yn hynod o falch o'r gydnabyddiaeth.

**EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023 – 24**

- Darparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i unigolion ag anableddau dysgu ac i'r difreintiedig
- Darparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid
- Darparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ailgylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat
- Datblygu modelau o gynllunio gyda'r unigolion yn ganolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar fel rhan o gynlluniau'r unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd/gwaith yr Antur
- Hyrwyddo integreiddio a byw'n iach ym mhob agwedd o'n gwasanaethau a darpariaeth hamdden er mwyn bodloni anghenion iechyd da, llesiant a hapusrwydd yr unigolion
- Darparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd
- Datblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon, cefnogi'r gymuned ehangach a gwarchod yr amgylchedd
- Creu canolbwynt llesiant newydd a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon
- Bod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, y diwylliant, a'r economi leol

**DIWEDDGLO**

Mae'r cyfnod yma wedi bod yn amser o adferiad ar ôl y pandemig, gydag unigolion a staff yn teimlo rhyddhad o ddychwelyd i normalrwydd newydd gyda gwasanaethau, gweithgareddau a phrofiadau gwaith yn ailgychwyn. Mae'r Antur wedi ymgysylltu mwy hefo'r gymuned eleni ac rydym yn edrych i'r dyfodol; bwriadwn gydweithio hefo mentrau cymdeithasol eraill o fewn ein cymunedau a dechrau prosiectau cyffrous.

Mae naws gref o symud ymlaen, datblygu a darganfod ffyrdd newydd o weithio – a newid er gwell, gan gryfhau cydweithio o fewn y cwmni yn ogystal ag yn allanol, a phwyslais parhaol ar gadw staff ymroddedig, datblygu eu llwybrau gyrfa, ac arbenigo yn y maes gofal. Rydym yn gwerthfawrogi dyfalbarhad ein staff - diolchwn i'r staff cefnogol, staff yn yr adran Beics, y staff canolog ac ein staff yn y cynlluniau ailddefnyddio ac ailgylchu i gyd am eu gwaith blaengar a di-flino dros y flwyddyn. Mae'n galonogol i adlewyrchu ar yr holl a gyflawnwyd.

Mae'r Brif Weithredwraig a'i staff yn gweithio'n barhaus i gynnal safonau ac amrywiaeth eang o gyfleoedd trwy'r prosiectau a'r busnesau a reolir, ac i gydymffurfio a'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rydym am barhau i weithredu gyda rheolaeth dynn, adolygu'r cyllidebau'n ofalus, dethol gwasanaethau a chynllunio'n greadigol. Bydd y Cwmni yn parhau i ddarparu gofal, hyfforddiant a gwaith perthnasol a deniadol i bobl ag anableddau dysgu, a bydd yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel mewn amgylchedd iach a hapus i'r tenantiaid.

## CYFRIFOLDEBAU YR YMDDIRIEDOLWYR MEWN CYSYLLTIAD A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol a chyfraith perthnasol ac Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GAAP).

Mae'n ofynnol dan y Ddeddf Cwmnïau i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg wir a theg o amgylchiadau yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am y gweddill neu ddiffyg yn y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol ar yr ymddiriedolwyr i:

1. ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas;
2. gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog; a
3. pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cofnodion cyfrifyddol sydd yn datgan sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol fanwl ac sydd yn eu galluogi i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen, ac i sicrhau y gwneir darpariaethau i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Datganiad yr Ymddiriedolwyr Ynglyn a Datgelu Gwybodaeth i'r Archwiliwr**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau cyn belled ac maent yn ymwybodol, nad oes dim gwybodaeth perthnasol nad yw archwiliwr yr elusen yn ymwybodol ohonno. Maent wedi cymeryd pob cam y dylent fel ymddiriedolwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sicrhau fod archwiliwr yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth.

Ymddiriedolwr Awdurdodedig: Miss Gwen Tomos – Cadeirydd y Bwrdd

**Cafodd yr Adroddiad ei chymeradwyo**

**Llofnod:**

**Miss Gwen Tomos – Cadeirydd**

**Dyddiad:**

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Antur Waunfawr**

## Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Waunfawr am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2023 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, , 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2023, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail ein barn

Rydym wedi cynnel ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

## Canlyniadau ynglŷn a busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y gwybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysiedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wyboadaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

**Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmniau 2006**

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynnion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglyn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmniau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;

- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:
- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:
- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau

neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu‘r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae’n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i’r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw’r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi’r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.

- Asesu y cyflwyniad cyffredinol , strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw’r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda’r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

**Defnyddio ein adroddiad**

Mae’r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau’r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a’r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau’r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae’n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau’r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

*David Chidley* (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a’i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
Ll55 1AB Dyddiad:

**Antur Waunfawr**
**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2023 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2022 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | ***3*** | 54,316 | 11,600 | 65,916 | 91,447 |
| Grant Cyfalaf – Porth Yr Aur | | - | - | - | 109,869 |
| Grant Cyfalaf – Sied Werdd | | - | 275,787 | 275,787 | - |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | ***4*** | 1,681,199 | - | 1,681,199 | 1,547,334 |
| Incwm Warws Werdd | ***4*** | 413,166 | - | 413,166 | 414,213 |
| Incwm Caer Gylchu | ***4*** | 585,122 | - | 585,122 | 572,264 |
| Incwm Beics Menai | ***4*** | 97,963 | - | 97,963 | 61,136 |
| Llog | | 124 | - | 124 | 4 |
| Cynllun Cadw Swyddi | | - | - | - | 10,535 |
| Grantiau Covid | | - | - | - | 47,932 |
| ***Cyfanswm incwm*** | | 2,831,890 | 287,387 | 3,119,277 | 2,854,734 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | ***5*** | 2,831,912 | 56,626 | 2,888,538 | 2,695,443 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | 2,831,912 | 56,626 | 2,888,538 | 2,695,443 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | **(22)** | **230,761** | **230,739** | **159,291** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | (22) | **230,761** | **230,739** | **159,291** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2022 | | 3,940,520 | 1,022,453 | 4,962,973 | 4,803,682 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2023 | | 3,940,498 | 1,253,214 | 5,193,712 | 4,962,973 |

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau.

## Antur Waunfawr

***Mantolen** ar 31ain Mawrth 2023*
**(*Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1832813)***

| | Nodiadau | | 2023 £ | | 2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddiannau Sefydlog** | | | | | |
| Buddiannau sefydlog dirweddol | ***12*** | | 4,137,434 | | 3,893,586 |
| **Buddiannau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | ***13*** | 31,290 | | 22,573 | |
| Dyledwyr | ***14*** | 228,173 | | 131,415 | |
| Arian mewn banc ac mewn llaw | | 840,209 | | 1,012,711 | |
| | | 1,099,672 | | 1,166,699 | |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn* | ***15*** | 29,771 | | 68,470 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 1,069,901 | | 1,098,229 |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 5,207,335 | | 4,991,815 |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn* | ***16*** | | 13,623 | | 28,842 |
| **Asedau Net** | | | 5,193,712 | | 4,962,973 |
| | | | ======= | | ======== |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| **Cronfeydd Incwm** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | ***20*** | | 3,940,498 | | 3,940,520 |
| Cronfeydd cyfyngedig | ***20*** | | 1,253,214 | | 1,022,453 |
| | | | 5,193,712 | | 4,962,973 |
| | | | ======= | | ======= |

**.......................................................**

**Miss Gwen Tomos (Cyfarwyddwr)** **Dyddiad**:

# Antur Waunfawr

**Datganiad ynghylch llif arian** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

| | Nodyn | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | ***18*** | 148,435 | 166,926 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 124 | 4 |
| Derbyniadau o werthiant asedau sefydlog | | - | - |
| Prynu asedau sefydlog | ***12*** | (305,842) | (89,238) |
| **Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi** | | (305,718) | (89,234) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Derbyniad ariannu hur bwrcas | | - | - |
| Ad-daliad oblygiadau hur bwrcas | | (15,219) | (14,078) |
| **Arian a dderbynwyd o weithgareddau ariannu** | | **(15,219)** | **(14,078)** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian** | | **(172,502)** | **63,614** |
| Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2022 | | 1,012,711 | 949,097 |
| **Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2023** | | 840,209 | **1,012,711** |

## Antur Waunfawr

**Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddiwyd i dderbyn asedau sefydlog at ddefnydd yr elusen** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

| | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Gronfeydd 31 Mawrth 2023 £** | **Gronfeydd 31 Mawrth 2022 £** |
|---|---|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | (22) | 230,761 | 230,739 | 159,291 |
| Adnoddau a ddefnyddiwyd i dderbyn Asedau sefydlog net | (7,222) | (298,620) | (305,842) | (89,236) |
| Symudiad net mewn cronfeydd ar gael at weithgareddau y dyfodol | (7,244) | (67,859) | (75,103) | 70,055 |

## **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

**1. Polisïau cyfrifyddol**

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

**a) Sail paratoi cyfrifon**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae Antur Waunfawr yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

**b) Cyfrifo cronfeydd**

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Mae nod a defnydd y cronfeydd dynodedig wedi eu disgrifio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau'r rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig. Mae'r costau o godi a gweinyddu'r cronfeydd wedi eu nodi yn erbyn y cronfeydd penodedig. Mae nod pob cronfa gyfyngedig wedi eu nodi yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**c) Incwm**

Dangosir incwm yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl.

Cydnabyddir am grantiau llywordraeth a grantiau eraill, boed y grant yn grant refeniw neu gyfalaf, Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl ac nac oes angen gohirio'r incwm.

**ch) Gwariant a TAW anadferadwy**

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

**d) Dosbarthiad costau cynorthwyol**

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 6.

## Antur Waunfawr

### **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

**1 Polisïau cyfrifyddol (ymlaen)**

**dd) Asedau sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu dangos ar sail cost neu ar brisiad y farchnad. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 2% |
| Siediau a thai gwydr | 10% |
| Offer | 20 -33 1/3% |
| Moduron | 20% |

Ni chyfrifir am ddibrisiant ar dir rhyddfreiniol. Nid yw buddiannau sefydlog sydd yn costio llai na £1,000 yn cael eu cyfalafu a byddent yn cael eu dileu ym mlwyddyn prynnu.

**e) Stoc**

Mae stoc yn cynrychioli asedau a brynwyd i ailwerthu. Prisiwyd y stoc ar y lleiaf o gost neu werth net sylweddoladwy. Nid yw eitemau stoc a dderbyniwyd fel rhoddion neu er mwyn dosbarthu yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes maent wedi eu gwerthu neu ddosbarthu.

**f) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwyd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**ff) Arian mewn banc ac mewn llaw**

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

**g) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**nh) Offerynnau ariannol**

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngu ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

**h) Costau pensiwn**

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

**2 Statws y cwmni**

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu'r cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau'r cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni.

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

## 3. Rhoddion a grantiau gwirfoddol

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2023 £ | Cyfanswm 2022 £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion | 54,316 | - | 54,316 | 8,195 |
| Grant Adfer Cyngor Gwynedd | - | - | - | 14,854 |
| Grantiau Gan Cyngor Sir Fflint | - | 8,100 | 8,100 | 8,550 |
| Grant Betsi Cadwalader | - | - | - | 4,500 |
| Cronfa Adfer Y Gwasanaethau Gwirfoddol | - | - | - | 55,348 |
| Grant Cymorth Ieuenctid | - | 2,500 | 2,500 | - |
| Grant Hyfforddiant Cambrian | - | 1,000 | 1,000 | - |
| | 54,316 | 11,600 | 65,916 | 91,447 |

## 4. Incwm o weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu £ | Warws Werdd £ | Caer-Gylchu £ | Beics Menai £ | Cyfanswm 2023 £ | Cyfanswm 2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Gwasanaeth | 1,550,344 | 122,042 | 113,958 | 41,964 | 1,828,308 | 1,717,445 |
| Cytundeb Ailgylchu | - | 76,672 | 257,468 | - | 334,140 | 334,140 |
| Incwm Caergylchu | - | - | 213,696 | - | 213,696 | 213,593 |
| Incwm Warws Werdd | - | 214,452 | - | - | 214,452 | 185,519 |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | 123,282 | - | - | - | 123,282 | 112,582 |
| Incwm Beics Menai | - | - | - | 55,999 | 55,999 | 27,800 |
| Incwm arall | 7,573 | - | - | - | 7,573 | 3,868 |
| | 1,681,199 | 413,166 | 585,122 | 97,963 | 2,777,450 | 2,594,947 |

### 5. Dadansodiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu | Warws Werdd | Caer-Gylchu | Beics Menai | Cyfanswm 2023 | Cyfanswm 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | 1,280,290 | 218,473 | 398,363 | 78,240 | 1,975,366 | 1,786,731 |
| Nwyddau i'w gwerthu a thraul | 426 | 37,503 | 11,080 | 14,406 | 63,415 | 76,544 |
| Cafe/ Bwyd | 8,056 | - | - | - | 8,056 | 13,081 |
| Safle ac adnewyddu | 72,769 | 43,848 | 17,011 | 14,318 | 147,946 | 125,507 |
| Teithio a chostau buddiolwyr | 55,280 | 28,654 | 58,209 | 1,989 | 144,132 | 119,609 |
| Costau swyddfa | 11,166 | 8,254 | 4,961 | 4,070 | 28,451 | 33,820 |
| Hyfforddiant | 12,471 | 2,490 | 1,741 | 631 | 17,333 | 31,396 |
| Costau staff | - | 3,210 | 802 | - | 4,012 | 3,486 |
| Costau marchnata | - | 1,250 | 6,061 | 197 | 7,508 | 11,283 |
| Costau proffesiynol | 5,505 | 2,009 | 12,665 | 47 | 20,226 | 11,055 |
| Dibrisiant | 4,870 | 16,198 | 7,262 | 13,730 | 42,060 | 39,473 |
| Llogau | - | - | 2,491 | - | 2,491 | 3,576 |
| Dyledwyr drwg | - | - | - | - | - | 7,467 |
| Eraill | - | 1,184 | - | 1,079 | 2,263 | 2,242 |
| Costau llywodraethol | 15,788 | 2,850 | 5,370 | 1,055 | 25,063 | 23,722 |
| Costau cynorthwyol | 252,111 | 45,516 | 85,752 | 16,837 | 400,216 | 406,449 |
| | 1,718,732 | 411,439 | 611,768 | 146,599 | 2,888,538 | 2,695,443 |

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £2,888,538 (2022 - £2,695,443). O'r gwariant yma roedd £2,831,912 (2022-£2,554,463) yn anghyfyngedig a £56,626 (2022 - £140,980) yn gyfyngedig.

### 6. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y pedwar gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir sail dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol yn y tabl isod.

| | Sail Dosbarthu | Costau Cynorthwyol Cyffredinol | Llywodraethol | Cyfanswm 2023 | Cyfanswm 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | *Amser staff* | 221,236 | 16,208 | 237,444 | 251,704 |
| Safle ac adnewyddu | *Defnydd* | 48,953 | - | 48,953 | 34,143 |
| Costau Covid | *Defnydd* | 39,924 | - | 39,924 | 31,290 |
| Swyddfa | *Defnydd* | 31,014 | - | 31,014 | 36,457 |
| Teithio | *Defnydd* | 3,679 | - | 3,679 | 3,464 |
| Hyfforddiant | *Defnydd* | 1,582 | - | 1,582 | 2,993 |
| Hysbysebu a marchnata | *Defnydd* | 8,668 | - | 8,668 | 12,350 |
| Archwilio/Cyfrifydd | *Defnydd* | - | 8,855 | 8,855 | 8,612 |
| Proffesiynnol | *Trafodion* | 24,786 | - | 24,786 | 28,915 |
| Dibrisiant | *Defnydd* | 19,935 | | 19,935 | 19,504 |
| Eraill | *Trafodion* | 439 | - | 439 | 739 |
| | | 400,216 | 25,063 | 425,279 | 430,171 |

## 7. Incwm net am y flwyddyn

| **Nodir yr incwm net ar ôl codi:** | **2023** **£** | **2022** **£** |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 61,995 | 58,977 |
| Ffioedd archwilio | 6,188 | 5,950 |
| Archwiliwr – ffioedd eraill | 2,667 | 2,660 |

## 8. Costau staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

| | **2023** **£** | **2022** **£** |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,902,351 | 1,761,700 |
| Cyflogau gweithwyr | 50,012 | 54,580 |
| Yswiriant cenedlaethol | 169,978 | 135,640 |
| Costau pensiwn | 90,469 | 86,515 |
| | 2,212,810 | 2,038,435 |

Cyfanswm nifer cyflogedig ar sail blwyddyn cyflawn oedd 151 (*2022 – 162*). Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli gan ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2022 – Dim)*. Ni wnaed taliadau i ymddiriedolwyr yr elusen am gostau a achoswyd *(2022 – Dim)*. Ni wnaethpwyd taliad am wasanaethau proffesiynol nac am wasanaethau eraill i ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2022 – Dim)*.

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tim rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £238,835 *(2022 - £268,975)*.

| | 2023 Nifer | 2022 Nifer |
|---|---|---|
| Prif weithredwr | 1 | 1 |
| Uwch reolwyr | 2 | 3 |
| Rheolwyr | 12 | 10 |
| Safle | 21 | 26 |
| Ail Gylchu | 13 | 13 |
| Warws Werdd | 4 | 5 |
| Cynllun Cartrefu | 21 | 23 |
| Beics Menai | 2 | 2 |
| Gweinyddol | 5 | 6 |
| Gweithwyr gyda anabledd | 70 | 73 |
| | 151 | 162 |

### 9. Trafodion Partion Cysylltiedig

Ni fu trafodion gyda partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Nid oedd symiau yn ddyledus i na dyledus gan bartïon cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn *(2022 - £Dim)*.

### 10. Grantiau Llywodraeth

Mae incwm grantiau llywodraeth yn cynnwys cytundebau gwasanaeth gyda awdurdodai lleol i ffynonellau gwasanaethau buddiannol i fuddiolwyr yr elusen.

### 11. Treth gorfforaeth

Mae gan Antur Waunfawr eithriad o dreth ar incwm ac enillion dan Adran 505 o Ddeddf Treth 1988 ac adran 252 o'r Ddeddf Treth Enillion Cyfalaf 1992 i'r eithaf eu defnyddir at ei nodau elusennol.

### 12. Buddiannau sefydlog

| | *Tir ac Adeiladau* £ | *Offer* £ | *Moduron* £ | *Cyfanswm* £ |
|---|---|---|---|---|
| ***Cost/Gwerth*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2022 | 3,934,565 | 510,591 | 114,602 | 4,559,758 |
| Ychwanegiadau | 303,094 | 2,748 | - | 305,842 |
| Ar 31ain Mawrth 2023 | 4,237,659 | 513,339 | 114,602 | 4,865,600 |
| ***Dibrisiant*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2022 | 248,684 | 380,045 | 37,443 | 666,172 |
| Cost am y flwyddyn | 19,546 | 23,159 | 19,289 | 61,995 |
| Ar 31ain Mawrth 2023 | 268,230 | 403,204 | 56,732 | 728,166 |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | | |
| Ar 31ain Mawrth 2023 | 3,969,429 | 110,135 | 57,870 | 4,137,434 |
| Ar 31ain Mawrth 2022 | 3,685,881 | 130,546 | 77,159 | 3,893,586 |

Yn gynwysedig yn y £3,137,622 mae £20,000 sydd yn werth tir yn Waunfawr ac £38,599 o dir yng Nghaernarfon**.** Ail brisiwyd y tir ac adeiladau yn Waunfawr ac Warws Werdd yng Nghaernarfon gan Dafydd Hardy, syrfewyr siartredig yn mis Mawrth 2020. Rhoddwyd gwerth y tir ac adeiladau yn Waunfawr fel £2,165,000. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod y gwerth yma yn briodol ar 31 Mawrth 2023 o ystyried yr amodau economaidd presennol.
Cost gwreiddiol yr asedau sefydlog yw £4,238,909 (2022-£3,935,815) a buasai dibrisiant o £222,584, (2022- £208,476) wedi ei godi arnynt.

### 13. Stoc

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| Cynnwys stoc: | | |
| Stoc Warws Werdd | 17,783 | 10,496 |
| Stoc Beics Menai | 5,130 | 4,050 |
| Stoc siop | 5,646 | 4,016 |
| Stoc cafe | 1,881 | 1,881 |
| Stoc Caergylchu | 850 | 2,130 |
| | 31,290 | 22,573 |

## Antur Waunfawr

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

**14. Dyledwyr**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Grantiau, cytundebau a dyledwyr masnachol | 203,884 | 122,949 |
| Dyledwyr eraill | 24,289 | 8,466 |
| | 228,173 | 131,415 |

**15. Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr masnachol | 2,923 | 1,133 |
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas | 15,479 | 14,708 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 131 | 23,557 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 11,238 | 29,072 |
| | 29,771 | 68,470 |

**16. Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ol blwyddyn*

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas (yn daladwy mewn llai na 5 blywyddyn) | 13,623 | 28,842 |

**17. Offerynnau ariannol**

Yr offerynnau ariannol a fesurir ar sail cost wedi ei amorteiddio yw'r benthyciad hur bwrcas.

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | 15,479 | 14,708 |
| Swm yn ddyledus dros blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 13,623 | 28,842 |
| Cyfanswm | 29,102 | 43,550 |

**18. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Symudiad net mewn cronfeydd | 230,739 | 159,291 |
| Llog a dderbyniwyd | (124) | (4) |
| Dibrisiant | 61,995 | 58,977 |
| (Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc | (8,717) | (11,449) |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr | (96,758) | 121,813 |
| Cynydd/(Lleihad) mewn credydwyr | (38,700) | (161,702) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | 148,435 | 166,926 |
| | ======= | ======= |

**19. Ymroddiad cyfalaf**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan Antur Waunfawr ymroddiad cyfalaf ynglŷn a datblygiad adeiladau o £375,508 *(2022 - £700,118 ).*

**20. Cronfeydd cyfyngedig**

| | **31 Mawrth 2022** | **Trosglwydd -iadau** | **Adnoddau Cyllid** | **Ail - Brisio** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Warws Werdd | 348,092 | - | (10,548) | - | 337,543 |
| Sgubor Grefftau | 8,546 | - | (251) | - | 8,295 |
| Grant Cae Chwarae | 21,060 | - | (1,080) | - | 19,980 |
| Rhoddion | 2,466 | - | (1,233) | - | 1,233 |
| Grant Clothworkers Foundation | 2,650 | - | - | - | 2,650 |
| Grantiau Porth Yr Aur | 557,491 | - | (11,377) | - | 546,114 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 82,148 | - | (20,537) | - | 61,611 |
| Grantiau Sied Werdd | - | - | 275,787 | - | 275,787 |
| | 1,022,453 | - | 230,761 | - | 1,253,214 |

| | **31 Mawrth 2021** | **Trosglwydd -iadau** | **Adnoddau Cyllid** | **Ail - Brisio** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Warws Werdd | 358,640 | - | (10,548) | - | 348,092 |
| Sgubor Grefftau | 8,797 | - | (251) | - | 8,546 |
| Grant Cae Chwarae | 22,140 | - | (1,080) | - | 21,060 |
| Rhoddion | 4,831 | - | (2,365) | - | 2,466 |
| Grant Clothworkers Foundation | 14,220 | - | (11,570) | - | 2,650 |
| Grantiau Porth yr Aur | 458,999 | - | 98,492 | - | 557,491 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 102,685 | - | (20,537) | - | 82,148 |
| | 970,312 | - | 52,141 | - | 1,022,453 |

**Cronfeydd anghyfyngedig**

| | Balans 31 Mawrth 2022 | Trosglwy-ddiadau | Adnoddau Cyllid | Ail Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,570,303 | 20,009 | (22) | - | 2,590,290 |
| Cronfa Ailbrisio | 525,932 | (2,156) | - | - | 523,776 |
| | 3,096,417 | 17,853 | (22) | - | 3,114,248 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 229,500 | - | - | - | 229,500 |
| Cronfa Wrth Gefn | 614,603 | (17,853) | - | - | 596,750 |
| | 3,940,520 | - | (22) | - | 3,940,498 |

| | Balans 31 Mawrth 2021 | Trosglwy-ddiadau | Adnoddau Cyllid | Ail Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,674,393 | (211,240) | 107,150 | - | 2,570,303 |
| Cronfa Ailbrisio | 528,088 | (2,156) | - | - | 525,932 |
| | 3,202,663 | (213,396) | 107,150 | - | 3,096,417 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 119,000 | 110,500 | - | - | 229,500 |
| Cronfa Wrth Gefn | 511,707 | 102,896 | - | - | 614,603 |
| | 3,833,370 | - | 107,150 | - | 3,940,520 |

## 21. Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr asedau net ar 31ain Mawrth 2023

| | Cronfeydd Cyfyngedig | Cronfeydd Dynodedig | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Asedau Sefydlog | 1,253,214 | - | 2,884,220 | 4,137,434 |
| Asedau Cyfredol Net | - | 844,103 | 225,798 | 1,069,901 |
| Credydwyr: symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn | - | - | (13,623) | (13,623) |
| Cyfanswm asedau net | 1,253,214 | 844,103 | 3,096,395 | 5,193,712 |

## Antur Waunfawr

### **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2023*

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

Prif weithgaredd y cwmni yw darparu gwaith a hyfforddiant i bobl ag anabledd dysgu, a thrwy hynny gwasanaethu'r gymuned.

**Cronfeydd Dynodedig a chyfyngedig**

Mae'r cwmni wedi penderfynu ymrwymo arian sydd ar gael wrth gefn er mwyn datblygu eiddo Sied Werdd.

Mae swm yn cynrychioli tri mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn i gyfarfod unrhyw heriau annisgwyl h.y £596,750 ar hyn o bryd. Mae hyn yn unol a chanllawiau ymarfer da y Comisiwn Elusennau ac yn cyfarfod ag amcanion Llywodraethu Da Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

22. **Dadansoddiad o gronfeydd y flwyddyn flaenorol**

**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2022 £ | Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| *Rhoddion* | | | | |
| Rhoddion a grantiau | 8,195 | 83,252 | 91,447 | 10,208 |
| Grant Cyfalaf – Porth Yr Aur | - | 109,869 | 109,869 | 168,624 |
| Grant Cyfalaf – Adferiad Gwyrdd | - | - | - | 102,685 |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | 1,547,334 | - | 1,547,334 | 1,631,149 |
| Incwm Warws Werdd | 414,213 | - | 414,213 | 317,438 |
| Incwm Caer Gylchu | 572,264 | - | 572,264 | 519,177 |
| Incwm Beics Menai | 61,136 | - | 61,136 | 35,520 |
| Elw ar werthu ased sefydlog | - | - | - | 145 |
| Llog | 4 | - | 4 | 21 |
| Incwm arall | - | - | - | 2,442 |
| Cynllun Cadw Swyddi | 10,535 | - | 10,535 | 47,207 |
| Grantiau Covid | 47,932 | | 47,932 | 132,436 |
| ***Cyfanswm incwm*** | 2,661,613 | 193,121 | 2,854,734 | £2,967,052 |
| ***Gwariant*** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 2,554,463 | 140,980 | 2,695,443 | 2,498,099 |
| Colled ar ail-brisio asedau | | | | - |
| ***Cyfanswm gwariant*** | 2,554,463 | 140,980 | 2,695,443 | 2,498,099 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | **107,150** | **52,141** | **159,291** | **468,953** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | **107,150** | **52,141** | **159,291** | **468,953** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2021 | 3,833,370 | 970,312 | 4,803,682 | 4,334,729 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2022 | 3,940,520 | 1,022,453 | 4,962,973 | 4,803,682 |
| | ======= | ======= | ======= | ======= |

**ANTUR WAUNFAWR**

England & Wales - Charity number 515445

# Accounts

# ANTUR WAUNFAWR
**(Cwmni yn gyfyngedig trwy warant)**

## ADRODDIAD a DATGANIADAU ARIANNOL

## BLWYDDYN HYD AT: 31 MAWRTH 2022

**Rhif Elusen: 515445**

**Rhif Cwmni: 01832813**

## Antur Waunfawr

## Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth cyfreithiol a gweinyddol | 2 |
| Adroddiad yr ymddiriedolwyr | 3-14 |
| Adroddiad yr archwiliwr | 15-18 |
| Datganiad o weithredoedd ariannol | 19 |
| Mantolen | 20 |
| Datganiad ynghylch llif arian | 21 |
| Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddwyd i dderbyn asedau sefydlog | 22 |
| Nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol | 23-32 |

**ANTUR WAUNFAWR**

**GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL:**

**Rhif Cofrestru'r Elusen:** **515445**
**Rhif Cofrestru'r Cwmni:** **1832813**

**Ymddiriedolwyr**

**Aelodau'r Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Mr. Rhys Evans | Cadeirydd |
| Mr. Huw Ynyr | Is-gadeirydd |
| Mr. Kevin Hughes | Trysorydd |
| Dr. John Prys Morgan Jones | |
| Mr. Daron Harris | |
| Mrs. Sara Mair Tomos | |
| Mrs. Anna Ll. Williams | |
| Mrs. Lowri Huws Jones | |
| Miss. Gwen Tomos | |
| Dr. Catrin Ellis Williams | |
| Mr. Terry Parry | |
| Mr Norman Williams ` | Ymddiswyddo 27.09.21 |
| Mr Geraint Stello | Ymddiswyddo 27.09.21 |
| Mr John Jones | Ymddiswyddo 27.09.21 |
| Mr. Gwyn Llŷn Parry | (Cymeradwywyd gan y Bwrdd ym Mis Mawrth 2022) |
| Ms. Menna Jones | Ysgrifenyddes - Ymddiswyddo 26.07.22 |

**Y Tîm Rheoli:**

| | |
|---|---|
| Menna Jones | Prif Weithredwraig Ymddiswyddo 26.07.22 |
| Stephen Goodwin | Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl |
| Ellen Thirsk | Uwch Reolwraig Adnoddau Dynol |
| Haydn Jones | Uwch Reolwr Tri Busnes Gwyrdd |
| Sioned Hughes | Rheolwraig Cyllid |
| Gwenlli Mai Wynne | Rheolwraig Datblygu Busnes |
| Elain Hughes | Rheolwraig Datblygu Busnes |

**Swyddfa Gofrestredig a Gweinyddol:**
Bryn Pistyll
Waunfawr
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4BJ

**Cyfreithwyr:**
Iestyn T. Harris, Carter Vincent LLP, The Port House, Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN

**Bancwyr:**
Banc Barclays, Grŵp Canghennau Gwynedd, Bangor, Gwynedd

**Archwilwyr:**
W.J. Matthews a'i Fab, 11-15 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

**ADRODDIAD BWRDD YMDDIRIEDOLWYR ANTUR WAUNFAWR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022**

## RHAGAIR

Cofnod o waith Antur Waunfawr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yw'r adroddiad hwn. Mae sylw yma i waith a phrosiectau'r Antur a hefyd ein hymdrechion parhaus i warchod ein hunigolion a'n staff o ran y pandemig Cofid-19. Mae'n parhau i fod yn gyfnod anodd ond gallwn hefyd nodi'r llwyddiannau a'r holl a gyflawnwyd er gwaethaf yr heriau a'n wynebwyd.

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd â'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y cwmni, a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Antur Waunfawr a wnaed yn Gwmni Corfforedig ar 13eg Gorffennaf 1984 ac a gofrestrwyd yn Elusen ar 6ed Awst 1984. Sefydlwyd y Cwmni o dan Femorandwm y Cwmni sy'n sefydlu amcanion ac awdurdod y cwmni elusennol hwn ac yn cael ei reoli gan Erthyglau'r Cwmni.

## NOD AC AMCANION

Mae Memorandwm Antur Waunfawr yn cyhoeddi ein nod fel a ganlyn;

"I hyrwyddo a chymryd rhan yng nghymorth a gofal bobl ag anawsterau dysgu ac unigolion ag anableddau corfforol a gyfeirir atom gan asiantaethau statudol, yn Sir Gwynedd a'r cylch:- drwy ddarparu, a rhoi cymorth yn y ddarpariaeth o gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, heb eithrio hil, oed neu ryw na thybiaethau gwleidyddol, crefyddol neu dybiaethau eraill."

Mae'r Bwrdd yn trafod nod yr elusen yn rheolaidd ac yn ei gadw mewn cof wrth gynllunio a datblygu ei strategaeth ar gyfer y Cwmni.

Rydym yn cyflawni'r nod drwy:

- ddarparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i unigolion ag anableddau a'r difreintiedig
- ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid
- ddarparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat
- ddatblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar mewn cynlluniau personol unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd a gwaith yr Antur
- hyrwyddo integreiddio a byw yn iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant a hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion yr unigolion
- ddarparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd
- ddatblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach, a gwarchod yr amgylchedd
- ein canolbwynt newydd llesiant a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon
- fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

## SUT MAE EIN GWEITHGAREDDAU YN CREU BUDD CYHOEDDUS

Drwy weithredu'r amcanion uchod, rydym yn ateb anghenion ein hunigolion gydag anableddau dysgu a'r gymdeithas ehangach.

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig lleoliadau gwaith neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu'r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy'n cael ei gyfeirio atom, ac i

sicrhau adnoddau teg i roi'r gwasanaeth gorau posib i'n defnyddwyr. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo'r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

**CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD**

Mae Antur Waunfawr wedi ymrwymo i gyfarch ysbryd ac amcanion Deddfau Llywodraeth Cymru, yn bennaf;

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd, a llesiant unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan Antur Waunfawr. Mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau, ac yn sicrhau fod y cynnwys yn treiddio trwy weithgareddau, prosiectau a gofalaeth Antur Waunfawr. Byddwn yn gweithredu'n unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn berthnasol i'n prosiect llesiant a datblygiad newydd Porth yr Aur.

Wrth lunio ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gweithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, gan gynnwys y canllaw 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

Mabwysiadodd yr Antur Ddatganiad Llesiant yn 2016, ac mae'r datganiad yma yn sail i'n darpariaethau llesiant wrth ddatblygu ein gweithgareddau a phrosiectau iechyd a lles i'r dyfodol.

**Datganiad Llesiant Antur Waunfawr:**

> "Hyrwyddo llesiant, iechyd da a hapusrwydd, a galluogi unigolion fydd conglfeini gwasanaethau Antur Waunfawr i'r dyfodol.
>
> Darperir gofal, cefnogaeth weithgar, hyfforddiant a gwaith ystyrlon mewn modd effeithlon a chymesur i ateb gofynion pobl ag anableddau dysgu a phobl ddifreintiedig yn lleol.
>
> Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.
>
> Ein nod yw creu cymdeithas arloesol, gyfartal, gynhyrchiol a charbon isel trwy feithrin teulu o fusnesau cynaliadwy yn lleol - cychwyn wrth ein traed a gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau llesiant a chymunedau gwydn."

Mae gan Antur Waunfawr sawl adran lwyddiannus sy'n cynnig cyfleoedd gwaith, hyfforddiant, cyfleoedd llesiant a gwasanaethau amrywiol i unigolion ag anableddau dysgu, a phobl ddifreintiedig.

Yn sgil y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 adolygwyd swydd ddisgrifiad y Brif Weithredwraig i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**CROESAWU AELODAU NEWYDD I'R BWRDD RHEOLI**

**Recriwtio a Phenodi'r Pwyllgor Rheoli**

Mae Cyfarwyddwyr y Cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol yn ôl gofynion y gyfraith elusennol. Fe'u hadwaenir yn ôl Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni fel 'Cyfarwyddwyr' neu fel 'Aelodau'r Bwrdd'. Hefyd, mae'r Erthyglau'n gosod amod mai am flwyddyn ar y tro y byddant yn gwasanaethu a bod rhaid ethol neu ail-ethol dim mwy na 15 Cyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Rydym yn ffodus fod gennym amrediad da o arbenigedd a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor i'r tîm rheoli yn y meysydd sy'n berthnasol i waith y cwmni e.e. cyllid, cyfreithiol, yswiriant, iechyd, gofal cwsmer, ail-

gylchu, addysg a hyfforddiant, busnes a hylendid bwyd. Fe wnaeth y Bwrdd barhau i gyfarfod dros y pandemig, a hynny'n rhithiol.

**Ymddiriedolwr Newydd**

Mae Mr. Gwyn Llŷn Parry yn bennaeth Cyllid Gisda, Caernarfon a chanddo gyfrifoldebau strategol dros gyllideb yr elusen – sy'n cynnwys rheoli asedau a chefnogi'r Bwrdd drwy ddadansoddi cyllidebau, adrodd arnynt a'u cynghori yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid. Yn ogystal, mae ganddo brofiad helaeth o gynnal archwiliadau mewnol Cwmni Gisda.

**YMDDISWYDDIAD AELODAU'R CWMNI**

Diolchwyd i'r ymddiriedolwyr canlynol am eu hymrwymiad a'u gwaith dros y blynyddoedd; Cyn-Gadeirydd y Bwrdd – Mr. John Gwynedd Jones, Mr. Geraint Strello a Mr. Norman Williams. Ffarweliwyd â'r tri ym mis Medi 2021 pan ymddiswyddwyd y tri'n swyddogol fel ymddiriedolwyr.

**Anwythiad a Hyfforddiant Ymddiriedolwyr**

Gan fod Antur Waunfawr wedi ei sefydlu dros 30 mlynedd yn ôl, gyda phroffil uchel o fewn y gymdeithas, mae gan bob darpar gyfarwyddwr wybodaeth dda o'n gwaith. Caiff pob aelod o'r Bwrdd ffeil gyda manylion y strwythur rheolaethol a'r polisïau ynddi. Mae'r Brif Weithredwraig yn treulio amser gyda chyfarwyddwyr newydd, yn eu hanwytho drwy drefnu ymweliadau â'r safleoedd ac ateb cwestiynau.

**STRWYTHUR Y TÎM RHEOLI**

**Rheolwyr Gweithredol**

Cynhelir cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli a Thîm Rheoli yn rheolaidd. Bydd cynrychiolydd pob adran hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda'u timau yn ogystal â Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Gweithgor Meddiannau a'r Gweithgor TGCh. Mae Is-bwyllgorau hefyd wedi'u sefydlu er mwyn gweithredu ar benderfyniadau neu adolygiadau – megis yr Is-bwyllgor Personél a'r Is-bwyllgor Polisïau. Yn ystod y flwyddyn mae'r rhain i gyd yn bwydo adroddiadau i'r Tîm Rheolaethol.

***Menna Jones, Prif Weithredwraig***
Mae Menna yn gwasanaethu ar fyrddau rheoli Menter a Busnes, Canolfan Cydweithredol Cymru ac yn Is-gadeirydd Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Mae wedi gweithio mewn mentrau cymdeithasol a chymunedol ers 31 mlynedd ac yn ystod y flwyddyn mi gymerodd gyfrifoldeb 'Person Cyfrifol' Antur Waunfawr. Mae wedi ei hyfforddi gan Social Enterprise Academy (Scotland) ar y cyd â Chreu Menter, Conwy i ddatblygu arweinwyr Academi Mentrau Cymdeithasol Cymru.

***Stephen Goodwin, Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl***
Mae Stephen yn aelod o Grŵp Trawsffurfio Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd. Mae gan Stephen dros 24 mlynedd o brofiad yn y maes gofal. Mae wedi cymhwyso fel Rheolwr Cofrestredig lefel 4. Mae Stephen hefyd wedi cwblhau cyrsiau mewn arweinyddiaeth a rheoli staff.

***Ellen Thirsk, Uwch Reolwraig Adnoddau Dynol***
Mae Ellen yn Gyfarwyddwr i Galeri, Menter Gymdeithasol a Chreadigol yng Nghaernarfon ac yn Gadeirydd i gorff Llywodraethwyr Ysgol Pendalar. Mae hi wedi gwirfoddoli i'r Samariaid am gyfnod o 15 mlynedd yn y gorffennol ac wedi cael trawstoriad o brofiadau rheoli mewn Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol dros gyfnod o 31 mlynedd. Mae Ellen yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth ac Iechyd a Diogelwch (NEBOSH).

***Haydn Jones, Uwch Reolwr Busnesau Gwyrdd***
Mae gan Haydn brofiad helaeth o annog unigolion yng Nghymru a dramor tra roedd yn gweithio yn yr America drwy ei waith 'coaching' gyda thrawstoriad o unigolion (abl ac anabl)
Mae ganddo brofiad eang o reoli ac mae'n gyfrifol am reoli a rhedeg gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu o fewn yr Antur.
Mae wedi cymhwyso i lefel graddedig (MA) mewn Addysg ac mae wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau rheoli, ac yn ddiweddar wedi cwblhau NVQ Lefel 3 mewn Ailgylchu.

***Sioned Hughes, Rheolwraig Cyllid***

Mae gan Sioned arbenigaeth a phrofiad eang o'r maes cyllid a gweinyddiaeth, rheoli busnes a datblygu a sefydlu sustemau a gweithdrefnau. Mae wedi ei chymhwyso i Lefel 4 yn 'Association of Accounting Technicians'
Mae ganddi sgiliau rheoli da ac wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau cyllid a rheolaeth, yn ogystal â phrofiad helaeth o ddelio gyda sefydliadau allanol, e.e., cyfrifydd, prif bartneriaid ariannol, ayb.

***Elain Hughes, Rheolwraig Datblygu Busnes***
Graddiodd Elain o Brifysgol Aberystwyth yn 2015 efo gradd BA Cymraeg Proffesiynol ac mae wedi gweithio i'r Antur ers 2016. Mae ganddi wybodaeth eang o Antur Waunfawr gan ei bod wedi bod yn gynorthwyydd personol i Menna ac wedi gweithio'n agos gyda phob adran; y tîm Rheoli, Uwch Reoli a'r Bwrdd dros y pum mlynedd diwethaf. Prif ganolbwynt ei gwaith yn ddiweddar yw rheoli a datblygu prosiectau cyfalaf Porth yr Aur a'r Sied Werdd. Mae Elain yn bwynt cyswllt i bartneriaethau newydd ac yn presenoli mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a grwpiau ffocws allanol.

***Gwenlli Wynne, Rheolwraig Datblygu Busnes***
Mae gan Gwenlli ddealltwriaeth a phrofiad gyda phob adran yn Antur Waunfawr gan ei bod wedi bod yn gynorthwyydd personol i Menna a Huw Davies (cyn-Ddirprwy Brif Weithredwr) cyn symud ymlaen i'w swydd bresennol. Mae ganddi BSc Gofal Iechyd a Chymdeithasol. Mae Gwenlli wedi mynychu cwrs arwain gyda 'Learn to Inspire', ac mae ganddi brofiad helaeth o ddelio gyda sefydliadau allanol megis mentrau cymdeithasol eraill, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorwyr lleol ayb.

**GWELEDIGAETH ANTUR WAUNFAWR**

Gweledigaeth Antur Waunfawr yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i integreiddio i'r gymuned leol a chyflawni gwaith 'go iawn' gyda phwrpas: Rydym yn Fenter Gymdeithasol flaenllaw sydd yn cynnig cyfleoedd iechyd a llesiant, hyfforddiant a gwaith amrywiol iawn yn ei natur i unigolion ag anableddau dysgu. Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n gwaith. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwaith i'n hunigolion, mae gan yr Antur nifer o fusnesau llewyrchus, a chaiff yr holl elw ei ail fuddsoddi yn y gwasanaeth i unigolion efo anableddau dysgu ac ein cymuned leol.

Mae ein nod o integreiddio pobl ag anableddau dysgu i'r gymuned ym mhob agwedd bosib - boed yn waith neu weithgareddau cymdeithasol, yn rhinwedd sydd yr un mor bwysig heddiw ag yr oedd pan sefydlwyd yr Antur.

**YMATEB I ARGYFWNG COFID-19:**

Prif flaenoriaeth yr Antur ydi iechyd, diogelwch a llesiant yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi. Ar ddechrau'r pandemig, yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, addaswyd ein strwythurau a strategaethau er mwyn sicrhau cynnal gwasanaethau i unigolion efo anableddau dysgu. Adnabyddwyd flaenoriaethau a chynlluniwyd gyda'n comisiynwyr i ddarparu gwasanaeth i'r unigolion mwyaf bregus ac i gyrraedd ein cwsmeriaid a phartneriaid, gan ddarparu amgylchedd diogel i unigolion a staff, ac i sicrhau parhad busnes Antur Waunfawr.

**DIOGELU**

Parhawyd i ddarparu gwasanaeth i unigolion preswyl, i unigolion gofal dwys yn unol â gofynion teuluol a chomisiynwyr, tra bod rhai unigolion yn cysgodi adref gyda theuluoedd a gwarchodwyr. Roedd rheolaeth lem ar fonitro symptomau, hunan ynysu, profi, olrhain achosion, darpariaeth ddigonol o PPE a chynllun ail agor.

**IECHYD MEDDWL**

Mae iechyd a llesiant meddyliol llawn mor bwysig ag iechyd a llesiant corfforol. Roedd yn anorfod bod y cyfyngiadau a newidiadau sylweddol i fywydau yn mynd i effeithio iechyd a lles meddyliol unigolion, teuluoedd, gwarchodwyr a staff yn ddiwahân. Roedd staff penodedig yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gydag unigolion, teuluoedd, gwarchodwyr a staff oedd adref yn cysgodi, ac roedd yn gyfle hefyd i gynnal digwyddiadau megis bore coffi, bingo a chwis ar-lein.

Ein nod oedd darparu a chynnal y gwasanaethau gofal ac iechyd a llesiant i'r safon gorau posib o dan amgylchiadau heriol, drwy gynllunio ar gyfer anghenion yr unigolion, cynnal trafodaethau parhaus gyda'n comisiynwyr gwasanaeth a gofalwyr drwy gydol y cyfnod cysgodi ac wrth gynllunio i unigolion ddychwelyd yn ôl i'r gwasanaeth. Roedd angen sicrhau'r cydbwysedd rhwng lles iechyd corfforol a lles meddyliol, a thrwy hynny sicrhau dyfodol Antur Waunfawr fel Menter Gymdeithasol.

Cymerwyd camau bychan i groesawu ein hunigolion yn ôl yn ddiogel ac yn raddol i'r gweithle, gan addasu a pharatoi gofodau i gynnal a chefnogi'r gwasanaethau dydd.

Cafwyd pum sesiwn gan Dr. Ioan Rees Seicolegydd ar gyfer Uwch Reolwyr a Rheolwyr ar gyfer ymdopi ac adlewyrchu ar y cyfnod heriol a wynebwyd gyda Covid a syniadau a thactegau ar gyfer symud ymlaen.

**GWARCHOD EIN STAFF A'R CYHOEDD**

Ar ôl cyfnod heriol o ddelio gyda cofid roeddem yn falch iawn, fel llawer un o gael ychydig o normalrwydd nôl yn ein gwasanaethau. Parhawyd i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth a'n cynllun cofid - dogfen fewnol Antur Waunfawr i ddiogelu iechyd yr unigolion a'n staff.
Drwy barhau i ddilyn rheolau ag asesiadau risg roedd posib ail gychwyn gweithgareddau iechyd a llesiant i unigolion Antur Waunfawr ag ail gychwyn gyda'n rhaglen llesiant.

Fe warchodwyd a chefnogwyd holl rhanddeiliaid yr Antur, ond yn ogystal, fe roddwyd pwyslais ar iechyd a lles meddyliol yn ystod y cyfnod yma. Fe ymrwymwyd cynlluniau llesiant, iechyd meddwl, iechyd corfforol, ac ymwybyddiaeth ofalgar i'r strategaeth led-led y Cwmni. Yn ogystal, llwyddwyd i weddnewid a thrawsnewid, gan gynnig gwasanaethau gwahanol ar gyfer y dyfodol er mwyn cynnig amrywiaeth a phrofiadau gwaith i unigolion ag anableddau dysgu.

**TRI BUSNES GWYRDD**

**WARWS WERDD**
Canolfan a siop sy'n ailgylchu ac ailddefnyddio dodrefn a dillad ydi'r Warws Werdd. Rydym yn ailddefnyddio ac ailgylchu 277 tunnell o ddillad a dodrefn y flwyddyn fel rheol.

Fe ail-agorwyd y Warws i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2022 ar ôl cyfnod o fod ar gau yn ystod y pandemig er mwyn creu gofod diogel i'r unigolion weithio.

**Dillad**
Yn ystod 2021/22, fe ganolbwyntiwyd ar gasglu, didoli a phrosesu dillad er mwyn cynnal y gwasanaeth a'r incwm. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cyfle i ddatblygu'r cynllun dillad ymhellach, a datblygwyd ein partneriaeth gyda'r masnachwyr dillad - Roberts Recycling Ltd. O fis Gorffennaf ymlaen, yn ogystal â gwasanaethu ein biniau ein hunain rydym hefyd wedi bod yn casglu a phrosesu gan y Gwasanaeth Tân, Seren a Tyddyn Môn. Golygai hyn gynnydd o oddeutu 400% yn y tunelledd ydym yn ei brosesu, gan gynyddu ein tunelledd wythnosol o 2 dunnell i 10 tunnell yr wythnos. Dros y flwyddyn, gwnaethom brosesu 382 tunnell o ddillad drwy'r Warws.

**Dodrefn**
Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, roedd y siop ar gau i'r cyhoedd am fwyafrif y flwyddyn ac nid oedd modd i ni gasglu o dai. Yn hytrach, roedd y cyhoedd yn danfon dodrefn i'w ailddefnyddio i ganolfannau ailgylchu'r Cyngor a ninnau yn eu derbyn, ac roedd y dodrefn hyn ynghŷd â gwastraff masnachol yn cael eu gwerthu am brisiau fforddiadwy i Adra, Digartrefedd Môn, Gisda, Grŵp Cynefin ac adran digartrefedd y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, proseswyd 4 tunnell o ddodrefn.

**Gwastraff Swmpus**
Yn ystod y pandemig, gofynnodd Cyngor Gwynedd i ni eu cynorthwyo i ddal i fyny gyda chasgliadau Gwastraff Swmpus.

**Gofod Trwsio a Chreu** Ffiws Antur Waunfawr

Rydym wedi derbyn nifer o offer ar gyfer gofod trwsio a chreu o dan frand 'Ffiws', sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Economi Gylchol drwy law Cyngor Gwynedd. Mae'r offer yn cynnwys argraffwr 3D, torrwr laser, torrwr finyl, a pheiriannau gwnio a brodwaith. Mae'r gofod wedi ei leoli dros dro yn y Warws, a bydd yn symud i adeilad newydd y Sied Werdd pan fydd yn barod.

Dros y flwyddyn gyfan, mae'r staff ar draws adrannau Antur Waunfawr wedi mynychu sawl hyfforddiant i ymwneud â phrosiect Ffiws Antur Waunfawr. Pwrpas Ffiws Antur Waunfawr yw rhoi cyfle i bawb gael mynediad at offer uwch-dechnoleg ac annog ac ysbrydoli creadigrwydd. Yn syml, gofod gwneud yw Ffiws lle mae unigolion Antur Waunfawr yn gallu gwneud pethau gyda chymorth a chefnogaeth staff yr Antur.

**SIED WERDD**

Yn dilyn derbyn grant o £300,000 yn 2018 gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Sied Werdd mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd er mwyn gwella isadeiledd a chynyddu tunelledd ailgylchu ac ailddefnyddio'r sir, derbyniwyd grant ychwanegol o £202,347.97 o Gronfa Economi Gylchog, Llywodraeth Cymru.

Penodwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer y gwaith dylunio a rheoli prosiect, ac mae'r gwaith datblygu wedi bod yn dod yn ei flaen dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynyddodd prisiau adeiladu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ac roedd y prisiau tendr yn llawer rhy uchel, felly bu'n rhaid ail ddylunio'r adeilad a gwneud gwaith *value engineering* er mwyn sicrhau prosiect hyfyw. Bydd y sied 170m$^2$, gydag ail lawr yr un maint, yn cael ei hadeiladu ar dir sydd yn eiddo i'r Antur, tu ôl i'r Warws Werdd yng Nghibyn. Bydd yr adeilad yn hygyrch, gyda lifft a chyfleusterau cymorth, ac wedi ei dylunio gan ystyried amrywiaeth eang o anghenion  mewn golwg.

Bydd y llawr gwaelod yn cynnwys gweithdy, gyda meinciau addasedig sydd yn codi i fyny ac i lawr ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, a pheiriannau ysgafn ar gyfer unigolion gyda gwendid yn eu cyhyrau. Bydd y llawr cyntaf wedi ei rannu i 3 uned, gyda gofodau hyblyg ar gyfer prosiectau ailgylchu ac ailddefnyddio a fydd yn cyfrannu at nod y prosiect. Gall hwn hefyd fod yn ofod addysgiadol ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion. Bydd hyn yn rhyddhau gofod yn y Warws Werdd ar gyfer llawr siop.

**CAERGYLCHU**
Canolfan ailgylchu ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, a sefydlwyd mewn partneriaeth â'r cyngor yn 2005 ac sy'n esiampl flaenllaw o gydweithio rhwng y ddau sector. Denwyd £1.7m o grant i Gaergylchu yn 2007. Mewn blwyddyn arferol, rydym yn trin 970 tunnell o blastig y flwyddyn, ac yn ystod y flwyddyn 21/22 danfonwyd 316 tunnell o bapur i'w ailgylchu.

**LLARPIO ANTUR**
Gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol, sydd wedi'i leoli yng Nghaergylchu, ac yn gwasanaethu ar hyd Gogledd Cymru i fusnesau a chartrefi, gyda dros 1200 o gwsmeriaid. Rydym yn gweithredu yn unol â gofynion rheolau GDPR. Dros gyfnod Cofid-19 gwelwyd y nifer o gwsmeriaid actif yn disgyn oherwydd bod swyddfeydd ar gau ayb, ond dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaeth yn dychwelyd yn ôl i lefelau cyn Cofid-19.

Dros y misoedd diwethaf mae'r niferoedd wedi cynyddu yn rheolaidd ac wedi sefydlogi, gyda 1,100 sach yn cael ei chasglu mis Mawrth, 2022.

**BEICS ANTUR**

Cwblhawyd y gwaith ar safle Porth yr Aur ym Mai 2021, a symud mewn i weithredu'n fasnachol ym Mehefin 2021. Mae'r adeilad newydd yn ddau lawr, yn gwbl hygyrch gan gynnwys lifft a chawod ac mae Beics Antur wedi ei leoli ar y llawr gwaelod - gwasanaeth hurio, trwsio a gwasanaethu beics, beics addasedig, beics trydan a throsi beics i fod yn rhai trydan. Ar y llawr cyntaf mae Llofft Llesiant, gofod stiwdio 100m$^2$ ar gyfer pob math o weithgareddau iechyd a llesiant megis dawns, ioga a ffitrwydd, sydd hefyd ar gael i'w llogi ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant. Yn ychwanegol, mae Ystafell Synhwyraidd ar y llawr cyntaf ar gyfer unigolion ag anghenion dwys neu nam ar y synhwyrau.

Ers 2017, mae Antur Waunfawr wedi buddsoddi dros £500,000 o gronfeydd wrth gefn yn y prosiect hwn, ac wedi sicrhau dros £500,000 o grantiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol - £249,558
- Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol trwy Lywodraeth Cymru, wedi ei reoli   gan CGGC - £150,000
- Cronfa Treftadaeth Bensaernïol - £64,100
- Cronfa Gofal Canolradd - £40,000
- Garfield Weston Foundation - £25,000

**SAFLE BRYN PISTYLL**

Eleni, ar ôl inni orfod cau safle Bryn Pistyll i'r cyhoedd dros gyfnod Pandemig Covid-19 i warchod ein hunigolion a'n staff, penderfynwyd trawsnewid ein defnydd o'r adeiladau a'r gofod a gwneud newidiadau i'r dyfodol. Wrth gyflwyno'r unigolion yn ôl mae pwyslais wedi ei roi ar iechyd a lles yr unigolion wedi cyfnod hir yn ynysu. Ac felly er mwyn gwella'r ddarpariaeth roedd yn rhaid edrych ar sut oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar y safle. Enghreifftiau o rai o weithgareddau a drefnwyd yn ystod y cyfnod yw; sesiynau celf, cerdded, dawnsio, ioga, pilates, crefftau, teithiau dirgel a pharatoi cinio cartref.

Felly o ganlyniad;

**CAFFI BLAS Y WAUN**
Mae'r caffi yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, ond penderfynwyd ein bod yn parhau i baratoi prydau bwyd i'r trigolion bregus yn y gymuned oedd wedi cael budd o'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod clo. Mae hyn yn caniatáu i ni barhau i

gydweithio gyda'r gymuned leol (megis ysgolion a grwpiau cymunedol) gan gynnig bwffe, prydau ar glyd a the prynhawn ac mae hyn yn bwysig o safbwynt gwaith sydd yn cael ei gyflawni gan yr unigolion yn ogystal ag elfen o incwm y caffi.

Ein bwriad yn y dyfodol bydd rhoi ffocws ar fod yn ganolfan bwyd – gan barhau i gynhyrchu bara brith, jam, fflap jacs a siytni ayb er mwyn gwerthu i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn edrych ar ddarparu ein nwyddau mewn sawl lleoliad ac wrth gwrs yn cydweithio mewn partneriaeth hefo siop leol y Pentref – sef Siop Pant y Waun- sydd yn awyddus i werthu cynnyrch yr Antur.

**SIOP GREFFTAU**
Penderfynwyd cau'r siop grefftau yn barhaol, er mwyn darparu gofod i'r unigolion dderbyn gwasanaeth ar y safle, ac felly ein bwriad fydd symud elfen yma o'r busnes yn ddigidol; byddwn yn agor siop ar-lein Etsy fydd yn rhoi platfform ehangach i ni werthu cynnyrch ac i greu cyfleoedd digidol i'n hunigolion sydd â diddordeb mewn gwaith cyfrifiadurol.

**PARC NATUR A GERDDI**
Ar safle Bryn Pistyll mae 7 erw o erddi a pharc natur, yn ogystal â maes chwarae cynhwysol. Eleni, fe wasanaethwyd y siglen a'i newid i ddefnydd oedolion gyda gallu gwahanol. Yn ystod y cyfnod, fe arwyddwyd ein cytundebau rhandiroedd i gyd, ac un syniad cyffrous i'r dyfodol yw datblygu'r ochr yma o'r busnes, gan gynnig mwy o randiroedd, yn cynnwys pobl hefo anableddau a darparu sesiynau dysgu sgiliau ayb.

**BRAGDY ANTUR WAUNFAWR**
Yn dilyn llwyddiant y bragdy ar y safle ble mae cynnyrch lleol yn cael ei droi'n sudd afal a seidr Perllan y Fro, rydym yn awyddus i gynyddu potensial cynhyrchu'r bragdy: Eleni, enillwyd wobr un seren ar ôl ymgeisio ein seidr Riwbob ac afal yng nghystadleuaeth Blas Cymru 2021.
Cynhyrchwyd gwerth £875 o seidr i'r cyhoedd, ond gellir cynhyrchu 880 o boteli (420 litr) y mis. Mae pob unigolyn sy'n gweithio ar Safle Waunfawr, os dymunir, yn cael y cyfle i greu seidr yn eu tro. O ganlyniad, mae'r penderfyniad wedi ei wneud i ehangu'r gwaith yma.

**BYNGALO GWYLIAU**
Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn buddsoddiad o gronfeydd Antur Waunfawr a grant Cyfenter, rydym wedi bod yn datblygu Byngalo gwyliau hygyrch, sy'n addas i unigolion gydag anableddau, a all hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer llety ysbaid. Cwblhawyd y prosiect yn ystod Gwanwyn 2020. Ers mis Tachwedd mae cytundeb wedi ei sefydlu gyda'r cyngor i flaenoriaethu'r gofod i roi gofal ysbaid i ofalwyr ac unigolion sydd yn gwneud cais trwy'r cyngor.

**CYNLLUN CARTREFI AC AML OFYNION**
Rydym yn darparu gwasanaeth Cymorth Cartref o dan reoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 11 unigolyn lle darparwn gefnogaeth gofal a gofal personol sydd wedi ei deilwra ar gyfer yr unigolion yn unol â'u hanghenion.

Rydym yn cynnal gwasanaeth aml-ofynion ble mae unigolion gydag anableddau dwys yn derbyn cefnogaeth un i un, a chyfleoedd iechyd a llesiant. Cafodd y gwasanaeth ei gynnal i'r rhai mwyaf bregus drwy gydol y pandemig. Yn yr haf gyda lefelau covid yn isel cawsom gyfle i ail gydio mewn sesiynau nofio a marchogaeth. Cawsom y fraint o gael Ann a Bill Hopcyn draw i gynnal sesiynau cerdd awyr agored yn wythnosol. Croesawyd unigolyn newydd yn Hydref 2021 ar ôl iddo adael Ysgol Pendalar heb leoliad oherwydd y pandemig. Llwyddom i ail gychwyn y gwasanaeth hamdden sydd yn rhoi boddhad i'r unigolion yr ydym yn eu cefnogi ac ysbaid ar y penwythnos i'r rhieni.

**RHWYDWEITHIAU STRATEGOL**

**PARTNERIAETHAU NEWYDD A CHYDWEITHIO YN YSTOD Y FLWYDDYN:**

**PERTHYNAS AG ASIANTAETHAU ALLANOL**

Mae Antur Waunfawr yn cynnig gwasanaeth i oedolion ag anableddau dysgu mewn partneriaeth, yn bennaf, ag adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd, yn ogystal â Chynghorau Conwy ac Ynys Môn hefyd. Rhagwelwn yn ystod y blynyddoedd nesaf y bydd mwy o bwyslais ar dendro ffurfiol am wasanaethau newydd a gwasanaethau presennol. Mae'r cynghorau yn comisiynu'r gwasanaeth yn unol â'u hasesiad o angen ac rydym yn cytundebu gyda'r cynghorau i ddarparu gwahanol fathau o wasanaeth yn unol â'r asesiad. Ein nod wedyn fel menter gymdeithasol yw hyrwyddo potensial yr unigolion o ran eu gwaith ond hefyd eu datblygiad personol a'u sgiliau.

Er mewn ffordd wahanol eto eleni, parhawyd i gydweithio gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgol Pendalar, Ysgol Hafod Lon, Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, a Glynllifon, yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynllunio darpariaethau ar gyfer adnoddau gwell i dderbyn unigolion gydag anghenion mwy dwys.

**ADRA:**
Yn sgil y newid yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, golygai nad oeddem mwyach yn gallu parhau i fod yn landlordiaid yn ogystal â darparu gofal personol i'n tenantiaid. Yr opsiwn gorau er lles ein tenantiaid oedd creu partneriaeth gyda chymdeithas tai Adra, sydd yn golygu mai Adra sydd bellach yn landlordiaid ar ein tai.

Yn ychwanegol, adolygwyd swydd ddisgrifiad y Brif Weithredwraig i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau – Menna Jones yw'r Person Cyfrifol nawr ar gyfer y cwmni. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**GRŴP LLANDRILLO MENAI A GYRFA CYMRU:**
Gyda digwyddiadau 'byw' wedi'u canslo oherwydd y firws, mi roedd y galw i bresenoli drwy ffurf fideo wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod. Fe gynhyrchwyd sawl fideo ar gyfer ddigwyddiadau, yn cynnwys fideo 'Gweithio i'r Antur' i fyfyrwyr Iechyd a Gofal Grŵp Llandrillo Menai a Gyrfa Cymru.

Rydym wedi cydweithio yn gyson gydag RCS Wales ar gyfer cyfeirio staff am gefnogaeth cwnsela a physiotherapi gan sicrhau eu bod yn gallu parhau yn y lle gwaith. Mae gennym ddwy aelod o'r tîm Adnoddau Dynol sydd wedi'u hyfforddi fel pencampwyr llesiant drwyddynt hefyd. Mae'r adnodd wedi bod yn werthfawr yn arbennig oherwydd y cyfnod heriol yma. Maent hefyd yn darparu gweminarau llesiant cyson sydd o fudd i allu cefnogi staff.

**RHEOLI RISG**

Mae'r Cwmni wedi creu, dilyn a diweddaru Cynllun Clo cynhwysfawr yn ystod cyfnod y Pandemig gan sicrhau diogelwch a gweithdrefnau gwaith unigolion a staff. Bu i'r Tîm Uwch Reoli gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i sicrhau cydymffurfio â'r gweithdrefnau oedd yn eu lle ar yr adeg.

**HAPWIRIAD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU**
Cawsom archwiliad mis Gorffennaf, ac fe gyflwynwyd yr Adroddiad Arolygu i Fwrdd y Cwmni mis Medi; roedd yr adroddiad yn galonogol.

**ARCHWILIAD ISO 14001 ac ISO 9001**
Llwyddwyd i gynnal yr Achrediad ISO 14001 a'r Achrediad ISO 9001 unwaith eto yn dilyn proses fanwl a thrylwyr rhannol-rhithiol a gwaith gwirio mewnol. Mae'r gweithredu ar y broses a'r systemau cysylltiedig yn fuddiol i ni wrth ymgeisio am gytundebau a thendrau i'r dyfodol.
Mi roedd cydweithio rhagorol wedi bod rhwng y Rheolwyr, a'r adran Adnoddau Dynol - a'r canlyniad oedd cydymffurfiaeth lawn, ac adroddiad teilwng dros ben.

**BS EN 15713 GWASANAETH LLARPIO**
Roedd y gwasanaeth llarpio yn llwyddiannus yn cael yr achrediad BS EN 15713 fis Mawrth 2021 a bydd yn cryfhau ein systemau gweithio yn ogystal â gallu ymgeisio am gytundebau a thendrau newydd. Ychydig iawn o waith ychwanegol oedd ei angen ar gyfer yr achrediad yma gan fod y gwasanaeth llarpio eisoes yn gweithio i'r safon.

**DENU A DATBLYGU POBL**

Mae'r Uwch-reolwraig Adnoddau Dynol yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth i roi cyngor ac arweiniad ar faterion adnoddau dynol ar draws y corff, mae hi hefyd wedi cwblhau cwrs Adnabod a Delio gyda Gwahaniaethu yn y Gweithle. Rydym yn defnyddio cyfreithiwr lleol i ddarparu cefnogaeth pan mae angen.

Wrth gymryd i ystyriaeth yr hinsawdd economaidd anodd mae cyflogwyr yn eu hwynebu, mae'r Uwch Reolwraig Adnoddau Dynol yn falch o adrodd ein bod eto eleni wedi llwyddo i gynnal yr adnoddau staff angenrheidiol ac wedi cydymffurfio efo holl ofynion gyfraith cyflogaeth. Drwy reoli ein hadnoddau rydym wedi llwyddo i gynnal safon ein gwasanaethau a chynllunio ar gyfer unigolion newydd yn ein gwasanaethau dydd a chefnogaeth cartref.

Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y cwmni yn ystod y pandemig, roedd yn rhaid sicrhau effeithiolrwydd strwythurau staffio. Penderfynwyd gwobrwyo ymroddiad ein staff a chefnogi'r staff sydd yn arbenigo mewn darparu gofal ar sawl lefel i'n hunigolion ag anableddau dysgu yn y maes gofal. Rhoddwyd blaenoriaeth ar ddatblygu cryfderau a gyrfaoedd, rhoi cyfrifoldebau newydd i staff, rhoi clod i gyrhaeddiad ein staff a chynllunio'n strategol, gan roi pwyslais ar fentora, magu, a chadw staff.

Mae’r strwythur newydd yn creu llwybr gyrfa i’n gweithwyr cefnogol, a chodiad cyflog i’r rhai a lwyddodd i ateb gofynion y meini prawf uwch.

Bwriad y strwythur newydd yw magu hyder, datblygu sgiliau a chymwysterau ac annog ein staff i ymgeisio am swyddi uwch. Eleni wnaeth 6 aelod staff lwyddo i gyrraedd y meini prawf uwch ac o ganlyniad maent wedi cymryd lefel uwch o gyfrifoldebau sydd wedi galluogi Is-reolwyr i ganolbwyntio ar faterion strategol yn ystod cyfnod heriol.

Mae staff yr Antur yn ystod y cyfnod Cofid-19 wedi dangos ymroddiad cryf i waith yr Antur ac mae’r Bwrdd Rheoli a’r Uwch Dim yn ddiolchgar iawn o hyn – fe wnaeth sicrhau rhediad ein gwasanaeth.

**STAFF NEWYDD**

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 fe benodwyd 10 aelod newydd o staff ar draws y cwmni.

**HYFFORDDIANT**

Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, gan sicrhau ein bod yn cadw i safonau megis Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Ynys Môn a Conwy. Rydym yn sicrhau bod gofynion hyfforddiant yn gyfredol ac yn cofrestru ein gweithwyr cefnogol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn cwblhau gwerthoedd ac egwyddorion o fewn ei 6 mis cyntaf o gychwyn eu cyflogaeth.

Rydym wedi cofrestru 6 aelod staff yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn parhau i gofrestru staff yn unol â’r gofynion

Oherwydd Cofid-19 bu’r cyfnod yn heriol iawn o ran gallu hyfforddi staff a chadw ar ben diweddaru hyfforddiant. Llwyddwyd i symud i ddysgu ar lein er mwyn diweddaru hyfforddiant mandadol staff fel datrysiad dros dro.

**PROFIADAU GWAITH**

Ni fu unrhyw brofiadau gwaith yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y sefyllfa Cofid-19. Oherwydd natur y gwasanaeth roedd yn bwysig canolbwyntio ar gadw ein hunigolion yn saff. Rydym yn adolygu profiadau gwaith yn rheolaidd yn ein Gweithgor Iechyd a Diogelwch a gobeithir gallu ailgychwyn profiadau gwaith i fyfyrwyr a disgyblion dros y misoedd nesaf.

**CYDNABYDDIAETH**

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth mis Mai 2021 i roi swm o £735 i holl staff rheng flaen, fe wnaeth y Cwmni benderfynu rhoi cydnabyddiaeth o’r un swm i staff nad oedd yn disgyn mewn i gategorïau'r Llywodraeth gan eu bod hwythau wedi bod yn flaenllaw i redeg gwasanaeth gofal yn ystod y pandemig.

**UNIGOLION ANTUR WAUNFAWR**

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig cytundebau gwasanaeth neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu’r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda’r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy’n cael ei gyfeirio atom, ac i sicrhau adnoddau teg i roi’r gwasanaeth gorau posib i’n defnyddwyr. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo’r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

**ANNOG IECHYD A LLESIANT**

Eleni, cynhaliwyd taith i ddathlu Gŵyl Dewi gyda 27 o unigolion a staff yn cerdded o safle Waunfawr i lawr i sgwâr Caernarfon ac ymunodd dros 20 o’r Warws Werdd, Caergylchu a Beics Antur. Cafwyd croeso a chydnabyddiaeth o bresenoldeb criw’r Antur ar y diwrnod, tra bod y cerddwyr a’r mynychwyr wedi mwynhau yn fawr.

Yn dilyn llwyddiant y diwrnod allan, fe sefydlwyd taith gerdded wythnosol i unigolion.

**ADOLYGIAD CYLLIDOL**

**RHODDION**

Sefydlwyd ein cyfrif PayPal gyda statws 'elusen' fel bod posibl gwerthu eitemau heb orfod talu ffioedd gwerthu, a hefyd posib codi arian drwy ddefnyddio botwm 'PayPal Donate' drwy system 'PayPal Giving'. Golygai hyn ei fod bellach yn haws nag erioed i bobl roddi arian i'r Antur, drwy ddull digidol.

**PRIF FFYNONELLAU INCWM**

Prif ffynhonnell incwm y cwmni yw Incwm Cytundebol o'r Awdurdodau Lleol trwy'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal mae'r Cwmni yn rhan o bartneriaeth Caergylchu gyda Chyngor Gwynedd a chytundebir gyda'r Cyngor am y gwaith hwn. Mae incwm masnachol o werthu gwasanaeth i gwmnïau ac unigolion, a chynnyrch Antur Waunfawr, yn dod ag incwm hollbwysig i'r Antur.

**DENU GRANTIAU A CHRONFEYDD NEWYDD**

Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i sicrhau'r grantiau canlynol:

- Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, CGGC - £86,148.24
- Trawsnewid Anableddau Dysgu, Cyngor Fflint - £8,100
- North Wales Seed Funding, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - £4,500
- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol - £22,694

**POLISI ARIAN WRTH GEFN**

Mae'n bolisi gan y Cwmni i gadw cronfa anghyfyngedig fechan, gan eithrio cronfeydd dynodedig o eiddo'r Elusen sydd wedi eu neilltuo yn benodol. Penderfynodd y Bwrdd adolygu'r polisi yn rheolaidd (gan gymryd i ystyriaeth asedau cynyddol y Cwmni) fel bod yna arian i gynnal costau gwasanaethu amcanion yr elusen am gyfnod, ac i gynnal costau rheoli a gweinyddu, a hefyd digon i ymateb i unrhyw gais brys. Dros y 6 mlynedd diwethaf mae'r Cwmni wedi sicrhau bod yna lleiafswm o 3 mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn ar gyfer unrhyw heriau annisgwyl. Mae hyn yn unol â chanllawiau ymarfer da'r Comisiwn Elusennau ac yn cwrdd ag amcanion y Cod Llywodraethu. Mae'r Cwmni hefyd yn ymwybodol bod angen buddsoddi yn adeiladau a safleoedd y Cwmni er mwyn sicrhau cynaladwyedd yr Antur i'r dyfodol.

**IAITH A DIWYLLIANT**

Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau sydd wedi eu sefydlu, ac rydym yn anelu bob amser i fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant a'r economi leol.

Byddwn yn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, gan fod yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.

**MARCHNATA, YMGYSYLLTU A CHYHOEDDUSRWYDD**

Penderfynodd Carla Esposito, ein Swyddog Marchnata adael yr Antur er mwyn datblygu ei gyrfa – cafodd ddyrchafiad a swydd ym Mhrifysgol Bangor. Fe wnaeth yr Antur ddymuno'n dda iddi yn ei gyrfa newydd, gan nodi bydd colled fawr ar ei hôl.

Swyddog Marchnata allanol sydd nawr yn cyflawni'r gwaith marchnata; Mae Osian Wyn Owen (Cwmni Argoedd) yn gyfieithydd ac â chymhwyster meistri mewn ysgrifennu creadigol.

Parhawyd i weithredu'r strategaeth marchnata a chyrraedd y nodau a amlinellwyd yn y strategaeth. Mae'r wefan yn parhau i gyfrannu at dwf presenoldeb ar-lein y cwmni a hefyd yn adrodd ein newyddion diweddaraf. Mae gennym eisoes linc hefo Golwg 360 ac rydym yn annog cyfranogwyr lleol.

Dyma giplun ystadegau ein cyfryngau cymdeithasol yng nghyfnod mis Mai 2021 i Ragfyr 2021:

Mae ein cyrhaeddiad Facebook yn 34,121 **(sy'n gynnydd o 46.8%)**
Mae ein cyrhaeddiad Instagram yn 1,648 **(sy'n gynnydd o 87.5%);** mae lle i ddatblygu ein defnydd o'r cyfrwng hwn, ond rydym ar y trywydd cywir.
Ymweliadau â'n tudalen Facebook **wedi gweld cynnydd o 63%**
Ymweliadau â'n tudalen Instagram **wedi gweld cynnydd o 104%**

Mae ein nifer o ddilynwyr newydd ar Facebook **wedi cynyddu 176%**
Mae ein nifer o ddilynwyr newydd ar Instagram **wedi cynyddu 691%**

**EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022 – 23**

- Darparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i unigolion ag anableddau dysgu ac i'r difreintiedig
- Darparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid
- Darparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ailgylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat
- Datblygu modelau o gynllunio gyda'r unigolion yn ganolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar fel rhan o gynlluniau'r unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd/gwaith yr Antur
- Hyrwyddo integreiddio a byw'n iach ym mhob agwedd o'n gwasanaethau a darpariaeth hamdden er mwyn bodloni anghenion iechyd da, llesiant a hapusrwydd yr unigolion
- Darparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd
- Datblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon, cefnogi'r gymuned ehangach a gwarchod yr amgylchedd
- Creu canolbwynt llesiant newydd a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon
- Bod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, y diwylliant, a'r economi leol

**DIWEDDGLO**

Pwysig yw dathlu'r llwyddiannau bach bob dydd a rhoi cydnabyddiaeth i'r staff am hwylio'r storm ac am warchod yr Antur – maent wedi cynnal y busnesau, ac wedi sicrhau parhad y ddarpariaeth - sydd yn ei dro wedi ein galluogi i gynyddu niferoedd unigolion; diolchwn i'r staff cefnogol i gyd am eu gwaith blaengar a di-flino dros y flwyddyn. Mae'n galonogol eto eleni i adlewyrchu ar yr holl a gyflawnwyd, a'r prosiectau newydd sydd ar y gweill er gwaethaf yr heriau yn ystod y flwyddyn, gan nodi natur organaidd a synergaidd gwaith yr adrannau lle mae cydweithio cryf a balchder ymysg y staff.

Byddwn yn plethu ein mentergarwch efo egwyddorion cymdeithasol cryf gan greu cynlluniau busnes a fydd yn rhoi ffocws i'n gwaith ac yn ail-uno'r Antur yn dilyn y pandemig -mae'n gyfle i ni arwain a bod yn arloesol. Rydym yn esiampl o Fenter sy'n rhagori ac yn arfer da – rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl sy'n cefnogi ein prosiectau ar sail ein henw da – gan obeithio fod yr adroddiad yma yn dyst i waith graenus yr Antur.

Mae'r Brif Weithredwraig a'i staff yn gweithio'n barhaus i gynnal safonau ac amrywiaeth o gyfleoedd trwy'r prosiectau a'r busnesau a reolir, ac i gydymffurfio a'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Hefo'r cyfyngiad ariannol sy'n taro, rydym angen parhau i weithredu gyda rheolaeth dynn, adolygu'r cyllidebau'n ofalus, dethol gwasanaethau a chynllunio'n greadigol. Yn sicr, bydd y Cwmni yn parhau i ddarparu gofal, hyfforddiant a gwaith perthnasol a deniadol i bobl ag anableddau dysgu, a bydd yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i'r tenantiaid mewn amgylchedd iach a hapus.

Nod Antur Waunfawr yw parhau i oroesi trwy fod yn gystadleuol ac effeithiol fel menter gymdeithasol, tra hefyd yn canolbwyntio ar ein gwerthoedd, iechyd a llesiant a'n nodau ac amcanion.

**CYFRIFOLDEBAU YR YMDDIRIEDOLWYR MEWN CYSYLLTIAD A'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol a chyfraith perthnasol ac Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GAAP).

Mae'n ofynnol dan y Ddeddf Cwmnïau i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg wir a theg o amgylchiadau yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am y gweddill neu ddiffyg yn y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol ar yr ymddiriedolwyr i:

1. ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas;
2. gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog; a
3. pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cofnodion cyfrifyddol sydd yn datgan sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol fanwl ac sydd yn eu galluogi i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen, ac i sicrhau y gwneir darpariaethau i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Datganiad yr Ymddiriedolwyr Ynglyn a Datgelu Gwybodaeth i'r Archwiliwr**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau cyn belled ac maent yn ymwybodol, nad oes dim gwybodaeth perthnasol nad yw archwiliwr yr elusen yn ymwybodol ohonno. Maent wedi cymeryd pob cam y dylent fel ymddiriedolwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sicrhau fod archwiliwr yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth.

Ymddiriedolwr Awdurdodedig: Mr Rhys Evans – Cadeirydd y Bwrdd

**Cafodd yr Adroddiad ei chymeradwyo**

**Llofnod:**

**Mr Rhys Evans – Cadeirydd**

**Dyddiad:**

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Antur Waunfawr**

**Barn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Waunfawr am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2022 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, , 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2022, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ein barn**

Rydym wedi cynnel ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

**Canlyniadau ynglŷn a busnes byw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes byw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.
Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud a digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes byw am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol.
Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas a busnes byw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y gwybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysiedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wyboadaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

**Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmniau 2006**

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynnion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglyn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmniau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;

- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:
- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:
- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau

neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu‘r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae’n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i’r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw’r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi’r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.

- Asesu y cyflwyniad cyffredinol , strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw’r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda’r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

**Defnyddio ein adroddiad**

Mae’r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau’r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a’r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau’r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae’n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau’r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

*David Chidley* (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a’i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
Ll55 1AB Dyddiad:

**Antur Waunfawr**
**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2022 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2021 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | *3* | 8,195 | 83,252 | 91,447 | 10,208 |
| Grant Cyfalaf – Porth Yr Aur | | - | 109,869 | 109,869 | 168,624 |
| Grant Cyfalaf – Adferiad Gwyrdd | | - | - | - | 102,685 |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | *4* | 1,547,334 | - | 1,547,334 | 1,631,149 |
| Incwm Warws Werdd | *4* | 414,213 | - | 414,213 | 317,438 |
| Incwm Caer Gylchu | *4* | 572,264 | - | 572,264 | 519,177 |
| Incwm Beics Menai | *4* | 61,136 | - | 61,136 | 35,520 |
| Elw ar werthu ased sefydlog | | - | - | - | 145 |
| Llog | | 4 | - | 4 | 21 |
| Incwm arall | | - | - | - | 2,442 |
| Cynllun Cadw Swyddi | | 10,535 | - | 10,535 | 47,207 |
| Grantiau Covid | | 47,932 | | 47,932 | 132,436 |
| ***Cyfanswm incwm*** | | 2,661,613 | 193,121 | 2,854,734 | £2,967,052 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | *5* | 2,554,463 | 140,980 | 2,695,443 | 2,498,099 |
| Colled ar ail-brisio asedau | | | | | - |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | 2,554,463 | 140,980 | 2,695,443 | 2,498,099 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | **107,150** | **52,141** | **159,291** | **468,953** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | **107,150** | **52,141** | **159,291** | **468,953** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2021 | | 3,833,370 | 970,312 | 4,803,682 | 4,334,729 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2022 | | 3,940,520 | 1,022,453 | 4,962,973 | 4,803,682 |

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau.

## Antur Waunfawr

***Mantolen** ar 31ain Mawrth 2022*
***(Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1832813)***

| | Nodiadau | | 2022 £ | | 2021 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddiannau Sefydlog** | | | | | |
| Buddiannau sefydlog dirweddol | ***12*** | | 3,893,586 | | 3,863,325 |
| **Buddiannau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | ***13*** | 22,573 | | 11,124 | |
| Dyledwyr | ***14*** | 131,415 | | 253,227 | |
| Arian mewn banc ac mewn llaw | | 1,012,711 | | 949,097 | |
| | | 1,166,699 | | 1,213,448 | |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn* | ***15*** | 68,470 | | 230,172 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 1,098,229 | | 983,276 |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 4,991,815 | | 4,846,601 |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn* | ***16*** | | 28,842 | | 42,919 |
| **Asedau Net** | | | 4,962,973 | | 4,803,682 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| **Cronfeydd Incwm** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | ***20*** | | 3,940,520 | | 3,833,370 |
| Cronfeydd cyfyngedig | ***20*** | | 1,022,453 | | 970,312 |
| | | | 4,962,973 | | 4,803,682 |

**.......................................................**

**Mr Rhys Evans (Cyfarwyddwr)** **Dyddiad**:

## Antur Waunfawr

**Datganiad ynghylch llif arian** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

| | Nodyn | 2022<br>£ | 2021<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | ***18*** | 166,926 | **434,234** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 4 | 21 |
| Derbyniadau o werthiant asedau sefydlog | | - | 145 |
| Prynu asedau sefydlog | ***12*** | (89,238) | (760,316) |
| **Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi** | | (89,234) | **(760,150)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Derbyniad ariannu hur bwrcas | | - | - |
| Ad-daliad oblygiadau hur bwrcas | | (14,078) | (13,020) |
| **Arian a dderbynwyd o weithgareddau ariannu** | | **(14,078)** | **(13,020)** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian** | | **63,614** | **(338,936)** |
| Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2021 | | 949,097 | 1,288,033 |
| **Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2022** | | **1,012,711** | **949,097** |

## Antur Waunfawr

**Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddiwyd i dderbyn asedau sefydlog at ddefnydd yr elusen** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2022 £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | 107,150 | 52,141 | 159,291 | 468,953 |
| Adnoddau a ddefnyddiwyd i dderbyn Asedau sefydlog net | - | (89,236) | (89,236) | (760,316) |
| Symudiad net mewn cronfeydd ar gael at weithgareddau y dyfodol | 107,150 | (37,095) | 70,055 | (291,363) |

## Antur Waunfawr

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

**1. Polisïau cyfrifyddol**

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

**a) Sail paratoi cyfrifon**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae Antur Waunfawr yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

**b) Cyfrifo cronfeydd**

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Mae nod a defnydd y cronfeydd dynodedig wedi eu disgrifio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau'r rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig. Mae'r costau o godi a gweinyddu'r cronfeydd wedi eu nodi yn erbyn y cronfeydd penodedig. Mae nod pob cronfa gyfyngedig wedi eu nodi yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**c) Incwm**

Dangosir incwm yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl.

Cydnabyddir am grantiau llywordraeth a grantiau eraill, boed y grant yn grant refeniw neu gyfalaf, Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl ac nac oes angen gohirio'r incwm.

**ch) Gwariant a TAW anadferadwy**

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

**d) Dosbarthiad costau cynorthwyol**

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 6.

### 1 Polisïau cyfrifyddol (ymlaen)

**dd) Asedau sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu dangos ar sail cost neu ar brisiad y farchnad. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 2% |
| Siediau a thai gwydr | 10% |
| Offer | 20 -33 1/3% |
| Moduron | 20% |

Ni chyfrifir am ddibrisiant ar dir rhyddfreiniol. Nid yw buddiannau sefydlog sydd yn costio llai na £1,000 yn cael eu cyfalafu a byddent yn cael eu dileu ym mlwyddyn prynnu.

**e) Stoc**

Mae stoc yn cynrychioli asedau a brynwyd i ailwerthu. Prisiwyd y stoc ar y lleiaf o gost neu werth net sylweddoladwy. Nid yw eitemau stoc a dderbyniwyd fel rhoddion neu er mwyn dosbarthu yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes maent wedi eu gwerthu neu ddosbarthu.

**f) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwyd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**ff) Arian mewn banc ac mewn llaw**

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

**g) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**nh) Offerynnau ariannol**

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngu ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

**h) Costau pensiwn**

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

### 2 Statws y cwmni

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu'r cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau'r cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni.

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

### 3. Rhoddion a grantiau gwirfoddol

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2022 £ | Cyfanswm 2021 £ |
|---|---|---|---|---|
| Grant Heddlu Gogledd Cymru | - | - | - | 2,500 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | - | - | - | 3,470 |
| Rhoddion | 8,195 | - | 8,195 | 4,238 |
| Grant Adfer Cyngor Gwynedd | - | 14,854 | 14,854 | - |
| Grantiau Gan Cyngor Sir Fflint | - | 8,550 | 8,550 | - |
| Grant Betsi Cadwalader | - | 4,500 | 4,500 | - |
| Cronfa Adfer Y Gwasanaethau Gwirfoddol | | 55,348 | 55,348 | - |
| | 8,195 | 83,252 | 91,447 | 10,208 |

### 4. Incwm o weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu £ | Warws Werdd £ | Caer-Gylchu £ | Beics Menai £ | Cyfanswm 2022 £ | Cyfanswm 2021 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Gwasanaeth | 1,430,884 | 152,022 | 101,203 | 33,336 | 1,717,445 | 1,834,737 |
| Cronfa Byw yn Annibynnol | - | - | - | - | - | 324 |
| Cytundeb Ailgylchu | - | 76,672 | 257,468 | - | 334,140 | 334,140 |
| Grant ICF | - | - | - | - | - | 5,278 |
| Incwm Caergylchu | - | - | 213,593 | - | 213,593 | 160,797 |
| Incwm Warws Werdd | - | 185,519 | - | - | 185,519 | 84,898 |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | 112,582 | - | - | - | 112,582 | 79,396 |
| Incwm Beics Menai | - | - | - | 27,800 | 27,800 | 74 |
| Incwm arall | 3,868 | - | - | - | 3,868 | 3,640 |
| | 1,547,334 | 414,213 | 572,264 | 61,136 | 2,594,947 | 2,503,284 |

## 5. Dadansodiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu | Warws Werdd | Caer-Gylchu | Beics Menai | Cyfanswm 2022 | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | 1,118,996 | 197,407 | 397,656 | 72,672 | 1,786,731 | 1,684,818 |
| Nwyddau i'w gwerthu a thraul | 767 | 54,448 | 10,374 | 10,954 | 76,544 | 49,231 |
| Cafe/ Bwyd | 13,081 | - | - | - | 13,081 | 13,124 |
| Safle ac adnewyddu | 59,117 | 33,590 | 12,889 | 19,911 | 125,507 | 132,888 |
| Teithio a chostau buddiolwyr | 41,775 | 31,678 | 43,354 | 2,802 | 119,609 | 103,714 |
| Costau swyddfa | 10,458 | 8,408 | 6,148 | 8,806 | 33,820 | 32,250 |
| Hyfforddiant | 13,156 | 2,135 | 1,797 | 14,309 | 31,396 | 8,213 |
| Costau staff | - | 2,584 | 902 | - | 3,486 | 1,848 |
| Costau marchnata | 53 | 50 | 9,236 | 1,944 | 11,283 | 4,519 |
| Costau proffesiynol | 3,734 | - | 7,274 | 47 | 11,055 | 2,973 |
| Dibrisiant | 4,870 | 16,346 | 7,581 | 10,676 | 39,473 | 20,630 |
| Llogau | - | 3,576 | - | - | 3,576 | 4,597 |
| Dyledwyr drwg | - | - | 7,467 | - | 7,467 | - |
| Eraill | 364 | 1,129 | 5 | 744 | 2,242 | 7,013 |
| Costau llywodraethol | 14,739 | 2,209 | 5,206 | 1,568 | 23,722 | 22,147 |
| Costau cynorthwyol | 252,528 | 37,849 | 89,206 | 26,866 | 406,449 | 410,134 |
| | 1,533,638 | 391,411 | 599,095 | 171,299 | 2,695,443 | 2,498,099 |

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £2,695,443 (2021 - £2,498,099). O'r gwariant yma roedd £2,554,463 (2021-£2,470,974) yn anghyfyngedig a £140,980 (2021 - £27,125) yn gyfyngedig.

## 6. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y pedwar gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir sail dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol yn y tabl isod.

| | Sail Dosbarthu | Costau Cynorthwyol Cyffredinol | Llywodraethol | Cyfanswm 2022 | Cyfanswm 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | *Amser staff* | 236,594 | 15,110 | 251,704 | 240,394 |
| Safle ac adnewyddu | *Defnydd* | 34,143 | - | 34,143 | 36,791 |
| Costau Covid | *Defnydd* | 31,290 | - | 31,290 | 43,584 |
| Swyddfa | *Defnydd* | 36,457 | - | 36,457 | 62,826 |
| Teithio | *Defnydd* | 3,464 | - | 3,464 | - |
| Hyfforddiant | *Defnydd* | 2,993 | - | 2,993 | 2,856 |
| Hysbysebu a marchnata | *Defnydd* | 12,350 | - | 12,350 | 2,810 |
| Archwilio/Cyfrifydd | *Defnydd* | - | 8,612 | 8,612 | 8,413 |
| Proffesiynnol | *Trafodion* | 28,915 | - | 28,915 | 19,887 |
| Dibrisiant | *Defnydd* | 19,504 | - | 19,504 | 13,984 |
| Eraill | *Trafodion* | 739 | - | 739 | 736 |
| | | 406,449 | 23,722 | 430,171 | 432,281 |

## 7. Incwm net am y flwyddyn

| **Nodir yr incwm net ar ôl codi:** | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Dibrisiant | 58,977 | 34,614 |
| Ffioedd archwilio | 5,950 | 5,912 |
| Archwiliwr – ffioedd eraill | 2,660 | 2,501 |

## 8. Costau staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cyflogau | 1,761,700 | 1,651,167 |
| Cyflogau gweithwyr | 54,580 | 49,304 |
| Yswiriant cenedlaethol | 135,640 | 137,160 |
| Costau pensiwn | 86,515 | 87,581 |
| | 2,038,435 | 1,925,212 |

Cyfanswm nifer cyflogedig ar sail blwyddyn cyflawn oedd 162 (*2021 – 154*). Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli gan ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2021 – Dim).* Ni wnaed taliadau i ymddiriedolwyr yr elusen am gostau a achoswyd *(2021 – Dim).* Ni wnaethpwyd taliad am wasanaethau proffesiynol nac am wasanaethau eraill i ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2021 – Dim)*.

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tim rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £268,975 *(2021 - £253,672)*.

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Prif weithredwr | 1 | 1 |
| Uwch reolwyr | 3 | 3 |
| Rheolwyr | 10 | 9 |
| Safle | 26 | 25 |
| Ail Gylchu | 13 | 13 |
| Warws Werdd | 5 | 5 |
| Cynllun Cartrefu | 23 | 27 |
| Beics Menai | 2 | 2 |
| Gweinyddol | 6 | 6 |
| Gweithwyr gyda anabledd | 73 | 63 |
| | 162 | 154 |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

### 9. Trafodion Partion Cysylltiedig

Ni fu trafodion gyda partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Nid oedd symiau yn ddyledus i na dyledus gan bartïon cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn *(2021 - £Dim)*.

### 10. Grantiau Llywodraeth

Mae incwm grantiau llywodraeth yn cynnwys cytundebau gwasanaeth gyda awdurdodai lleol i ffynonellau gwasanaethau buddiannol i fuddiolwyr yr elusen.

### 11. Treth gorfforaeth

Mae gan Antur Waunfawr eithriad o dreth ar incwm ac enillion dan Adran 505 o Ddeddf Treth 1988 ac adran 252 o'r Ddeddf Treth Enillion Cyfalaf 1992 i'r eithaf eu defnyddir at ei nodau elusennol.

### 12. Buddiannau sefydlog

| | ***Tir ac Adeiladau*** | ***Offer*** | ***Moduron*** | ***Cyfanswm*** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| ***Cost/Gwerth*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2021 | 3,860,303 | 495,615 | 114,602 | 4,470,520 |
| Ychwanegiadau | 74,262 | 14,976 | - | 89,238 |
| Ar 31ain Mawrth 2022 | 3,934,565 | 510,591 | 114,602 | 4,559,758 |
| ***Dibrisiant*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2021 | 229,160 | 359,881 | 18,154 | 607,195 |
| Cost am y flwyddyn | 19,524 | 20,164 | 19,289 | 58,977 |
| Ar 31ain Mawrth 2022 | 248,684 | 380,045 | 37,443 | 666,172 |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | | |
| Ar 31ain Mawrth 2022 | 3,685,881 | 130,546 | 77,159 | 3,893,586 |
| Ar 31ain Mawrth 2021 | 3,631,143 | 135,734 | 96,448 | 3,863,325 |

Yn gynwysedig yn y £3,137,622 mae £20,000 sydd yn werth tir yn Waunfawr ac £38,599 o dir yng Nghaernarfon. Ail brisiwyd y tir ac adeiladau yn Waunfawr ac Warws Werdd yng Nghaernarfon gan Dafydd Hardy, syrfewyr siartredig yn mis Mawrth 2020. Rhoddwyd gwerth y tir ac adeiladau yn Waunfawr fel £2,165,000. Mae'r gwerth yma yn isel ac yn llai na'r disgwyl oherwydd yr ansicrwydd yn y farchnad eiddo yn dilyn y pandemic Covid-19. Cost gwreiddiol yr asedau sefydlog yw £3,935,815 (2021-£3,861,553) a buasai dibrisiant o £208,476, (2021- £191,367) wedi ei godi arnynt.

### 13. Stoc

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cynnwys stoc: | | |
| Stoc Warws Werdd | 10,496 | 8,674 |
| Stoc Beics Menai | 4,050 | 2,150 |
| Stoc siop | 4,016 | 200 |
| Stoc cafe | 1,881 | 100 |
| Stoc Caergylchu | 2,130 | - |
| | 22,573 | 11,124 |

**14. Dyledwyr**

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Grantiau, cytundebau a dyledwyr masnachol | 122,949 | 242,257 |
| Dyledwyr eraill | 8,466 | 10,971 |
| | 131,415 | 253,228 |

**15. Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 1,133 | 19,225 |
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas | 14,708 | 13,994 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 23,557 | 131 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 29,072 | 196,822 |
| | 68,470 | 230,172 |

**16. Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ol blwyddyn*

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas (yn daladwy mewn llai na 5 blywyddyn) | 28,842 | 42,919 |

**17. Offerynnau ariannol**

Yr offerynnau ariannol a fesurir ar sail cost wedi ei amorteiddio yw'r benthyciad hur bwrcas.

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | 14,708 | 13,994 |
| Swm yn ddyledus dros blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 28,842 | 42,919 |
| Cyfanswm | 43,550 | 56,913 |

**18. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol**

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | 159,291 | 468,953 |
| Llog a dderbyniwyd | (4) | (21) |
| Dibrisiant | 58,977 | 34,614 |
| Elw ar werthu ased | - | (145) |
| (Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc | (11,449) | (3,542) |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr | 121,813 | 113,555 |
| Cynydd/(Lleihad) mewn credydwyr | (161,702) | (179,180) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | 166,926 | 434,234 |

**19. Ymroddiad cyfalaf**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan Antur Waunfawr ymroddiad cyfalaf ynglŷn a datblygiad adeiladu o £700,118 *(2021 - £DIM ).*

**20. Cronfeydd cyfyngedig**

| | 31 Mawrth 2021 | Trosglwydd -iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 358,640 | - | (10,548) | - | 348,092 |
| Sgubor Grefftau | 8,797 | - | (251) | - | 8,546 |
| Grant Cae Chwarae | 22,140 | - | (1,080) | - | 21,060 |
| Rhoddion | 4,831 | - | (2,365) | - | 2,466 |
| Grant Clothworkers Foundation | 14,220 | - | (11,570) | - | 2,650 |
| Grantiau Porth Yr Aur | 458,999 | - | 98,492 | - | 557,491 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | 102,685 | - | (20,537) | - | 82,148 |
| | 970,312 | | 52,141 | | 1,022,453 |

| | 31 Mawrth 2020 | Trosglwydd -iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 369,188 | - | (10,548) | - | 358,640 |
| Sgubor Grefftau | 9,048 | - | (251) | - | 8,797 |
| Grant Cae Chwarae | 23,220 | - | (1,080) | - | 22,140 |
| Rhoddion | 4,930 | - | (99) | - | 4,831 |
| Grant Clothworkers Foundation | 14,220 | - | - | - | 14,220 |
| Grantiau Porth yr Aur | 290,375 | - | 168,624 | - | 458,999 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | - | - | 102,685 | - | 102,685 |
| | 710,981 | - | 259,331 | - | 970,312 |

**Cronfeydd anghyfyngedig**

| | Balans 31 Mawrth 2021 | Trosglwy-ddiadau | Adnoddau Cyllid | Ail Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,674,393 | (211,240) | 107,150 | - | 2,570,303 |
| Cronfa Ailbrisio | 528,088 | (2,156) | - | - | 525,932 |
| | 3,202,663 | (213,396) | 107,150 | | 3,096,417 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 119,000 | 110,500 | - | - | 229,500 |
| Cronfa Wrth Gefn | 511,707 | 102,896 | - | - | 614,603 |
| | 3,833,370 | - | 107,150 | - | 3,940,520 |

| | Balans 31 Mawrth 2020 | Trosglwy-ddiadau | Adnoddau Cyllid | Ail Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,246,131 | 218,640 | 209,622 | - | 2,674,393 |
| Cronfa Ailbrisio | 530,244 | (2,156) | - | - | 528,088 |
| | 2,776,557 | 216,484 | 209,622 | - | 3,202,663 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 339,191 | (220,191) | - | - | 119,000 |
| Cronfa Wrth Gefn | 508,000 | 3,707 | - | - | 511,707 |
| | 3,623,748 | - | 209,622 | - | 3,833,370 |

**21. Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr asedau net ar 31ain Mawrth 2022**

| | Cronfeydd Cyfyngedig | Cronfeydd Dynodedig | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Asedau Sefydlog | 1,022,453 | - | 2,871,133 | 3,893,586 |
| Asedau Cyfredol Net | - | 844,103 | 254,126 | 1,098,229 |
| Credydwyr: symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn | - | - | (28,842) | (28,842) |
| Cyfanswm asedau net | 1,022,453 | 844,103 | 3,096,417 | 4,962,973 |

## Antur Waunfawr

### **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2022*

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

Prif weithgaredd y cwmni yw darparu gwaith a hyfforddiant i bobl ag anabledd dysgu, a thrwy hynny gwasanaethu'r gymuned.

**Cronfeydd Dynodedig a chyfyngedig**

Mae'r cwmni wedi penderfynu ymrwymo arian sydd ar gael wrth gefn er mwyn datblygu eiddo Sied Werdd.

Mae swm yn cynrychioli tri mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn i gyfarfod unrhyw heriau annisgwyl h.y £614,603 ar hyn o bryd. Mae hyn yn unol a chanllawiau ymarfer da y Comisiwn Elusennau ac yn cyfarfod ag amcanion Llywodraethu Da Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**ANTUR WAUNFAWR**

England & Wales - Charity number 515445

# Accounts

# ANTUR WAUNFAWR
**(Cwmni yn gyfyngedig trwy warant)**

## ADRODDIAD a DATGANIADAU ARIANNOL

## BLWYDDYN HYD AT: 31 MAWRTH 2021

**Rhif Elusen: 515445**

**Rhif Cwmni: 01832813**

## Antur Waunfawr

## Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth cyfreithiol a gweinyddol | 2 |
| Adroddiad yr ymddiriedolwyr | 3-16 |
| Adroddiad yr archwiliwr | 17-19 |
| Datganiad o weithredoedd ariannol | 20 |
| Mantolen | 21 |
| Datganiad ynghylch llif arian | 22 |
| Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddwyd I dderbyn asedau sefydlog | 23 |
| Nodiadau yn ffurfio rhan o’r datganiadau ariannol | 24-33 |

**ANTUR WAUNFAWR**

**GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL:**

| | |
|---|---|
| **Rhif Cofrestru'r Elusen:** | **515445** |
| **Rhif Cofrestru'r Cwmni:** | **1832813** |

**Ymddiriedolwyr**

**Aelodau'r Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Mr. Rhys Evans | Cadeirydd |
| Mr. Huw Ynyr | Is-gadeirydd |
| Mr. Kevin Hughes | Trysorydd |
| Mr. John Gwynedd Jones | |
| Mr. Geraint Strello | |
| Mr. Norman Williams | |
| Dr. John Prys Morgan Jones | |
| Mr. Daron Harris | |
| Mrs. Sara Mair Tomos | |
| Mrs. Anna Ll. Williams | |
| Mrs. Lowri Huws Jones | |
| Miss. Gwen Tomos | |
| Dr. Catrin Ellis Williams | (Ionawr 2021) |
| Mr. Terry Parry | (Mawrth 2021) |
| Ms. Menna Jones | Ysgrifenyddes |

**Y Tîm Rheoli:**

| | |
|---|---|
| Menna Jones | Prif Weithredwraig |
| Stephen Goodwin | Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl |
| Ellen Thirsk | Uwch Reolwraig Adnoddau Dynol |
| Haydn Jones | Uwch Reolwr Tri Busnes Gwyrdd |
| Sioned Hughes | Rheolwraig Cyllid |
| Gwenlli Mai Wynne | Rheolwraig Datblygu Busnes |
| Elain Hughes | Rheolwraig Datblygu Busnes |

**Swyddfa Gofrestredig a Gweinyddol:**
Bryn Pistyll
Waunfawr
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4BJ

**Cyfreithwyr:**
Iestyn T. Harris, Carter Vincent LLP, The Port House, Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd, LL57 4HN

**Bancwyr:**
Banc Barclays, Grŵp Canghennau Gwynedd, Bangor, Gwynedd

**Archwilwyr:**
W.J. Matthews a'i Fab, 11-15 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

**ADRODDIAD BWRDD YMDDIRIEDOLWYR ANTUR WAUNFAWR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

**RHAGAIR**

Cofnod o waith Antur Waunfawr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 yw'r adroddiad hwn. Mae sylw yma i waith a phrosiectau'r Antur ond eleni, mae yma hefyd sylw i ymdrechion staff mewn ymateb i bandemig Cofid-19. Mae hi wedi bod yn gyfnod anodd ond gallwn hefyd nodi'r llwyddiannau a'r holl a gyflawnwyd er gwaethaf yr heriau a'n wynebwyd.

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at bwrpas Deddf Cwmnïau, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021, sydd hefyd wedi eu paratoi er mwyn cwrdd â'r angen am adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at bwrpas Deddf Cwmnïau. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Erthyglau a Memorandwm y cwmni, a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Antur Waunfawr a wnaed yn Gwmni Corfforedig ar 13eg Gorffennaf 1984 ac a gofrestrwyd yn Elusen ar 6ed Awst 1984. Sefydlwyd y Cwmni o dan Femorandwm y Cwmni sy'n sefydlu amcanion ac awdurdod y cwmni elusennol hwn ac yn cael ei reoli gan Erthyglau'r Cwmni.

## NOD AC AMCANION

Mae Memorandwm Antur Waunfawr yn cyhoeddi ein nod fel a ganlyn;

"I hyrwyddo a chymryd rhan yng nghymorth a gofal bobl ag anawsterau dysgu ac unigolion ag anableddau corfforol a gyfeirir atom gan asiantaethau statudol, yn Sir Gwynedd a'r cylch:- drwy ddarparu, a rhoi cymorth yn y ddarpariaeth o gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, heb eithrio hil, oed neu ryw na thybiaethau gwleidyddol, crefyddol neu dybiaethau eraill."

Mae'r Bwrdd yn trafod nod yr elusen yn rheolaidd ac yn ei gadw mewn cof wrth gynllunio a datblygu ei strategaeth ar gyfer y Cwmni.

Rydym yn cyflawni'r nod drwy:

- ddarparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i unigolion ag anableddau a'r difreintiedig.
- ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid.
- ddarparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat.
- ddatblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar mewn cynlluniau personol unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd a gwaith yr Antur.
- hyrwyddo integreiddio a byw yn iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant a hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion yr unigolion.
- ddarparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd.
- ddatblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach, a gwarchod yr amgylchedd.
- greu canolbwynt newydd llesiant a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon.
- fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

## SUT MAE EIN GWEITHGAREDDAU YN CREU BUDD CYHOEDDUS

Drwy weithredu'r amcanion uchod, rydym yn ateb anghenion ein hunigolion gydag anableddau dysgu a'r gymdeithas ehangach.

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig lleoliadau gwaith neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu'r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy'n cael ei gyfeirio atom, ac i sicrhau adnoddau teg i roi'r gwasanaeth gorau posib i'n defnyddwyr. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo'r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

## CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Mae Antur Waunfawr wedi ymrwymo i gyfarch ysbryd ac amcanion Deddfau Llywodraeth Cymru, yn bennaf;

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd, a llesiant unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan Antur Waunfawr. Mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau, ac yn sicrhau fod y cynnwys yn treiddio trwy weithgareddau, prosiectau a gofalaeth Antur Waunfawr. Byddwn yn gweithredu'n unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn berthnasol i'n prosiect llesiant a datblygiad newydd Porth yr Aur.

Wrth lunio ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gweithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, gan gynnwys y canllaw 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

Mabwysiadodd yr Antur Ddatganiad Llesiant yn 2016, ac mae'r datganiad yma yn sail i'n darpariaethau llesiant wrth ddatblygu ein gweithgareddau a phrosiectau iechyd a lles i'r dyfodol.

**Datganiad Llesiant Antur Waunfawr:**

"Hyrwyddo llesiant, iechyd da a hapusrwydd, a galluogi unigolion fydd conglfeini gwasanaethau Antur Waunfawr i'r dyfodol.

Darperir gofal, cefnogaeth weithgar, hyfforddiant a gwaith ystyrlon mewn modd effeithlon a chymesur i ateb gofynion pobl ag anableddau dysgu a phobl ddifreintiedig yn lleol.

Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.

Ein nod yw creu cymdeithas arloesol, gyfartal, gynhyrchiol a charbon isel trwy feithrin teulu o fusnesau cynaliadwy yn lleol - cychwyn wrth ein traed a gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau llesiant a chymunedau gwydn."

Mae gan Antur Waunfawr sawl adran lwyddiannus sy'n cynnig cyfleoedd gwaith, hyfforddiant, cyfleoedd llesiant a gwasanaethau amrywiol i unigolion ag anableddau dysgu, a phobl ddifreintiedig.

Yn sgil y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 adolygwyd swydd ddisgrifiad y Brif Weithredwraig i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

## CROESAWU AELODAU NEWYDD I'R BWRDD RHEOLI

### Recriwtio a Phenodi'r Pwyllgor Rheoli

Mae Cyfarwyddwyr y Cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol yn ôl gofynion y gyfraith elusennol. Fe'u hadwaenir yn ôl Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni fel 'Cyfarwyddwyr' neu fel 'Aelodau'r Bwrdd'. Hefyd, mae'r Erthyglau'n gosod amod mai am flwyddyn ar y tro y byddant yn gwasanaethu a bod rhaid ethol neu ail-ethol dim mwy na 15 Cyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Rydym yn ffodus fod gennym amrediad da o arbenigedd a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor i'r tîm rheoli yn y meysydd sy'n berthnasol i waith y cwmni e.e. cyllid, cyfreithiol, yswiriant, iechyd, gofal cwsmer, ail-gylchu, addysg a hyfforddiant, busnes a hylendid bwyd. Fe wnaeth y Bwrdd barhau i gyfarfod dros y pandemig, a hynny'n rhithiol.

Croesawyd ymddiriedolwyr newydd y Bwrdd eleni – sef Dr. Catrin Ellis Williams a Mr. Terry Parry.

Mae Dr. Catrin Ellis Williams yn fam i Unigolyn sy'n mynychu'r Antur, yn feddyg teulu a phartner ym Meddygfa Bodnant, Bangor; Catrin sy'n gyfrifol am yr archwiliadau blynyddol ar bob claf cofrestredig sydd ag anabledd dysgu. Fe fuodd yn rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Pendalar ac wedyn yn Is-Gadeirydd. Mae'n drysorydd Grŵp Cefnogi Awtistiaeth Gwynedd a Môn. Mae Catrin hefyd yn ymddiriedolwr ar Fwrdd rheoli Cartrefi Cymru ac ar fin cychwyn fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Garnedd ym Mangor. Mae'n un o gyfarwyddwyr Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn, ac yn Ysgrifennydd Y Gymdeithas Feddygol.

Mae Terry Parry yn Rheolwr Datblygu Busnes, a chanddo brofiad busnes helaeth a chysylltiadau â Waunfawr. Yn ogystal â bod yn ŵr busnes, prif faes Terry yw'r maes adeiladu; mae wedi codi oddeutu 10 tŷ yn y pentref, a chanddo brofiad o reoli prosiectau cyfalaf.

### Anwythiad a Hyfforddiant Ymddiriedolwyr

Gan fod Antur Waunfawr wedi ei sefydlu dros 30 mlynedd yn ôl, gyda phroffil uchel o fewn y gymdeithas, mae gan bob darpar gyfarwyddwr wybodaeth dda o'n gwaith. Caiff pob aelod o'r Bwrdd ffeil gyda manylion y strwythur rheolaethol a'r polisïau ynddi. Mae'r Brif Weithredwraig yn treulio amser gyda chyfarwyddwyr newydd, yn eu hanwytho drwy drefnu ymweliadau ậ'r safleoedd ac ateb cwestiynau.

## STRWYTHUR Y TÎM RHEOLI

### Rheolwyr Gweithredol

Cynhelir cyfarfodydd Uwch Dim Rheoli a Thîm Rheoli yn rheolaidd. Bydd cynrychiolydd pob adran hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda'u timau yn ogystal â Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Gweithgor Meddiannau, Gweithgor TGCh a Phanel Marchnata. Yn ystod y flwyddyn mae'r rhain i gyd yn bwydo adroddiadau i'r Tîm Rheolaethol.

***Menna Jones, Prif Weithredwraig***
Mae Menna yn gwasanaethu ar fyrddau rheoli Menter a Busnes, Canolfan Cydweithredol Cymru ac yn Is-gadeirydd Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Mae wedi gweithio mewn mentrau cymdeithasol a chymunedol ers 30 mlynedd ac yn ystod y flwyddyn mi gymerodd gyfrifoldeb 'Person Cyfrifol' Antur Waunfawr. Mae wedi ei hyfforddi gan Social Enterprise Academy (Scotland) ar y cyd â Chreu Menter, Conwy i ddatblygu arweinwyr Academi Mentrau Cymdeithasol Cymru.

***Stephen Goodwin, Uwch Reolwr Gwasanaethau Dydd a Phreswyl***
Mae Stephen yn aelod o Grŵp Trawsffurfio Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd. Mae gan Stephen dros 23 mlynedd o brofiad yn y maes gofal. Mae wedi cymhwyso fel Rheolwr Cofrestredig lefel 4. Mae Stephen hefyd wedi cwblhau cyrsiau mewn arweinyddiaeth a rheoli staff.

***Ellen Thirsk, Uwch Reolwraig Adnoddau Dynol***
Mae Ellen yn Gyfarwyddwr i Galeri, Menter Gymdeithasol a Chreadigol yng Nghaernarfon ac yn Gadeirydd i gorff Llywodraethwyr Ysgol Pendalar. Mae hi wedi gwirfoddoli i'r Samariaid am gyfnod o 15 mlynedd yn y gorffennol ac wedi cael trawstoriad o brofiadau rheoli mewn Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol dros gyfnod o 30 mlynedd. Mae Ellen yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth ac Iechyd a Diogelwch (NEBOSH).

***Haydn Jones, Uwch Reolwr Busnesau Gwyrdd***
Mae gan Haydn brofiad helaeth o annog unigolion yng Nghymru a dramor tra roedd yn gweithio yn yr America drwy ei waith 'coaching' gyda thrawstoriad o unigolion (abl ac anabl)
Mae ganddo brofiad eang o reoli ac mae'n gyfrifol am reoli a rhedeg gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu o fewn yr Antur.
Mae wedi cymhwyso i lefel graddedig (MA) mewn Addysg ac mae wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau rheoli, ac yn ddiweddar wedi cwblhau NVQ Lefel 3 mewn Ailgylchu.

***Sioned Hughes, Rheolwraig Cyllid***
Mae gan Sioned arbenigaeth a phrofiad eang o'r maes cyllid a gweinyddiaeth, rheoli busnes a datblygu a sefydlu sustemau a gweithdrefnau. Mae wedi ei chymhwyso i Lefel 4 yn 'Association of Accounting Technicians'
Mae ganddi sgiliau rheoli da ac wedi mynychu trawstoriad o gyrsiau cyllid a rheolaeth, yn ogystal â phrofiad helaeth o ddelio gyda sefydliadau allanol, e.e., cyfrifydd, prif bartneriaid ariannol, ayb.

***Elain Hughes, Rheolwraig Datblygu Busnes***
Graddiodd Elain o Brifysgol Aberystwyth yn 2015 efo gradd BA Cymraeg Proffesiynol ac mae wedi gweithio i'r Antur ers 2016. Mae ganddi wybodaeth eang o Antur Waunfawr gan ei bod wedi bod yn gynorthwyydd personol i Menna ac wedi gweithio'n agos gyda phob adran; y tîm Rheoli, Uwch Reoli a'r Bwrdd dros y pum mlynedd diwethaf. Prif ganolbwynt ei gwaith yn ddiweddar yw rheoli a datblygu prosiectau cyfalaf Porth yr Aur a'r Sied Werdd. Mae Elain yn bwynt cyswllt i bartneriaethau newydd ac yn presenoli mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a grwpiau ffocws allanol.

***Gwenlli Wynne, Rheolwraig Datblygu Busnes***
Mae gan Gwenlli ddealltwriaeth a phrofiad gyda phob adran yn Antur Waunfawr gan ei bod wedi bod yn gynorthwyydd personol i Menna a Huw Davies (cyn-Ddirprwy Brif Weithredwr) cyn symud ymlaen i'w swydd bresennol. Mae ganddi BSc Gofal Iechyd a Chymdeithasol. Mae Gwenlli wedi mynychu cwrs arwain gyda 'Learn to Inspire', ac mae ganddi brofiad helaeth o ddelio gyda sefydliadau allanol megis mentrau cymdeithasol eraill, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorwyr lleol ayb.

## GWELEDIGAETH ANTUR WAUNFAWR

Gweledigaeth Antur Waunfawr yw galluogi pobl ag anableddau dysgu i integreiddio i'r gymuned leol a chyflawni gwaith 'go iawn' gyda phwrpas: Rydym yn Fenter Gymdeithasol flaenllaw sydd yn cynnig cyfleoedd iechyd a llesiant, hyfforddiant a gwaith amrywiol iawn yn ei natur i unigolion ag anableddau dysgu. Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n gwaith. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwaith i'n hunigolion, mae gan yr Antur nifer o fusnesau llewyrchus, a chaiff yr holl elw ei ail fuddsoddi yn y gwasanaeth i unigolion efo anableddau dysgu ac ein cymuned leol.

Mae ein nod o integreiddio pobl ag anableddau dysgu i'r gymuned ym mhob agwedd bosib - boed yn waith neu weithgareddau cymdeithasol, yn rhinwedd sydd yr un mor bwysig heddiw ag yr oedd pan sefydlwyd yr Antur.

## YMATEB I ARGYFWNG COFID-19:

Prif flaenoriaeth yr Antur ydi iechyd, diogelwch a llesiant yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi. Ar ddechrau'r pandemig, yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, addaswyd ein strwythurau a strategaethau er mwyn sicrhau cynnal gwasanaethau i unigolion efo anableddau dysgu. Adnabyddwyd flaenoriaethau a chynlluniwyd gyda'n

comisiynwyr i ddarparu gwasanaeth i'r unigolion mwyaf bregus ac i gyrraedd ein cwsmeriaid a phartneriaid, gan ddarparu amgylchedd diogel i unigolion a staff, ac i sicrhau parhad busnes Antur Waunfawr.

**DIOGELU**

Parhawyd i ddarparu gwasanaeth i unigolion preswyl, i unigolion gofal dwys yn unol â gofynion teuluol a chomisiynwyr, tra bod rhai unigolion yn cysgodi adref gyda theuluoedd a gwarchodwyr. Roedd rheolaeth lem ar fonitro symptomau, hunan ynysu, profi, olrhain achosion, darpariaeth ddigonol o PPE a chynllun ail agor.

**IECHYD MEDDWL**

Mae iechyd a llesiant meddyliol llawn mor bwysig ag iechyd a llesiant corfforol. Roedd yn anorfod bod y cyfyngiadau a newidiadau sylweddol i fywydau yn mynd i effeithio iechyd a lles meddyliol unigolion, teuluoedd, gwarchodwyr a staff yn ddiwahân. Roedd staff penodedig yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gydag unigolion, teuluoedd, gwarchodwyr a staff oedd adref yn cysgodi, ac roedd yn gyfle hefyd i gynnal digwyddiadau megis bore coffi, bingo a chwis ar-lein.

Ein nod oedd darparu a chynnal y gwasanaethau gofal ac iechyd a llesiant i'r safon gorau posib o dan amgylchiadau heriol, drwy gynllunio ar gyfer anghenion yr unigolion, cynnal trafodaethau parhaus gyda'n comisiynwyr gwasanaeth a gofalwyr drwy gydol y cyfnod cysgodi ac wrth gynllunio i unigolion ddychwelyd yn ôl i'r gwasanaeth. Roedd angen sicrhau'r cydbwysedd rhwng lles iechyd corfforol a lles meddyliol, a thrwy hynny sicrhau dyfodol Antur Waunfawr fel Menter Gymdeithasol.

Cymerwyd camau bychan i groesawu ein hunigolion yn ôl yn ddiogel ac yn raddol i'r gweithle, gan addasu a pharatoi gofodau i gynnal a chefnogi'r gwasanaethau dydd.

**GALAR**

Gyda chalon drom, nodir colli dau unigolyn annwyl yr Antur yn ystod y cyfnod - Keith Thomas a Richard Richards. Gyda thristwch nodir hefyd bod pedwar unigolyn wedi colli rhiant yn ystod y cyfnod.

**GWARCHOD EIN STAFF A'R CYHOEDD**

O dan arweiniad cyson a chlir yr Uwch Dim Rheoli ac Aelodau'r Bwrdd Rheoli, fe wnaeth yr Antur:

- Gau holl safleoedd yr Antur i'r cyhoedd gan barhau cynnal a darparu gwasanaethau angenrheidiol
- Sicrhau darpariaeth ddigonol o offer 'PPE' a gwasanaeth llawn yn y cartrefi
- Lunio, mabwysiadu a diweddaru'n gyson Cynllun Cloi a Chynllun Ail-agor yr Antur – yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio system goleuadau traffig mewnol er mwyn rheoli risg drwy flaenoriaethu niferoedd yr unigolion a staff yn dychwelyd yn ôl i'r gweithle
- Sicrhau parhad gwasanaeth dydd i'r unigolion mwyaf bregus ac anghennus ar draws y safleoedd
- Greu gofodau diogel drwy ymbellhau cymdeithasol, gwisgo PPE, darparu gorsafoedd hylendid a chymryd tymheredd, a chreu 'ynysoedd' yn y gweithle ble nad oedd mynd a dod rhwng safleoedd gwahanol
- Sefydlu gwasanaeth newydd i gyflenwi dodrefn hanfodol i denantiaid di-gartref lleol trwy gydweithio a chymdeithasau tai
- Defnyddio'r byngalo gwyliau newydd ar gyfer gwasanaeth dydd ychwanegol, sef gofod diogel i unigolion ag aml-ofynion
- Greu asesiadau risg, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau newydd
- Gydweithio hefo seicolegydd o ran agweddau, nod a strategaeth yr Antur i'r dyfodol
- Ddarparu 50-60 pryd ar glud yr wythnos i drigolion hŷn yr ardal o'n caffi yn Waunfawr
- Fuddsoddi mewn gliniaduron newydd i'n staff oedd yn caniatáu gweithio yn hyblyg ac o adref drwy gyfrwng system storfa cwmwl yn hytrach nag o weinydd ar ein safle
- Lwyddo i gynnal gweithgareddau rhithiol yn cynnwys Prynhawn Coffi dros 'Zoom' i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Fe lwyddwyd yn ogystal gynnal ffair haf digidol dros 'Facebook' gyda chyrhaeddiad o dros 7.3K o bobl

- Sicrhau bod unigolion a staff yr Antur yn cael blaenoriaeth mynediad i frechiadau Cofid

Fe warchodwyd a chefnogwyd holl rhanddeiliaid yr Antur, ond yn ogystal, fe roddwyd pwyslais ar iechyd a lles meddyliol yn ystod y cyfnod yma. Fe ymrwymwyd cynlluniau llesiant, iechyd meddwl, iechyd corfforol, ac ymwybyddiaeth ofalgar i'r strategaeth led-led y Cwmni. Yn ogystal, llwyddwyd i weddnewid a thrawsnewid, gan gynnig gwasanaethau gwahanol ar gyfer y dyfodol er mwyn cynnig amrywiaeth a phrofiadau gwaith i unigolion ag anableddau dysgu.

**TRI BUSNES GWYRDD**

**WARWS WERDD**
Canolfan a siop sy'n ailgylchu ac ailddefnyddio dodrefn a dillad ydi'r Warws Werdd. Rydym yn ailddefnyddio ac ailgylchu 277 tunnell o ddillad a dodrefn y flwyddyn fel rheol.

Yn ystod 2020/21, fe ganolbwyntiwyd ar gasglu, didoli a phrosesu dillad er mwyn cynnal y gwasanaeth a'r incwm. Arallgyfeiriwyd 5.5 tunnell rhag mynd i dirlenwi, ac ailddefnyddiwyd 833 o eitemau yn ystod y cyfnod. Gwerthwyd 193 o eitemau o ddillad drwy dudalen e-bay yn ystod y cyfnod a hysbysebwyd ar ein tudalen Facebook. Oherwydd rheoliadau cofid, nid oedd yn bosibl mynd i dai i gasglu dodrefn bellach ac felly lluniwyd trefn newydd o ddefnyddio storfeydd ar safle'r Cyngor i gasglu dodrefn gan y cyhoedd. Roedd hefyd yn gyfle i beilota prosiectau newydd a gweithio yn fwy creadigol, gan greu partneriaethau strategol newydd gyda gwahanol sefydliadau.

**Cynllun Tai Gwag Adra**
Fe wnaethom arbed tunelledd rhag mynd i dirlenwi drwy glirio, didoli, uwchraddio ac ailgylchu gwastraff o dai i Adra.

**Gwastraff Masnachol**
Cynnig dodrefn fforddiadwy i deuluoedd mewn angen drwy gyd-weithio gydag:

- Adra
- Digartrefedd Môn
- Gisda
- Grŵp Cynefin
- Cyngor Gwynedd

**PRIFYSGOL BANGOR:**
Fe wnaethom gryfhau ein perthynas â Phrifysgol Bangor, gan gasglu eitemau diangen gan fyfyrwyr a oedd yn gadael neuadd breswyl, fel rhan o'u Hymgyrch Ailddefnyddio Diwedd Tymor.

Gan fod y siop ar gau i'r cyhoedd, roedd hyn yn golygu bod gofod ar gael i gynnal gweithgareddau iechyd a llesiant yn ddiogel gan sicrhau pellter cymdeithasol.

**CAERGYLCHU**
Canolfan ailgylchu ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, a sefydlwyd mewn partneriaeth â'r cyngor yn 2005 ac sy'n esiampl flaenllaw o gydweithio rhwng y ddau sector. Denwyd £1.7m o grant i Gaergylchu yn 2007. Ar gyfartaledd, rydym yn trin 970 tunnell o blastig y flwyddyn ac yn ailgylchu 332 tunnell o bapur y flwyddyn.

**LLARPIO ANTUR**
Gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol, sydd wedi'i leoli yng Nghaergylchu, ac yn gwasanaethu ar hyd Gogledd Cymru i fusnesau a chartrefi, gyda dros 1200 o gwsmeriaid. Rydym yn gweithredu yn unol â gofynion rheolau GDPR. Dros gyfnod Cofid-19 gwelwyd y nifer o gwsmeriaid actif yn disgyn oherwydd bod swyddfeydd ar gau ayb, ond parhawyd i wasanaethu cwsmeriaid megis meddygfeydd, fferyllfeydd ac ysgolion.

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar fasnach y Cwmni. Wrth i fwyafrif o weithluoedd ein cwsmeriaid weithio o adref yn hytrach nag mewn swyddfeydd, a nifer o fusnesau ar gau, crebachwyd y gwasanaethau llarpio. Casglwyd 250 sach y mis ar ddechrau'r pandemig, o'i gymharu hefo cyfartaledd o 1,400 sach y mis yn arferol. Dros y misoedd

diwethaf mae'r niferoedd wedi cynyddu yn rheolaidd ac wedi sefydlogi, gyda 1,100 sach yn cael ei chasglu fis Mawrth, 2021.

**BEICS ANTUR**
Parhaodd y gwaith datblygu ym Mhorth yr Aur, Caernarfon dros y flwyddyn, er mwyn ailgartrefu ein busnes Beics Antur; cwblhawyd y safle mis Mai 2021.

Mae'r adeilad newydd yn ddau lawr, yn gwbl hygyrch gan gynnwys lifft a chawod ac mae Beics Antur wedi ei leoli ar y llawr gwaelod - gwasanaeth hurio, trwsio a gwasanaethu beics, beics addasedig a beics trydan. Ar y llawr cyntaf mae Llofft Llesiant, gofod stiwdio 100m2 ar gyfer pob math o weithgareddau iechyd a llesiant megis dawns, ioga a ffitrwydd. Yn ychwanegol, mae Ystafell Synhwyraidd ar y llawr cyntaf ar gyfer unigolion ag anghenion dwys neu nam ar y synhwyrau.

Ers 2017, mae Antur Waunfawr wedi buddsoddi dros £500k o gronfeydd wrth gefn yn y prosiect hwn, ac wedi sicrhau dros £500k o grantiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol - £226,864
- Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol trwy Lywodraeth Cymru, wedi ei reoli gan CGGC - £150,000
- Cronfa Treftadaeth Bensaernïol - £64,100
- Cronfa Gofal Canolradd - £40,000
- Garfield Weston Foundation - £25,000

**SIED WERDD**

Yn dilyn derbyn grant o £300,000 yn 2018 gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Sied Werdd mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd er mwyn gwella isadeiledd a chynyddu tunelledd ailgylchu ac ailddefnyddio'r sir, derbyniwyd grant ychwanegol o £200,000 o Gronfa Economi Gylchog, Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol.

Penodwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer y gwaith dylunio a rheoli prosiect, ac mae'r gwaith datblygu wedi bod yn dod yn ei flaen dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y sied 360m2, gydag ail lawr 260m2, yn cael ei hadeiladu ar dir sydd yn eiddo i'r Antur, tu ôl i'r Warws Werdd yng Nghibyn. Bydd yr adeilad yn hygyrch, gyda lifft a chyfleusterau cymorth, ac wedi ei dylunio gan ystyried amrywiaeth eang o anghenion arbennig yn dilyn ymgynghori gydag unigolion ar y sbectrwm awtistig.

Bydd y llawr gwaelod yn cynnwys gweithdy gyda meinciau addasedig sydd yn codi i fyny ac i lawr ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, a pheiriannau ysgafn ar gyfer unigolion gyda gwendid yn eu cyhyrau. Bydd y llawr cyntaf wedi ei rannu i 3 neu 4 uned, gyda gofodau hyblyg ar gyfer prosiectau ailgylchu ac ailddefnyddio (a fydd yn cyfrannu at nod y prosiect). Gall hwn hefyd fod yn ofod addysgiadol ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion.

**CERBYDAU TRYDAN**

Yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Adferiad Gwyrdd, Llywodraeth Cymru, sicrhawyd grant o £106K i fuddsoddi yn ein fflyd gerbydau ar gyfer ein busnesau gwyrdd; fe brynwyd fan drydan ar gyfer Warws Werdd a Beics Antur.

**SAFLE BRYN PISTYLL**

**CAFFI BLAS Y WAUN**
Ar ein prif safle yn Waunfawr mae Caffi Blas y Waun - caffi cymunedol yn cydweithio gyda sefydliadau lleol megis ysgolion a grwpiau cymunedol. Yn ystod cyfnod Cofid-19, roedd yn rhaid cau i'r cyhoedd ac fe drawsnewidiwyd y gofod yn lleoliad i baratoi pecynnau bwyd i bobl leol y pentref a oedd yn hunan-ynysu, ac yn safle diogel i unigolion gael gweithio.

**SIOP GREFFTAU**
Yn ystod y pandemig, crëwyd siop a chatalog digidol ar ein gwefan, a hysbysebwyd a gwerthwyd cynnyrch a chrefftau'r Siop drwy ein tudalen Facebook. Gan fod yn rhaid cau'r siop i'r cyhoedd, roedd yn lleoliad diogel i'n hunigolion weithio ynddo yn ystod y cyfnod.

**PARC NATUR A GERDDI**
Ar safle Bryn Pistyll mae 7-erw o erddi a pharc natur, yn ogystal â maes chwarae cynhwysol. Er bod y safle wedi bod ar gau i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod, parhaodd y tîm gerddi blannu a thyfu llysiau a ffrwythau yma, i greu cynnyrch yn y caffi a gwerthu cynnyrch a phlanhigion ar ein tudalen Facebook ac ar ein gwefan.

Yn ystod y flwyddyn, addaswyd ein maes parcio a tharmacwyd er mwyn gwneud lle pwrpasol ac addas i'r bysiau mini barcio, ac ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Yn ogystal, lefelwyd ac ail hadwyd cae ar gyfer cynnal gweithgareddau iechyd a llesiant yn yr awyr agored.

**BRAGDY ANTUR WAUNFAWR**
Mae bragdy bach ar y safle, lle mae cynnyrch lleol yn cael ei droi'n sudd afal a seidr Perllan y Fro, a'u gwerthu i'r cyhoedd. Fe ymgeisiwyd ein seidr cyrens duon a seidr afal yn y gystadleuaeth Blas Cymru 2021 yn ystod y cyfnod.

Dros gyfnod y Nadolig, gwelwyd gwerthiant o £3,500 ar ein gwefan led-led y Cwmni.

**BYNGALO GWYLIAU**
Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn buddsoddiad o gronfeydd Antur Waunfawr a grant Cyfenter, rydym wedi bod yn datblygu Byngalo gwyliau hygyrch, sy'n addas i unigolion gydag anableddau, a all hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer llety ysbaid. Cwblhawyd y prosiect yn ystod Gwanwyn 2020, a defnyddiwyd y gofod ar gyfer gwasanaeth dydd i ddarparu gofod diogel ychwanegol i unigolion ag aml-ofynion yn ystod y flwyddyn oherwydd heriau Covid 19.

**CYNLLUN CARTREFI AC AML OFYNION**
Rydym yn darparu gwasanaeth Cymorth Cartref o dan reoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 10 unigolyn lle darparwn gefnogaeth gofal a gofal personol sydd wedi ei deilwra ar gyfer yr unigolion yn unol â'u hanghenion. Rydym yn cynnal gwasanaeth aml-ofynion lle mae unigolion yn derbyn cefnogaeth un i un, a chyfleoedd iechyd a llesiant.

Eleni, buddsoddwyd mewn meddalwedd 'Access Planning' – sydd yn galluogi staff i gael mynediad i ffeiliau ar unrhyw adeg, ac yn system sy'n ei gwneud yn haws i fonitro ac addasu meddyginiaeth - gan leihau'r angen i fynd i mewn i'r tai; mantais fawr yn ystod cyfyngiadau Cofid-19. Yn ogystal, mae'r meddalwedd yn gallu cofnodi patrwm ymddygiad unigolion – a gellir gyrru adroddiadau i warchodwyr, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd.

**RHWYDWEITHIAU STRATEGOL**

**PERTHYNAS AG ASIANTAETHAU ALLANOL**

Mae Antur Waunfawr yn cynnig gwasanaeth i oedolion ag anableddau dysgu mewn partneriaeth, yn bennaf, ag adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd, ond rydym yn gweithio efo Cynghorau Conwy ac Ynys Môn hefyd. Rhagwelwn yn ystod y blynyddoedd nesaf y bydd mwy o bwyslais ar dendro ffurfiol am wasanaethau newydd a gwasanaethau presennol. Mae'r cynghorau yn comisiynu'r gwasanaeth yn unol â'u hasesiad o angen ac rydym yn cytundebu gyda'r cynghorau i ddarparu gwahanol fathau o wasanaeth yn unol â'r asesiad. Ein nod wedyn fel menter gymdeithasol yw hyrwyddo potensial yr unigolion o ran eu gwaith ond hefyd eu datblygiad personol a'u sgiliau.

Er mewn ffordd wahanol eleni, parhawyd i gydweithio gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgol Pendalar, Ysgol Hafod Lon, Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, a Glynllifon, yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynllunio darpariaethau ar gyfer adnoddau gwell i dderbyn unigolion gydag anghenion mwy dwys.

**LLYWODRAETH CYMRU:**
Gwahoddwyd Antur Waunfawr i fod yn rhan o drafodaethau gweminar a sgyrsiau ar lein hefo Aelodau Llywodraeth Cymru – Jeremy Miles, Y Gweinidog Trosglwyddo Ewropeaidd (rhwng 2018 a 2021) a Chwnsler Cyffredinol Cymru (rhwng 2018 a 2021), a Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (rhwng 2018 a 2021).

**CYNGOR CYDWEITHREDOL CYMRU:**
Cyfrannodd Menna at lansiad y Cynllun Gweledigaeth a Gweithredu ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru

**ADRA:**
Yn sgil y newid yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, golygai nad oeddem mwyach yn gallu parhau i fod yn landlordiaid yn ogystal â darparu gofal personol i'n tenantiaid. Yr opsiwn gorau er lles ein tenantiaid oedd creu partneriaeth gyda chymdeithas tai Adra, sydd yn golygu mai Adra sydd bellach yn landlordiaid ar ein tai.

Yn ychwanegol, adolygwyd swydd ddisgrifiad y Brif Weithredwraig i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau – Menna Jones yw'r Person Cyfrifol nawr ar gyfer y cwmni. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn cyfraith.

**COLEG LLANDRILLO MENAI A GYRFA CYMRU:**
Gyda digwyddiadau 'byw' wedi'u canslo oherwydd y firws, mi roedd y galw i bresenoli drwy ffurf fideo wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod. Fe gynhyrchwyd sawl fideo ar gyfer ddigwyddiadau, yn cynnwys fideo 'Gweithio i'r Antur' i fyfyrwyr Iechyd a Gofal Coleg Llandrillo Menai a Gyrfa Cymru.

**RHEOLI RISG**

**HAP-WIRIAD GWEITHREDIAETH IECHYD A DIOGELWCH**
Fel cyflogwr, mae'n gyfrifoldeb arnom i amddiffyn pobl rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau rhesymol i amddiffyn ein gweithwyr ac eraill rhag Cofid-19.

Cafodd yr Antur archwiliad dros y ffôn yn ystod y pandemig gan Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE). Yn ystod yr archwiliad, fe:

- Nodwyd natur ein gwaith a nodi pa weithgaredd gwaith neu sefyllfaoedd a allai achosi trosglwyddo'r firws
- Amlinellwyd asesiad o bwy o fewn y gweithle allai fod mewn perygl uchel os yw'n dal Cofid-19
- Eglurwyd y risgiau tebygol a sut all rhywun fod yn agored i'w ddal yn y gweithle
- Weithredwyd yn gadarn a chyson i gael gwared ar y gweithgaredd neu'r sefyllfa, neu os nad oedd hyn yn bosibl, rheolwyd y risg
- Ddisgrifiwyd ein hasesiadau risg, trefniadau glendid, ein hoffer PPE, ein gweithdrefnau cau a gweithdrefnau pe bai unrhyw un yn dangos symptomau Cofid

Roeddent yn fodlon hefo'r atebion ac nid oedd angen archwiliad pellach ganddynt yn dilyn y sgwrs.

**ARCHWILIAD ISO 14001 ac ISO 9001**
Llwyddwyd i gynnal yr Achrediad ISO 14001 a'r Achrediad ISO 9001 unwaith eto yn dilyn proses fanwl a thrylwyr rhannol-rhithiol a gwaith gwirio mewnol. Mae'r gweithredu ar y broses a'r systemau cysylltiedig yn fuddiol i ni wrth ymgeisio am gytundebau a thendrau i'r dyfodol.
Mi roedd cydweithio rhagorol wedi bod rhwng y Rheolwyr, a'r adran Adnoddau Dynol - a'r canlyniad oedd cydymffurfiaeth lawn, ac adroddiad teilwng dros ben.

**BS EN 15713 GWASANAETH LLARPIO**
Roedd y gwasanaeth llarpio yn llwyddiannus yn cael yr achrediad BS EN 15713 fis Mawrth 2021 a bydd yn cryfhau ein systemau gweithio yn ogystal â gallu ymgeisio am gytundebau a thendrau newydd. Ychydig iawn o waith ychwanegol oedd ei angen ar gyfer yr achrediad yma gan fod y gwasanaeth llarpio eisoes yn gweithio i'r safon.

**DENU A DATBLYGU POBL**

Mae'r Uwch-reolwraig Adnoddau Dynol yn aelod siartredig o'r corff CIPD ac wedi cymhwyso ar lefel uwch mewn Cyfraith Cyflogaeth i roi cyngor ac arweiniad ar faterion adnoddau dynol ar draws y corff, mae hi hefyd wedi

cwblhau cwrs Adnabod a Delio gyda Gwahaniaethu yn y Gweithle. Rydym yn defnyddio cyfreithiwr lleol i ddarparu cefnogaeth pan mae angen.

Wrth gymryd i ystyriaeth yr hinsawdd economaidd anodd mae cyflogwyr yn eu hwynebu, mae’r Uwch Reolwraig Adnoddau Dynol yn falch o adrodd ein bod eto eleni wedi llwyddo i gynnal yr adnoddau staff angenrheidiol ac wedi cydymffurfio efo holl ofynion gyfraith cyflogaeth. Drwy reoli ein hadnoddau rydym wedi llwyddo i gynnal safon ein gwasanaethau a chynllunio ar gyfer unigolion newydd yn ein gwasanaethau dydd a phreswyl.

Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y cwmni yn ystod y pandemig, roedd yn rhaid sicrhau effeithiolrwydd strwythurau staffio. Ers mis Mawrth 2020, mae’r Uwch Dim Rheoli wedi craffu’r strwythur rheolaethol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes a phwrpasol ac yn ateb gofynion ein gwasanaethau gofal a masnachol. Yn ogystal, fe gwblhawyd adlewyrchiad blynyddol mewnol y Cwmni eto eleni, gan lunio amcanion a nodau ar gyfer yr adrannau i gyd am y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y cyfnod heriol, fe leihawyd nifer ein staff o 101 i 89 yn sgil staff yn penderfynu ein gadael oherwydd gofynion iechyd neu resymau eraill, megis datblygu gyrfaoedd; penderfynwyd adolygu’r strwythur staffio mewn ymateb i’r newidiadau yma.

Penderfynwyd gwobrwyo ymroddiad ein staff a chefnogi’r staff sydd yn arbenigo mewn darparu gofal ar sawl lefel i’n hunigolion ag anableddau dysgu yn y maes gofal. Rhoddwyd blaenoriaeth ar ddatblygu cryfderau a gyrfaoedd, rhoi cyfrifoldebau newydd i staff, rhoi clod i gyrhaeddiad ein staff a chynllunio’n strategol, gan roi pwyslais ar fentora, magu, a chadw staff. Mae’r strwythur newydd yn creu llwybr gyrfa i’n gweithwyr cefnogol, a chodiad cyflog i’r rhai a lwyddodd i ateb gofynion y meini prawf uwch. Bwriad y strwythur newydd yw magu hyder, datblygu sgiliau a chymwysterau ac annog ein staff i ymgeisio am swyddi uwch.

Mae staff yr Antur yn ystod y cyfnod Cofid-19 wedi dangos ymroddiad cryf i waith yr Antur ac mae’r Bwrdd Rheoli a’r Uwch Dim yn ddiolchgar iawn o hyn.

## STAFF NEWYDD

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 fe benodwyd 8 aelod newydd o staff ar draws y cwmni.

## HYFFORDDIANT

Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, gan sicrhau ein bod yn cadw i safonau megis Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Ynys Môn a Conwy. Rydym yn sicrhau bod gofynion hyfforddiant yn gyfredol ac yn cofrestru ein gweithwyr cefnogol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn mynychu ein fframwaith gofal.

Oherwydd Cofid-19 bu’r cyfnod yn heriol iawn o ran gallu hyfforddi staff a chadw ar ben diweddaru hyfforddiant. Llwyddwyd i symud i ddysgu ar lein er mwyn diweddaru hyfforddiant mandadol staff fel datrysiad dros dro.

## PROFIADAU GWAITH

Ni fu unrhyw brofiadau gwaith yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y sefyllfa Cofid-19. Oherwydd natur y gwasanaeth roedd yn bwysig canolbwyntio ar gadw ein hunigolion yn saff. Rydym yn adolygu profiadau gwaith yn rheolaidd yn ein Gweithgor Iechyd a Diogelwch a gobeithir gallu ailgychwyn profiadau gwaith i fyfyrwyr a disgyblion dros y misoedd nesaf.

## UNIGOLION ANTUR WAUNFAWR

Daw'r mwyafrif o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth o Ogledd Gwynedd ond cyfeirir rhai atom gan gynghorau eraill cyfagos. Mae ein gallu i gynnig cytundebau gwasanaeth neu gartrefi i bobl yn dibynnu ar allu’r asiantaethau statudol i gynnig cytundebau gwasanaeth gofal a llesiant ar eu cyfer. Byddwn yn cyd-weithio gyda’r asiantaethau hyn ar bob achlysur, ac yn ymdrechu yn rhagweithiol i sicrhau cyfleoedd addas i bob person sy’n cael ei gyfeirio

atom, ac i sicrhau adnoddau teg i roi'r gwasanaeth gorau posib i'n defnyddwyr. Mae mwy o deuluoedd yn hunan gyfeirio erbyn hyn ac mae Antur Waunfawr yn eu cynghori i ymgysylltu a chyd-drafod gwasanaeth posib efo'r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol.

**ADOLYGIAD CYLLIDOL**

Fe'n gorfodwyd i drawsnewid y gwasanaeth yn llwyr ar fyrder a gweithredu'n dra gwahanol ar hyd y flwyddyn er mwyn sicrhau cynnal y gwasanaeth; roedd ymroddiad a gofal ein staff o ran eu cefnogaeth mewn cyfnod tu hwnt o heriol yn allweddol. Cydnabyddodd Aelodau'r Bwrdd fod staff yr Antur wedi diogelu bywydau ac wedi gweithio mor galed i roi cefnogaeth ddiffuant yn ystod y cyfnod a phenderfynwyd rhoi cydnabyddiaeth ariannol o £500 i'r holl staff a oedd wedi bod yn cefnogi neu'n darparu gofal personol. Roedd y swm yma yn ychwanegol i daliadau'r Llywodraeth ar gyfer staff gofal.

**RHODDION**

Sefydlwyd ein cyfrif PayPal gyda statws 'elusen' fel bod posibl gwerthu eitemau heb orfod talu ffioedd gwerthu, a hefyd posib codi arian drwy ddefnyddio botwm 'PayPal Donate' drwy system 'PayPal Giving'. Golygai hyn ei fod bellach yn haws nag erioed i bobl roddi arian i'r Antur, drwy ddull digidol.

**PRIF FFYNONELLAU INCWM**

Prif ffynhonnell incwm y cwmni yw Incwm Cytundebol o'r Awdurdodau Lleol trwy'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal mae'r Cwmni yn rhan o bartneriaeth Caergylchu gyda Chyngor Gwynedd a chytundebir gyda'r Cyngor am y gwaith hwn. Mae incwm masnachol o werthu gwasanaeth i gwmnïau ac unigolion, a chynnyrch Antur Waunfawr, yn dod ag incwm hollbwysig i'r Antur.

**DENU GRANTIAU A CHRONFEYDD NEWYDD**

Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i sicrhau'r grantiau canlynol:

- Grantiau Cefnogi Cofid-19, drwy law Cyngor Gwynedd ar ran Llywodraeth Cymru - £76,000
- Cronfa Economi Gylchog, Llywodraeth Cymru - £202,347.97. Mae'r swm yma yn cael ei ddal gan Cyngor Gwynedd ar ran Antur ar gyfer datblygiad Sied Werdd.
- Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, CGGC - £86,148.24
- Cronfa Adferiad Gwyrdd, Llywodraeth Cymru - £106,156
- Cronfa Gofal Ganolradd (ICF) - £5,278.20

Mae'r ffigyrau ariannol yn dangos bod Antur wedi gwneud elw sylweddol hyd at 31 Mawrth 2021 o £468,953 gyda £259,331 or elw yma yn gyfynedig. Mae hyn yn gadael elw o £209,622 sydd yn anghyfynedig ac ar gael i wario er lles Antur fel y bod angen. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys £132,436 o grantiau amrywiol tug at gymorth gyda Cofid a £47,207 o incwm cynllun cadw swyddi. Heb y cymorth yma fe fyddai Antur wedi gwneud elw anghyfynedig o £29,979 am y flwyddyn, i gymharu gyda elw o £184,842 y flwyddyn ariannol cynt.

**POLISI ARIAN WRTH GEFN**

Mae'n bolisi gan y Cwmni i gadw cronfa anghyfyngedig fechan, gan eithrio cronfeydd dynodedig o eiddo'r Elusen sydd wedi eu neilltuo yn benodol. Penderfynodd y Bwrdd adolygu'r polisi yn rheolaidd (gan gymryd i ystyriaeth asedau cynyddol y Cwmni) fel bod yna arian i gynnal costau gwasanaethu amcanion yr elusen am gyfnod, ac i gynnal costau rheoli a gweinyddu, a hefyd digon i ymateb i unrhyw gais brys. Dros y 6 mlynedd diwethaf mae'r Cwmni wedi sicrhau bod yna lleiafswm o 3 mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn ar gyfer unrhyw heriau annisgwyl. Mae hyn yn unol â chanllawiau ymarfer da'r Comisiwn Elusennau ac yn cwrdd ag amcanion y Cod Llywodraethu. Mae'r Cwmni hefyd yn ymwybodol bod angen buddsoddi yn adeiladau a safleoedd y Cwmni er mwyn sicrhau cynaladwyedd yr Antur i'r dyfodol.

**IAITH A DIWYLLIANT**

Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau sydd wedi eu sefydlu, ac rydym yn anelu bob amser i fod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant a'r economi leol.

Byddwn yn parhau i weithredu a chynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn unol â nod 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru, gan fod yn rhagweithiol o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg. Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol– a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.

**MARCHNATA, YMGYSYLLTU A CHYHOEDDUSRWYDD**

Mi wnaeth y Swyddog Marchnata barhau i weithredu'r strategaeth marchnata a chyrraedd y nodau a amlinellwyd yn y strategaeth.

Mae'r wefan yn parhau i gyfrannu at dwf presenoldeb ar-lein y cwmni a hefyd yn adrodd ein newyddion diweddaraf.

Mae twf wedi bod ar gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram Antur Waunfawr unwaith eto.
Mae ein cyfryngau cymdeithasol nawr â chyfanswm dilyniant o 12,355, sydd yn gynnydd o 1,008 ers 2019-20. Mae hysbysebion taladwy eisoes yn cael ei ddefnyddio ar dudalennau Facebook ac Instagram y Cwmni, ar gyfer hyrwyddo digwyddiadau a swyddi, ac mae'r rhain wedi profi'n hysbysebion llwyddiannus i'r cwmni.

**Y DYFODOL**

**IECHYD A LLESIANT**

Mae nifer o gynlluniau gan yr Antur ar y gweill ar gyfer y blynyddoedd nesaf a byddwn yn adolygu'r blaenoriaethau yn ddibynnol ar yr hinsawdd allanol;

• Agoriad swyddogol a defnydd o'r adnodd Byngalo Gwyliau newydd yng Nghapel Bethel
• Cwblhau ac agor prosiect Beics Antur mewn cydweithrediad â phartneriaid a mudiadau yng Nghaernarfon, er mwyn creu busnes llewyrchus a defnyddiol i bobl ag anableddau, yn ogystal â'r cyhoedd ac ymwelwyr er mwyn iddynt deithio'n wyrdd yn lleol a chael cyfleoedd hamdden newydd
• Agor a llogi'r 'Llofft Llesiant' ar safle Porth yr Aur ar gyfer digwyddiadau iechyd a llesiant
• Cydweithio gyda Cyngor Gwynedd ac Economi Gylchog Cymru i ddatblygu prosiect 'Sied Werdd' yng Nghibyn, Caernarfon
• Ail-ymweld a'r Strwythur staffio a rheoli yn rheolaidd i ateb anghenion y Cwmni
• Addasu strwythurau, gweithleoedd, a safleoedd, a datblygu prosiectau newydd yn Waunfawr a Caernarfon mewn modd cynaliadwy: Ein nod yw gwella ein darpariaeth, y cyfleoedd gwaith a busnes, ynghyd â safon ein hadeiladau, a grymuso Antur Waunfawr i fod yn fwy cystadleuol a chynaliadwy yn y dyfodol
• Dehongli a gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 gan ymgorffori egwyddorion ac ysbryd y Deddfau yn ein gweithgaredd a'n busnes
• Diogelu'r Cwmni a'r staff drwy sicrhau bod cyfraith cyflogaeth, newidiadau cyflog byw ac amodau staff yn cael eu rheoli'n effeithiol
• Sicrhau cynnal Iechyd a Llesiant staff drwy greu diwylliant agored a chefnogol
• Datblygu diwylliant rhagweithiol o osod allbynnau penodol trwy 'Cefnogaeth Weithgar' a mesur canlyniadau ar gyfer ein gweithwyr efo anableddau dysgu - sy'n hybu annibyniaeth a sgiliau. Gall hyn olygu addasu a newid gweithgareddau a rhaglenni gwaith er mwyn uchafu ymdrechion a phrofiadau gweithwyr
• Datblygu'n rôl o gydweithio mewn modd strategol gyda mentrau eraill mewn fforymau neu gonsortiwm i uchafu'r cyfleoedd i fentrau cymdeithasol Gogledd Cymru a gwasanaethau i'r boblogaeth leol yn sgil hynny

• Ymateb yn bositif i her y newidiadau, arbedion a chyfleoedd newydd o du’r Awdurdodau Lleol drwy ragdybio ac addasu adnoddau fel bo’r angen
• Parhau i ddatblygu ein cyfathrebu a marchnata trwy’r cyfryngau newydd gan ddefnyddio potensial ein gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol
• Parhau i weithredu ar Strategaeth Marchnata’r Cwmni, ac ystyried y posibilrwydd o ail-frandio
• Parhau i gynyddu gweithgaredd ac incwm o’r banciau ailgylchu dillad yn y gymuned ac uchafu’r cyfleoedd ail-ddefnyddio gydag adnodd newydd y Sied Werdd
• Parhau i ddatblygu’r gwasanaethau ailgylchu i adeiladu a diogelu’r busnes presennol gyda’r adnoddau Datblygu Busnes
• Parhau i weithio mewn cydweithrediad â mudiadau trydydd sector eraill a chwilio am gyfleoedd partneriaeth newydd lle bo’r gweithgaredd yn cyd-fynd ag amcanion Antur Waunfawr
• Parhau i adolygu polisïau’r Cwmni a datblygu polisïau newydd yn unol â deddfwriaethau gofal a chyflogaeth
• Parhau i gadw rheolaeth dynn ar reoliadau Cofid-19, gan ddiogelu ein hunigolion a’n staff a sicrhau bod y gweithle yn le diogel i bawb
• Parhau i gynnal trafodaethau gyda'n comisiynwyr a gofalwyr er mwyn ail integreiddio unigolion sydd wedi bod yn cysgodi yn ôl i mewn i'r gwasanaeth yn ddiogel

**DIWEDDGLO**

Rydym yn esiampl o Fenter sy’n arwain y ffordd ac yn arfer da – rydym yn ddiolchgar iawn i’r bobl sy’n cefnogi ein prosiectau ar sail ein henw da – gan obeithio fod yr adroddiad yma yn dyst i waith graenus yr Antur.

Mae’r Brif Weithredwraig a’i staff yn gweithio’n barhaus i gynnal safonau ac amrywiaeth o gyfleoedd trwy’r prosiectau a’r busnesau a reolir, ac i gydymffurfio a’r rheoliadau a’r ddeddfwriaeth berthnasol. Hefo’r cyfyngiad ariannol sy’n taro, rydym angen parhau i weithredu gyda rheolaeth dynn, adolygu’r cyllidebau’n ofalus, dethol gwasanaethau a chynllunio’n greadigol. Yn sicr, bydd y Cwmni yn parhau i ddarparu gofal, hyfforddiant a gwaith perthnasol a deniadol i bobl ag anableddau dysgu, a bydd yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i’r tenantiaid mewn amgylchedd iach a hapus. Fodd bynnag, rhagdybiwn y bydd yna newidiadau sylweddol yn deillio o drefniadau comisiynu’r gwasanaeth trwy’r cynghorau, gyda phwyslais ar ddeilliannau a chanlyniadau penodol, tra bo’r cyllid yn cael ei gwtogi.

Nod Antur Waunfawr yw parhau i oroesi trwy fod yn gystadleuol ac effeithiol fel menter gymdeithasol, tra hefyd yn canolbwyntio ar ein gwerthoedd, iechyd a llesiant a’n nodau ac amcanion.

**CYFRIFOLDEBAU YR YMDDIRIEDOLWYR MEWN CYSYLLTIAD A'R DATGANIADAU ARIANNOL**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol a chyfraith perthnasol ac Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GAAP).

Mae'n ofynnol dan y Ddeddf Cwmnïau i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg wir a theg o amgylchiadau yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am y gweddill neu ddiffyg yn y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol ar yr ymddiriedolwyr i:

1. ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas;
2. gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog; a
3. pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas i ystyried bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cofnodion cyfrifyddol sydd yn datgan sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol fanwl ac sydd yn eu galluogi i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen, ac i sicrhau y gwneir darpariaethau i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Datganiad yr Ymddiriedolwyr Ynglyn a Datgelu Gwybodaeth i'r Archwiliwr**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau cyn belled ac maent yn ymwybodol, nad oes dim gwybodaeth perthnasol nad yw archwiliwr yr elusen yn ymwybodol ohonno. Maent wedi cymeryd pob cam y dylent fel ymddiriedolwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sicrhau fod archwiliwr yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth.

Ymddiriedolwr Awdurdodedig: Mr Rhys Evans – Cadeirydd y Bwrdd

**Cafodd yr Adroddiad ei chymeradwyo**

**Llofnod:** *Rhys Evans*

**Mr Rhys Evans – Cadeirydd**

**Dyddiad:** 20 Fedi 2021

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Antur Waunfawr**

**Barn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Waunfawr am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2021 sydd yn cynnwys y datganiad o weithredoedd ariannol, y fantolen, y datganiad ynghylch llif arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, , 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2021, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ein barn**

Rydym wedi cynnel ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

**Canlyniadau ynglŷn a busnes byw**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol ble mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chwi lle:

- nad yw defynydd yr ymddiriedolwyr o'r sail ymadrodd cyfrifo busnes byw wrth baratoi y datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol ansicrwydd sylweddol sydd wedi eu adnabod a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i ddefnyddio'r sail cyfrifo busnes byw am gyfnod o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i ddosbarthu.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y gwybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth gynwysiedig yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwiliwr arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wyboadaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

**Barn ar faterion eraill a benodwyd gan Ddeddf Cwmniau 2006**

Yn ein barn, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yng nghwrs yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson a'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi ei pharatoi yn unol â gofynnion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglyn â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmniau 2006 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw, neu os yw adroddiadau cymwys i'n harchwiliad heb eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd gennym, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau, neu
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at bwrpas deddf cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r busnes i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau y cwmni neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldeb yr archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg. Gall camosodiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;

- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:
- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:
- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Fel rhan o archwiliad a ymgymerir yn unol ag ISAs (DU), rydym yn ymarfer barn proffesiynol a chynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad, rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamosodiad sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio yn ymatebol i'r risg hynny, a chael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio darganfod camosodiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch nag o risg yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cyd-dwyllo, ffugio, gadael gwybodaeth allan yn fwriadol, camfynegiadau, neu anwybyddu reolau mewnol.
- Cael dealltwriaeth o reolaeth ariannol perthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at bwrpas o fynegi barn ar effeithiolrwydd y rheolau mewnol.
- Asesu priodolrwydd y polisïau cyfrifyddol a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb o amcangyfrifau cyfrifyddol a datgeliaethau cysylltiedig a wneir gan yr ymddiriedolwyr.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd o'r sail cyfrifo busnes byw gan yr ymddiriedolwyr ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gawsom, os os oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli yn gysylltiedig â digwyddiadau

neu amgylchiadau a all godi amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel uned byw. Os y down i gasgliad fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n ofynnol arnom i dynnu sylw, yn ein adroddiad archwiliwr i'r datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datgeliadau yn ddigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y tystiolaeth archwilio a dderbyniwyd hyd at dyddiad adroddiad yr archwiliwr. Er hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi'r cwmni i beidio parhau fel busnes byw.

- Asesu y cyflwyniad cyffredinol , strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli y trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn ffurf sydd yn cyflawni cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynglŷn, ymysg materion eraill, paratoi cwmpas ac amseru  yr archwiliad a darganfyddiadau sylweddol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw wendidau sylfaenol mewn rheolaeth ariannol a ddarganfuwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

**Defnyddio ein adroddiad**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Adran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

*W J Matthews a'i fab*

*David Chidley* (Prif archwiliwr statudol)
Dros ac ar ran
W J Matthews a'i Fab,
Archwiliwr Statudol
a Chyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
CAERNARFON
Ll55 1AB                Dyddiad: 20 Fedi 2021

**Antur Waunfawr**
**Datganiad o weithredoedd ariannol (yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant)** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

| | *Nodiadau* | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2021 £** | **Holl Gronfeydd 31 Mawrth 2020 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| *Rhoddion* | | | | | |
| Rhoddion a grantiau | ***3*** | 3,105 | 7,103 | 10,208 | 6,045 |
| Grant Cyfalaf – Porth Yr Aur | | - | 168,624 | 168,624 | 290,375 |
| Grant Cyfalaf – Adferiad Gwyrdd | | - | 102,685 | 102,685 | - |
| *Incwm o weithgareddau elusennol:* | | | | | |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | ***4*** | 1,630,825 | 324 | 1,631,149 | 1,763,887 |
| Incwm Warws Werdd | ***4*** | 317,438 | - | 317,438 | 366,991 |
| Incwm Caer Gylchu | ***4*** | 519,177 | - | 519,177 | 574,127 |
| Incwm Beics Menai | ***4*** | 30,242 | 5,278 | 35,520 | 60,744 |
| Elw ar werthu ased sefydlog | | 145 | - | 145 | 750 |
| Llog | | 21 | - | 21 | 1,355 |
| Incwm arall | | - | 2,442 | 2,442 | 4,173 |
| Cynllun Cadw Swyddi | | 47,207 | - | 47,207 | - |
| Grantiau Covid | | 132,436 | - | 132,436 | - |
| ***Cyfanswm incwm*** | | £2,680,596 | £286,456 | £2,967,052 | £3,068,447 |
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | ***5*** | 2,470,974 | 27,125 | 2,498,099 | 2,622,506 |
| Colled ar ail-brisio asedau | | - | - | - | 549,330 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | | £2,470,974 | £27,125 | £2,498,099 | £3,171,836 |
| ***Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd cyn enillion/colledion eraill a gydnabyddir*** | | **209,622** | **259,331** | **468,953** | **(103,389)** |
| ***Enillion a cholledion eraill a gydnabyddir*** | | | | | |
| Colledion yn erbyn cronfa ail-brisio | | - | - | - | (220,563) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd am y flwyddyn** | | **209,622** | **259,331** | **468,953** | **(323,952)** |
| Cronfeydd ar 1af Ebrill 2020 | | 3,623,748 | 710,981 | 4,334,729 | 4,658,681 |
| Cronfeydd ar 31ain Mawrth 2021 | | £3,833,370 | £970,312 | £4,803,682 | £4,334,729 |

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio i gyd o weithgareddau sydd yn parhau.

## Antur Waunfawr

***Mantolen** ar 31ain Mawrth 2021*
**(*Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1832813)***

| | *Nodiadau* | | 2021 £ | | 2020 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddiannau Sefydlog** | | | | | |
| Buddiannau sefydlog dirweddol | ***12*** | | 3,863,325 | | 3,137,622 |
| | | | | | |
| **Buddiannau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | ***13*** | 11,124 | | 7,582 | |
| Dyledwyr | ***14*** | 253,227 | | 366,783 | |
| Arian mewn banc ac mewn llaw | | 949,097 | | 1,288,033 | |
| | | 1,213,448 | | 1,662,398 | |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn* | ***15*** | 230,172 | | 409,352 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 983,276 | | 1,253,046 |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 4,846,601 | | 4,390,668 |
| **Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn* | ***16*** | | 42,919 | | 55,939 |
| **Asedau Net** | | | £4,803,682 | | £4,334,729 |
| | | | ======= | | ======== |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| **Cronfeydd Incwm** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | ***20*** | | 3,833,370 | | 3,623,748 |
| Cronfeydd cyfyngedig | ***20*** | | 970,312 | | 710,981 |
| | | | £4,803,682 | | £4,334,729 |
| | | | ======= | | ======= |

*Mr Rhys Evans*
**.......................................................**

**Mr Rhys Evans (Cyfarwyddwr)** **Dyddiad**: 20 Fedi 2021

## Antur Waunfawr

**Datganiad ynghylch llif arian** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

| | Nodyn | 2021<br>£ | 2010<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | ***18*** | **434,234** | **443,104** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 21 | 1,355 |
| Derbyniadau o werthiant asedau sefydlog | | 145 | 750 |
| Prynu asedau sefydlog | ***12*** | (760,316) | (454,462) |
| **Arian a ddefnyddiwyd i fuddsoddi** | | **(760,150)** | **(452,357)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Derbyniad ariannu hur bwrcas | | - | 69,900 |
| Ad-daliad oblygiadau hur bwrcas | | (13,020) | (3,502) |
| **Arian a dderbynwyd o weithgareddau ariannu** | | **(13,020)** | **66,398** |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian a chyfatebolion arian** | | **(338,936)** | **57,145** |
| Arian a chyfatebolion arian ar 1 Ebrill 2020 | | 1,288,033 | 1,230,888 |
| **Arian a chyfatebolion arian ar 31 Mawrth 2021** | | **£949,097** | **£1,288,033** |

## Antur Waunfawr

**Datganiad o newidiadau mewn cyllid a ddefnyddiwyd i dderbyn asedau sefydlog at ddefnydd yr elusen** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2021 £ | Gronfeydd 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | 209,622 | 259,331 | 468,953 | (323,953) |
| Adnoddau a ddefnyddiwyd i dderbyn Asedau sefydlog net | (489,007) | (271,309) | (760,316) | (438,082) |
| Symudiad net mewn cronfeydd ar gael at weithgareddau y dyfodol | (£279,385) | (£11,978) | (£291,363) | (£762,035) |

## **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

### 1. Polisïau cyfrifyddol

Mae'r prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, penderfyniadau a phrif ffynonellau ansicrwydd â amcangyfrifir wrth baratoi y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

**a) Sail paratoi cyfrifon**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu yn unol a "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau" Datganiad o Ymarferion Cymeradwyol sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) – (SORP Elusennau (FRS102)), yr Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Cwmniau 2006.

Mae Antur Waunfawr yn bodloni gofynion diffiniad uned budd cyhoeddus dan FRS102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau yn wreiddiol ar sail cost hanesyddol neu werth trafodion os na nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifo perthnasol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro nad oes ansicrwydd sylweddol am allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes byw.

**b) Cyfrifo cronfeydd**

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu rhoi i'r neilltu gan yr ymddiriedolwyr at bwrpas arbennig. Mae nod a defnydd y cronfeydd dynodedig wedi eu disgrifio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol a chyfyngiadau penodol dan amodau'r rhoddwr neu sydd wedi eu codi gan yr elusen at bwrpas arbennig. Mae'r costau o godi a gweinyddu'r cronfeydd wedi eu nodi yn erbyn y cronfeydd penodedig. Mae nod pob cronfa gyfyngedig wedi eu nodi yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**c) Incwm**

Dangosir incwm yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl.

Cydnabyddir am grantiau llywordraeth a grantiau eraill, boed y grant yn grant refeniw neu gyfalaf, Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl cyfreithlon i'r incwm, bydd canllawiau perfformio dan dermau yr ffynonellau incwm wedi eu cyfarfod, bydd yn debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl ac nac oes angen gohirio'r incwm.

**ch) Gwariant a TAW anadferadwy**

Cydnabyddir gwariant pan mae oblygiad cyfreithiol neu weithredol i wneud taliad i drydydd person, y mae'n debygol fydd taliad yn angenrheidiol a gellir mesur yr blygiad yn ddibynadwy.

Cyfrifir TAW na ellir ei hawlio fel cost yn erbyn y gweithgaredd a achosodd y gwariant.

**d) Dosbarthiad costau cynorthwyol**

Costau cynorthwyol yw gweithgareddau sydd yn cefnogi gwaith yr elusen ond sydd ddim yn ymwneud a gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cynorthwyol yn cynnwys yr adran weinyddol, cyllid, personél a llywodraethol sydd yn cefnogi y gwahanol brosiectau elusennol. Mae'r costau hyn wedi eu dosbarthu rhwng y gwahanol adrannau fel y dangosir yn nodyn 6.

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

**1 Polisïau cyfrifyddol (ymlaen)**

**dd) Asedau sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu dangos ar sail cost neu ar brisiad y farchnad. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 2% |
| Siediau a thai gwydr | 10% |
| Offer | 20 -33 1/3% |
| Moduron | 20% |

Ni chyfrifir am ddibrisiant ar dir rhyddfreiniol. Nid yw buddiannau sefydlog sydd yn costio llai na £1,000 yn cael eu cyfalafu a byddent yn cael eu dileu ym mlwyddyn prynnu.

**e) Stoc**

Mae stoc yn cynrychioli asedau a brynwyd i ailwerthu. Prisiwyd y stoc ar y lleiaf o gost neu werth net sylweddoladwy. Nid yw eitemau stoc a dderbyniwyd fel rhoddion neu er mwyn dosbarthu yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes maent wedi eu gwerthu neu ddosbarthu.

**f) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl nodi unrhyw disgownt masnachol a gynnigwyd. Dangosir blaendaliadau ar werth y swm a dalwyd ymlaen llaw llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**ff) Arian mewn banc ac mewn llaw**

Mae arian mewn banc ac mewn llaw yn cynnwys arian buddsoddiadau tymor byr sydd yn aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael neu o agor y cyfrif adnau.

**g) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen oblygiad cyfredol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol gyda'r canlyniad tebygol o drosglwyddiad o eiddo i drydydd person a gellir mesur y swm angenrheidiol i setlo'r oblygiad yn ddibynadwy. Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt masnachol a dderbyniwyd.

**nh) Offerynnau ariannol**

Dim ond offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cofnodir offerynnau ariannol sylfaenol i dechrau ar bris y contract os nad yw'r trefniant yn sefydlu gweithrediad ariannu, pan fyddent yn cael eu cofnodi ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi eu gostyngu ar raddfa llog y farchnad am offeryn ariannol tebyg.

**h) Costau pensiwn**

Mae'r gost o baratoi pensiwn a manteision cyffelyb yn cael eu prisio i'r Datganiad o Weithredoedd ariannol fel mae'r rhwymedigaeth yn codi. Mae'r elusen yn talu cyfraniadau pensiwn ar sail cyfraniadau wedi eu diffinio.

**2 Statws y cwmni**

Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant. Wrth ddirwyn i ben neu ddiddymu'r cwmni ac wedi bodloni ei holl ddyledion a'i rwymedigaethau, os erys unrhyw eiddo o gwbl yn weddill, ni thelir ef i aelodau'r cwmni na'i ddosbarthu yn eu mysg, ond yn hytrach ei roi i sefydliad elusennol arall gydag amcanion cyffelyb i amcanion y cwmni.

**3. Rhoddion a grantiau gwirfoddol**

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| Grant Heddlu Gogledd Cymru | - | 2,500 | 2,500 | - |
| Grant Adferiad Gwyrdd | - | 3,470 | 3,470 | - |
| Rhoddion | 3,105 | 1,133 | 4,238 | 6,045 |
| | £3,105 | £7,103 | £10,208 | £6,045 |

**4. Incwm o weithgareddau elusennol**

| | Safle & Cynllun Cartrefu £ | Warws Werdd £ | Caer-Gylchu £ | Beics Menai £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Gwasanaeth | 1,547,789 | 155,868 | 100,912 | 30,168 | 1,834,737 | 1,878,601 |
| Cronfa Byw yn Annibynnol | 324 | - | - | - | 324 | 4,825 |
| Cytundeb Ailgylchu | - | 76,672 | 257,468 | - | 334,140 | 334,140 |
| Grant ICF | - | - | - | 5,278 | 5,278 | 12,703 |
| Incwm Caergylchu | - | - | 160,797 | - | 160,797 | 221,548 |
| Incwm Warws Werdd | - | 84,898 | - | - | 84,898 | 147,220 |
| Incwm Safle a Chynllun Cartrefu | 79,396 | - | - | - | 79,396 | 142,837 |
| Incwm Beics Menai | - | - | - | 74 | 74 | 18,521 |
| Incwm arall | 3,640 | - | - | - | 3,640 | 5,354 |
| | £1,631,149 | £317,438 | £519,177 | £35,520 | £2,503,284 | £2,765,749 |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

### 5. Dadansodiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Safle & Cynllun Cartrefu | Warws Werdd | Caer-Gylchu | Beics Menai | Cyfanswm 2021 | Cyfanswm 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | 1,062,526 | 214,942 | 390,133 | 17,217 | 1,684,818 | 1,830,142 |
| Nwyddau i'w gwerthu a thraul | - | 44,459 | 4,232 | 540 | 49,231 | 50,870 |
| Cafe/ Bwyd | 13,124 | - | - | - | 13,124 | 11,571 |
| Safle ac adnewyddu | 79,164 | 25,934 | 18,183 | 9,607 | 132,888 | 125,120 |
| Teithio a chostau buddiolwyr | 36,596 | 20,105 | 44,186 | 2,827 | 103,714 | 138,433 |
| Costau swyddfa | 13,222 | 9,971 | 5,698 | 3,359 | 32,250 | 34,428 |
| Hyfforddiant | 2,798 | 2,958 | 1,367 | 1,090 | 8,213 | 9,317 |
| Costau staff | - | 1,118 | 730 | - | 1,848 | 20,147 |
| Costau marchnata | 675 | 373 | 3,423 | 48 | 4,519 | 7,949 |
| Costau proffesiynol | 1,966 | - | 965 | 42 | 2,973 | 5,852 |
| Dibrisiant | 4,870 | 3,300 | 9,480 | 2,980 | 20,630 | 25,060 |
| Llogau | - | - | 4,597 | - | 4,597 | 3,369 |
| Eraill | 6,694 | 214 | - | 105 | 7,013 | 2,661 |
| Costau llywodraethol | 13,875 | 2,928 | 4,650 | 694 | 22,147 | 22,631 |
| Costau cynorthwyol | 256,969 | 54,221 | 86,116 | 12,828 | 410,134 | 334,956 |
| | £1,492,479 | £380,523 | £573,760 | £51,337 | £2,498,099 | £2,622,506 |

Roedd gwariant ar weithgareddau elusennol yn £2,498,099 (2020 - £2,622,506). O'r gwariant yma roedd £2,470,974 (2020-£2,566,680) yn anghyfyngedig a £27,125 (2020 - £55,826) yn gyfyngedig.

### 6. Dadansoddiad o gostau llywodraethol a chynorthwyol

I ddechrau, mae'r cwmni elusennol yn nodi ei gostau cynorthwyol. Yna nodir y costau sydd yn berthnasol i'r pwrpas llywodraethol. Wedi adnabod y costau llywodraethol, rhannir y costau cynorthwyol cyffredinol a'r costau llywodraethol rhwng y pedwar gweithgaredd elusennol a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn. Nodir sail dosbarthiad y costau rhwng y gweithgareddau elusennol yn y tabl isod.

| | Sail Dosbarthu | Costau Cynorthwyol Cyffredinol | Llywodraethol | Cyfanswm 2021 | Cyfanswm 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| Costau staff | *Amser staff* | 226,660 | 13,734 | 240,394 | 234,769 |
| Safle ac adnewyddu | *Defnydd* | 36,791 | - | 36,791 | 31,023 |
| Costau Covid | *Defnydd* | 43,584 | - | 43,584 | 43,584 |
| Swyddfa | *Defnydd* | 62,826 | - | 62,826 | 57,052 |
| Teithio | *Defnydd* | - | - | - | 3,768 |
| Hyfforddiant | *Defnydd* | 2,856 | - | 2,856 | 2,497 |
| Hysbysebu a marchnata | *Defnydd* | 2,810 | - | 2,810 | 3,606 |
| Archwilio/Cyfrifydd | *Defnydd* | - | 8,413 | 8,413 | 8,244 |
| Proffesiynnol | *Trafodion* | 19,887 | - | 19,887 | 5,877 |
| Dibrisiant | *Defnydd* | 13,984 | - | 13,984 | 8,716 |
| Eraill | *Trafodion* | 736 | - | 736 | 2,035 |
| | | £410,134 | £22,147 | £432,281 | £357,587 |

**7. Incwm net am y flwyddyn**

| **Nodir yr incwm net ar ôl codi:** | **2021** **£** | **2020** **£** |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 34,614 | 33,778 |
| Ffioedd archwilio | 5,912 | 5,794 |
| Archwiliwr – ffioedd eraill | 2,501 | 2,450 |

**8. Costau staff a chydnabyddiaeth yr ymddiriedolwyr**

| | **2021** **£** | **2020** **£** |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,651,167 | 1,782,873 |
| Cyflogau gweithwyr | 49,304 | 57,472 |
| Yswiriant cenedlaethol | 137,160 | 132,446 |
| Costau pensiwn | 87,581 | 87,046 |
| | £1,925,212 | £2,059,837 |

Cyfanswm nifer cyflogedig ar sail blwyddyn cyflawn oedd 154 (*2020 – 180*). Nid oedd cydnabyddiaeth unrhyw aelod o staff dros £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd ffioedd na thal rheoli gan ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2020 – Dim).* Ni wnaed taliadau i ymddiriedolwyr yr elusen am gostau a achoswyd *(2020 – Dim).* Ni wnaethpwyd taliad am wasanaethau proffesiynol nac am wasanaethau eraill i ymddiriedolwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn *(2020 – Dim)*.

Mae personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r tim rheoli. Roedd cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol yr elusen yn £253,672 *(2020 - £254,506)*.

| | 2021 Nifer | 2020 Nifer |
|---|---|---|
| Prif weithredwr | 1 | 1 |
| Uwch reolwyr | 3 | 3 |
| Rheolwyr | 9 | 9 |
| Safle | 25 | 35 |
| Ail Gylchu | 13 | 14 |
| Warws Werdd | 5 | 5 |
| Cynllun Cartrefu | 27 | 27 |
| Beics Menai | 2 | 1 |
| Gweinyddol | 6 | 10 |
| Gweithwyr gyda anabledd | 63 | 75 |
| | 154 | 180 |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

**9. Trafodion Partion Cysylltiedig**

Ni fu trafodion gyda partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Nid oedd symiau yn ddyledus i na dyledus gan bartïon cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn *(2020 - £Dim)*.

**10. Grantiau Llywodraeth**

Mae incwm grantiau llywodraeth yn cynnwys cytundebau gwasanaeth gyda awdurdodai lleol i ffynonellau gwasanaethau buddiannol i fuddiolwyr yr elusen.

**11. Treth gorfforaeth**

Mae gan Antur Waunfawr eithriad o dreth ar incwm ac enillion dan Adran 505 o Ddeddf Treth 1988 ac adran 252 o'r Ddeddf Treth Enillion Cyfalaf 1992 i'r eithaf eu defnyddir at ei nodau elusennol.

**12. Buddiannau sefydlog**

| | *Tir ac Adeiladau* | *Offer* | *Moduron* | *Cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| ***Cost/Gwerth*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2020 | 3,209,065 | 482,985 | 22,154 | 3,714,203 |
| Ychwanegiadau | 651,238 | 12,630 | 96,448 | 760,316 |
| Gwarediadau | - | - | (4,000) | (4,000) |
| Ar 31ain Mawrth 2021 | 3,860,303 | 495,615 | 114,602 | 4,470,520 |
| ***Dibrisiant*** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2020 | 215,156 | 339,271 | 22,154 | 576,581 |
| Cost am y flwyddyn | 14,004 | 20,610 | - | 34,614 |
| Gwarediadau | - | - | (4,000) | (4,000) |
| Ar 31ain Mawrth 2021 | 229,160 | 359,881 | 18,154 | 607,195 |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | | |
| Ar 31ain Mawrth 2021 | £3,631,143 | £135,734 | £96,448 | £3,863,325 |
| | ======== | ======= | ===== | ======= |
| Ar 31ain Mawrth 2020 | £2,993,909 | £143,714 | £ - | £3,137,622 |
| | ======== | ======= | ===== | ======= |

Yn gynwysedig yn y £3,137,622 mae £20,000 sydd yn werth tir yn Waunfawr ac £38,599 o dir yng Nghaernarfon**.** Ail brisiwyd y tir ac adeiladau yn Waunfawr ac Warws Werdd yng Nghaernarfon gan Dafydd Hardy, syrfewyr siartredig yn mis Mawrth 2020. Rhoddwyd gwerth y tir ac adeiladau yn Waunfawr fel £2,165,000. Mae'r gwerth yma yn isel ac yn llai na'r disgwyl oherwydd yr ansicrwydd yn y farchnad eiddo yn dilyn y pandemic Covid-19. Cost gwreiddiol yr asedau sefydlog yw £3,861,553 (2020-£3,715,453) a buasai dibrisiant o £191,367, (2020- £179,777) wedi ei godi arnynt.

**13. Stoc**

| | **2021** | **2020** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cynnwys stoc: | | |
| Stoc Warws Werdd | 8,674 | 6,282 |
| Stoc Beics Menai | 2,150 | 1,000 |
| Stoc siop | 200 | 200 |
| Stoc cafe | 100 | 100 |
| | £11,124 | £7,582 |

## Antur Waunfawr

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

**14. Dyledwyr**

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Grantiau, cytundebau a dyledwyr masnachol | 242,257 | 327,287 |
| Dyledwyr eraill | 10,971 | 39,496 |
| | £253,228 | £366,783 |

**15. Credydwyr:** *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 19,225 | 207,873 |
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas | 13,994 | 15,947 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 131 | 10,929 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 196,822 | 174,603 |
| | £230,172 | £409,352 |

**16. Credydwyr:** *symiau yn ddyledus ar ol blwyddyn*

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus dan gytundeb hur bwrcas (yn daladwy mewn llai na 5 blywyddyn) | £42,919 | £55,939 |

**17. Offerynnau ariannol**

Yr offerynnau ariannol a fesurir ar sail cost wedi ei amorteiddio yw'r benthyciad hur bwrcas.

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | 13,994 | 15,947 |
| Swm yn ddyledus dros blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 42,919 | 55,939 |
| Cyfanswm | £56,913 | £71,886 |

**18. Cymodi'r elw gweithredol â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol**

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd | 468,953 | 445,941 |
| Llog a dderbyniwyd | (21) | (1,355) |
| Dibrisiant | 34,614 | 33,778 |
| Elw ar werthu ased | (145) | (750) |
| (Cynnydd) Lleihad/ mewn stoc | (3,542) | 992 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr | 113,555 | (250,930) |
| Cynydd/(Lleihad) mewn credydwyr | (179,180) | 215,428 |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | 434,234 | 443,104 |

### 19. Ymroddiad cyfalaf

Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd gan Antur Waunfawr ymroddiad cyfalaf ynglŷn a datblygiad adeiladu *(2020 - £580,760).*

### 20. Cronfeydd cyfyngedig

| | 31 Mawrth 2020 | Trosglwydd-iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 369,188 | - | (10,548) | - | 358,640 |
| Sgubor Grefftau | 9,048 | - | (251) | - | 8,797 |
| Grant Cae Chwarae | 23,220 | - | (1,080) | - | 22,140 |
| Rhoddion | 4,930 | - | (99) | - | 4,831 |
| Grant Clothworkers Foundation | 14,220 | - | - | - | 14,220 |
| Grantiau Porth Yr Aur | 290,375 | | 168,624 | - | 458,999 |
| Grant Adferiad Gwyrdd | - | - | 102,685 | | 102,685 |
| | £710,981 | £ - | £259,331 | £- | £970,312 |

| | 31 Mawrth 2019 | Trosglwydd-iadau | Adnoddau Cyllid | Ail - Brisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Warws Werdd | 609,075 | - | (16,918) | (222,969) | 369,188 |
| Cronfa Ailbrisio Warws Werdd | 88,759 | - | (2,466) | (86,293) | - |
| Tŷ Capel | 75,000 | - | - | (75,000) | - |
| Sgubor Grefftau | 56,237 | - | (1,520) | (45,669) | 9,048 |
| Grant cyfalaf Coastal Communities Fund | 7,500 | - | (7,500) | - | - |
| Grant Cae Chwarae | 24,300 | - | (1,080) | - | 23,220 |
| Rhoddion | 3,162 | - | 1,768 | - | 4,930 |
| Hydro | 1,560 | - | (1,560) | - | - |
| Grant Clothworkers Foundation | 14,220 | - | - | - | 14,220 |
| Grantiau Porth yr Aur | - | - | 290,375 | - | 290,375 |
| | £879,813 | £ - | £261,099 | (£429,931) | £710,981 |

**Cronfeydd anghyfyngedig**

| | Balans 31 Mawrth 2020 £ | Trosglwy-ddiadau £ | Adnoddau Cyllid £ | Ail Brisio £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,246,131 | 218,640 | 209,622 | - | 2,674,393 |
| Cronfa Ailbrisio | 530,244 | (2,156) | - | - | 528,088 |
| | 2,776,557 | 216,484 | 209,622 | - | 3,202,663 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 339,191 | (220,191) | - | - | 119,000 |
| Cronfa Wrth Gefn | 508,000 | 3707 | - | - | 511,707 |
| | £3,623,748 | £- | £209,622 | £- | £3,833,370 |

| | Balans 31 Mawrth 2019 £ | Trosglwy-ddiadau £ | Adnoddau Cyllid £ | Ail Brisio £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 182 | - | - | - | 182 |
| Cronfa Gyffredinol | 2,326,167 | (59,186) | (20,850) | - | 2,246,131 |
| Cronfa Ailbrisio | 669,068 | (4,554) | - | (134,270) | 530,244 |
| | 2,995,417 | (63,740) | (20,850) | (134,270) | 2,776,557 |
| *Cronfeydd Dynodedig* | | | | | |
| Cronfa Datblygu Eiddo | 293,451 | 45,740 | - | - | 339,191 |
| Cronfa Wrth Gefn | 490,000 | 18,000 | - | - | 508,000 |
| | £3,778,868 | £ - | (£20,850) | (£134,270) | £3,623,748 |

**21. Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr asedau net ar 31ain Mawrth 2021**

| | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Dynodedig £ | Cronfa Gyffredinol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 970,312 | - | 2,893,013 | 3,863,325 |
| Asedau Cyfredol Net | - | 630,707 | 352,569 | 983,276 |
| Credydwyr: symiau yn ddyledus ar ôl blwyddyn | - | - | (42,919) | (42,919) |
| Cyfanswm asedau net | £970,312 | £630,707 | £3,202,663 | £4,803,682 |

### **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** *am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021*

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

Prif weithgaredd y cwmni yw darparu gwaith a hyfforddiant i bobl ag anabledd dysgu, a thrwy hynny gwasanaethu'r gymuned.

**Cronfeydd Dynodedig a chyfyngedig**

Mae'r cwmni wedi penderfynu ymrwymo arian sydd ar gael wrth gefn er mwyn datblygu eiddo Sied Werdd.

Mae swm yn cynrychioli tri mis o gyflog wedi ei gadw wrth gefn i gyfarfod unrhyw heriau annisgwyl h.y £511,707 ar hyn o bryd. Mae hyn yn unol a chanllawiau ymarfer da y Comisiwn Elusennau ac yn cyfarfod ag amcanion Llywodraethu Da Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru